The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

| **Adroddiad** | **Report** |
|---|---|
| **Ymchwiliad a gynhaliwyd ar 15/1/19-1/2/19 a 5/3/19-7/3/19** | **Inquiry held on 15/1/19-1/2/19 & 5/3/19-7/3/19** |
| **gan Declan K Beggan BSc (Anrh) MSc DipTP DipMan MRTPI** | **by Declan K Beggan BSc (Hons) MSc DipTP DipMan MRTPI** |
| **Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru** | **an Inspector appointed by the Welsh Ministers** |
| **Dyddiad: 31.05.2019** | **Date: 31.05.2019** |

**Ymchwiliad a gynhaliwyd o dan baragraff 2 (1) Atodlen 26 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 yn ymwneud ag**

**Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 ac Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017**

Cyf ffeil/File ref: ENV/3209811

**Cynnwys** **Rhif y Dudalen**


| | |
|---|---|
| **Byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** | iii-v |
| **Materion Gweithdrefnol** | 1 |
| **Yr Is-ddeddfau** | 2 |
| **Cefndir Polisi / Deddfwriaethol** | 3 |
| **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | 4 |
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | 5 |
| **Achos CNC** | 5 |
| **Achos Trydydd Partïon** | 52 |
| **Arfarniad** | 107 |
| **Casgliadau** | 137 |
| **Argymhelliad** | 138 |
| **Yn bresennol** | 139 |
| **Dogfennau Craidd** | 141 |
| **Dogfennau'r Ymchwiliad** | 153 |

**Byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn:**

| | |
|---|---|
| 1 SW | Eogiaid a fu yn y Môr am Flwyddyn sy'n Bwydo yn y Gaeaf |
| AC | Afonydd Cymru |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| ACC | Clwb Genweirio Abergwili |
| AG | Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod |
| AR | Mewn Perygl |
| Yr Arolygiaeth | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| AT | Ymddiriedolaeth Genweirio |
| CD | Dogfen Graidd |
| CEFAS | Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu |
| C&R | Dal a Rhyddhau |
| CL | Terfyn Cadwraeth |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| CPWF | Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru |
| CNNA | Cymdeithas Cwryglau a Rhwydwyr Caerfyrddin |
| Y Cyfarwyddyd | Cyfarwyddyd Gweinidogol 1998 |
| Deddf 1975 | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 |
| Deddf 1991 | Deddf Adnoddau Dŵr 1991 |
| Deddf 1995 | Deddf yr Amgylchedd 1995 |
| Deddf 1990 | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) |
| Deddf PLBCA 1990 | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 |
| Y Ddeddf WBFG | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| DS | Strwythur Penderfynu |
| EA | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| EA 2010 | Deddf Cydraddoldeb 2010 |
| EqIA | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| FCRM | Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd |

| | |
|---|---|
| FEB | Adar sy'n Bwyta Pysgod |
| GC | Gweinidogion Cymru |
| Y Gorchymyn Gweithdrefn | Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 |
| HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| ID | Dogfen Ymchwiliad |
| ICES | Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr |
| Yr is-ddeddfau arfaethedig | Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 ac Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 |
| LAC | Clwb Genweirio Llanbrynmair |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| MO | Amcan Rheoli |
| MT | Targed Rheoli |
| MSW | Eogiaid a fu yn y Môr am Sawl Blwyddyn sy'n Dychwelyd yn y Gaeaf |
| NASCO | Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd |
| NSB | Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol |
| NNRP | Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol |
| NWATFCC | Cyngor Ymgynghorol Pysgodfeydd Ymddiriedolaeth Genweirio'r Gogledd-orllewin |
| PAAS | Cymdeithas Genweirio'r Tywysog Albert |
| PaR | Mewn Perygl o Bosibl |
| PoE | Proflen Dystiolaeth |
| PIM | Cyfarfod Cyn Ymchwiliad |
| RpoE | Proflen Dystiolaeth Wrthbrawf |
| RSA | Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy |
| Y Rheoliadau Cynefinoedd | Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 |
| SAAA & CFF | Cymdeithas Genweirio Amatur Abertawe a Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin |
| SAP | Cynlluniau Gweithredu Eogiaid |
| SrPoE | Proflen Dystiolaeth Wrthbrawf Atodol |
| STCC | Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod y Môr Cymru |

| | |
|---|---|
| SoCG | Datganiad Tir Cyffredin |
| SMNR | Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |
| SoNaRR | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| SSAPRW | Asesiad Strategol o Adnoddau Mawn wedi'u Coedwigo yng Nghymru a'r Fioamrywiaeth |
| TC | Achos Technegol |
| TUE | Cytuniad yr Undeb Ewropeaidd |
| WFD | Cyfarwyddyd Fframwaith Dŵr |
| XX | Croesholi |

**Cyf. yr Achos: ENV/3209811**

- Ar 20 Chwefror 2018 o dan adran 210 Deddf Adnoddau Dŵr 1991, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru (“CNC”) gais i Lywodraeth Cymru (LlC) am gadarnhau Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 ac Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 (y cyfeirir atynt gyda’i gilydd o hyn ymlaen fel yr is-ddeddfau arfaethedig).

- Rhoddodd LlC wybod i CNC ar 8 Awst 2018 y byddai Ymchwiliad yn cael ei gynnal ynglŷn â’r is-ddeddfau arfaethedig o dan baragraff 2 (1) Atodlen 26 Deddf Adnoddau Dŵr 1991. Y rheswm a roddwyd am gychwyn yr Ymchwiliad oedd caniatáu ar gyfer craffu’n annibynnol ar yr is-ddeddfau arfaethedig ac unrhyw dystiolaeth o’u plaid neu yn eu herbyn a gyflwynid gan yr holl bartïon, ac i alluogi LlC i ddod i gasgliad ynglŷn â’r ffordd orau o symud ymlaen.

**Crynodeb o’r Argymhelliad: Y dylai’r is-ddeddfau arfaethedig gael eu cadarnhau.**

---

**Materion Gweithdrefnol**

1. Ar 20 Chwefror 2018 o dan adran 210 Deddf 1991, cyflwynodd CNC gais1 i LlC am gadarnhau’r is-ddeddfau arfaethedig[2].

2. Cynhaliais Gyfarfod Cyn Ymchwiliad (PIM)3 ddydd Mercher 7 Tachwedd 2018. Mynychwyd y PIM gan bartïon â buddiant yn yr is-ddeddfau arfaethedig, gan gynnwys CNC a gwrthwynebwyr. Diben y PIM oedd helpu i baratoi ar gyfer yr Ymchwiliad a galluogi trafodion yr Ymchwiliad i gael eu cynnal yn effeithiol ac yn effeithlon. Roedd y cyfarfod yn weithdrefnol a gweinyddol ei natur yn unig, ac ni thrafodwyd rhinweddau, neu fel arall, yr is-ddeddfau arfaethedig. Esboniais y byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd cyn yr Ymchwiliad, yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth a glywid yn yr Ymchwiliad, ac yna’n paratoi adroddiad ac yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru (GC) ar yr is-ddeddfau ac yn cynghori p’un a ddylent gael eu cadarnhau, eu cadarnhau gyda diwygiadau neu eu gwrthod.

3. Amlygais un prif fater cyn yr Ymchwiliad, sef:

   > “P’un a yw’r mesurau a gynigir o dan Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 ac Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 yn angenrheidiol, yn gymesur, ac yn rhesymol o ystyried stociau pysgod ledled Cymru”.

4. Yn y PIM, cytunwyd yn gyffredinol mai hwn oedd y prif fater. Yng ngoleuni’r dystiolaeth yr oeddwn wedi’i gweld cyn y PIM, gofynnwyd i’r partïon ystyried yn eu tystiolaeth yr angen am yr is-ddeddfau arfaethedig yng ngoleuni unrhyw ystyriaethau technegol ac economaidd-gymdeithasol; gofynnwyd i’r partïon hefyd ystyried ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol, megis llygredd a’r gallu i orfodi’r is-ddeddfau.

---

[1] CD APP 1-54.4

[2] CD APP 51-54.4. Yn ogystal, cyfeiriwch at NRW/INQ/23

[3] Cyfeiriwch at ID ID/1 am nodiadau o’r PIM a ddosbarthwyd i bartïon â buddiant.

5. Eisteddodd yr Ymchwiliad am 13 diwrnod mewn dau floc amser rhwng 15/1/19-1/2/19 a 5/3/19-7/3/19; clywyd tystiolaeth lafar gan bartïon â buddiant yn yr is-ddeddfau arfaethedig, gan gynnwys CNC, gwrthwynebwyr a chefnogwyr[4].

6. Penodwyd yr Arolygiaeth Gynllunio gan LlC i gynnal ymchwiliad lleol ynglŷn â'r is-ddeddfau arfaethedig. Yn absenoldeb deddfwriaeth benodol ar y weithdrefn i'w dilyn, penderfynodd yr Arolygiaeth y byddai'n cymhwyso Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017. Penderfynodd yr Arolygiaeth gymhwyso'r rheoliadau hyn i'r Ymchwiliad o ystyried ei phenodiad a'i chefndir (esboniwyd hyn i'r rhai a fynychodd y PIM). Rhoddodd y weithdrefn hon gyfle i'r holl bartïon â buddiant gyflwyno eu hachos i mi, ac i mi ymgymryd â rôl holgar wrth geisio cael y wybodaeth a oedd yn angenrheidiol ar gyfer fy adroddiad.

**Yr Is-ddeddfau**

7. Manylir ar yr is-ddeddfau arfaethedig yn llawn yn nogfennau'r Ymchwiliad, Cyf. CD APP/52 ac APP/53. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig wedi'u cyfyngu i ddeng mlynedd a byddant yn rhoi nifer o fesurau ar waith. I grynhoi, mae'r is-ddeddfau'n cynnig y mesurau canlynol:

- Dal a rhyddhau eogiaid – gofyniad gorfodol y bydd unrhyw eogiaid a ddelir gan wialenni a rhwydi yn cael eu dychwelyd i'r afon;
- Rheolaethau ar ddulliau pysgota â gwialen sy'n cyflwyno ac yn mynnu: (a) gwaharddiad ar fachau triphlyg a bachau dwbl ar lithiau; (b) gwaharddiad ar fachau triphlyg sydd ag agoriad o fwy na 7mm ar gyfer pryfed; ac (c) defnyddio bachau heb adfachau a bachau y tynnwyd yr adfachau ohonynt yn unig;
- Gwaharddiad ar bysgota am eogiaid â mwydod fel abwyd;
- Cyfyngiad tymhorol ar ddefnyddio berdys a chorgimychiaid fel abwyd;
- Cyfyngiad slot o 60cm ar gyfer brithyllod y môr a ddelir gan wialen;
- Newidiadau i'r tymor pysgota â rhwydi (sy'n amrywio yn ôl afonydd penodol); a,
- Chynigir mesurau rheoli ychwanegol i warchod stociau brithyllod y môr mewn afonydd wedi'u targedu lle yr ystyrir bod y rhain yn angenrheidiol, gan gynnwys pysgota dal a rhyddhau (C&R) statudol yn ystod y cyfnod pan gyfyngir ar bysgota â rhwydi bob blwyddyn hyd at 1 Mai, a rheolaethau ar ddulliau abwyd cyn 1 Mai.

8. Llywiwyd yr is-ddeddfau arfaethedig gan achos technegol (TC)[5] manwl, a buont yn destun proses ymgynghori[6]. O ganlyniad i'r broses ymgynghori, cynhwyswyd diwygiadau yn yr is-ddeddfau arfaethedig y mae CNC eisiau iddynt gael eu cadarnhau.

9. Yn ystod yr ymchwiliad, daeth i'r amlwg bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn cynnwys gwall drafftio yn ymwneud â gwaharddiad ar bysgota am frithyllod â mwydod, yn ogystal â nifer o fân wallau argraffyddol[7]. O ystyried bod y cyfeiriad at waharddiad ar bysgota am

[4] Mae rhestr o'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth wedi'i chynnwys yn Atodiad A yr adroddiad hwn

[5] Cyfeiriwch at CD APP/4

[6] Cyfeiriwch at CD APP/6-13

[7] Cyfeiriwch at ID NRW/INQ/23

frithyllod yn amlwg yn gamgymeriad ac nad dyna oedd yr effaith a fwriedir gan yr is-ddeddfau, ac y byddai'n achosi anfantais sylweddol i enweirwyr, ynghyd â natur ddibwys ac amherthnasol y gwallau argraffyddol, nid wyf o'r farn y byddai'n anfanteisiol i GC ystyried yr is-ddeddfau arfaethedig yng ngoleuni'r materion hyn.

**Cefndir Polisi / Deddfwriaethol**

*Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016")*

10. Nod trosfwaol Deddf 2016 yw rhoi deddfwriaeth ar waith a fydd yn galluogi adnoddau Cymru i gael eu rheoli mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig, a sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae Deddf 2016 yn cefnogi gwaith ehangach Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau llesiant tymor hir Cymru, fel ei bod yn elwa o economi ffyniannus, amgylchedd iach a chydnerth, a chymunedau bywiog a chydlynol.

11. Mae Deddf 2016 yn cynnwys darpariaeth i helpu i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru ar lefel genedlaethol a lleol, trwy ofynion penodol ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol (NNRP) a datganiadau ardal i alluogi polisïau, cynlluniau a rhaglenni i gael eu hintegreiddio a'u symleiddio'n fwy lle mae hyn yn gyson â dyletswyddau statudol presennol. Mae Deddf 2016 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar CNC sy'n cyd-fynd yn llawn â'r egwyddorion statudol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn rhoi grymoedd ychwanegol i CNC i ymgymryd â chytundebau rheoli tir a chynlluniau arbrofol yn unol â'r egwyddorion hynny. Mae Deddf 2016 hefyd yn gosod gofyniad wedi'i ailffurfio ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth; mae hyn yn newid y pwyslais oddi wrth ystyried yr amryw swyddogaethau statudol unigol ar wahân i'w gilydd, tuag at ymagwedd fwy integredig i fynd i'r afael â'r pwysau a'r sbardunwyr sy'n gysylltiedig â newid ecosystem, yn hytrach na'i effeithiau yn unig.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015")*

12. Mae Deddf 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ceisio rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau ac mae wedi'i llunio i sicrhau bod camau gweithredu'n bodloni anghenion y presennol, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion nhw. Mae Deddf 2015 yn gosod saith nod llesiant, sef: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a, Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

13. Mae Deddf 2015 yn gosod dyletswydd lesiant ar gyrff cyhoeddus fel CNC i bennu a chyhoeddi amcanion i ddangos sut y byddant yn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a osodir yn y nodau llesiant. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyfrannu at gyflawni pob un o'r nodau llesiant hyd eithaf eu gallu. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd camau i sicrhau eu bod yn bodloni'r amcanion a osodir ganddynt.

*Deddf yr Amgylchedd 1995 ("Deddf 1995*")

14. O dan adran 6(1) Deddf 1995, mae'n ofynnol i CNC hyrwyddo gwarchod a gwella harddwch naturiol ac amwynder dyfroedd mewndirol a thir sy'n gysylltiedig â dyfroedd o'r fath; gwarchod ffawna a fflora sy'n dibynnu ar amgylchedd dyfrol; a, defnydd o ddyfroedd a thir o'r fath at ddibenion hamdden. Mae adran 6(6) Deddf 1995 yn mynnu bod CNC 'yn cynnal,

gwella a datblygu pysgodfeydd eogiaid, brithyllod, llyswennod, llyswennod pendwll, brwyniaid a physgod dŵr croyw.

*Deddf Adnoddau Dŵr 1991 ("Deddf 1991").*

15. Mae'r awdurdod statudol ar gyfer yr is-ddeddfau arfaethedig i'w weld yn adran 210 Deddf 1991; mae'r adran honno'n gweithredu Atodlen 25 Deddf 1991, sy'n rhoi'r grym i CNC wneud is-ddeddfau at ddibenion sy'n gysylltiedig â chynnal ei swyddogaethau.

*Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 ("Deddf 1975")*

16. Mae Deddf 1975 yn gorchymyn ynghylch materion fel dulliau pysgota am eogiaid, brithyllod a physgod dŵr croyw, a rhwystro pysgod rhag mynd heibio.

*Cyfarwyddyd Gweinidogol 1998 ("y Cyfarwyddyd")*

17. Mae'r Cyfarwyddyd yn ymwneud â dynodiad 23 prif afon eogiaid yng Nghymru; mae'n gorfodi CNC i asesu a phennu targedau ar gyfer gwarchod stociau eogiaid.

18. Manylir ar ddeddfwriaeth a pholisïau eraill sy'n ymwneud ag achos CNC o dan Cyf CD o LEG1-36, sy'n cynnwys yr "Egwyddor Ragofalus" sy'n codi o Erthygl 191 Cytuniad yr Undeb Ewropeaidd ("y TEU") ac sy'n caniatáu i gamau rheoleiddiol gael eu cymryd hyd yn oed os na chadarnhawyd risg yn bendant; bu'n ddylanwadol wrth ffurfio ystod o gamau rheoleiddiol a chyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd (UE).

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)**

19. Mae'r ddwy set o is-ddeddfau wedi cael eu hasesu o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017[8]. Crynhoir y pwyntiau perthnasol isod. Mae Rheoliad 61 y Rheoliadau Cynefinoedd yn mynnu bod yr Awdurdod Cymwys, cyn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer cynllun neu brosiect sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Safle Ewropeaidd (naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill), ac nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â rheoli'r safle hwnnw neu'n angenrheidiol i'w reoli, yn cynnal "asesiad priodol" o'r goblygiadau i'r safle hwnnw o ystyried ei amcanion cadwraeth. Crynhoir canfyddiadau allweddol yr asesiadau yn yr adran hon fel a ganlyn:

i. Mae'r ardal ddaearyddol a gwmpasir gan yr is-ddeddfau arfaethedig yn cynnwys nifer o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) y mae eogiaid yn nodwedd o ddiddordeb ynddynt, ymhlith nifer o nodweddion eraill sy'n ymwneud â physgod ac afonydd.

ii. Nodir y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig, fel y'u diwygiwyd, yn lleihau nifer yr eogiaid a'r brithyllod môr sy'n marw o ganlyniad i bysgota gwialen a lein mewn afonydd yng Nghymru, ac felly'n cynyddu nifer y pysgod aeddfed sy'n gallu bridio trwy gyflwyno gofynion C&R a thrwy wahardd y defnydd o ddulliau pysgota penodol; mae hyn yn ymateb i ddirywiad parhaus mewn stociau eogiaid a brithyllod y môr, ac ystyrir y gall yr is-ddeddfau arfaethedig ond arwain at ostyngiad mewn cyfraddau marwolaethau.

iii. Bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn helpu i adfer maint y boblogaeth eogiaid fel bod y cyfanswm yn cyrraedd isafswm terfynau cadwraeth ar gyfer oedolion sy'n

[8] Cyfeiriwch at CD APP/14.1 -16

silio y flwyddyn, sy'n cyfateb i'r amcanion perthnasol ar gyfer gwarchod y boblogaeth eogiaid yn y Cynlluniau Rheoli Craidd ACA unigol.

iv. Dylai'r cyfraddau marwolaethau ar gyfer brithyllod y môr a Gwangod a Herlod leihau hefyd.

v. At ei gilydd, deuir i'r casgliad na fyddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar safleoedd Ewropeaidd o'u hystyried yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

20. O ran cymhwyso Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017[9], nid wyf o'r farn bod unrhyw resymau arwyddocaol i herio canfyddiadau CNC.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

21. Cynhaliodd CNC Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb[10] (EqIA) i ategu'r cais am yr is-ddeddfau arfaethedig. Crynhoir y pwyntiau perthnasol isod.

22. Gallai cyfyngu ar bysgota ag abwyd gyfyngu ar weithgarwch cyfreithlon blaenorol rhai gerweinwyr oedrannus ac anabl nad yw mor rhwydd iddynt ddefnyddio technegau pysgota â phlu a throelli. Fodd bynnag, cyfyngiadau rhannol yw cyfyngiadau'r is-ddeddfau arfaethedig oherwydd eu bod: (i) yn cynnig pysgota'r holl stociau eogiaid ag abwyd ac (ii) yn cynnig gwaharddiad tymor cynnar (cyn 1 Mai) ar bysgota brithyllod y môr ag abwyd mewn afonydd diffiniedig (byddai pysgota brithyllod y môr ag abwyd yn cael ei ganiatáu wedi hynny).

23. At ei gilydd, mae'r cynigion yn ymwneud â rheoli pysgota ag abwyd yn rhannol, ac nid ei wahardd yn llwyr. Mae CNC yn bwriadu diwygio'r cynnig ar gyfer gwaharddiad ar abwyd (defnyddio berdys a chorgimychiaid) yn rhannol o ganlyniad i ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd ynglŷn â'r is-ddeddfau arfaethedig.

24. Mae nifer fawr o'r trwyddedau a werthir yn rhai consesiynol a werthir i bobl hŷn a phobl anabl. Ar hyn o bryd, maen nhw i gyd yn gallu pysgota am frithyllod y môr (a brithyllod a physgod nad ydynt yn perthyn i deulu'r eog) ag abwyd, naill ai ar hyd y tymor neu ar ôl 1 Mai (am frithyllod y môr) mewn afonydd penodol.

25. Nid yw CNC yn ymwybodol o unrhyw grwpiau penodol ymhlith y gymuned pysgota â rhwydi y gallai unrhyw un o'r cynigion effeithio arnynt. Mae'r cynigion yn ceisio rheoli'r defnydd o dactegau sydd ar gael i ddeiliaid trwydded gonsesiynol (defnyddio abwyd) ac nid atal y cyfle i barhau i bysgota. Felly, nid yw CNC yn gweld unrhyw reswm i gynnig goddefeb am ddefnydd estynedig o abwyd y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei gynnig o dan yr is-ddeddfau arfaethedig.

26. Mae CNC wedi dod i'r casgliad, ar ôl ystyried ei ddyletswyddau o dan yr EqIA, bod yr is-ddeddfau'n briodol ac yn gymesur i fodloni nod dilys a dyletswydd statudol CNC i warchod stociau eogiaid a brithyllod y môr.

**Achos CNC**

[9] Cyfeiriwch at CD APP/14.1 -16

[10] Manylion llawn yn CD APP/30

### *Cyflwyniad*

27. Mae CNC wedi ymwneud â'r broses hon o ddifrif ac yn ddiwyd o'r cychwyn, gan ei fod yn ymwybodol y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig y mae'n eu cynnig yn arwain at newid â chyfyngiad amser i'r gyfraith a fyddai'n effeithio ar oddeutu 15%[11] o'r genweirwyr yng Nghymru, ac yn newid arferion y gyfran o'r genweirwyr hyn nad ydynt eisoes yn arfer C&R yn wirfoddol trwy gyfyngiadau cysylltiedig ar ddulliau (yr amcangyfrifir, ar sail tystiolaeth gan wrthwynebwyr, ei bod oddeutu 86% o ran dychwelyd eogiaid yn 2017).[12] Mae rhwydwyr eisoes wedi dweud eu bod yn fodlon arfer C&R yn wirfoddol. Yn 2017, dychwelodd rhwydwyr cwryglau yr holl eogiaid a ddaliwyd (cyfradd wirfoddol 100%).[13]

28. Mae'r fersiynau o'r is-ddeddfau arfaethedig sydd gerbron yr Ymchwiliad hwn wedi cael eu profi'n gynhwysfawr. Yn ystod y broses o'u datblygu, ymgysylltodd CNC â'r gymuned enweirio trwy fynychu dros 50 o gyfarfodydd lleol â Grwpiau Pysgodfeydd Lleol.[14] Mae CNC hefyd wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a barodd dri mis, a chynhaliodd 10 cyfarfod lleol yn ystod y cyfnod hwn[15]. Adolygodd a dadansoddodd CNC y nifer fawr o ymatebion a dderbyniodd i'r ymgynghoriad, ac ymatebodd i bob un. Gwnaeth CNC nifer o ddiwygiadau perthnasol i'r is-ddeddfau arfaethedig o ganlyniad.[16]

29. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig wedi cael eu harchwilio'n gynhwysfawr gan arbenigwyr allanol hefyd. Aseswyd y TC, a oedd yn cynnwys dewisiadau amgen a ystyriwyd gan CNC, gan Mr Ian Russell,[17] a dadansoddwyd ei fethodoleg ystadegol sylfaenol gan Dr Jon Barry,[18] o'r Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas). Mae'r ddau arbenigwr yn annibynnol ar CNC ac roedd y ddau'n cefnogi'r is-ddeddfau arfaethedig yn ddiamod.

---

[11] Gweler ID NRW/1R/2.22) sydd, yn Ffigur 3, yn dibynnu ar ffigur o 15%. Gweler hefyd CD (APP/4/44, Tabl 3) sy'n defnyddio ffigur o 10% ar gyfer 2016. Sut bynnag, byddai'r Is-ddeddfau Arfaethedig yn effeithio ar leiafrif bach o enweirwyr a rhwydwyr yng Nghymru.

[12] Er enghraifft, dyfynnir y ffigur hwn yn ID CPWF/2, tudalen 4 ac ID AT/1, tudalen 2. Nid yw'n adlewyrchu'r gyfradd wirfoddol yn unig gan ei fod yn cynnwys elfennau gorfodol (yr Is-ddeddfau Eogiaid Gwanwyn a dal a rhyddhau gorfodol ar Afonydd Gwy, Taf ac Elái, gweler CD APP/4, tudalen 113).

[13] Gweler ID IH/INQ/1. Nodir, fodd bynnag, bod Mr Ian Harries yn esbonio yn ei dystiolaeth ysgrifenedig bod y pysgotwyr cwrwgl ar Afon Teifi wedi penderfynu cadw rhywfaint o'r eogiaid a ddaliwyd yn 2018 gan eu bod o'r farn bod y cyhoeddiad ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r tymor a ragnodir yn yr is-ddeddfau yn 'annheg'. Eglurodd yn XX (Diwrnod 12) ei fod yn cytuno ag Is-ddeddfau Cymru Gyfan, yn disgwyl iddynt ddod i rym ac wedi dychwelyd i bysgota am eogiaid trwy ddull dal a lladd gan dybio mai 2017-18 fyddai ei gyfle olaf i wneud hynny am ddegawd, yn ôl pob tebyg.

[14] CD APP/8.1-9, 12.1-12.47, 41-43.9.

[15] Roedd sawl un o'r gwrthwynebwyr a ymddangosodd yn yr Ymchwiliad ac a gynigiodd ddewisiadau amgen yn lle Is-ddeddfau Cymru Gyfan, heb ymgysylltu â'r broses ymgynghori nac â CNC fel arall. Mae'r Parchedig Cawthorne, Mr Andrew Davies a Mr Len Walters yn enghreifftiau o wrthwynebwyr o'r fath (gweler XX pob un ar Ddiwrnod 12).

[16] ID NRW/1, paragraff 7.5. e.e. diwygiwyd yr is-ddeddfau drafft i ganiatáu pysgota â berdys a chorgimychiaid gan ddefnyddio bachau heb adfachau neu fachau y tynnwyd yr adfachau ohonynt (gan gynnwys bachau triphlyg ag agoriad <7mm) o 1 Medi. Gwnaed y newid hwn yn dilyn cyngor a gafwyd ar fachu nodweddiadol yn y geg, ac i fynd i'r afael â materion a godwyd ynglŷn â genweirwyr anabl ac oedrannus. Gwnaed newidiadau eraill hefyd i reolau ar fachau. e.e., cyfyngir ar ddefnyddio llithiau artiffisial i un bachyn yn unig i agoriad mwyaf o 13 milimetr. Rhoddir rhestr o'r diwygiadau a wnaed i Is-ddeddfau Cymru Gyfan yn dilyn yr ymgynghoriad mewn Atodiad i Bapur Bwrdd mis Ionawr 2018: CD APP/25-27.

[17] ID NRW/4, CD APP/4, tudalen 90. Yn ystod XX, cydnabu Mr Karl Humphries, yn groes i honiadau a wnaed yn y Prif Holiad, fod y TC wedi cynnwys dadansoddiad o ddewisiadau amgen (gan gynnwys mesurau gwirfoddol), a oedd wedi cael eu hasesu gan Mr Ian Russell (Diwrnod 11).

[18] ID NRW/3.

30. Yn olaf, o ganlyniad i broses yr Ymchwiliad hwn, mae'r is-ddeddfau arfaethedig wedi cael eu profi'n gynhwysfawr trwy groesholi ("XX").[19] At hynny, mae'r Ymchwiliad hefyd wedi clywed a gweld tystiolaeth gan bartïon â buddiant a fynegodd gefnogaeth i'r is-ddeddfau arfaethedig yn gyffredinol, fel y gwyddonydd pysgodfeydd Dr Guy Mawle, y genweiriwr profiadol Mr Creighton Harvey, Dŵr Cymru a sefydliadau eraill fel Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod Cymru (STC) ac Afonydd Cymru.[20]

31. Roedd CNC a'r gwrthwynebwyr yn cytuno bod stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru wedi bod yn dirywio'n barhaus yn gyffredinol. Felly, cytunir yn gyffredinol bod problem.[21]

32. Mae llawer o wrthwynebwyr hefyd yn derbyn yr egwyddor ei bod yn bwysig nad yw'r stoc yn gostwng i lefelau anniogel, a bod dirywiadau'n cael eu gwrthdroi. Yn ystod XX, rhoddwyd yr ateb canlynol gan Mr Reuben Woodford, Genweirwyr Afon Ogwen ac Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru (CPWF) pan ofynnwyd a yw CNC a CPWF yn ceisio'r un canlyniadau (h.y. gwrthdroi dirywiad stoc):

> *...mae'r bwriad yn wahanol o ran y canlyniadau, ond o ran cynyddu nifer yr eogiaid, rydym yn gytûn i bob pwrpas.*[22]

33. A dywedodd Mr Chris White o CPWF yn ystod XX fod '*yr holl wrthwynebwyr eisiau gwrthdroi'r dirywiad*.'[23]

34. Yn ystod yr Ymchwiliad hwn, mae cwmpas yr anghytundeb rhwng CNC a'r partïon sy'n gwrthwynebu'r is-ddeddfau arfaethedig wedi dod yn fwy eglur. Yn ei hanfod, er gwaethaf amheuon rhai partïon ynglŷn â'r prosesau asesu stoc a dosbarthu afonydd, yr unig asgwrn cynnen rhwng CNC a mwyafrif y gwrthwynebwyr genweirio (gan gynnwys CPWF a'r Ymddiriedolaeth Genweirio) yw natur orfodol y mesurau. Roedd hyd yn oed llai o anghytundeb rhwng CNC a'r rhwydwyr, a oedd, yn gyffredinol (ac yn rhesymol iawn), yn cydnabod yr angen brys am fesurau'r is-ddeddfau arfaethedig ond a oedd eisiau cadw mis

---

[19] Mae rhai gwrthwynebwyr wedi honni droeon bod diffyg cydraddoldeb arfau rhyngddyn nhw a CNC. Nid yw hynny'n berthnasol i'r materion sydd i'w penderfynu. Sut bynnag, nid oes unrhyw beth i awgrymu na allai gwrthwynebwyr fod wedi trefnu cynrychiolaeth broffesiynol i'w hunain pe bydden nhw (neu'r rhai yr oeddent yn honni eu bod yn siarad ar eu rhan, a oedd yn cynnwys, yn ôl sylwadau terfynol Mr Nicholson a Mr White, '*busnesau, syndicetiau preifat a nifer o unigolion'* a *'21 clwb genweirio'* yn ôl eu trefn) wedi dewis gwneud hynny. Mae'n werth nodi yn hyn o beth bod llawer o'r gwrthwynebwyr yn aelodau o'r Ymddiriedolaeth Genweirio ac felly, gellid tybio y gallent fod wedi manteisio ar gangen gyfreithiol y sefydliad hwnnw, sef Fish Legal. Ymddangosodd Mr Mark Lloyd, Prif Swyddog Gweithredol yr Ymddiriedolaeth Genweirio a Fish Legal (gweler ID GM/4), heb gymorth ei dîm cyfreithiol a heb ei gynnig i eraill, ac eto teimlai y gallai ymuno â'r llu o brotestiadau ynghylch mantais annheg (Prif X, Diwrnod 7). Ar ben hynny, gallai'r gwrthwynebwyr fod wedi ceisio cynrychiolaeth broffesiynol trwy ddulliau eraill, pe byddent wedi dewis gwneud hynny, yn union fel yr oeddent wedi cyfarwyddo a thalu am ddau ystadegydd.

[20] Mae cefnogaeth Dr Mawle ac Afonydd Cymru yn destun cafeat.

[21] Er enghraifft, dywedodd Mr Chris White (CPWF) (yn y Prif Holiad ("Prif X") '*ar y rheng flaen, rydym wedi gweld y dirywiad graddol yn nifer y pysgod a ddaliwn.*' (Diwrnod 5). Roedd hyd yn oed Mr Andrew Nicholson yn derbyn yn XX bod y duedd gyffredinol mewn stociau am i lawr, ac er gwaethaf ei honiad gwreiddiol bod '*llawer iawn o afonydd*' yn gweld cynnydd mewn stociau, ni allai enwi unrhyw afon heblaw am Dyfi (Diwrnod 11). Cydnabyddir nad yw pob genweiriwr yn derbyn graddau'r dirywiad a gyflwynir yn nhystiolaeth CNC. Yn ystod XX, gofynnwyd y cwestiwn canlynol i Mr Peter Gerald John *'Cwestiwn: Ydych chi'n derbyn y bu dirywiad mewn stociau pysgod? Ateb: Ydw, mae llawer o enweirwyr yn credu y bu dirywiad mewn stociau pysgod. Bydd pob genweiriwr yn dweud wrthych mai'r tymor hwn yw'r gwaethaf a fu erioed. Wedi bod yn dweud hyn ers 1974, ac maen nhw'n credu y bu dirywiad ….'*

[22] Diwrnod 7.

[23] Diwrnod 6.

Ebrill ar gyfer eu gweithgareddau pysgota[24]. Roedd gwahaniaeth amlwg rhwng gwialenwyr a rhwydwyr o ran cydweithrediad ac ymagwedd.

35. Derbyniwyd yn gyffredinol bod C&R yn ymateb rhesymol, angenrheidiol a chymesur lle mae stociau'n fregus. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd y dylai C&R (a chyfyngiadau cysylltiedig ar ddulliau i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd pysgod sy'n cael eu dal a'u rhyddhau yn goroesi) gael ei weithredu trwy reoleiddio gorfodol. Y ddadl athronyddol hon yw hanfod y gwrthwynebiad i'r is-ddeddfau arfaethedig a gyflwynwyd gan aelodau'r gymuned enweirio a roddodd dystiolaeth i'r Ymchwiliad hwn.[25] O ystyried pwysigrwydd yr hyn sydd yn y fantol, cynigir nad yw'r ystyriaeth hon yn haeddu llawer o bwys, os o gwbl. Os yw CNC yn ymddangos yn ddiystyriol o'r pwynt, y rheswm am hynny yw nad yw dadleuon athronyddol yn gallu dylanwadu.

36. Mae CNC wedi cyflwyno cryn dystiolaeth fanwl i'r ymchwiliad hwn o blaid yr is-ddeddfau arfaethedig. Mae dogfennau allweddol yn cynnwys ei TC, ei amryw brif broflenni tystiolaeth, proflenni tystiolaeth gwrthbrawf a phroflenni tystiolaeth atodol (PoE, RPoE ac SRPoE) a phapurau academaidd perthnasol a adolygwyd gan gymheiriaid. Fodd bynnag, cydnabu nifer sylweddol o wrthwynebwyr (y mwyafrif helaeth, mewn gwirionedd), yn ystod eu tystiolaeth lafar, nad oeddent wedi darllen TC CNC na'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ganddo, heb sôn am y dogfennau ategol gan drydydd partïon, hyd yn oed mewn achosion pan gynhyrchwyd y cyfryw ddeunydd yn benodol i fynd i'r afael â phryderon gwrthwynebwyr unigol.[26] Roedd hyd yn oed y rhai a ddywedodd eu bod wedi darllen y dystiolaeth yn amwys ynglŷn â pha elfennau yr oeddent wedi'u darllen.

37. Mae hyn yn destun gofid, oherwydd bod mwyafrif helaeth y pryderon a godwyd gan wrthwynebwyr yn derbyn sylw yn y dogfennau hynny ac mae'r dystiolaeth hon wedi bod ar gael ers cryn amser. Yn anffodus, oherwydd methiant gwrthwynebwyr i ystyried tystiolaeth ysgrifenedig CNC o flaen llaw, treuliwyd amser yn yr Ymchwiliad yn cyfeirio tystion unigol ati ac at yr atebion cynhwysfawr a roddwyd ynddi i bwyntiau yr oeddent, er hynny, wedi'u codi gerbron yr Arolygydd.[27]

---

[24] XX amryw rwydwyr, Diwrnod 12. Mae'n nodedig bod ymagwedd gyffredinol ymgysylltiad y rhwydwyr â thystiolaeth CNC a phroses yr Ymchwiliad yn fwy cydweithredol â CNC, ac yn addo parhau i fod felly, er gwaethaf natur fasnachol eu crefft a'r gwahanol effeithiau y byddai Is-ddeddfau Cymru Gyfan yn eu cael ar rai ohonynt.

[25] Ar Ddiwrnod 7, crynhowyd hyn gan Mr Lloyd (yr Ymddiriedolaeth Genweirio) (yn y Prif X) fel a ganlyn: '*mae'n ymwneud â'r hawl i gymryd pysgodyn hyd yn oed os ydych yn dewis peidio.*' Felly hefyd, ar Ddiwrnodau 4 a 5, dywedodd Mr White fod hyn yn '*hawl sylfaenol… mae gennym hawl i dynnu pysgod ar gyfer y bwrdd i'w bwyta.*' Yn yr un modd, yn ei Brif X ar Ddiwrnod 6, esboniodd John Eardley hyn fel a ganlyn '*mae'n un rhyfedd, mae'n anodd ei esbonio, mae'n gymhleth. Ond y gwir yw, am ba reswm bynnag, rydych yn dechrau amau eich cymhellion eich hun…mae llawer o enweirwyr sy'n rhoi'r gorau i bysgota pan fyddwch yn eu hamddifadu o'r opsiwn o [gymryd] un pysgodyn. 'Dydw i ddim yn dweud ei fod yn iawn, nac yn anghywir.*'

[26] Cafwyd enghraifft arbennig o ddybryd ar Ddiwrnod 10, yn ystod XX cydnabu Mr Andrew Renwick nad oedd wedi darllen RPoE Mr Davidson (NRW/2R) a oedd yn mynd i'r afael yn benodol â mater yr oedd ef yn unig wedi'i godi yn ei dystiolaeth ysgrifenedig yn ymwneud ag ardal Afon Dyfrdwy Cymru. At hynny, ar Ddiwrnod 7, gwnaeth Mr Woodford feirniadaethau ynglŷn â'r gallu i orfodi'r is-ddeddfau, ond yn ystod XX cydnabu nad oedd wedi darllen RPoE Mr Gough (NRW/1R) a oedd yn mynd i'r afael â'r union fater hwnnw. Cyfeiriodd nifer o dystion eraill, gan gynnwys Mr Lloyd, at yr angen am weithredu yn erbyn llygredd amaethyddol, ond nid oeddent yn ymwybodol o gynnwys tystiolaeth Mr Robert Vaughan sy'n ymdrin yn benodol â'r pwnc hwn ac, yn nodedig yn ei achos ef, (am ryw reswm) nid oedd wedi cymryd unrhyw gamau personol i adrodd am ddigwyddiadau.

[27] Er enghraifft, cydnabu Mr John Eardley (CPWF) nad oedd wedi darllen arweiniad Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd (NASCO) ar beryglon a buddion gweithgareddau stocio a silfeydd (ACC/39) cyn rhoi tystiolaeth ar y pwnc i'r Ymchwiliad (Diwrnod 6). At hynny, yn ei dystiolaeth lafar, gwnaeth Mr Lloyd (yr Ymddiriedolaeth Genweirio)

38. At hynny, ychydig iawn o dystiolaeth wyddonol wrthrychol a gyflwynwyd gan wrthwynebwyr, er gwaethaf cyfleoedd niferus i ddarparu tystiolaeth o'r fath.[28] Mae crynswth achosion y gwrthwynebwyr wedi troi'n syml ar honni safbwyntiau, a thystiolaeth anecdotaidd. Bu amharodrwydd cyffredinol i dderbyn y dystiolaeth wyddonol arbenigol y dibynnwyd arni gan CNC, a mynegwyd cryn dipyn o ddrwgdybiaeth ac amheuaeth tuag at y dystiolaeth honno gan wrthwynebwyr yn ystod yr Ymchwiliad er gwaethaf absenoldeb tystiolaeth i brofi fel arall i seilio amheuaeth o'r fath arni[29]; cyfeiriodd Mr White â chryn eironi at gyfres o gredoau nad oeddent wedi'u hategu gan dystiolaeth. Efallai'r enghraifft fwyaf amlwg o'r gwrthwynebiad di-ildio a di-sail hwn o wyddoniaeth gadarn oedd yr hyn a fynegwyd gan Mr Andrew Nicholson yn ei Brif X:

> *Ni fydd unrhyw faint o dystiolaeth sy'n cael ei gwthio arnaf – ac mae hyn yn sylfaenol bwysig – yn newid fy marn bod yr is-ddeddfau hyn yn anghywir.*[30]

39. Mae'n un peth i wrthod tystiolaeth ond peth arall yw camgyfleu materion, fel yn ei gyfweliad ar dâp (nid oedd ei adroddiad yn gywir).

40. Er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o amser prin yr Ymchwiliad, eglurodd CNC na fyddai'n croesholi pob gwrthwynebwr ar bob pwnc lle y byddai ymagwedd o'r fath yn arwain at ailadrodd di-fudd neu lle nad oedd gan dyst penodol yr arbenigedd perthnasol i gynorthwyo. At hynny, nododd CNC fod nifer o wrthwynebwyr yn cefnogi tystiolaeth CPWF,[31] a gyflwynwyd gan Mr Chris White, Mr Mike Ashwin, Mr John Eardley a Mr Reuben Woodford.[32] Yn arbennig, cefnogwyd y dystiolaeth hon gan Mr Mark Lloyd (AT), sef y corff sy'n cynrychioli genweirwyr yn Lloegr sy'n ceisio statws tebyg yng Nghymru. Felly, ceisiodd CNC brofi dadleuon cyffredin a wnaed gan wrthwynebwyr trwy XX cynrychiolwyr CPWF, lle y bo'n briodol.

41. Yn ystod yr Ymchwiliad, ceisiodd CNC osgoi ailadrodd a chanolbwyntio yn lle hynny ar amlygu elfennau allweddol y dystiolaeth fel y'i profwyd, a oedd yn angenrheidiol i

feirniadaethau yn ymwneud â llygredd gerbron yr Ymchwiliad, ond yna cydnabu nad oedd wedi darllen tystiolaeth Mr Vaughan (Diwrnod 7).

[28] Ar Ddiwrnod 11, yn ystod y Prif X a'r XX, dywedodd Mr Nicholson '*gallwn fod wedi cynhyrchu llond gwlad'* o dystiolaeth wyddonol, ac y buasai wedi bod yn '*rhwydd iawn'* gwneud hynny. Fodd bynnag, ni fanteisiodd ar y cyfleoedd niferus a gafodd i wneud hynny. Pan ofynnwyd iddo yn XX a allai enwi unrhyw erthygl academaidd a oedd yn cefnogi ei safbwynt, dywedodd Mr Nicholson na allai.

[29] Er enghraifft, yn ystod y Prif X ac wrth ymateb i gwestiwn gan yr Arolygydd a oedd yn nodi bod CNC wedi cyfeirio at nifer o astudiaethau i gefnogi ei safbwynt, ymatebodd Mr Nicholson yn syml ac yn anghynorthwyol trwy ddweud '*Nid wyf yn cytuno ag ef, yn syml.*' (Diwrnod 11). Yn yr un modd, yn ei ddatganiad i gloi, honnodd Mr Nicholson fod y dystiolaeth wyddonol wedi cael ei '*tinkered'* i weddu i achos CNC, gan gyfeirio ati'n ddifrïol ac yn ddi-sail fel '*gwyddor pysgod dybiedig*.' Felly hefyd, pan wynebwyd ef â thystiolaeth Mr Davidson (NRW/2R, paragraff 3.16 ymlaen) yn XX, sy'n esbonio pam na ddefnyddir y dull cyfrif claddau (redd) mwyach, dywedodd Mr Humphries yn syml '*ei farn ef yn unig yw hynny, mae gennym ni farn wahanol.*' (Diwrnod 11)

[30] Diwrnod 11. Ailadroddwyd hyn gan Mr Nicholson yn ei ddatganiad i gloi. Yn wir, aeth Mr Nicholson ymhellach fyth, trwy gyflwyno tystiolaeth a oedd yn cynnwys ystumiadau o'r gwirionedd, a chamgyfleadau. Er enghraifft, honnodd Mr Nicholson (yn ei dystiolaeth ysgrifenedig (ID AN/1a) a'i ddatganiad agoriadol (Diwrnod 1) nad oedd 62% o weithwyr CNC yn cytuno â chynigion CNC. Roedd hyn yn gwbl anghywir, ac yn ystumiad llwyr o'r arolwg y dibynnodd arno, a oedd yn ymwneud ag ad-drefnu staff mewnol (ID AN/2). Rhoddodd ei ddehongliad o'r cyfweliad yr oedd ef a Mr Eardley wedi'i gynnal â swyddogion CNC, a gynhyrchwyd ar adeg pan nad oedd trawsgrifiad na ffordd rwydd o gadarnhau ei adroddiad, enghreifftiau niferus ychwanegol o adrodd anghywir.

[31] ID CPWF/1-19. Er enghraifft, dywedodd Mr Mark Frey ei fod yn cefnogi tystiolaeth CPWF '*mewn egwyddor at ei gilydd*' (ar Ddiwrnod 8).

[32] Roedd cynrychiolwyr CPWF yn bresennol ym mwyafrif diwrnodau gwrandawiad yr Ymchwiliad. Roedd Mr White, yn enwedig, yn bresennol yn yr Ymchwiliad ar bob diwrnod gwrandawiad.

benderfynu p'un a yw'r is-ddeddfau arfaethedig (gan ddefnyddio'r crynodeb o'r materion a roddwyd gan yr Arolygydd yn y PIM ac ar ddechrau'r Ymchwiliad hwn), "*yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn rhesymol o ystyried cyflwr y stociau eogiaid a brithyllod y môr ledled Cymru*".

### A. CRYNODEB O ACHOS CNC

42. Achos CNC, yn gryno, yw bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn rhesymol, ac y gellir dangos hyn trwy ddarparu, ar sail yr holl dystiolaeth gerbron yr Ymchwiliad, atebion i'r cwestiynau a nodwyd yn ei gyflwyniadau agoriadol, fel y manylir isod.

43. Yn gyntaf, mae natur a graddau'r broblem yn ddifrifol. Mae mwyafrif y stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru yn gostwng islaw eu targedau rheoli, ac ystyrir eu bod yn anghynaliadwy oherwydd perygl dirywiad parhaus i lefelau stoc anniogel.

44. Yn ail, mae amrywiaeth o ffactorau sy'n cyfrannu at ddirywiad eogiaid a brithyllod y môr. Cydnabyddir nad yw genweirwyr yn bennaf gyfrifol, ond yng nghyd-destun presennol difrifoldeb y dirywiad mewn stociau, mae lladd pysgod yn anghynaliadwy ac yn cyfrannu at y broblem. Felly, mae'n rhaid i enweirwyr a rhwydwyr fod yn rhan o'r ateb.

45. Yn drydydd, datrysiad CNC yw ei is-ddeddfau arfaethedig sy'n rhan o ystod eang o fesurau i fynd i'r afael ag achosion cymhleth a niferus y broblem hon, a sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn rhan annatod o'r gyfres hon o fesurau, gan y byddent yn gwarchod adnoddau bridio hollbwysig tra bod bygythiadau eraill i gynefinoedd perthnasol yn derbyn sylw. Byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn effeithiol oherwydd byddent yn lleihau lladd pysgod yn fwriadol, a fyddai'n cynyddu i'r eithaf nifer y pysgod sy'n goroesi i silio bob blwyddyn. Mae niferoedd cymharol fach o bysgod, hyd yn oed, yn allweddol i adfer stociau mewn cyfnod mor fyr â phosibl. Byddai buddion ychwanegol o ran niferoedd hwyfellod dros amser, ac mae rheidrwydd ychwanegol i warchod y pysgod mwyaf ffit sydd wedi llwyddo i oroesi ffactorau marwolaeth naturiol. Felly, mae'n hanfodol bod stociau silio'n cael eu cynyddu i'r eithaf er mwyn rhoi'r cyfle gorau i boblogaethau adfer. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn fater o ddyletswydd; mae'n rhaid i CNC ddefnyddio cyfres o fesurau i gyflawni'r newid.

46. Yn olaf, ni fyddai cyfyngiadau llai beichus yn ddigonol. Mae CNC yn cydnabod bod perygl y byddai mesurau'r is-ddeddfau arfaethedig yn arwain at ddirywiad mewn gweithgarwch genweirio a physgota â rhwydi, ac felly mae wedi ceisio sicrhau bod y buddion economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â genweirio a physgota â rhwydi yn cael eu gwarchod, i'r graddau sy'n gymesur â sicrhau'r arbedion mewn stociau sy'n ofynnol i leihau'r pwysau parhaus arnynt.

47. Felly, mae CNC yn honni bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn rhesymol.

48. Mae CNC yn ailadrodd nad yw'n cynnig rhwystro nac atal pysgota. Byddai genweirwyr a rhwydwyr yn gallu parhau i bysgota am eogiaid a brithyllod y môr, yn ogystal â rhywogaethau eraill (o ran mwy na 85% o'r genweirwyr yng Nghymru) na fyddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn effeithio arnynt o gwbl.

49. Fodd bynnag, ni fyddai'r oddeutu 15% o enweirwyr y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn effeithio arnynt yn gallu lladd brithyllod y môr nac eogiaid yn fwriadol mwyach mewn

afonydd sydd 'mewn perygl' neu sydd 'mewn perygl yn ôl pob tebyg'. Y rheswm am hyn yw oherwydd y byddai caniatáu i enweirwyr barhau i ladd y pysgod hynny'n fwriadol yn peryglu stoc brinnach y rhywogaethau hyn ymhellach, a byddai'n cyflwyno anghydraddoldeb rhwng y rhai sy'n arfer C&R yn wirfoddol a'r rhai nad ydynt (gan gynnwys 'helwyr pysgod' sy'n lladd popeth maen nhw'n ei ddal).[33] Byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn mynnu bod aelodau'r gymuned enweirio (neu o leiaf y lleiafrif bach nad ydynt eisoes yn cynnal arferion a fyddai'n cydymffurfio â'r is-ddeddfau arfaethedig) yn gwneud yr ymdrech hon i gyfrannu at ddatrys dirywiad stociau teulu'r eog.

50. Mae genweirio wedi bod yn dirywio'n gyffredinol yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf. Yn y pen draw, y prif ffactor sy'n atal pobl rhag genweirio yw prinder pysgod.[34] Felly, byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn ceisio gwarchod a gwella cyflwr pysgodfeydd yng Nghymru yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dyma achos CNC yn fras.

## B. CEFNDIR POLISI A DEDDFWRIAETHOL

### Rôl a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru

*Trosolwg*

51. Mae CNC yn defnyddio grymoedd a ddarperir gan ddeddfwriaeth Cymru, y Deyrnas Unedig (DU) ac Ewrop i gyflawni'r canlyniadau iawn i warchod yr amgylchedd yng Nghymru a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

52. Amlinellir y cefndir deddfwriaethol a pholisi yn nhystiolaeth Ms Ruth Jenkins.[35] Mae'r adran ganlynol yn ceisio osgoi ailadrodd y dystiolaeth honno, y deëllir nad yw'n destun anghydfod sut bynnag. Fodd bynnag, cododd gwrthwynebwyr ddau fater sy'n berthnasol i'r fframwaith polisi a deddfwriaethol ac y mae angen eu hegluro:

53. Yn gyntaf, mae rhai gwrthwynebwyr wedi awgrymu bod gweithredu deddfwriaeth yn ddewis a ffafriwyd yn ddiangen yn hytrach na gadael i enweirwyr reoleiddio eu hunain yn wirfoddol. Er enghraifft, dywedodd Mr Woodford yn y Prif X fod '*yr Is-ddeddfau wedi'u dyfeisio, maen nhw'n ddewis*'.[36] Nid ydynt yn ddewis; dyletswydd statudol ydynt a osodwyd ar CNC.

54. Yn ail, mae AT a CPWF (yn arbennig) wedi cyfeirio at yr ymagwedd a ddefnyddiwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd ("EA") yn Lloegr, gan awgrymu y dylai gael ei defnyddio yng Nghymru gan CNC.[37]

55. Ymdrinnir â'r ddau fater hyn yn eu tro.

### Dyletswyddau CNC i weithredu

[33] Mr White XX, Diwrnod 6. Defnyddiodd Mr Nicholson yr un term yn XX (Diwrnod 11).

[34] ID NRW/1R, paragraff 2.22, ffigur 3. Gweler hefyd paragraffau 198 i 201 isod.

[35] ID NRW/5; ID NRW/5R.

[36] Diwrnod 7. Ailadroddodd Mr Woodford yr honiad bod yr is-ddeddfau wedi'u 'dyfeisio' yn ei ddatganiad i gloi. Gweler hefyd tystiolaeth Mr White (Diwrnodau 5-6); ID CPWF/6.

[37] Gweler, er enghraifft, Prif X Mr Lloyd (Diwrnod 7). Gweler hefyd ID AT/1, paragraff 3; ID AC/1, paragraffau 11-13; ID AR/1, paragraffau 7-12, 54, ID AN/a, paragraffau 1b ac 1e.

56. Mae CNC yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cyffredinol sy'n mynnu ei fod yn gweithredu i warchod adnoddau naturiol, a dyletswyddau penodol sy'n ymwneud â gwarchod pysgodfeydd. Felly, nid dewis wedi'i ddyfeisio, fel yr honnodd Mr Woodford, yw'r is-ddeddfau arfaethedig; yn hytrach, maen nhw'n angenrheidiol er mwyn i CNC gydymffurfio â'i ddyletswyddau deddfwriaethol. Yn wir, pe na byddai'n cymryd y camau priodol, byddai'n torri'r dyletswyddau hyn a gallai fod yn destun camau cyfreithiol.

### *Dyletswyddau statudol cyffredinol*

57. Mae gan CNC ddyletswyddau cadwraeth cyffredinol o dan ddeddfwriaeth ddiweddar yng Nghymru (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), yn ogystal ag o dan gyfarwyddebau'r UE a rhwymedigaethau rhyngwladol o dan gonfensiynau.[38]

*Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy*

58. Yn ei PoE, mae Ms Jenkins wedi dweud bod cyflwyno Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n mynnu bod CNC yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ("SMNR"), yn cynrychioli symudiad tuag at ymagwedd fwy integredig i fynd i'r afael â'r pwysau a'r sbardunwyr sy'n gysylltiedig â newid ecosystem, yn hytrach na'i effeithiau yn unig.[39] Mae sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn dasg gymhleth, sy'n mynnu bod CNC yn defnyddio'r ystod lawn o'i rymoedd perthnasol.[40]

*Y Nodau Llesiant*

59. At hynny, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar CNC.[41] Yn arbennig, mae adran 3 yn gosod 'dyletswydd lesiant' ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Mae CNC wedi gosod amcanion llesiant yn unol â'r ddyletswydd hon, a gyflwynir yn nhystiolaeth Ms Jenkins.[42]

60. Mae CNC bellach yn ceisio cydymffurfio â'r polisïau hyn trwy weithredu'r is-ddeddfau arfaethedig. Er bod pysgota hamdden yn gallu cefnogi llesiant unigol, ni fyddai parhau i 'ddal a lladd' ar draul ceisio sicrhau ecosystem gydnerth yn cyflawni SMNR. At hynny, yn unol â'r amcan o beidio â pheryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion nhw, mae angen taro cydbwysedd rhwng gwarchod llesiant yn y tymor byr, a sicrhau a gwella llesiant yn y tymor hir.[43]

---

38 ID APP/4, tudalennau 20-25; ID NRW/5 (mae PoE Ms Ruth Jenkins yn rhoi mwy o gefndir ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau CNC).

39 ID NRW/5, paragraff 4.1.

40 Mr Robert Vaughan, Prif X (Diwrnod 5).

41 CD LEG/23.

42 ID NRW/5, paragraff 4.8. Amlinellir yr amcanion hyn yn Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ("SoNaRR") CNC, POL/19.

43 ID NRW/5R, paragraff 4.3; CD POL/18.

61. Fel yr esboniwyd gan Ms Jenkins, wrth arfer ei ddyletswydd a chyflawni ei ddiben cyffredinol, nid oes rhaid i CNC geisio cyflawni pob nod llesiant. Yn hollbwysig, mae'r holl bwyntiau llesiant hyn wedi'u seilio ar adnoddau naturiol iachus a chydnerth. Priodolir pwysigrwydd gwahanol i'r nodau hyn, ond, yn y pen draw, os na warchodir eogiaid a brithyllod y môr, gallai hynny gael effaith niweidiol ar yr holl nodau.[44]

***Dyletswyddau statudol sy'n benodol i bysgodfeydd***

62. Mae gan CNC ddyletswydd pysgodfeydd statudol o dan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975. At hynny, yn unol ag adran 6(1) Deddf yr Amgylchedd 1995, mae'n ofynnol i CNC hyrwyddo gwarchod a gwella harddwch naturiol ac amwynder dyfroedd mewndirol a thir sy'n gysylltiedig â dyfroedd o'r fath; gwarchod ffawna a fflora sy'n dibynnu ar amgylchedd dyfrol; a, defnydd o ddyfroedd a thir o'r fath at ddibenion hamdden.

63. Yn arbennig, mae adran 6(6) Deddf yr Amgylchedd 1995 yn mynnu bod CNC 'yn cynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd eogiaid, brithyllod, llyswennod, llyswennod pendwll, brwyniaid a physgod dŵr croyw'. Mae CNC wedi gwneud yr is-ddeddfau arfaethedig hefyd i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

***Cyfarwyddyd Gweinidogol 1998***

64. Dynodwyd Prif Afonydd Eogiaid, y mae 23 ohonynt, o dan Gyfarwyddyd Gweinidogol ym 1998 ("y Cyfarwyddyd"), sydd hefyd yn mynnu bod CNC yn asesu a phennu targedau ar gyfer gwarchod stociau.[45] Amlinellir hyn yn nhystiolaeth Mr Gough.[46] Mae'r Cyfarwyddyd yn parhau i fod yn berthnasol i CNC, ac mae ei weithdrefnau presennol yn ei ddilyn.

***Yr Egwyddor Ragofalus***

65. Mae egwyddorion lefel uchel eraill sy'n llywio gwaith CNC. Er enghraifft, mae'r angen i gymhwyso Egwyddor Ragofalus yn codi o Erthygl 191 Cytuniad yr Undeb Ewropeaidd[47]. Mae'r egwyddor hon yn llywio'r modd y dylai penderfyniadau gael eu gwneud lle y ceir ansicrwydd ynglŷn â'r canlyniadau (amgylcheddol). Yn gyffredinol, mae'r gofyniad i brofi dim niwed yn drech na'r gofyniad i brofi niwed. Mewn geiriau eraill, pan fo'r amgylchedd yn y fantol, dylai awdurdod cyhoeddus, fel CNC, dueddu at bwyll os oes unrhyw ansicrwydd.[48]

66. Mae'r Egwyddor Ragofalus yn berthnasol i ymagwedd CNC at warchod, rheoli a defnyddio adnoddau naturiol, ac, yn ei thro, mae wedi llywio ei is-ddeddfau arfaethedig.[49] Ni ddadleuir ynghylch pwysigrwydd yr egwyddor ragofalus. Er enghraifft, yn ystod cyflwyniad

[44] Diwrnod 4 (22.01.19), Prif X Ms Ruth Jenkins.

[45] CD LEG/13.

[46] ID NRW/1, paragraffau 3.1-3.2

[47] CD LEG/7.

[48] Adlewyrchir yr egwyddor hon hefyd mewn arweiniad sy'n ymwneud â gwarchod, rheoli ac ymelwa ar eogiaid, fel y'i mabwysiadwyd gan Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd ("NASCO") [CD POL/13] a'i Bartïon Contractio a hwnnw sy'n ymwneud â rheoli pysgodfeydd eogiaid [POL/14]. Gweler hefyd CD POL/12.

[49] ID NRW/5, paragraffau 6.1-6.2.

Mr White ar ran CWPF, cydnabu '*nid ydym yn gwadu bod rhaid i gamau gael eu cymryd o dan yr egwyddor ragofalus*'.[50]

**Defnyddio is-ddeddfau i gyflawni dyletswyddau cadwraeth**

67. Nod CNC yw sicrhau bod ganddo stociau cynaliadwy i warchod cynaliadwyedd ein hadnodd naturiol o eogiaid a brithyllod y môr gwyllt yng Nghymru, a hynny trwy gymhwyso arferion gorau o ran gwyddoniaeth a rheolaeth.

68. Yn unol ag adran 210, a pharagraff 6 atodlen 25 Deddf Adnoddau Dŵr 1991, mae gan CNC y grym i wneud is-ddeddfau, yn gyffredinol er mwyn amddiffyn, gwarchod a gwella eogiaid a brithyllod y môr (ymhlith rhywogaethau eraill) yn well.[51] Wrth arfer y grymoedd hyn y mae CNC yn ceisio gwneud yr is-ddeddfau arfaethedig[52] ar sail ei achos technegol manwl,[53] canlyniadau ei broses ymgynghori gynhwysfawr[54] a thystiolaeth a welwyd ac a glywyd yn yr ymchwiliad hwn.

69. Mae llawer o wrthwynebwyr yn derbyn yr egwyddor ei bod yn bwysig nad yw'r stoc yn gostwng i lefelau anniogel, a bod dirywiadau'n cael eu gwrthdroi. Felly, daw adeg pan fydd rhaid i CNC gymryd camau ystyrlon i atal dirywiad parhaus i lefelau sy'n anniogel yn fiolegol. Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, mae CNC yn honni bod yr adeg honno wedi cyrraedd. Byddai'n esgeuluso ei ddyletswydd trwy beidio â gweithredu. Felly, mae'r gofyniad rheidrwydd wedi'i fodloni'n rymus.

**Gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr**

70. Gellir ymdrin â'r ail fater yn fyr iawn. Mae CNC yn gweithredu o dan ddeddfwriaeth benodol sy'n wahanol i Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, lle nad oes corff yn union yr un fath sydd ag ystod mor eang o ddyletswyddau a swyddogaethau. Ymdrinnir â hyn yn fanwl yn RPoE Ms Ruth Jenkins, ac felly ni chaiff ei ailadrodd yma.[55] Wrth gwrs, mae Deddf 2016 a Deddf 2015, y cyfeirir atynt uchod, yn berthnasol i Gymru yn unig.

71. Mae AT, yn ei thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, wedi cyfeirio at y mesurau sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr, gan awgrymu y dylai'r un ymagwedd gael ei defnyddio yng Nghymru.[56] Pan ofynnwyd iddo a oedd wedi darllen ymateb CNC i'r ddadl hon yn RPoE Ms Ruth Jenkins yn XX, dywedodd Mr Lloyd '*ni allaf gofio',* ond rhoddodd yr argraff ei fod yn anghyfarwydd ag ef. At hynny, pan holwyd ef ymhellach, derbyniodd fod y sefyllfa yng Nghymru yn wahanol i Loegr.[57]

---

[50] Diwrnod 5.

[51] CD LEG/6: Yn unol â'r darpariaethau hyn, mae gan CNC hefyd y grym i wneud is-ddeddfau er mwyn gweithredu Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 yn well, ac at ddibenion amddiffyn, gwarchod a gwella rhywogaethau eraill yn well, gan gynnwys llyswennod, llyswennod pendwll, brwyniaid, gwangod a physgod dŵr croyw.

[52] CD APP/32-33.

[53] CD APP/3.

[54] CD APP/2.

[55] ID NRW/5R.

[56] ID AT/1; Diwrnod 7.

[57] Diwrnod 7.

## C. NATUR A GRADDAU'R BROBLEM

72. Mae CNC yn honni bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn angenrheidiol i fynd i'r afael â chyflwr gwael stociau eogiaid a brithyllod y môr.

### Adnabod problem

73. Fel y nodwyd, mae CNC a llawer o'r gwrthwynebwyr yn cytuno bod stociau eogiaid a rhai stociau brithyllod y môr yng Nghymru wedi bod yn dioddef dirywiad parhaus.

74. Fodd bynnag, mynegwyd rhywfaint o sinigiaeth (yn bennaf gan CPWF, a rennir gan eraill, gan gynnwys AT) ynglŷn â dibynadwyedd y ffynonellau data y mae CNC yn dibynnu arnynt ar gyfer asesu stociau eogiaid a rhai stociau brithyllod y môr. Yn nodedig, ni chadarnhawyd y sinigiaeth hon gan unrhyw dystiolaeth arbenigol, ac yn lle hynny mae'n ymddangos fel petai wedi'i seilio ar arsylwadau a chredoau personol a thystiolaeth anecdotaidd.

75. Dangoswyd y sinigiaeth hon gan dystiolaeth Mr Andrew Nicholson, a wrthwynebodd yn llwyr yr arbenigedd a'r dystiolaeth wyddonol yr oedd CNC yn dibynnu arnynt. Yn ei PoE, camddyfynnodd Mr Nicholson ei gyfweliad â Mr Gough droeon i awgrymu bod CNC o'r farn bod rhanddeiliaid mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau ynglŷn â stociau eogiaid a brithyllod y môr, a'r amgylchedd afonol yn fwy cyffredinol, na CNC (er gwaethaf datganiad penodol Mr Gough '*nid wyf eisiau cael fy nghamddyfynnu ynglŷn â hyn*').[58] Pan heriwyd ef yn XX, honnodd Mr Nicholson yn anargyhoeddiadol fod profiad anecdotaidd rhai gwrthwynebwyr yn fwy dibynadwy nag arbenigedd gwyddonwyr pysgodfeydd CNC:

> *[mae'r gwrthwynebwyr] yn gwybod llawer o wyddoniaeth. Mae John Eardley wedi anghofio mwy nag y mae CNC yn ei wybod…mae'r rhanddeiliaid yn adnabod y systemau afonydd hynny – yr agwedd wyddonol – yn well na CNC, ac mae hynny'n ffaith.*[59]

76. Ailadroddwyd yr honiad hwn yn natganiad terfynol Mr Nicholson, ond fe'i cymhwyswyd hyd yn oed yn ehangach ac yn llai argyhoeddiadol fyth i'r holl wrthwynebwyr.[60]

### *Dibynadwyedd tystiolaeth yn ymwneud â phoblogaethau, tueddiadau ac ystadegau dal pysgod*

77. Nid oes ffordd syml o amcangyfrif cyfanswm nifer yr eogiaid a/neu'r brithyllod môr aeddfed sy'n dychwelyd i'n hafonydd. Mae rhywfaint o ansicrwydd yn anochel. Fodd bynnag, mae ystadegau dal â gwialen, ynghyd â defnyddio maglau pysgod a data cyfrif, yn ogystal â data cynnar o arolygon electrobysgota, yn darparu sylfaen dystiolaeth ddigon cadarn i amcangyfrif cyflwr poblogaethau pysgod ac, yn sicr, nid yw'r un parti wedi dangos bod dull gwell yn bodoli. Sut bynnag, mae'r dulliau hyn o asesu stoc yn darparu modd dibynadwy o

---

[58] ID AN/1a, tudalen 4 ac AN/INQ/1,

[59] Diwrnod 11.

[60] ID AN/INQ/4

olrhain tueddiadau o ran y stoc sydd ar gael. Ymdrinnir â hyn yn gynhwysfawr yn PoE Mr Davidson a Mr Russell[61].

78. Wrth iddo XX Mr Davidson, cyfeiriodd Mr Ashwin at bapur academaidd a ysgrifennwyd gan Mr Ivor Llewellyn (Ymddiriedolaeth Eogiaid yr Iwerydd), a gofynnodd i Mr Davidson wneud sylwadau arno '*o ran cywirdeb ar gyfer afonydd CNC'*[62]*.* Fodd bynnag, mae Mr Llewellyn yn dod i'r casgliad na ddylai unrhyw anghywirdebau a amlygir effeithio ar y canlyniadau:

> *er bod angen i ni gydnabod gwendidau'r dulliau presennol o asesu lefelau stoc, mae hefyd yn bwysig pwysleisio na ddylai'r rhain effeithio ar y casgliadau a dynnir o'r asesiadau hyn.*[63]

*Ystadegau dal â gwialenni a rhwydi*

79. Mae rhai gwrthwynebwyr (fel CPWF) wedi honni bod ystadegau nifer y pysgod a ddelir ac a ddychwelir gan enweirwyr yn rhy wallus i ddibynnu arnynt i asesu lefelau stoc. Mynegwyd hyn yn fwyaf di-flewyn-ar-dafod, o bosibl, gan Mr Nicholson, a honnodd, yn ddi-sail unwaith eto, fod CNC '*ddim yn gwybod'* beth yw'r lefelau stoc, fel petai hyn yn rheswm dros beidio â gweithredu. Mae data dal yn rhoi syniad o gyflenwad y stoc yn ogystal â darparu gwybodaeth am faint/oedran pysgod sy'n dychwelyd. Mae NASCO yn cynghori y dylid casglu'r wybodaeth ganlynol:

> *ystadegau dal (e.e. nifer, maint, oedran ac afon tarddiad pysgod a ddelir (rhai a gedwir ac a ryddheir)); ac – amcangyfrifon o nifer y dalfeydd heb eu hadrodd a marwolaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r bysgodfa.*[64]

80. At hynny, mae'r gyfres o gofnodion dal tymor hir sydd ar gael yn ddi-ail o ran hyd y cyfnod maen nhw'n ei rychwantu o gymharu â ffynonellau eraill o ddata pysgodfeydd, ac felly mae data dal hefyd yn rhoi cipolwg amhrisiadwy ar batrymau a thueddiadau tymor hir cyflenwadau.[65] Fel y nododd Mr Davidson yn ei dystiolaeth '*mae tystiolaeth eithaf cryf o'r cylchoedd tymor hir hyn*.'[66]

81. O ran pysgota â gwialen, mae ffactorau cywiro (ffactor codi cenedlaethol o c. x1.5) wedi cael eu cymhwyso i ddalfeydd a ddatganwyd er mwyn cyfrif am nifer y dalfeydd heb eu hadrodd. Yn ei Brif X, esboniodd Mr Davidson sut y pennwyd y ffactor cywiro:

---

[61] ID NRW/2 ac NRW/4.

[62] Diwrnod 3. Cyfeiriwyd at y papur hwn hefyd yn natganiad terfynol Mr Ashwin. Cyfeiriodd Mr Eardley at bapur Mr Llewellyn hefyd yn y cyfweliad a gynhaliodd gyda Mr Nicholson (ID AN/INQ/1). Er bod y ddau wrthwynebwr wedi ceisio sicrhau dibyniaeth ar waith Mr Llewellyn, mae'n nodedig ei fod ef, ar ran Ymddiriedolaeth Eogiaid yr Iwerydd, wedi datgan ei gefnogaeth ddiamwys i Is-ddeddfau Cymru Gyfan (ID NRW/INQ/20).

[63] ID CPWF/1A, ID SD/6.

[64] CD POL/14.

[65] ID NRW/2, paragraff 3.2(a).

[66] Diwrnod 2.

*Rydym yn cywiro data dal gorau y gallwn i fynd i'r afael â than-adrodd. Mae'n cael ei wneud yn ymarferol ar gyfer pysgotwyr gwialen, gan fod tystiolaeth ymchwil yn dangos pa gyfran o ddeiliaid trwydded sy'n dychwelyd pysgod yn eu datganiad, ac mae rhywfaint o hyn wedi'i seilio ar system weddill CNC. Gallwch amcangyfrif pa gyfran o bysgod y mae'r deiliaid trwydded yn ei datgan. Bydd y gweddill sydd i'w adrodd yn cyfrif am gyfran fach iawn o'r ddalfa…Mae 60% o ddeiliaid trwydded wedi cyflwyno cofnodion. Mae gofyniad i adrodd hyd yn oed os na ddaliwyd yr un pysgodyn. Mae cyfran y ddalfa'n uwch o lawer, bron 90% yn seiliedig ar astudiaethau blaenorol.*[67]

*Ffynonellau data: casgliad*

82. Mae Dr Mawle, parti â buddiant a chanddo gryn brofiad ac arbenigedd perthnasol, o'r farn bod ystadegau dal â gwialen, ynghyd â gwybodaeth o ardal Afon Dyfrdwy Cymru fel afon fynegai, yn darparu dull ymarferol o asesu rhediadau blynyddol eogiaid, gan amcangyfrif dyddodi wyau a statws stoc dilynol. Mae Dr Mawle yn dweud mai'r unig ddewisiadau amgen fyddai datblygu cyfrifydd neu fagl, a fyddai'n wallus o hyd ac yn ddrud iawn.[68]

83. Fel yr esboniodd Mr Russell yn ei Brif X:

*Bydd ansicrwydd bob amser beth bynnag fo'r broses asesu. Dyna sut mae'r byd naturiol yn gweithio. Ni allwch greu perffeithrwydd. Mae niferoedd pysgod yn amrywio'n fawr ac yn destun ffactorau amgylcheddol cymhleth na allwn eu llwyr ddeall. Y pwynt yw bod gennym ni ddull sy'n wrthrychol ac yn gadarn, ac er nad yw'n berffaith, dyna'r dull sydd gennym. Mae'r casgliadau yn y cyflwr a ddisgrifiwn. Ar y sail honno, mae angen i ni weithredu. Nid yw absenoldeb perffeithrwydd yn ein hatal rhag gweithredu mewn ffordd ragofalus.*[69]

84. Pe na byddai CNC yn gweithredu, fe allai fod yn agored i her gyfreithiol. Sut bynnag, mae'r data y mae CNC yn ei gasglu a'i ddadansoddi yn ei alluogi i asesu tueddiadau o ran cyflenwadau, hyd yn oed os nad yw'n adlewyrchu nifer y pysgod yn gwbl gywir. Prif sbardun ei broses benderfynu yw cyfeiriad y tueddiadau hyn yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

85. At hynny, mae'r egwyddor ragofalus yn golygu er efallai nad yw'r dystiolaeth yn berffaith, mae angen bod yn ochelgar o ran y camau a gymerir i warchod yr amgylchedd. Mynegodd Mr White o CPWF yr egwyddor yn deg fel a ganlyn:

*Rwyf yn gyfarwydd â'r egwyddor ragofalus. Os oes arwyddion bod system ar fin methu, rydych yn gweithredu ar unwaith, nid aros i'r methiant ddigwydd.*[70]

[67] Diwrnod 2.

[68] ID GM/1.

[69] Diwrnod 3.

[70] XX Diwrnod 6.

86. Dywedodd Mr Nicholson, hyd yn oed, pan ofynnwyd a oedd yn cytuno â chrynodeb Mr White yn XX, ei fod yn cytuno, yn amodol ar y cafeat bod '*rhaid ystyried pob afon ar sail ei rhinweddau ei hun, ac ymdrin â hi yn unol â hynny*.' Wrth gwrs, dyma'r union ymagwedd a ddefnyddiwyd gan CNC.[71]

87. Roedd Mr White hefyd yn cytuno â chymhwyso'r egwyddor ragofalus[72]. Roedd nifer o wrthwynebwyr a phartïon â buddiant yn cytuno (yn synhwyrol) nad oedd amherffeithrwydd o ran data stoc yn rheswm dros beidio â gweithredu.

**Natur a graddau'r broblem**

88. Mae gosod terfynau cadwraeth, ac asesu cydymffurfiaeth â nhw, yn gofyn am ddadansoddiad ystadegol cymhleth.[73] O ystyried y diffyg ffydd yn y dadansoddiad hwn a fynegwyd gan wrthwynebwyr, dyfynnodd CNC dystiolaeth gan dri arbenigwr. Yn benodol, mae'r arbenigwr ar ystadegau Dr Barry o Cefas o'r farn bod y fethodoleg yn '*addas i'r diben'*.[74] Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Mr Russell fod '*ymagweddau tebyg iawn mewn awdurdodaethau ar draws Gogledd yr Iwerydd.*'[75] Ac yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae ef, fel Dr Barry, yn cefnogi ymagwedd CNC yn ddiamod[76].

89. Mae'r unig arbenigedd ystadegol y dibynnwyd arno gan wrthwynebwyr wedi dod o dystion na ymddangosodd yn yr Ymchwiliad ac na fanteisiodd ar wahoddiad CNC i fynychu cyfarfod rhwng arbenigwyr i gwtogi a/neu ddatrys materion, sef Dr O'Hagan a Dr Fop o Brifysgol Dulyn ("Ystadegwyr Dulyn"). Mae eu diffyg presenoldeb yr un fath â chyfeiriad Mr Nicholson at nifer o wyddonwyr a gwrthwynebwyr na enwyd – ni ellir rhoi unrhyw bwys i'r dystiolaeth hon.

90. Er na ddatgelwyd cwmpas y cyfarwyddiadau a gafodd y ddau ystadegydd hyn gan Mr Ashwin o CPWF i'r Ymchwiliad, er gwaethaf ceisiadau mynychu amdanynt,[77] yr hyn a oedd y tu hwnt i amheuaeth oedd eu bod wedi cynnal eu hadolygiad o fethodoleg CNC ar sail camddealltwriaeth sylfaenol o'r fethodoleg Bayesaidd a ddefnyddiwyd.[78] Roedd hyn, fel yr

[71] ID NRW/1R, paragraffau 4.2-4.8; CD APP/4, tudalen 86. Gweler hefyd paragraff 182 isod.

[72] Diwrnod 6. Yn wir, roedd yn ymddangos bod Mr White yn honni, i bob pwrpas, nad oedd CNC wedi bod yn ddigon rhagofalus, gan ddweud '*rydym yn y sefyllfa hon oherwydd y methiant i wrthdroi'r dirywiad dros nifer sylweddol o flynyddoedd.'*

[73] Esbonnir hyn yn nhystiolaeth Dr Jon Barry (ID NRW/3), Mr Russell (ID NRW/4) a Mr Ian Davidson (ID NRW/2).

[74] Diwrnod 4, Dr Jon Barry.

[75] Diwrnod 3.

[76] Gweler e.e. paragraffau 5.8-5.9 ei MPoE, Id NRW4.

[77] Cyfeiriodd cynrychiolwyr CPWF at lythyr a negeseuon e-bost ynglŷn â chyfarwyddyd Ystadegwyr Dulyn. Ar Ddiwrnod 3, dywedodd Mr Ashwin ei fod '*yn amlwg iawn o'r brîff, a'r llythyr a roddais iddynt, fod yr adroddiad yn cyfeirio at y ffaith bod y model yn fodel atchweliad Bayesaidd*.' Ar Ddiwrnod 6, pan ofynnwyd yn XX a welodd unrhyw gyfarwyddiadau yn ysgrifenedig, ymatebodd Mr White trwy ddweud '*Gwelais gopïau o negeseuon e-bost rhwng Mr Ashwin a Dulyn, ond nid oeddwn yn gwybod beth oedd y brîff*.' Er gwaethaf sawl cais, gan gynnwys gan yr Arolygydd ei hun, ni ddarparwyd y cyfryw frîff na llythyr. Ar Ddiwrnod 6 (yn XX), ceisiodd Mr Ashwin roi terfyn ar y mater trwy ei wrth-ddweud ei hun '*Fel y dywedais, nid oedd unrhyw gyfarwyddyd o ran y brîff, nac oedd.'*

[78] Diwrnod 4. Cyfeiriodd Dr Jon Barry at eu defnydd o'r termau cyfwng 'hyder' yn hytrach na chyfwng 'credadwy' a ddangosodd eu bod o'r farn bod y fethodoleg yn fynychol yn hytrach na Bayesaidd. At hynny, yn ID CPWF/2, tudalen 58, cydnabu ystadegwyr Dulyn eu hunain *'ni allem ddod o hyd i dystiolaeth yn unman yn y dogfennau o'r dull Bayesaidd sydd ar gael.'*

esboniodd Dr Barry, yn golygu bod llawer o'u beirniadaethau'n gwbl annilys.[79] Ystyrir eu tystiolaeth, ac ymateb CNC iddi, ymhellach isod.

91. Roedd bron pob gwrthwynebwr (gan gynnwys Mr White o CPWF a Mr Lloyd o AT) yn cydnabod nad oedd ganddynt yr arbenigedd gofynnol i herio'r fethodoleg. Yn ystod XX gan CNC, cyfaddefodd Mr Ashwin mai'r rheswm y cyfarwyddwyd yr ystadegwyr oedd oherwydd '*bod angen i ni gael dadansoddiad ystadegol annibynnol. Ni allaf i wneud hynny. Mae'n ymwneud ag atchweliad llinol Bayesaidd. Nid oes gennyf y sgiliau i wneud hynny*.'[80]

92. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno ag achos ystadegol CNC yn gwneud hynny ar sail argraffiadau neu gredoau, yn hytrach na thystiolaeth gadarn. Er enghraifft, beirniadodd Mr Bonutto y dystiolaeth dechnegol trwy honni mai '*dyfaliad'* ydoedd, gan gydnabod nad oedd ganddo dystiolaeth arbenigol i seilio ei her i'r dystiolaeth arni, ond er hynny dywedodd nad oedd wedi'i argyhoeddi.

93. Honnodd Mr Nicholson yn ei dystiolaeth ysgrifenedig fod '*gwyddonwyr pysgodfeydd blaenllaw'* yn gwrthwynebu'r is-ddeddfau,[81] ond pan ofynnwyd iddo yn XX i enwi unrhyw wyddonwyr o'r fath, ni allai wneud hynny.

94. Mae Mr Llewellyn, yn y papur y dibynnwyd arno gan CPWF ac y cyfeiriwyd ato uchod, yn esbonio bod y system yn gymhleth a bod amheuaeth yn gyffredin, gwaetha'r modd:

> *'Does dim dwywaith bod y system bresennol yn anodd ei hesbonio i bysgotwyr, neu yn wir unrhyw un sydd â dealltwriaeth resymol o theori ystadegol. Mae'n anffodus 20 mlynedd ar ôl cyflwyno terfynau cadwraeth, fod llawer o bobl yn parhau i amau eu gwerth ac nad ydynt yn deall sut maen nhw'n gweithio, yn enwedig gan fod yr egwyddorion sy'n sail iddynt yn gymharol syml. Mae angen gwneud mwy i esbonio'r system mewn ffordd syml.*[82]

95. Unwaith eto, Mr Llywelyn a alwyd gan CPWF sy'n cefnogi safbwynt CNC mewn gwirionedd. Roedd y rhan fwyaf o'r gwrthwynebwyr yn cydnabod eu cyfyngiadau'n deg. Er enghraifft, dywedodd Mr White yn ei brif dystiolaeth, 'Nid ystadegydd ydw i. Nid wyf yn bwriadu herio'r ystadegwyr;'[83] Yn ystod XX, cydnabu Mr Hulmston ei fod wedi cadw draw oddi wrth ystadegau'n fwriadol gan nad oedd yn ystadegydd '*o bell ffordd'*.[84] Dywedodd Mr Rees nad oedd yn ystadegydd nac yn wyddonydd, a'i fod yn credu bod tystiolaeth CNC yn gymhellol a bod y dirywiad yn amlwg yn ei brofiad ef.[85]

[79] Prif X, Diwrnod 4.

[80] Diwrnod 6, xx Mr Ashwin.

[81] ID AN/1a, tudalen 28.

[82] ID CPWF/1A, ID SD/6.

[83] Diwrnod 5.

[84] Diwrnod 7.

[85] Prif X, Diwrnod 12. Roedd hyn yn adlewyrchu ymagwedd y rhwydwyr a oedd yn fwy rhesymol yn gyffredinol. Roedden nhw, fel rhai genweirwyr, yn cydnabod bod lladd pysgod yn cyfrannu at broblemau stoc (er nad dyna'r prif achos) ac felly y dylent gyfrannu at y datrysiad.

### ***Tarddiad Terfynau Cadwraeth a'r defnydd ohonynt***

96. Mae Terfynau Cadwraeth (CLs) yn nodi'r lefelau stoc silio dymunol lleiaf na ddylid caniatáu i stociau ostwng yn is na nhw. Esbonnir ac ystyrir hyn yn fanylach yn PoE Mr Davidson, Mr Russell a Dr Barry.[86]

*Terfynau Cadwraeth*

97. Beirniadwyd defnyddio CLs gan fod 'y bar wedi'i osod yn rhy uchel', ac nid oedd modd cyflawni'r terfynau hyn. Fodd bynnag, esboniodd Mr Davidson nad oedd y terfynau'n rhy llym o gymharu ag awdurdodaethau eraill. Yn wir, dywedodd '*o ddefnyddio dull Iwerddon, byddech yn defnyddio dulliau cadwraeth uwch na dull Lloegr [a Chymru]…pe byddem ni'n defnyddio dull Iwerddon, byddem yn gosod y bar yn uwch fyth.'*[87]

98. At hynny, barn annibynnol ac arbenigol Dr Barry oedd bod penderfyniadau '*teg a synhwyrol'* wedi cael eu gwneud wrth osod y terfynau a'r targedau hynny, ar sail ymagwedd ragofalus.[88]

*Amcan Rheoli a Thargedau Rheoli*

99. Mae'r Amcan Rheoli (MO) yn ofyniad trosfwaol y dylai stoc afon fod yn cyrraedd neu'n rhagori ar ei therfyn cadwraeth o leiaf pedair blynedd o bob pump (h.y. >80% o'r amser). Gosodir Targed Rheoli (MT) ar gyfer pob afon, sy'n cynrychioli lefel stoc silio i reolwyr anelu ati i gyflawni'r amcan hwn.[89]

100. Heriodd Mr Ashwin ystyr yr ymadrodd 'pedair blynedd o bob pump ar gyfartaledd.' Yn ystod ei dystiolaeth, eglurodd Dr Barry fod yr ymadrodd 'ar gyfartaledd' yn golygu bod yr MO yn asesu p'un a oedd afon yn cyrraedd ei CL bedair o bob pum mlynedd yn y tymor hir ai peidio:

> *pe byddai gennych chi lwyth o sypiau – mil o sypiau o 5 mlynedd, fe gewch chi 4 yn uwch ar gyfartaledd. Mae hyn yn rhywbeth tymor hir – yn ystod unrhyw 5 mlynedd, fe allech gael 4, fe allech gael 3, fe allech gael 5…*[90]

*Cydymffurfio â Therfynau Cadwraeth*

101. Profir cydymffurfiaeth â'r CL bob blwyddyn gan ddefnyddio gweithdrefn ystadegol. Ymdrinnir â hyn yn fanwl yn nhystiolaeth ysgrifenedig Dr Barry a Mr Russell.[91]

### ***Dosbarthiad afonydd***

---

[86] ID NRW/2, NRW/3 ac NRW/4.

[87] Prif X, Diwrnod 3; CPWF/1A.

[88] Prif X, Diwrnod 3.

[89] Amlinellir hyn yn fanwl yn ID NRW/2, NRW/3 ac NRW/4.

[90] Prif X, Diwrnod 3.

[91] ID NRW/3 ac NRW/4.

102. Mae statws stociau afonydd unigol yng Nghymru yn cael ei werthuso'n flynyddol. Mae mwyafrif y stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru yn gostwng islaw eu MT, ac ystyrir eu bod yn anghynaliadwy oherwydd y perygl o ddirywio i lefelau stoc anniogel. Esbonnir hyn yn nhystiolaeth Mr Gough, ac fe'i hamlinellir yn fanwl yn y TC[92] sy'n dangos y gwrthwyneb i ymagwedd gyffredinol, fel yr honnwyd yn annheg gan nifer o wrthwynebwyr.

103. Mae honiad arall gan wrthwynebwyr yn erbyn achos CNC yn ymwneud â chywirdeb statws dosbarthu risg rhagamcanol afonydd.[93] Wrth XX Dr Jon Barry, honnodd Mr Ashwin, yn ddi-sail, fod CNC '*yn iawn 20-30% o'r amser yn unig ar gyfartaledd*.'[94]

104. Fodd bynnag, mae rhagfynegiadau CNC yn gyson lai rhagofalus yn hytrach na gor-ragofalus. Fel y cyfryw, mae anghywirdebau'n tueddu i olygu bod y gwir ganlyniadau'n waeth na'r hyn a ragfynegwyd e.e. yn 2009, rhagfynegwyd y byddai 9 afon nad oeddent mewn perygl, ond mewn gwirionedd roedd 0 afon nad oedd mewn perygl. Mae'r ffaith bod anghywirdebau o'r fath yn tueddu i fod o ganlyniad i oroptimistiaeth, yn hytrach na phesimistiaeth[95], yn atgyfnerthu'r angen am ymagwedd ragofalus.

***Proses asesu newydd ar gyfer brithyllod y môr***

105. Yn wahanol i eogiaid, nid oedd dull sefydledig cyfwerth ar gyfer asesu brithyllod y môr. Fel yr esboniwyd yn PoE Mr Davidson, mae CNC felly wedi datblygu ymagwedd newydd[96] na heriwyd yn ystod yr Ymchwiliad.

***Heriau i'r fethodoleg ystadegol***

106. Cyfarwyddodd Mr Ashwin, ar ran CPWF, Ystadegwyr Dulyn i ystyried yn feirniadol y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan CNC i bennu p'un a yw stoc benodol mewn perygl ai peidio.[97]

107. At hynny, mae'n ymddangos nad oes gan y naill na'r llall o Ystadegwyr Dulyn brofiad o ystadegau amgylcheddol. Yn ei dystiolaeth lafar, esboniodd Dr Barry fod '*yr egwyddor ragofalus yn bwysig iawn [yng nghyd-destun yr amgylchedd], ond nid yw'n ffactor mewn disgyblaethau eraill. Nid wyf yn credu eu bod nhw wedi sylweddoli hynny.*'[98]

108. Yn ogystal, am ba reswm bynnag, cynhaliodd Ystadegwyr Dulyn eu beirniadaeth ar sail anghywir. Gwnaethant lafurio ar sail camddealltwriaeth sylfaenol ynglŷn â'r fethodoleg

---

[92] ID NRW/1, paragraff 4.13; CD APP/4, Atodiad 3, gweler hefyd y tabl ar dudalen 86.

[93] ID CPWF/2. Ailadroddwyd hyn yn natganiad terfynol Mr White, paragraffau 6-7 yn ID CPWF/INQ/11.

[94] Diwrnod 3.

[95] ID CPWF/INQ/7, sleid 31. Gweler hefyd ID CPWF/2, Atodiad C, Tabl 6. Gwnaed y pwynt hwn hefyd gan Mr Ivor Llewellyn (Ymddiriedolaeth Eogiaid yr Iwerydd) yn ei ymateb ymgynghori: ID NRW/INQ/20.

[96] ID NRW/2.

[97] Fel y crybwyllwyd uchod, mae'n aneglur beth oedd eu cyfarwyddiadau ysgrifenedig (neu hyd yn oed llafar) oherwydd, er gwaethaf nifer o geisiadau, ni ddarparwyd tystiolaeth ysgrifenedig o'r naill na'r llall.

[98] X-in-Ch Day 3.

Bayesaidd ac, fel y cyfryw, fel yr esboniodd Dr Barry yn ei Brif X, '*methodd rywfaint o'u beirniadaeth'*.[99]

109. Yn eu hymateb i ateb Cefas i'w hadroddiad, esboniodd Ystadegwyr Dulyn '*ni allem ddod o hyd i dystiolaeth yn unman yn y dogfennau o'r dull Bayesaidd a grybwyllwyd.*'[100] Roedd hyn yn achos pryder i CNC a gododd amheuon ynglŷn â sut y cawsant eu cyfarwyddo. At hynny, yn XX, dywedodd Dr Barry fod Ystadegwyr Dulyn wedi bod yn disgrifio rhannau o'r fethodoleg gan ddefnyddio termau anghywir, a awgrymodd iddo ef eu bod wedi camddeall bod ystadegau Bayesaidd yn cael eu defnyddio. Ac yn y Prif X, cyfeiriodd at ddefnydd Ystadegwyr Dulyn o'r termau 'cyfwng hyder' yn hytrach na 'chyfwng credadwy', gan esbonio bod hyn yn dangos eu bod o'r farn bod y fethodoleg yn Fynychol yn hytrach na Bayesaidd. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod 'cyfwng hyder' yn gysyniad Mynychol yn hytrach na Bayesaidd.[101]

110. Amlinellir arwyddocâd hyn yn adroddiad Cefas, sy'n ymateb i Ystadegwyr Dulyn, sy'n esbonio pam mae'r gamddealltwriaeth o'r fethodoleg sylfaenol yn tanseilio beirniadaeth benodol, yn ogystal â dibynadwyedd cyffredinol asesiad Ystadegwyr Dulyn:

> *Cydnabyddwn y gallai hyn esbonio rhai o'r gwahaniaethau ymddangosiadol o ran dehongli. Mae'r model presennol yn amcangyfrif cyfeiriadau dyddodi wyau yn y dyfodol mewn fframwaith Bayesaidd sy'n cynnwys tymor ymatchwelaidd ac atchweliad 20 canradd i amcangyfrif cydymffurfiaeth â'r amcan rheoli – h.y. cyrraedd y terfyn cadwraeth (CL) mewn pedair blynedd o bump. Yn yr achos hwn, ystyriwn ei bod yn briodol cymhwyso tuedd linol i'r data i werthuso tueddiadau tymhorol o ran dyddodi wyau, a'i bod yn ddoeth cynnwys "blwyddyn" fel newidyn procsi oherwydd ei bod yn dal dylanwad posibl nifer o newidynnau esboniadol ar yr un pryd.*[102]

111. Sut bynnag, yn nhystiolaeth ysgrifenedig a llafar Dr Barry, rhoddodd esboniad manwl o'r rheswm pam nad yw'r beirniadaethau a wnaed gan ystadegwyr Dulyn yn ddilys[103] ac ni heriwyd ef ynglŷn â'r feirniadaeth hon yn XX neu fel arall.

112. At hynny, nid oedd yr holl feirniadaethau a fynegwyd gan Ystadegwyr Dulyn wedi cael eu codi yma gan wrthwynebwyr yn yr Ymchwiliad hyd yn oed. Er enghraifft, roedd un o'u beirniadaethau'n ymwneud â'r rhan o'r fethodoleg ystadegol a oedd yn ymwneud â defnyddio'r 'flwyddyn' fel newidyn. Honnodd Dr Barry fod blwyddyn ('amser') yn newidyn rhifiadol dilys a rhesymol i'w ddefnyddio mewn model atchweliad. Cydnabu Mr Ashwin fod y feirniadaeth hon yn ddiangen a chytunodd â safbwynt Dr Barry ar y mater.[104] Felly, cyfaddefodd Mr Ashwin nad oedd yr holl feirniadaethau a wnaed gan Ystadegwyr Dulyn yn ddilys, ac eto penderfynodd ddewis a dethol y rhai a oedd yn gweddu i achos CPWF. Sut

---

[99] Day 3.

[100] ID NRW/3d, p 3.

[101] Diwrnod 3. Fel y nodwyd uchod yn nhroednodyn 62.

[102] ID NRW/3c, tudalen 2.

[103] ID NRW/3; NRW/3c

[104] Diwrnod 3 XX JB.

bynnag, roedd y sefyllfa lle'r oedd rhywun nad oedd yn arbenigwr yn gweithredu fel cyfrwng ar ran arbenigwyr a oedd yn absennol ac, yn ôl pob tebyg, dan gamargraff ynglŷn â maes tystiolaeth a oedd y tu hwnt i'w harbenigedd yn anfoddhaol a dweud y lleiaf.

113. Hanfod beirniadaeth Ystadegwyr Dulyn yw bod yr ymagwedd atchweliad yn rhy besimistaidd ac nad yw'n adlewyrchu'n briodol yr ansicrwydd sy'n gynhenid yn y cyfrifiadau wyau gwirioneddol, a chyfeiriad y duedd yn y dyfodol. Maen nhw'n cynnig defnyddio model cyfres amser a fyddai, yn eu barn nhw, yn arwain at ragamcaniad mwy optimistaidd (ond ansicr) o statws stoc.[105]

114. Yn y pen draw, gan anghofio am rinweddau gwyddonol pob ymagwedd, y pwynt allweddol (a wnaed gan Dr Barry) yw bod y canlyniad niweidiol sy'n gysylltiedig â dilyn y model atchweliad llinol (mwy pesimistaidd), h.y. camau gweithredu adferol a allai fod yn ddiangen, yn llai difrifol o lawer na'r canlyniad niweidiol sy'n gysylltiedig â dilyn y model cyfres amser (mwy optimistaidd), h.y. niwed i'r stoc os na chymerir camau adferol, sy'n mynegi'r Egwyddor Ragofalus cystal ag unrhyw ddiffiniad arall.

## DATRYSIAD IS-DDEDDFAU ARFAETHEDIG CNC

### Trosolwg

115. Mae CNC yn cydnabod bod amrywiaeth o achosion wedi cyfrannu at gyflwr gwael stociau eogiaid a brithyllod y môr.[106] Mae'r rhain yn cynnwys pwysau amgylcheddol yn y môr, diraddiad ansawdd dŵr yn yr amgylchedd afonol, ysglyfaethu gan adar, a'r newid yn yr hinsawdd.[107] Felly, mae angen ystod eang o fesurau i fynd i'r afael ag achosion cymhleth niferus y sefyllfa hon, a sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.[108] Mae CNC yn cynnig bod y datrysiad hwn yn un rhesymol, sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â natur ddybryd y lefelau stoc presennol a esboniwyd uchod.

116. Er nad genweirwyr a rhwydwyr sy'n bennaf gyfrifol am ddirywiad stoc, maen nhw'n cyfrannu ato a, sut bynnag (oherwydd eu hamcan a'u heffaith yw lladd yr union rywogaethau y mae angen eu gwarchod), maen nhw'n rhan hanfodol o'r ateb. Derbyniwyd hyn gan Mr White yn ystod XX[109]:

117. At hynny, fel yr esboniodd Mr Harvey, sef genweiriwr profiadol a gyflwynodd dystiolaeth ar ran Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin a Chymdeithas Genweirwyr Amatur Abertawe:

---

[105] ID NRW/3b.

[106] Diwrnod 2, XX Mr Davidson gan Mr Woodford.

[107] ID NRW/1, paragraffau 6.1-6.17; ID NRW/1b.

[108] Amlinellir y mesurau hyn yn nhystiolaeth Mr Vaughan: ID NRW/6; ID NRW/6R; ID NRW/6R2.

[109] Diwrnod 6: *'Cwestiwn. Gall achos sy'n cyfrannu ffurfio rhan o'r ateb? Ateb. Gall.'*

*er ein bod yn derbyn bod stociau'n dirywio, nid ydym yn derbyn mai genweirio neu rwydo yw'r prif achos. Mae materion mwy arwyddocaol ar waith. Derbyniwn fod gan y rhai sy'n dal pysgod rôl i'w chwarae wrth geisio cynnal stociau...Nid ydym yn dweud nad ein bai ni ydyw ac felly ni ddylem gyfrannu at warchod stociau. Mae stociau wedi dirywio, efallai nad ni oedd y prif reswm am hynny, ond mewn afonydd lle mae stociau'n isel iawn, rydym yn cefnogi unrhyw beth i warchod stociau.*[110]

118. Mae CNC yn ceisio ymateb i'r broblem hon mewn tair ffordd gyflenwol:

a. Yn gyntaf, trwy gynnig yr is-ddeddfau arfaethedig, a fyddai mewn grym am 10 mlynedd (gydag adolygiad interim 5 mlynedd). Mae CNC hefyd yn cynnig is-ddeddfau ychwanegol ond ar wahân ynglŷn â'r tair afon drawsffiniol.

b. Yn ail, trwy weithredu cyfres eang o fesurau rheoli tir i wella amgylchedd afonydd.[111]

c. Yn drydydd, trwy gymryd camau adferol i adfer ansawdd cynefin afonydd a mynd i'r afael â ffactorau eraill sydd ar waith yn yr amgylchedd dŵr croyw.[112]

119. Yn eu hanfod, mae'r prif wrthwynebiadau i fesurau'r is-ddeddfau arfaethedig hyn fel a ganlyn:

- na fyddai'r mesurau'n gwneud unrhyw wahaniaeth, neu fod y gwahaniaeth (y dywedwyd bod CPWF, ymhlith eraill, wedi'i fesur fel bod yn 1-2% o'r stoc silio sy'n goroesi) mor ddibwys fel na fyddai'n werth chweil[113]; ac,
- y byddai mesurau gwirfoddol cyfwerth yn dderbyniol. Fodd bynnag, natur orfodol yr is-ddeddfau arfaethedig yw'r hyn sy'n eu gwneud yn annerbyniol. Crynhoir y ddadl hon gan Mr White, sy'n esbonio '*rydym eisiau'r hawl i gymryd pysgodyn, hyd yn oed os dewiswn ei roi'n ôl.*'[114] Mae hyn yn fynegiant o'r ddadl athronyddol.

120. Ystyrir y pwyntiau hyn yn fanwl yn ddiweddarach.

***Proses gydweithrediadol CNC***

121. Cynhaliodd CNC broses ymgynghori tri mis ffurfiol (22 Awst 2017 tan 14 Tachwedd 2017), ar ôl cyhoeddi'r TC. Gwnaed diwygiadau i'r is-ddeddfau arfaethedig yn dilyn y broses ymgynghori, sy'n adlewyrchu'r ymagwedd gydweithrediadol a ddefnyddiwyd gan CNC.[115]

---

[110] Prif X, Diwrnod 9.

[111] ID NRW/6.

[112] ID NRW/1B.

[113] Gweler, er enghraifft, prif X llafar Mr White a gyflwynwyd ar Ddiwrnod 5; ID CPWF/INQ/5.

[114] Diwrnod 6.

[115] CD APP/25; CD APP/26.

Mae gwrthwynebwyr wedi beirniadu'r broses hon,[116] ar y sail bod CNC wedi symud ymlaen â '*byrdwn cyffredinol*' ei gynigion er gwaethaf gwrthwynebiad genweirwyr iddynt.[117]

122. Wrth gwrs, nid oes angen cytuno â phob safbwynt i fod wedi ymgynghori'n iawn[118], ond yn hytrach ystyried yr ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd yn gydwybodol. Dyna'n union a wnaeth CNC.

123. At hynny, mae'r dystiolaeth a roddwyd gan wrthwynebwyr fel Mr Woodford, Mr White a Mr Eardley (CPWF) ynglŷn â'r diffyg ymgysylltu honedig yn tynnu'n groes i'r ffaith eu bod nhw wedi mynychu nifer o'r cyfarfodydd ymgynghori allweddol.[119] Roedd yn ymddangos mai'r hyn a oedd wrth wraidd beirniadaeth y gwrthwynebwyr o ymgysylltiad CNC â'r gymuned oedd nad oedd CNC wedi cytuno â'r hyn a ddywedodd wrtho am ei wneud, a bod hyn felly'n golygu nad oedd CNC wedi gwrando. Er enghraifft, yn ystod XX (ac unwaith eto mewn cyflwyniadau i gloi), awgrymodd Mr Woodford, ar gam, fod rhyw fath o orfodaeth ar gorff cyhoeddus i gytuno â mwyafrif yr ymatebion a gafodd wrth wneud ei benderfyniad (fel petai ymgynghori'n fath o gystadleuaeth boblogrwydd)[120].

124. Mewn modd tebyg, gwrthododd Mr Nicholson gytuno â'r gosodiad bod gwahaniaeth rhwng canlyniad sy'n ddigroeso a phroses sy'n gwrthod gwrando ar ymatebion ymgynghori.[121]

125. Yn y pen draw, fodd bynnag, mynegodd Mr White safbwynt mwy rhesymol ac roedd yn fodlon cydnabod bod gwahaniaeth rhwng gwrando a chytuno.[122]

### Effeithiolrwydd yr Is-ddeddfau Arfaethedig

126. Byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn arbed pysgod trwy bysgota C&R ac felly'n cynyddu nifer y pysgod sy'n goroesi i silio. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â dirywiad stoc. Mae'n amlwg, ac ni ddadleuwyd, po leiaf o bysgod a leddir, gorau oll.[123]

127. At hynny, drwy gydol cyfnod yr is-ddeddfau arfaethedig, byddai CNC yn parhau i fynd i'r afael yn weithredol â'r holl faterion sydd o fewn ei reolaeth (ac sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau statudol) sy'n cael effaith niweidiol ar stociau.

#### *Dal a rhyddhau eogiaid yn orfodol*

128. Fel yr esboniwyd yn nhystiolaeth Mr Gough, mae C&R wedi dod yn offeryn rheoli cynyddol gyffredin i gynnal stociau pysgod a physgodfeydd yn dilyn nifer o adolygiadau academaidd

[116] Mr Woodford, Prif X Diwrnod 7.

[117] XX Mr Lloyd Diwrnod 7.

[118] Cytunwyd ar hyn gyda Mr Lloyd yn ystod xx ar ddiwrnod 7, '*Cytunaf, ynddo'i hun, nad yw'n dangos hynny.'*

[119] Gweler, er enghraifft, CD APP/12.10; CDAPP/12.18 a CD APP/43.2.

[120] Diwrnod 7.

[121] XX, Diwrnod 11.

[122] XX, Diwrnod 6.

[123] Gweler, er enghraifft, XX Mr White, Diwrnod 6: '*Cadwraethwyr ydym ni. Nid ydym yn ceisio lladd pysgod'.*

ac ymchwiliadau ynglŷn â'i effeithiolrwydd a'i effeithiau (gweler, er enghraifft, *Arlinghaus et al* 2007[124]; *Olsen et al* 2010[125]; *Gargan et al* 2015[126]; NASCO 2009[127]; EA 2017[128]).

129. Yn *Olsen et al*, er enghraifft, nodwyd y canlynol:

> *Mae C&R rheoleiddiol, yn enwedig o ran pysgod sy'n rhy fach neu bysgod a warchodir fel arall, yn cael ei dderbyn gan bawb bron ar hyn o bryd fel "syniad da" i warchod stociau pysgod a chyfleoedd pysgota.*[129]

130. Mae nifer o is-ddeddfau pysgodfeydd sy'n rheoli pysgota eisoes yn bodoli yng Nghymru.[130] Yr Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol ("NSB") (a wnaed ym 1999 ac a adnewyddwyd yn 2008 am 10 mlynedd arall) oedd y cyntaf i wneud pysgota C&R am eogiaid yn statudol, ac i gyflwyno cyfyngiadau ar rai dulliau genweirio.[131] Yn ei RPoE, mae Mr Gough yn dweud bod yr NSB yn cyd-ddigwydd ag atal y dirywiad cynharach yn y stoc eogiaid y gwanwyn sy'n dychwelyd yn gynnar ac, mewn rhai afonydd, bod tystiolaeth o gynnydd yn y cyflenwad[132]; mae hyn yn dystiolaeth o effeithiolrwydd posibl yr is-ddeddfau arfaethedig.

131. Yn ystod ei brif X, esboniodd Mr Mark Frey (genweiriwr profiadol sy'n gwrthwynebu'r is-ddeddfau arfaethedig) y gwelliannau i'r stoc eogiaid yn afon Gwy, sy'n 100% C&R, a dywedodd '*ni allwch wadu ei fod [C&R] yn gallu cyfrannu*.'[133]

132. Fel y cyfryw, yn gyffredinol, nid yw'r rhan fwyaf o wrthwynebwyr wedi honni na fyddai C&R gorfodol yn arwain at unrhyw newid o gwbl i stociau eogiaid neu frithyllod y môr. Yn wir, yn ei XX, esboniodd Mr White fod ei glwb genweirio'n argymell C&R ac y gallai gosbi'r rhai sy'n cymryd gormod o bysgod. Mae hyn yn enghraifft o C&R gorfodol ar lefel clwb, ac felly cydnabyddiaeth ei fod yn angenrheidiol, yn effeithiol ac yn orfodol. Esboniodd fod hyn oherwydd bod C&R yn fodd effeithiol o gyfrannu at welliant stociau silio.[134]

133. Yn lle hynny, tueddai gwrthwynebwyr i droi at y ddadl y byddai C&R gorfodol yn arwain at fuddion bach yn unig, ac yn enwedig mai dim ond 2% o'r stoc silio y byddai'n bosibl ei harbed trwy C&R.[135]

---

[124] CD ACC/2.

[125] CD ACC/8.

[126] CD ACC/4.

[127] CD ACC/39.

[128] CD POL/31.

[129] CD ACC/8, tudalen 12.

[130] CD LEG/28.

[131] Cd LEG/15.

[132] ID NRW/1R, paragraff 2.14.

[133] Diwrnod 8, XIC.

[134] Diwrnod 6, XX.

[135] ID CPWF/2, tudalen 25. Gweler hefyd, e.e., XX Mr Ashwin o Mr Gough ar Ddiwrnod 2.

134. Ond esboniodd Mr Russell *'mae'n bwysig nodi bod unrhyw ychwanegiadau i'r stociau silio yn arbennig o werthfawr pan fydd stociau'n isel. Mae niferoedd cymharol fach o bysgod, hyd yn oed, yn allweddol i adfer stociau mewn cyfnod mor fyr â phosibl.'*[136] Cynigiodd y tri phrif reswm canlynol am hyn yn ei dystiolaeth lafar.[137]

*'Mae pob pysgodyn sy'n silio yn bwysig*

135. Yn gyntaf, er y byddai'r mesurau'n arwain at gynnydd cymharol gymedrol yn y tymor byr, 'mae pob dim yn helpu' pan fydd stociau ar lefel mor isel. Mae niferoedd cymharol fach o bysgod, hyd yn oed, yn allweddol i adfer stociau mewn cyfnod mor fyr â phosibl. Felly, mae'r niferoedd hyn yn hanfodol bwysig. Roedd Dr Marsh-Smith (Afonydd Cymru) yn cefnogi'r honiad hwn.[138] A cheir rhagor o gefnogaeth yn TC CNC, sy'n amcangyfrif yr wyau eogiaid a brithyllod y môr ychwanegol a fyddai'n cael eu dyddodi mewn un flwyddyn. Er enghraifft, byddai C&R gorfodol yn arwain at ddyddodi 2 filiwn yn fwy o wyau eogiaid ledled Cymru yn ystod blwyddyn 1 yn unig.[139]

*'Budd cyfansawdd'*

136. Yn ail, byddai niferoedd silio'n arwain at fuddion cronedig dros amser. Mewn geiriau eraill, byddai dyddodi wyau ychwanegol yn cynyddu nifer yr oedolion. Dywedodd Dr Mawle fod hyn yn debyg i 'fudd cyfansawdd' a derbyniodd y gallai cynnydd cymharol fach, hyd yn oed, mewn lefelau stoc o flwyddyn i flwyddyn gael effaith arwyddocaol ar adfer stociau pysgod. Dywedodd '*yn ddi-au, mae'r buddion yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn*'.[140]

*'Goroesiad y pysgod mwyaf ffit'*

137. Yn drydydd, ac efallai'n bwysicaf oll, mae gofyniad ychwanegol i warchod y pysgod mwyaf ffit sydd wedi llwyddo i oroesi ffactorau marwolaeth naturiol (yn yr amgylchedd morol ac afonol), oherwydd dyma'r pysgod sydd wedi addasu i gynyddu eu ffitrwydd gydol oes i'r eithaf, ac, i bob pwrpas, a ddewiswyd yn naturiol i silio.

***Effeithiolrwydd C&R gorfodol: casgliad***

138. O ganlyniad, fel y dywedodd Mr Russell, hyd yn oed petai modd arbed 1-2% o'r stoc yn unig, mewn niferoedd absoliwt, byddai'r arbedion hynny:

> *yn arwyddocaol iawn o ran sicrhau hygrededd hyfywedd genetig cyffredinol y stoc yn y dyfodol – bydd 1 neu 2% yn amrywio'n fawr mewn gwahanol afonydd, gallai gynrychioli cannoedd o bysgod – pwynt cyffredinol, dylem ni fod yn gwneud unrhyw beth y gallwn i helpu.*[141]

---

[136] ID NRW/4a, paragraff 4.9.

[137] Diwrnod 3, XiC.

[138] XiC, Diwrnod 7.

[139] CD APP/4, tudalennau 106-107.

[140] XX, Diwrnod 10.

[141] Prif X, Diwrnod 3

139. Nid Mr Russell yn unig oedd yn credu hyn. Er enghraifft, dywedodd Afonydd Cymru (yn ei PoE):

> *Mae'n anodd i'r rhai ohonom sy'n ymwneud â rheoli'r pysgodfeydd ddychmygu bod cymryd hyd yn oed un pysgodyn pan fo'r stoc yn isel yn unrhyw beth heblaw am gwbl amhriodol. Rydym ni'n elwa o fod â'r holl dystiolaeth sydd ar gael a dealltwriaeth o'r fioleg a'r wyddoniaeth sy'n gysylltiedig.*[142]

140. Ac mae Dr Mawle yn dweud (yn ei PoE), o ran effeithiolrwydd C&R:

> *Rwy'n cytuno â CNC bod y dystiolaeth gan wyddonwyr a genweirwyr yn dangos, gyda chyfyngiadau addas ar offer genweirio trwy reoliadau a defnyddio arfer da wrth drafod pysgod, bod marwolaethau sy'n gysylltiedig â C&R yn gallu bod yn isel iawn.*[143]

141. O ran pysgodfeydd rhwydi, mae'r rhan fwyaf yng Nghymru wedi bod yn arfer C&R o ran eogiaid ers yr 20 mlynedd diwethaf. Mae canlyniad astudiaethau a gynhaliwyd gan CNC wedi dangos bod llawer iawn o bysgod o'r fath yn gallu goroesi os cânt eu trafod yn iawn.[144] Mae Mr Peter Gough (yn ei PoE) yn dweud y disgwylir i ddefnyddio C&R wrth bysgota â rhwydi fod yn llwyddiannus.[145] Mae hyn yn cyd-fynd â phrofiad anecdotaidd pysgotwyr rhwydi.[146]

142. Ac roedd y rhwydwyr masnachol a ymddangosodd yn yr Ymchwiliad hwn yn cytuno bod C&R o rwydi yn effeithiol. Dywedodd Mr Rees '*mae'n rhwydd iawn dychwelyd eog a ddaliwyd gan rwyd heb niweidio'r pysgodyn*.' Dywedodd Mr Harries nad oedd erioed wedi colli pysgodyn wrth arfer C&R. At hynny, dywedodd Mr Rees a Mr Harries ei bod yn syml gwahaniaethu rhwng eogiaid a brithyllod y môr.[147] Nid oedd y rhwydwyr wedi herio effeithiolrwydd C&R mewn tystiolaeth lafar. Yn amlwg, dylid ffafrio'r dystiolaeth hon ar draul honno a roddwyd gan Mr Nicholson.

143. Er mwyn cynyddu buddion pysgota C&R i'r eithaf, mae CNC yn cynnig cyfyngu ar ddulliau pysgota â gwialen.[148] Pan ddefnyddir dulliau priodol, gall llawer iawn o bysgod oroesi ar ôl eu rhyddhau.

---

[142] ID AC/1, paragraff 4.

[143] ID GM/1.

[144] ID NRW/1, paragraffau 8.9-8.12.

[145] ID NRW/1, paragraff 8.9

[146] ID IH/INQ/1, tudalen 1.

[147] Yn ôl Mr Rees, '*mae gan eogiaid arferion pysgota gwahanol – pan fyddan nhw'n taro'r rhwyd fe welwch chi nhw'n sblasio i'r wyneb, a phan fyddwch chi'n eu tynnu i mewn maen nhw'n tueddu i fod yn rhydd yn y cwrwgl*.' At hynny, ychwanegodd Mr Harries '*mae'r ffordd y mae eog yn taro eich rhwyd yn wahanol. Gwyliais yr eogiaid yn mynd i mewn y pen hwnnw ac yn ôl allan o'r blaen, maen nhw'n ysgafn iawn. Mae'n gyffyrddiad ysgafn iawn. Ar y llaw arall, mae brithyllod y môr yn ei tharo fel trên.*' (Diwrnod 12). Mae'r dystiolaeth hon yn groes i dystiolaeth Mr Nicholson (Prif X, Diwrnod 11), a honnodd na fyddai rhwydwr yn gallu gwahaniaethu rhwng eog a brithyll y môr, a dylid ei ffafrio ar draul y dystiolaeth honno.

[148] ID NRW/1, paragraff 8.6

144. Fel y disgrifiodd Mr White o'i brofiad ei hun yn ei dystiolaeth lafar, yn ystod 10 mlynedd o bysgota'n fynych yng Nghymru,[149] dim ond 2 bysgodyn a fu farw ar ôl eu dal.[150] A dywedodd Mr Nicholson, hyd yn oed, yn XX mai 'yn anfynych iawn, iawn' y byddai pysgodyn yn cael ei anafu'n angheuol.[151] Er bod hyn yn anecdotaidd, mae'n cyd-fynd â'r dystiolaeth wyddonol ynglŷn ag effeithiolrwydd defnyddio dulliau pysgota sy'n lleihau marwolaeth ar ôl C&R.

***Cyfyngiadau ar fachau***

145. Crynhoir y cyfiawnhad dros y rheolaethau ar faint bachau a'r math o fachau yn PoE Mr Gough, ac fe'i hamlinellir yn yr Achos Technegol.[152] Mae'r EA wedi cynhyrchu adroddiad o'r enw *Effaith arferion genweirio C&R ar oroesiad eogiaid*, sy'n asesu tystiolaeth ynglŷn â dulliau pysgota, a'u heffaith ar oroesi ar ôl rhyddhau.[153] Pan gyfeiriwyd ef at yr adroddiad hwn yn ystod XX, ni heriodd Mr White effeithiolrwydd yr arferion hyn, ond mynegodd wrthwynebiad i natur orfodol yr is-ddeddfau arfaethedig:

> *Mae'r rhain i gyd yn arferion da, ac rydym wedi bod yn gweithio gyda grwpiau genweirio i'w hannog i ddefnyddio arfer da, gan wneud y mwyafrif ohono mewn ffordd wirfoddol ar hyn o bryd.*[154]

146. Mae'n nodedig (ac yn un enghraifft yn unig o'r cydbwysedd y bu'n rhaid i CNC ei daro yng nghyd-destun yr is-ddeddfau arfaethedig) nad oedd y cyfyngiadau hyn ar fachau yn mynd yn ddigon pell i rai gwrthwynebwyr. Er enghraifft, awgrymodd Mr White y dylai bachau 'Flying C' gael eu gwahardd yn llwyr oherwydd perygl marwolaeth ar ôl C&R. Fodd bynnag, mae CNC o'r farn y gellir lleihau'r perygl a achosir gan y mathau hyn o ddenwyr trwy ddisodli'r bachau triphlyg ag un bachyn priodol heb adfachau[155] a bod, yn yr achos hwn, ffordd o gyflawni'r amcanion cadwraeth a ddymunir gyda llai o ymyrraeth ag arferion genweirwyr nag a awgrymwyd gan Mr White ar ran CPWF.

***Cyfyngiadau ar abwyd wrth bysgota am eogiaid***

147. O ran eogiaid sy'n cael eu rhyddhau, y nifer isaf sy'n goroesi yw'r rhai a ddaliwyd gan ddefnyddio abwyd. Yn gyffredinol, mae'n llai na 50% yn achos mwydod.[156] Y rheswm am hyn yw oherwydd bod abwyd mwydyn yn tueddu i fachu eogiaid yn ddwfn, gan achosi anafiadau mewnol angheuol. Nodir hyn yn adroddiad yr EA ar *Effaith arferion genweirio C&R ar oroesiad eogiaid* (Awst 2017), sy'n esbonio bod y nifer fwyaf o achosion o fachu

[149] Esboniodd yn XX ei fod yn treulio o leiaf 2 ddiwrnod yr wythnos yn pysgota: Diwrnod 6.

[150] Diwrnodau 5 a 6.

[151] Diwrnod 11.

[152] ID NRW/1; CD APP/4.

[153] CD POL/31.

[154] Diwrnod 6.

[155] ID NRW/1, paragraffau 8.33-8.35.

[156] ID ACC/17.

dwfn yn gysylltiedig â defnyddio mwydod fel abwyd, a'i fod hefyd yn gallu arwain at ddal eogiaid ifanc.[157]

148. Cydnabuwyd hyn i raddau helaeth gan wrthwynebwyr a phartïon â buddiant. Yn wir, mae llawer, gan gynnwys Dr Mawle,[158] Mr White[159] a Dr Marsh-Smith[160], eisoes yn ymatal rhag pysgota ag abwyd o ganlyniad i'r perygl o ladd eogiaid trwy fachu dwfn. Dywedodd Mr Harvey fod rhoi'r gorau i bysgota â mwydod yn aberth angenrheidiol, sydd eisoes yn cael ei wneud gan lawer o enweirwyr.[161]

149. Felly, er mwyn sicrhau bod C&R ar gyfer eogiaid mor effeithiol â phosibl, mae CNC yn cynnig gwaharddiad llwyr ar bysgota am eogiaid gan ddefnyddio mwydod fel abwyd.

***Eithriad tymhorol i ddefnyddio corgimychiaid a berdys fel abwyd***

150. At hynny, yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid ac adborth ganddynt, cynigir caniatáu defnydd tymhorol o gorgimychiaid a berdys fel abwyd. Mae CNC yn cydnabod bod mwyafrif y pysgod a ddelir gan ddefnyddio berdys neu gorgimychiaid yn cael eu bachu ym mlaen y geg, ac felly eu bod yn fwy tebygol o oroesi ar ôl cael eu rhyddhau. Felly, mae CNC wedi cynnig is-ddeddfau sy'n caniatáu defnyddio berdys a chorgimychiaid, ond dim ond ar ôl 1 Medi pan fydd tymheredd y dŵr yn oerach ac y gellid disgwyl i oroesiad C&R gan ddefnyddio'r mathau hyn o abwyd fod yn uchel.[162]

***Mesurau penodol ychwanegol ar gyfer brithyllod y môr***

151. Y mesurau ychwanegol yw is-ddeddfau arfaethedig i warchod stociau brithyllod y môr mewn afonydd penodol lle yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol. Amlinellir y rhain yn nhystiolaeth Mr Gough a'r Achos Technegol.[163] Mae'r boblogaeth brithyllod y môr mewn cyflwr gwell nag eogiaid, at ei gilydd. Mae nifer o afonydd brithyllod y môr naill ai 'heb fod mewn perygl' neu 'heb fod mewn perygl yn ôl pob tebyg'.[164] Fel y cyfryw, ni fyddai gwaharddiad ar bysgota am frithyllod y môr gan ddefnyddio mwydod, na dal a lladd gan rwydwyr a genweirwyr.[165]

***Terfyn slot ar gyfer brithyllod y môr***

---

[157] CD POL/31, tudalen 15.

[158] Diwrnod 10.

[159] Diwrnod 6.

[160] Diwrnod 8.

[161] Diwrnod 9 XX.

[162] ID NRW/1, paragraffau 8.39-8.45.

[163] ID NRW/1, paragraff 7.4; CD APP/4, tudalennau 111.

[164] CD APP/4, tudalen 86.

[165] Trafodir hyn ymhellach isod. Mae hyn yn destun C&R lleol mewn pysgodfeydd gwialen ar afonydd penodol lle y cynigir dechrau pysgota am frithyllod y môr â rhwydi yn hwyrach.

152. Cynigir terfyn slot uchaf o 60cm ar gyfer brithyllod y môr o dan yr is-ddeddfau. Mae brithyll y môr 60cm ychydig yn llai na 6lbs, ac mae'r rhain fel arfer yn bysgod sydd wedi goroesi i silio mwy nag unwaith. Felly, ystyrir eu bod yn bysgod ffit ac yn gyfranwyr pwysig at silio. Amlinellwyd hyn yn nhystiolaeth Mr Gough.[166]

153. Mewn enghraifft arall o wrthwynebwyr yn ceisio mesurau llymach na'r rhai a hyrwyddir gan CNC, byddai Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod y Môr Cymru yn mynd ymhellach na therfyn slot 60cm, gan ddadlau y dylai'r maint lleiaf rhanbarthol presennol ar gyfer cymryd brithyllod a brithyllod y môr gael ei ddiwygio i derfyn cenedlaethol unigol o 30cm (o 23cm). Byddai hyn yn arwain at gymryd llai o frithyllod y môr yn gyfreithlon.

154. Mae'r terfyn slot lleiaf cenedlaethol presennol wedi'i ragnodi yn Is-ddeddfau 1995 ac mae'n berthnasol i frithyllod (yn ogystal â brithyllod y môr), ac nid ydynt gerbron yr Ymchwiliad hwn. Sut bynnag, fel yr esboniwyd gan Mr Gough,[167] byddai hyn yn ddiangen.

***Newidiadau i'r tymor pysgota â rhwydi***

155. Mae CNC yn cynnig diwygio'r tymhorau pysgota â rhwydi er mwyn gwarchod elfennau stoc pwysig brithyllod y môr yn ogystal ag arbed mwy o eogiaid.

156. Byddai mesur yr is-ddeddfau arfaethedig sy'n ymwneud ag oedi dechrau'r tymor pysgota â rhwydi (gyda phob tymor rhwydi i ddechrau ar 1 Mai) er mwyn gwarchod brithyllod y môr sy'n dychwelyd yn gynnar yn effeithio'n bennaf ar bysgodfeydd Tywi a Theifi (26 o'r 54 o drwyddedau sydd ar gael yng Nghymru). Dim ond 3 brithyll y môr arall yr adroddwyd am eu dal mewn rhwydi yng Nghymru cyn y dyddiad hwn yn 2016.[168]

157. Byddai'r cynigion yn cael effaith fach yn unig ar fwyafrif y pysgodfeydd rhwydi. Byddent yn effeithio fwyaf ar y pysgodfeydd cwrwgl a rhwydi sân ar ddwy brif afon, sef Tywi a Theifi. Fodd bynnag, dylid nodi bod perfformiad y ddwy bysgodfa hyn a statws stociau ynddynt ymhlith y rhai sy'n achosi'r pryder mwyaf.[169] Ymdrinnir â hyn ymhellach isod.

***Cyfnod 10 mlynedd ac asesiad interim 5 mlynedd***

158. Bwriedir i'r is-ddeddfau arfaethedig fod mewn grym am 10 mlynedd. Cynhelir adolygiad interim 5 mlynedd sylweddol hefyd i fonitro perfformiad yr is-ddeddfau arfaethedig.

159. Byddai hyd yr is-ddeddfau arfaethedig (10 mlynedd) yn sicrhau (yn dibynnu ar ganlyniad adolygiad hanner ffordd) bod 2-3 cenhedlaeth o bysgod yn cael eu gwarchod, sef pysgod y mae gan y rhan fwyaf ohonynt yng Nghymru hyd cenhedlaeth o 5 mlynedd.[170] Fel y cyfryw, ni allai'r cyfnod hwn fod yn fyrrach yn synhwyrol. Bydd stociau'n parhau i gael eu hasesu'n flynyddol i fodloni rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

---

[166] ID NRW/1, paragraffau 8.46-8.49.

[167] ID NRW/1, paragraff 8.48.

[168] CD APP/4, tudalen 120.a

[169] CD APP/4, tudalen 120.

[170] ID NRW/1, paragraff 9.47. Hefyd, er enghraifft, XX Dr Marsh-Smith (Afonydd Cymru) ar Ddiwrnod 8: '*wrth gwrs, mae'n rhaid i chi gofio o'r adeg pan fo pysgod aeddfed yn silio, ei bod yn cymryd 5 mlynedd i'r genhedlaeth nesaf ddychwelyd*.'

**Gorfodi**

160. Mae CNC yn cydnabod y byddai heriau'n gysylltiedig â gorfodi, o ganlyniad i bwysau parhaus ar adnoddau, fel sydd wastad wedi bod yn wir. Fodd bynnag, nid yw'r heriau hyn yn anorchfygol. Mae CNC eisoes yn gorfodi is-ddeddfau tebyg eraill yn llwyddiannus ac mae wedi cymryd camau yn erbyn troseddau pysgodfeydd yn ystod y blynyddoedd diweddar.[171] Mae CNC wedi darparu tystiolaeth helaeth o'r gallu i orfodi'r is-ddeddfau arfaethedig, sydd wedi'i chynnwys yn bennaf yn PoE ac RPoE Mr Gough.[172]

161. Mae CNC yn defnyddio dull a arweinir gan gudd-wybodaeth i orfodi'r holl ddeddfwriaeth ac is-ddeddfau pysgodfeydd, ac ni fydd yn oedi cyn cymryd camau gorfodi priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi. Mae polisi gorfodi CNC yn darparu amrywiaeth o fesurau, ac erlyn yw'r dewis olaf.[173]

162. Rhoddir cyhoeddusrwydd i gamau gorfodi CNC, ac mae hyn yn annog pobl i beidio â thorri'r rheolau. Esboniodd Mr Gough:

> *Mae unrhyw ddigwyddiad y cydnabyddir bod modd ei orfodi, o bosibl, yn cael ei adrodd i banel gorfodi lleol yn CNC a fydd yn ei ystyried o dan ein polisi gorfodi, a bydd yn dilyn proses i benderfynu a oes angen rhoi rhybuddiad cyfreithiol neu lythyr rhybudd, neu a yw'r dystiolaeth yn annigonol i gyfiawnhau camau ychwanegol.*[174]

163. Mae'n ymddangos bod rhywfaint o gamddealltwriaeth ynglŷn â'r 'llinell boeth' – ni fydd byth ymateb syth oherwydd dull o gasglu gwybodaeth ydyw.

164. Mae'r rhan fwyaf o enweirwyr yn gwbl ymwybodol o reolaethau tebyg, fel yr Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol, ac yn cydymffurfio â'r gofynion. Mae llawer o hyn o ganlyniad i'r defnydd arferol o reolaethau statudol gan bysgotwyr, a phwysau cyfoedion. Fel y nodwyd yn iawn yn nhystiolaeth ysgrifenedig Dr Mawle, er gwaethaf yr heriau, mae'n debygol y bydd pobl yn cadw at yr is-ddeddfau arfaethedig, a '*bydd troseddu'n cael ei weld gan enweirwyr eraill a byddant yn digio wrtho, os nad yn adrodd amdano.*'[175] Mae Dr Mawle yn iawn, wrth gwrs, ac o roi ymwybyddiaeth ddigonol o'r is-ddeddfau arfaethedig, nid oes rheswm i amau y byddai pobl yn cydymffurfio'n gyffredinol â nhw, fel mathau blaenorol o reoliadau pysgota. Esboniodd Mr Walters ei fod yn ufuddhau â'r is-ddeddfau presennol sy'n berthnasol i'w arfer ef o bysgota â rhwydi.[176]

165. Byddai ymwybyddiaeth o'r is-ddeddfau arfaethedig yn cael ei chynyddu trwy'r bwriad o hyrwyddo addysg ynglŷn ag arfer gorau. Fel yr esboniodd Ms Jenkins, ni fyddai'r is-

[171] ID NRW/1R, adran 5.

[172] ID NRW/1, ac ID NRW/1R.

[173] CD POL/23.

[174] Prif X, Diwrnod 1.

[175] ID GM/1, paragraff 6.13.

[176] XX, Diwrnod 12. Mewn cyferbyniad, cydnabu'r Parchedig Cawthorne ei fod wedi torri'r rheolau sifil trwy bysgota ar afonydd nad oedd wedi prynu tocyn ar eu cyfer.

ddeddfau eu hunain yn ddiwedd y broses.[177] Byddai proses gyfochrog o wybodaeth, canllawiau a chyhoeddusrwydd yn cael ei chyflwyno gyda'r is-ddeddfau fel bod cynifer o enweirwyr â phosibl yn cael gwybod amdanynt a sut i gydymffurfio â nhw. Mae hynny'n rhan o'r broses orfodi. At hynny, mae CNC wedi ymrwymo i hyfforddi a briffio mwy o staff maes.

166. A derbyniodd y cyn swyddog gorfodi, Mr Lewis, pe byddai'r broses honno'n cael ei gweithredu'n dda, byddai hynny'n lleihau'r rhan y bydd angen i swyddogion gorfodi unigol ei chwarae.[178]

167. Sut bynnag, nid yw'r heriau sy'n gysylltiedig â gorfodi effeithiol yn cyfiawnhau methiant i weithredu o gwbl. Ond dyna'n union beth oedd rhai gwrthwynebwyr yn ceisio ei awgrymu. Gwnaeth Mr White y gyfatebiaeth gyfeiliornus ganlynol:

> *Mae'n rhywbeth tebyg i oryrru. Mae pawb yn ei wneud. Mae'r tebygolrwydd o gael eich dal yn fach.*[179]

168. Amlygwyd twyllresymeg y gyfatebiaeth yn rhwydd yn XX. Pan ofynnwyd iddo a oedd o'r farn bod achosion achlysurol o dorri'r rheolau yn rheswm dros beidio â phoeni â deddfwriaeth, ymatebodd trwy ddweud '*na, nid dyna a ddywedais*.'[180] Mewn gwirionedd, pan bwyswyd arnynt, cydnabu gwrthwynebwyr yn fwy cyffredinol er gwaethaf amherffeithrwydd gorfodi, bod deddfu i gyflawni newid cadarnhaol ar gyfer cadwraeth well yn amlwg yn synhwyrol. Cytunodd Mr Harvey nad yw pryderon ynglŷn â gorfodi byth yn rheswm dros beidio â deddfu.[181] Cytunodd Mr Lewis hefyd, yn ystod XX, nad yw anawsterau o'r fath yn rheswm dros roi'r ffidil yn y to.[182] Gall deddfwriaeth gael effaith ataliol a rhwystrol, a byddai hynny'n wir yn yr achos hwn. Byddai deddfwriaeth yn arwain at newid mewn arferion genweirwyr a rhwydwyr.

## Ch. CYMESUREDD YR IS-DDEDDFAU ARFAETHEDIG

### Trosolwg

169. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn gymesur. Mae'r holl bartïon yn cytuno bod cadwraeth stociau eogiaid a brithyllod y môr yn nod dilys. O ystyried lefelau stoc gwael eogiaid a brithyllod y môr ar hyn o bryd, mae'n angenrheidiol ac yn gymesur i enweirwyr rannu baich cadwraeth yn y ffordd y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn ei mynnu. Fel y dywedodd Mr Harvey (genweiriwr profiadol iawn sy'n cynrychioli Cymdeithas Genweirio Amatur Abertawe a Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin) yn ystod ei dystiolaeth lafar;

[177] Prif X, Diwrnod 4.

[178] XX, Diwrnod 9.

[179] Prif X, Diwrnod 5.

[180] Diwrnod 6.

[181] Diwrnod 9.

[182] Diwrnod 9.

'*mae pawb yn gorfod gwneud aberth o ran sut maen nhw'n gweithredu – ni all hyn weithredu oni bai bod newid. Mae'n rhaid i bawb newid*.'[183]

170. O ran genweirio â gwialen, hanfod dadl gwrthwynebwyr ynglŷn â chymesuredd yw bod C&R yn angenrheidiol, ond y dylid ei orfodi'n wirfoddol, gan glybiau, yn hytrach na chan CNC, y rheoleiddiwr. Yn syml, ac fel y nodwyd uchod, mae hyn yn fynegiant o anfodlonrwydd gwrthwynebwyr bod rhywun yn dweud wrthynt beth i'w wneud.[184] Yn syml, unwaith eto, o ystyried yr angen dybryd am weithredu a gydnabyddir yn eang, ni ddylid rhoi llawer o bwys, os o gwbl, i'r gwrthwynebiad piwis ac athronyddol hwn.

171. O ran pysgota â rhwydi, mae CNC yn ceisio cyflawni tegwch rhwng pysgodfeydd gwialen a physgodfeydd rhwydi. Tra bod stociau'n anghynaliadwy a bod angen cynyddu poblogaethau bridio, mae angen i bysgodfeydd rhwydi yn ogystal â genweirwyr gyfyngu ar eu gweithredoedd. Nid yw'r ffaith y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn atal pysgota â rhwydi ond nid pysgota â gwialen ym mis Ebrill yn arwydd o ddiffyg tegwch, fel y cytunodd Mr Rees ac eraill. Yn hytrach, mae hyn yn adlewyrchu natur fasnachol crefft y rhwydwyr a'r ffaith bod y brithyllod môr mwyaf i'w gweld ym mis Ebrill (XX Mr Harries, Diwrnod 12, y gair olaf).

172. Cyflwynir achos CNC ynglŷn â chymesuredd yn nhystiolaeth Mr Gough, a Ms Jenkins.[185] Yn fyr, ac fel yr amlinellir yno, mae mesurau'r is-ddeddfau arfaethedig yn gymesur oherwydd:

a. Ni fyddai cyfyngiadau amgen neu lai beichus yn ddigonol:

- Heb fesurau gorfodol, byddai cyfran nodedig o enweirwyr na fyddent yn cydymffurfio â mentrau gwirfoddol, ac a fyddai'n parhau i ladd eogiaid a brithyllod y môr. At hynny, byddai 'helwyr pysgod' yn bodoli o hyd[186] sy'n lladd popeth maen nhw'n ei ddal. Bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn creu sefyllfa deg ac, yn ogystal, yn atal nifer y rhai nad ydynt yn arfer C&R gwirfoddol rhag cynyddu;
- Mae CNC wedi ystyried, ond nid cynnig, is-ddeddfau sy'n cynnwys ymagweddau mwy cyfyngol, fel gwahardd pysgota am eogiaid ar afonydd er mwyn osgoi marwolaeth weddilliol ar ôl rhyddhau, fel sy'n cael ei wneud mewn mannau eraill;
- Mae dulliau eraill wedi cael eu hawgrymu gan bartïon â buddiant, na fyddent yn briodol (ac yr ymdrinnir â nhw isod);
- Mae corff sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos bod stocio'n strategaeth aflwyddiannus, a bod silfeydd yn niweidiol; 187

---

[183] Diwrnod 9.

[184] Fel y cydnabuwyd gan e.e. Chris White (CPWF) (XX, Diwrnod 6) a Mark Lloyd (yr Ymddiriedolaeth Genweirio) (XX, Diwrnod 7).

[185] ID NRW/1, paragraffau 9.1-9.49; ID NRW/5, paragraff 13.2

[186] Dyma'r term a ddefnyddiwyd gan Chris White yn ei Brif X ar Ddiwrnod 5.

[187] ID ST/2,3,4 CDACC/39.

- Nid yw terfynau bag a thagiau carcas yn briodol pan nad yw stociau pysgod yn gallu cynnal unrhyw lefel o gamfanteisio (fel sy'n wir ar hyn o bryd). Pan fo stociau pysgod dros ben (yn uwch nag MT), gallai cywain pysgod (trwy derfynau bag a thagiau carcas) fod yn dderbyniol;[188]

b. Mae CNC yn cydnabod y perygl bach y gallai'r mesurau hyn arwain at ddirywiad mewn gweithgarwch genweirio, ac mae wedi ceisio sicrhau bod y buddion economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â genweirio yn cael eu gwarchod, i'r graddau sy'n gymesur â sicrhau'r arbedion stoc sy'n ofynnol i leihau'r pwysau parhaus arni. Sut bynnag, yr hyn sy'n fwy o fygythiad i ddyfodol genweirio yw diffyg pysgod (sef yr union beth y mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael ag ef).[189]

c. Mae gan CNC gyfrifoldebau cydraddoldeb statudol ac mae wedi cynnal EqIA.[190] Ar ôl ystyried y materion yn ofalus, diwygiodd CNC ei gynnig ar gyfer gwahardd defnyddio berdys a chorgimychiaid fel abwyd (fel enghraifft). Mae CNC o'r farn bod ei gynigion yn briodol ac yn gymesur.

**Natur yr hawl fel y cyfeiriwyd ati gan nifer o wrthwynebwyr**

173. Mae'n bwysig deall natur yr hawl yn y cydbwysedd cymesuredd o ran yr is-ddeddfau hyn. Yr hyn sydd wrth wraidd gwrthwynebiad CPWF, a gwrthwynebwyr eraill, yw'r canfyddiad y bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn amharu â'u 'hawl sylfaenol'. Yn ei dystiolaeth lafar, ailadroddodd Mr White y gamdybiaeth '*rydym yn prynu trwydded sy'n rhoi'r hawl i ni <u>gymryd pysgodyn</u> – i dynnu pysgodyn ar gyfer y bwrdd i'w fwyta...[byddai'r Is-ddeddfau yn dileu'r] hawl sylfaenol honno.*'[191]

174. Yn wir, yr awgrym bach arall a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr Ymchwiliad oedd nad oedd rhai o achosion y gwrthwynebwyr yn dadlau, yn y pen draw, eu bod nhw eisiau arfer yr hawl hon o reidrwydd, dim ond y dylent allu *dewis peidio â'i harfer*. Mae hyn yn amlygu'r prif wrthwynebiad i'r is-ddeddfau a grybwyllwyd uchod, sef bod rhai o'r gwrthwynebwyr yn gwrthwynebu'r mesurau gorfodol gan nad ydynt eisiau i rywun ddweud wrthynt beth i'w wneud. Mynegwyd hyn hefyd yn nhystiolaeth Mr Lloyd a ddywedodd ei bod '*yn ymwneud â'r hawl i gymryd pysgodyn hyd yn oed os ydych yn dewis peidio*.'[192]

175. Fodd bynnag, y gwir yw nad oes hawl sylfaenol i gymryd pysgodyn. Mae'r hawl statudol a roddir i ddeiliad trwydded bysgota wedi'i hamlinellu yn adran 25(2) Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 ("Deddf 1975"):

> *2) Yn amodol ar ddarpariaethau canlynol yr adran hon, bydd trwydded a roddir at ddibenion yr adran hon (y cyfeirir ati o hyn allan yn y Ddeddf hon fel "trwydded*

---

[188] CD APP/4; ID NRW/1, paragraffau 9.29-9.32.

[189] ID NRW/1R, paragraffau 2.20-2.38.

[190] CD APP/30.

[191] XX Mr White, Diwrnod 6, dydd Iau 24 Ionawr 2019.

[192] Diwrnod 7.

> *bysgota") yn rhoi'r hawl i'r sawl y'i rhoddwyd iddo, a neb arall, ddefnyddio'r dull pysgota a nodir yn y drwydded i bysgota am unrhyw bysgod o'r cyfryw ddisgrifiad, yn y gyfryw ardal neu'r cyfryw ardaloedd (neu mewn dyfroedd o'r cyfryw ddisgrifiad neu ddisgrifiadau) ac am y cyfryw gyfnod ag a nodir.*

176. Hawl i bysgota yw hyn, nid hawl i gymryd pysgod.[193] Ni fydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn amharu â'r hawl honno. Byddant yn gosod cyfyngiadau cymesur ar sut y ceir arfer yr hawl honno. Mae cyfyngiadau ar waith eisoes, wrth gwrs; bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn ychwanegu at y rhain.

**Byddai mesurau gwirfoddol yn annigonol**

177. Crynhowyd yr hyn sydd wrth wraidd achosion llawer o'r gwrthwynebwyr gan Mr White fel a ganlyn, yn ystod XX:

> *Byddai mesurau gwirfoddol yn darparu canlyniadau cyfwerth neu well. Yr hyn sy'n sail i'r gwrthwynebiad yw bod mesurau cyfwerth y gellir eu cymryd heb ddeddfwriaeth a fyddai'n darparu canlyniadau tebyg.*[194]

178. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae'r AT yn honni ei bod '*wedi gwrthwynebu gosod C&R gorfodol a'r rhan fwyaf o reoliadau sy'n cyfyngu ar ddulliau genweirwyr yng Nghymru a Lloegr ers iddynt gael eu crybwyll gyntaf gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ôl eu trefn, yn 2014/15*.'[195] Nid yw hyn yn gywir.

179. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2014, cydlofnododd yr AT lythyr at Lywodraeth Cymru yn ei hannog i ystyried, ar afonydd bregus, '*gwneud C&R yn orfodol i enweirwyr, yn ogystal â chyflwyno cyfyngiadau ar y technegau pysgota hynny sy'n lleihau tebygolrwydd eogiaid o oroesi ar ôl cael eu rhyddhau.*'[196] Llofnodwyd y llythyr hwn gan Mr Lloyd, Prif Weithredwr yr AT a gyflwynodd ei thystiolaeth gerbron yr Ymchwiliad. Mae'r llythyr yn amlwg yn cefnogi mesurau C&R gorfodol. Fe'i cydlofnodwyd hefyd gan Genweirio Cymru, Afonydd Cymru,[197] yr Ymddiriedolaeth Afonydd, Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod y Môr Cymru[198] ac Ymddiriedolaeth Eogiaid yr Iwerydd.[199]

180. Yn ystod XX, ni allai Mr Lloyd esbonio'n foddhaol pam nad oedd yr Ymddiriedolaeth Genweirio'n parhau i gefnogi C&R gorfodol. Honnodd nad oedd cefnogaeth yr

---

[193] Mae Deddf 1975 yn gwahaniaethu rhwng 'pysgota' a 'chymryd' pysgodyn. Gweler, er enghraifft, adran 27B Pysgota heb awdurdod ac ati (1) Mae unigolyn yn euog o drosedd os ydyw, trwy unrhyw fodd heblaw am fodd trwyddedadwy o bysgota, yn pysgota am unrhyw bysgodyn mewn amgylchiadau lle — (a) gallai'r pysgota neu'r weithred o gymryd gael ei (h)awdurdodi o dan adran 27A uchod, ond (b) nid yw wedi'i awdurdodi i bysgota am y pysgodyn neu ei gymryd o dan yr adran honno (neu mae wedi'i awdurdodi felly ond mae'r pysgota neu'r weithred o gymryd yn torri unrhyw amod o'i awdurdodiad).

[194] Day 6.

[195] ID AT/1.

[196] ID GM/4, tudalen 3. Pwyslais wedi'i ychwanegu.

[197] ID AC/1.

[198] ID STC/1.

[199] Nid yw cydlofnodwyr eraill, sef Ymddiriedolaeth Eogiaid yr Iwerydd ac STC, wedi newid eu meddyliau.

Ymddiriedolaeth Genweirio a fynegwyd yn y llythyr yn anghydnaws â'r safbwynt a amlinellir yn ei thystiolaeth ysgrifenedig gerbron yr Ymchwiliad, gan ddweud '*Gallaf weld sut mae hynny'n gydnaws…Nid wyf yn credu ei fod yn fy maglu.*'[200]

181. Ar ôl ei holi ymhellach, dywedodd hefyd na allai gofio llofnodi'r llythyr, a dywedodd ei fod '*yn anghyfforddus iawn â'r llythyr*.' Fodd bynnag, ni roddodd esboniad cymhellol ynglŷn â pham yr oedd y safbwynt a fynegwyd yn llythyr 23 Gorffennaf 2014 yn anghywir, ac ni esboniodd ychwaith ba wahaniaethau (os o gwbl) oedd yn bodoli rhwng safbwynt yr AT yn awr, o gymharu â bryd hynny.[201]

182. Yn y diwedd, cytunodd Mr Lloyd y byddai C&R gorfodol yn briodol mewn rhai amgylchiadau, er hynny '*gydag amodau penodol'*. Derbyniodd hefyd pe na ellid cael cefnogaeth gyffredinol, y gallai fod yn dderbyniol pe byddai'n rhan o gyfres o fesurau, a oedd yn cynnwys mynd i'r afael â bygythiadau amgylcheddol.[202]

183. Nid oedd Mr Lloyd wedi darllen tystiolaeth Mr Vaughan, ar ran CNC, ac felly ymddangosai nad oedd yn ymwybodol bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn un rhan o gyfres eang o fesurau y bwriedir iddynt fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol ehangach sy'n effeithio ar iechyd stociau eogiaid a brithyllod y môr. Rhoddwyd yr argraff nad oedd gwrthwynebiad honedig presennol yr AT i natur orfodol mesurau CNC wedi'i seilio ar yr holl wybodaeth, nac yn gyson â'i safbwyntiau blaenorol.[203]

184. Amlinellodd Mr White safbwynt CPWF yn ystod ei dystiolaeth. Roedd yn un o nifer o wrthwynebwyr a ddywedodd eu bod eisoes yn arfer pysgota C&R, ac a ddadleuodd y dylid ceisio C&R gwirfoddol yn lle. Yn wir, derbyniwyd yn ystod XX Mr White bod C&R yn ddymunol mewn egwyddor, gan ddweud '*cadwraethwyr ydym ni. Nid ydym yn ceisio lladd pysgod*.'[204]

185. Er y gallai mwyafrif y genweirwyr ymateb i fentrau gwirfoddol, byddai grŵp o enweirwyr na fyddent yn cydymffurfio â nhw, ac a fyddai'n parhau i ladd pysgod. Yn ei dystiolaeth, esboniodd Mr White fod '*helwyr pysgod'* yn bodoli sy'n lladd popeth maen nhw'n ei ddal. Nid yw hyn yn lleiafrif dibwys. Yn 2016, lladdodd 16.7% o enweirwyr yr holl eogiaid a ddaliwyd ganddynt ar afonydd Cymru.[205]

186. Pan ofynnwyd iddo a oedd yn defnyddio arfer da o ran dal a rhyddhau, ymatebodd Mr White trwy ddweud:

> *Ydw, nid dim ond fy nghlwb i – mewn unrhyw glwb genweirio cymunedol – ond mae rhai pysgotwyr sy'n lladd popeth maen nhw'n ei ddal.*[206]

[200] Diwrnod 7.

[201] Diwrnod 7.

[202] Diwrnod 7.

[203] XX Diwrnod 7.

[204] Diwrnodau 5-6.

[205] ID CPWF/INQ/5: Cyflwyniad Mr White wedi'i ddiweddaru, sleid 5.

[206] Diwrnod 5. Adleisiwyd hyn gan dystiolaeth Mr Nicholson (Diwrnod 11).

187. Felly, nid yw baich genweirio cadwraethol yn cael ei rannu'n deg ar hyn o bryd. Yr is-ddeddfau arfaethedig yw'r ffordd decaf o unioni'r sefyllfa, er mwyn sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn o eogiaid a brithyllod y môr sy'n silio yn cael eu cynyddu i'r eithaf.

188. Profwyd diffyg sefyllfa deg yn 2017 gan y rhwydwyr cwrwgl, a benderfynodd yn wirfoddol i ryddhau 100% o'r eogiaid a ddaliwyd ganddynt. Yn ystod XX, dywedodd Mr Walters y canlynol:

> ***Cwestiwn. Un o'r problemau â mesurau gwirfoddol yw eu bod yn rhoi'r rhai sydd o blaid cadwraeth dan anfantais. Fe ymatalioch oherwydd eich bod yn credu bod cyfrifoldeb arnoch i gyfrannu at adfer stoc a oedd yn lleihau?***
> *Ateb. Ie, fe benderfynon ni wneud ymdrech.*
> ***Cwestiwn. A sylwoch chi nad oedd eraill yn gwneud yr un ymdrech?***
> *Ateb. Do*
> ***Cwestiwn. Un o fanteision is-ddeddfau yw nad ydynt yn rhoi'r rhai sy'n teimlo cyfrifoldeb cyhoeddus, fel chi, dan anfantais – mae'n creu sefyllfa deg?***
> *Ateb. Ie, gallaf weld hynny.*[207]

189. Mae CNC wedi hyrwyddo C&R gwirfoddol yn gryf ers sawl blwyddyn.[208] Mae nifer o wrthwynebwyr (gan gynnwys CPWF) wedi cyfeirio at y ffigur 86% o ran cydymffurfio â C&R gwirfoddol ar gyfer 2016, ond mae'r ganran hon yn cynnwys elfen orfodol statudol.[209] Felly, mae'r gwir ffigur gwirfoddol yn is nag 86%.

190. Er bod y lefelau C&R gwirfoddol presennol yn galonogol, maen nhw'n amrywio o un afon i'r llall ac o flwyddyn i flwyddyn.[210] Sut bynnag, nid yw'r gyfradd ryddhau yn 100%, sef yr hyn a geisir trwy'r is-ddeddfau arfaethedig.

191. At hynny, mewn termau absoliwt, mae nifer yr eogiaid sy'n cael eu lladd yn arwyddocaol. Ar gyfartaledd, bydd hwyfell yn dyddodi 5,000 o wyau, ond fel y dywedodd Mr White yn XX, gall y ffigur hwn fod yn uwch o lawer ar gyfer Eogiaid a fu yn y Môr am Sawl Blwyddyn sy'n Dychwelyd yn y Gaeaf (MSW). Felly, ac fel yr awgrymwyd wrtho yn XX, bydd arbed 40 o hwyfellod yn ychwanegu 250,000 o wyau posibl at y cyflenwad.[211] Yn 2016, lladdwyd 527 o hwyfellod gan enweirwyr.[212]

192. Yn ogystal, yn XX, esboniodd Mr White fod clybiau genweirio (gan gynnwys ei glwb ef) eisoes yn gweithredu system o gosbau. Esboniodd Mr White ei bod yn gyffredin i glybiau

---

[207] Diwrnod 12.

[208] Gweler, er enghraifft, datganiadau i'r wasg CNC sy'n annog C&R gwirfoddol 2017, 2016, 2015, a 2014: CD APP/13.

[209] O ganlyniad i Is-ddeddfau Eogiaid Gwanwyn, a'r mesurau gorfodol penodol i afonydd ar afonydd Gwy, a Thaf ac Elái.

[210] CD APP/4, tudalen 113. Er enghraifft, o ran cyfraddau rhyddhau eogiaid yn wirfoddol yn 2015 (a amlinellir yn yr Achos Technegol) roedd nifer o afonydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd; roedd afon Ogwen yn 53%, roedd afon Tywi yn 55% ac roedd Afon Dwyrain Cleddau yn 50%.

[211] Diwrnod 6.

[212] ID CPWF/INQ/5: Cyflwyniad Mr White wedi'i ddiweddaru, sleid 5.

gosbi eu haelodau er mwyn atal diffyg cydymffurfio (fel bygwth eu gwahardd, sy'n gosb ddifrifol yn ôl Mr White); beth yw hynny os nad gorfodi.[213]

193. Felly, er bod CPWF (ac eraill) yn cefnogi mesurau gwirfoddol, mae'r arferion maen nhw'n eu hannog ymhlith eu cyd-enweirwyr o ddydd i ddydd wedi'u hategu gan fygythiad cosbau, mewn gwirionedd. A bod yn fanwl gywir, nid mesur gwirfoddol yw hwnnw o gwbl – mae'n debyg i fesur gorfodol.

194. Yn y pen draw, mae'n ymddangos mai'r hyn sydd wrth wraidd y gwrthwynebiad hwn yw gwrthwynebiad i gael eu rheoleiddio gan y wladwriaeth o gwbl, heblaw mewn amgylchiadau lle yr ystyriwyd bod y rheoleiddio hwnnw'n dderbyniol i'r gymuned enweirio a'i bod yn cytuno arno. Fel yr esboniodd Mr Lloyd yn XX:

> *Rwyf yn gwrthwynebu rheoleiddio genweirwyr gan ddefnyddio rheolau na chytunwyd arnynt mewn consensws â genweirwyr, sy'n dderbyniol i enweirwyr, ac rwyf yn credu bod y gymuned enweirio yn y sefyllfa orau i'w rheoleiddio ei hun. I raddau helaeth, dylai lunio ei rheoliadau ei hun.*[214]

195. Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i Mr Lloyd:

> ***Cwestiwn. Mae'r gwrthwynebiad yn deillio o wrthwynebiad i gael gorchymyn i wneud hynny? Dylai [genweiriwr] allu cymryd [pysgodyn] p'un a yw'n dewis gwneud hynny ai peidio?***
> *Ateb. Mae hynny'n un rhan fawr ohono.*

196. Gwrthwynebiad athronyddol i gael gorchymyn i wneud rhywbeth yw hyn, yn y bôn.[215] Yn ystod XX, roedd Mr Renwick yn glir a diamwys ynglŷn â hyn:

> ***Cwestiwn. Rydych chi'n annog yr un arferion a orfodir ond yn anghyfforddus â'r syniad y dylent fod yn orfodol, hynny yw bod y ffaith bod rhywun yn dweud wrthych beth i'w wneud yn tanseilio'r profiad?***
> *Ateb. Cytunaf*[216]

197. Mae'n ddyletswydd statudol ar CNC i reoleiddio pysgodfeydd.[217] Byddai peidio â gweithredu yn esgeuluso'r ddyletswydd honno. At hynny, nid yw'n anghyffredin i ddeddfwriaeth newydd ddenu gwrthwynebiad i ddechrau (fel cyflwyno gwregysau diogelwch gorfodol, neu hyd yn oed Is-ddeddfau'r Gwanwyn neu Is-ddeddfau Gwy, er enghraifft). Yn sicr, nid yw amhoblogrwydd o'r fath yn rheswm i beidio â rheoleiddio.

---

[213] Diwrnod 6.

[214] Diwrnod 7.

[215] Er enghraifft, derbyniwyd hyn hefyd gan Mr Eardley yn XX ar Ddiwrnod 6; Mr Lloyd yn XX ar Ddiwrnod 7; Mr Gerald John yn XX ar Ddiwrnod 8. Yn ei ddatganiad i gloi, dywedodd Mr Frey nad yw rhai genweirwyr yn cadw'r pysgod maen nhw'n eu dal, nac yn pysgota â mwydod, ac eto eu bod nhw'n gwrthwynebu'r is-ddeddfau oherwydd y ffordd y'u cynigiwyd, y broses ymgynghori, a'r syniad bod genweirwyr yn 'darged meddal'. Mae hyn yn cyfleu'r un ddadl.

[216] Diwrnod 10.

[217] Deddf yr Amgylchedd 1995, adran 6(6).

198. Dadl arall yn erbyn C&R gorfodol oedd y byddai, o reidrwydd, yn golygu rhyddhau pysgod a anafwyd yn angheuol. Mae hyn yn debygol o fod yn ddigwyddiad anghyffredin. Fel math o dystiolaeth anecdotaidd, yn ystod profiad genweirio helaeth Mr White, lladdwyd dau bysgodyn yn ddamweiniol gan fachu dwfn mewn 10 mlynedd.[218] At hynny, pan fydd hyn yn digwydd, bydd angen dychwelyd y pysgodyn er mwyn cynnal y sefyllfa deg a orfodir gan yr is-ddeddfau. Fel y dywedodd Mr Harvey yn ystod ei dystiolaeth lafar, '*Mae'n drueni na fyddai rhywun yn gallu lladd pysgodyn a oedd yn annhebygol o oroesi, ond deallwn fod rhesymau da pam y dylai hynny fod ar waith.'*[219]

199. Yn olaf, nodir nad yw'r holl wrthwynebwyr (fel Mr Gerald John) yn cytuno â C&R fel mater o egwyddor, hyd yn oed fel mesur gwirfoddol.[220] Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth wrthrychol ynglŷn â statws y stoc yn golygu bod rhaid i CNC weithredu, yn unol â'i ddyletswyddau, i atal a gwrthdroi'r dirywiad.

**Ymagwedd wedi'i thargedu**

200. Gwrthwynebiad a ailadroddwyd gan sawl gwrthwynebwr oedd bod CNC wedi defnyddio ymagwedd 'gyffredinol' at lunio'r is-ddeddfau arfaethedig. Fodd bynnag, mae CNC wedi cynnal asesiad unigol o bob afon, a lluniwyd yr is-ddeddfau arfaethedig ar y sail honno.

201. Dangosir hyn yn eglur yn Nhabl 12 y TC, sy'n rhestru statws stoc eogiaid a brithyllod y môr, yn ôl eu trefn, ym mhob prif afon unigol yng Nghymru.[221] Yn XX, dangoswyd y tabl hwn i Mr Woodford (Genweirwyr Afon Ogwen/CPWF) wrth fynd i'r afael â'r cwestiwn canlynol:

> ***Cwestiwn: Mae hyn yn dangos yn weledol bod CNC wedi asesu afonydd yn unigol a chan ddefnyddio dull nad yw'n gyffredinol – a fyddech chi'n cytuno â hynny?***
> *Ateb: Mae'n dabl sy'n dangos lefelau risg ar gyfer afonydd unigol ar sail eich asesiad stoc, ie.*[222]

202. At hynny, yn ei dystiolaeth lafar, esboniodd Mr Davidson sut oedd natur ffisegol unigol pob afon wedi bwydo i asesiadau CNC yn ystod ei Brif X:

> *'I bob pwrpas, fe edrychon ni ar natur ffisegol pob afon o rwydwaith mapio seiliedig ar gyfrifiadur, y math o afon ym mhob dalgylch, uchder, trefn nentydd, maint gwahanol nentydd...'*[223]

203. O ganlyniad i'r dull hwn o ystyried pob afon yn unigol, roedd gwahaniaethau ymarferol yn yr ymagwedd at reoleiddio pob afon. Er enghraifft, nid yw pob afon wedi'i chynnwys yng

[218] Diwrnodau 5-6. Dywedodd Mr White ei fod yn pysgota yng Nghymru o leiaf 2 ddiwrnod yr wythnos.

[219] Diwrnod 9.

[220] Diwrnod 8.

[221] CD APP/4, tudalen 86.

[222] Diwrnod 7.

[223] Diwrnod 2.

nghwmpas yr is-ddeddfau arfaethedig o ran brithyllod y môr. Gallai unrhyw frithyll y môr a ddelir ar afon Ogwen, er enghraifft, gael ei ddal a'i ladd o hyd o dan gyfundrefn yr is-ddeddfau, gan nad yw wedi'i ddosbarthu 'mewn perygl' nac 'mewn perygl yn ôl pob tebyg'.[224]

204. Nid oedd yn ymddangos bod yr holl wrthwynebwyr yn llwyr ddeall hyn, oherwydd iddynt feirniadu'r is-ddeddfau arfaethedig am fod yn 'gyfundrefn gyffredinol' dro ar ôl tro. Er enghraifft, yn ystod XX, awgrymwyd wrth Mr Renwick bod CNC wedi teilwra'r mesurau y mae'n ceisio eu cyflwyno mewn perthynas â chyflwr afonydd. Ymatebodd fel a ganlyn:

> *Gwelaf eu bod wedi dadansoddi'r afonydd, a defnyddio'r ystadegau sydd ar gael. Pan ddarllenais yr is-ddeddfau, er y defnyddiais y term 'cyffredinol' – newidiadau i fethodoleg y gellir eu defnyddio – oni bai bod CNC yn gallu diwygio'r is-ddeddfau a dweud nad ydynt yn berthnasol i'r afon hon, mae elfen o gysondeb yn berthnasol.*[225]

205. Fodd bynnag, nid yw'r is-ddeddfau arfaethedig yn berthnasol i bob afon o ran brithyllod y môr oherwydd asesir bod stoc gynaliadwy mewn rhai afonydd. Felly, yn ôl meini prawf Mr Renwick ei hun, nid yw'r is-ddeddfau arfaethedig yn 'gyffredinol' mewn unrhyw ystyr niweidiol. Yn anffodus, asesir bod stociau eogiaid yn gyson wael, ac felly, rhagnodir datrysiad cyson ar eu cyfer. Nid yw hyn yn dystiolaeth o 'ymagwedd gyffredinol'; yn hytrach, mae'n dangos pa mor ddifrifol a chyffredin yw disbyddiad presennol y stoc eogiaid.[226]

### Tegwch rhwng rhanddeiliaid

206. Byddai angenrheidrwydd y ddwy set o is-ddeddfau arfaethedig yn sicrhau bod rhywfaint o degwch rhwng y pysgodfeydd o ran bodloni'r gofynion cadwraeth hyn.

207. Er bod y ddwy set o is-ddeddfau ar gyfer rhwydi a gwialenni yn annibynnol, fe'u lluniwyd i ategu ei gilydd, gan gydbwyso buddiannau'r sectorau pysgota â rhwydi a physgota â gwialen ar yr un pryd â mynd i'r afael â'r angen sylfaenol i adfer stociau i lefelau cynaliadwy. Nid yw buddion economaidd-gymdeithasol ffafrio pysgodfeydd gwialen ar draul pysgodfeydd rhwydi, er enghraifft, yn rhan o'r dyfarniad hwn. O ran mesurau i warchod stociau eogiaid bregus – mae'r is-ddeddfau a gynigir yn ceisio polisi dim lladd ar gyfer y ddau fath o bysgodfa.[227]

### Nid yw stocio'n ddewis amgen priodol

208. Treuliwyd llawer o amser yn yr Ymchwiliad hwn yn ailystyried pwnc cyfarwydd silfeydd fel modd o stocio yn lle'r is-ddeddfau arfaethedig, neu i'w hategu. Barn arbenigwyr perthnasol, sydd heb ei herio, yw y dylid osgoi silfeydd lle mae stociau gwyllt yn bodoli (fel sy'n wir yn yr achos hwn). Mae ymagwedd CNC, y cytunwyd arni yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2014, yn cyd-fynd â safbwyntiau NASCO a'r Undeb Rhyngwladol dros

---

[224] Mae hyn yn eglur ar flaen yr is-ddeddfau: APP/33.1.

[225] Diwrnod 9.

[226] ID NRW/1R, 4.2-4.8.

[227] ID NRW/1, paragraff 9.46.

Gadwraeth Natur.[228] Ymdriniwyd â'r problemau sy'n gysylltiedig â stocio yn nhystiolaeth Mr Gough, ac yn nhystiolaeth STC.[229] Wrth gwrs, mae tystiolaeth academaidd helaeth yn bodoli hefyd sy'n gyson â safbwynt CNC.[230]

209. Ni chyflwynwyd tystiolaeth wyddonol debyg i gefnogi stocio. Ymddangosai nad oedd Mr Geoff Rothwell, sef cyn reolwr silfa a gyflwynodd yr achos o blaid stocio, wedi darllen tystiolaeth Mr Gough, na'r dystiolaeth academaidd berthnasol a gynhwyswyd yn nogfennau craidd yr Ymchwiliad.[231] Nid oedd eraill, fel Mr Nicholson, a ddadleuodd fod stocio'n briodol, wedi achub ar y cyfle i herio tystiolaeth Mr Gough trwy groesholi. Honnodd Mr Nicholson, a gydnabu nad oedd wedi ymwneud ag ymgynghoriad 2014, ei fod yn gallu cyflwyno tystiolaeth wyddonol, ond, unwaith eto, ni wnaeth hynny er gwaethaf y cyfleoedd lu a roddwyd iddo i gyflwyno tystiolaeth o'r fath.[232] Nid oes achos gwirioneddol o blaid stocio i CNC ei ateb.

**Opsiynau eraill (mwy cyfyngol)**

210. Dangosir cymesuredd yr is-ddeddfau arfaethedig ymhellach gan yr ymagweddau eraill, mwy cyfyngol, y mae CNC wedi'u hystyried.[233] Mae wedi gwrthod y dewisiadau llymach canlynol:

a. Cau afonydd yn llwyr i bysgota am eogiaid er mwyn osgoi marwolaeth weddilliol ar ôl rhyddhau. Gwnaed y penderfyniad polisi hwn ar rai afonydd yn Iwerddon.[234] Mae'n amlwg y byddai hyn yn cael effaith enfawr ar enweirwyr a rhwydwyr, ac mae CNC wedi ceisio gweithredu mesurau a fyddai'n galluogi pysgota i barhau.

b. Roedd Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod y Môr Cymru wedi annog CNC i newid y maint slot lleiaf ar gyfer brithyllod y môr o 23cm i 30cm, a fyddai'n gwarchod mwy o'r stoc brithyllod y môr mawr.[235] Mae CNC o'r farn nad oes cyfiawnhad i'r mesur hwn ar hyn o bryd ac na fyddai'n gwneud llawer o wahaniaeth i unrhyw stoc silio.[236]

c. At hynny, awgrymodd nifer o bartïon â buddiant (gan gynnwys Afonydd Cymru,[237] STC a Mr Harvey) y dylai'r defnydd o fwydod fel abwyd gael ei wahardd yn llwyr. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion ymgynghori, daeth CNC i'r casgliad y byddai gwaharddiad llwyr yn ormodol lle y ceir stociau brithyllod y môr cynaliadwy, a

[228] CD APP/4, tudalen 84.

[229] ID NRW/1, paragraffau 9.33-9.40; ID STC/1.

[230] ID ST/2,3,4; CD ACC/39.

[231] Diwrnod 10.

[232] Yn XX ar Ddiwrnod 11.

[233] CD ACC/23-30; ID NRW/1, adran 9.

[234] Ian Russell, Prif X, Diwrnod 3.

[235] ID STC/1.

[236] ID NRW/1, paragraff 8.48. Gweler paragraffau 129-132 uchod.

[237] Mae Afonydd Cymru yn ceisio gwaharddiad llwyr ar abwyd.

derbyniodd ddefnyddio mwydod i ddal brithyllod yn y rhan fwyaf o afonydd.[238] Yn ogystal, fel yr esboniwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gallai gwaharddiad llwyr ar abwyd gael effaith wahaniaethol ar enweirwyr oedrannus neu anabl a allai fod yn llai abl i ddefnyddio technegau pysgota eraill.[239]

211. Mae gan CNC y dasg anodd o gydbwyso buddiannau sy'n gwrthdaro[240]; roedd y Parchedig Cawthorne yn anghyfforddus â'r term hwn. Awgrymir bod y ffaith bod CNC wedi cael ei feirniadu o bob tu yn dangos ei fod wedi taro'r cydbwysedd yn iawn.[241]

**Yr effaith ar enweirio**

***A fydd dirywiad mewn gweithgarwch genweirio?***

212. Mae CNC yn cydnabod bod perygl y gallai'r mesurau arwain at ddirywiad mewn gweithgarwch genweirio, ac mae wedi ceisio sicrhau bod y buddion economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â genweirio yn cael eu gwarchod, i'r graddau sy'n gymesur â sicrhau'r arbedion stoc sy'n ofynnol i leihau'r pwysau parhaus arni.[242] Dechreuodd y dirywiad mewn gwerthu trwyddedau ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr sawl blwyddyn yn ôl, cyn i'r is-ddeddfau arfaethedig gael eu hystyried, ac mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y dirywiad hwn mewn trwyddedau a'r ffaith bod llai o bysgod ar gael.[243]

213. Yn ystod y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Ymchwiliad hwn, ymddangosai fod cydnabyddiaeth y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn cael effaith gymharol leiafsymiol ar atal pobl rhag genweirio. Fel yr esboniodd Mr Renwick yn ei dystiolaeth lafar, nid yw'r rhai sydd wedi ymroi i enweirio yn mynd i adael y glannau.[244] Yn hytrach, y pysgotwyr achlysurol yn unig sydd mewn perygl o gael eu hatal.

214. Gwialenwyr tymor a lleol yw mwyafrif y genweirwyr eogiaid a brithyllod y môr. At hynny, mae sylw Mr Renwick yn cyd-fynd â thystiolaeth ysgrifenedig Dr Mawle, a esboniodd, o ystyried bod mwyafrif y genweirwyr eisoes yn rhyddhau'r rhan fwyaf o'r pysgod maen nhw'n eu dal yn wirfoddol, ei fod yn disgwyl '*y bydd yr effaith yn fach.*' Yn nodedig, roedd y Parchedig Cawthorne o'r farn bod hyn '*yn fath o hurtwch'* i'r dadansoddiad hwn, a rhoddodd yr argraff ei fod yn credu ei fod yn ddoniol heb esbonio pam.[245]

215. Yn ystod XX, holwyd Mr Eardley ynglŷn ag effaith ataliol honedig yr is-ddeddfau ar weithgarwch genweirio, fel yr honnwyd gan CPWF. Ni allai Mr Eardley esbonio pam y byddai genweirwyr yn cael eu hatal, heblaw am ailadrodd mai dyna a gredai a fyddai'n

---

[238] ID NRW/1, paragraff 8.36-8.38; Gweler hefyd ffurf ddiwygiedig Is-ddeddfau Cymru Gyfan a roddwyd i'r Ymchweiliad ar Ddiwrnod 11 ID NRW/INQ/17 ar ôl i Dr Mawle amlygu gwall drafftio mewn perthynas â hyn.

[239] CD APP/30.

[240] Ymddangosai fod y Parchedig Cawthorne yn cael trafferth â'r ymadrodd hwn, o leiaf i'r graddau ei fod yn berthnasol i bobl (XX, Diwrnod 11)

[241] Cytunodd Creighton Harvey â hyn yn ystod XX ar Ddiwrnod 9.

[242] ID NRW/1R, paragraffau 2.20-2.38.

[243] ID NRW/1R, Ffigur 4.

[244] Diwrnod 10.

[245] Diwrnod 12.

digwydd, yn syml, a bod yr hyn sy'n cymell genweirwyr i bysgota yn '*gymhleth*'.[246] Gyda pharch, mae'r diffyg ymateb neu gyfiawnhad eglur mewn perthynas â'r mater hwn yn dangos natur ddisylwedd yr honiad hwn.

216. Mae enghreifftiau blaenorol o is-ddeddfau yn dangos hyn ymhellach. Pan ofynnodd yr Arolygydd iddo p'un a oedd is-ddeddfau Gwy wedi cael effaith anghymesur ar nifer y genweirwyr, ymatebodd Dr Marsh-Smith (Afonydd Cymru) fel a ganlyn:

> *Rwy'n tueddu i ystyried bod genweirwyr yn perthyn i ddau grŵp: (1) Pysgotwyr chwaraeon a (2) helwyr-gasglwyr – bydd yn cael effaith ar helwyr-gasglwyr, ond mae'n gadarnhaol i bysgotwyr chwaraeon.*[247]

217. Sut bynnag, fel y nodwyd uchod, yr hyn sy'n fwy o fygythiad i ddyfodol genweirio yw diffyg pysgod (sef yr union beth y mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael ag ef). Yn ei dystiolaeth, dywedodd Mr White, yn yr hen ddyddiau o ddigonedd pan nad oedd stociau wedi'u disbyddu cymaint, '*roedd pob pysgodyn yn cael ei ladd – nid oedd yn bwysig. Mae'n bwysig nawr.*'[248]

218. Nid oedd pob gwrthwynebwr yn fodlon cydnabod hyn. Yn ystod ei Brif X, cynigiodd Mr Karl Humphries sawl dyfaliad ynglŷn â beth oedd wedi dylanwadu ar y '*dirywiad sylweddol'* mewn gweithgarwch genweirio. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddo yn XX a allai'r dirywiad mewn ceisiadau am drwyddedau fod yn gysylltiedig â'r dirywiad yn y stoc bysgod mewn rhyw ffordd, atebodd Mr Humphries braidd yn anargyhoeddiadol trwy ddweud nad oedd ganddo farn.[249]

219. Mewn cyferbyniad, dywedodd nifer sylweddol o wrthwynebwyr a phartïon â buddiant mai diffyg pysgod oedd y rhwystr mwyaf arwyddocaol rhag genweirio:

a. Dywedodd Afonydd Cymru yn ei Brif X mai'r ffactor mwyaf a oedd yn dylanwadu ar weithgarwch genweirio oedd argaeledd pysgod.[250]

b. Dywedodd Mr Harvey, yn ei Brif X, '*Ond rydym yn ymwybodol – rwy'n gwybod o'm plant fy hun y gallaf fynd â nhw i bysgota – bod y siawns o ddal pysgodyn yn mynd yn llai ac yn llai – nid yw'r cyfleoedd yno a byddant yn llai tebygol o ymhel â'r gamp, yn syml iawn. Bydd pobl yn llai tebygol o deithio i'r ardal, os ydynt yn gwario arian mawr, i bysgota am bysgod nad ydynt yno mwyach.'*[251]

c. Yn yr un modd, dywedodd Mr Gerald John yn XX fod llawer o enweirwyr yn rhoi'r gorau iddi'n rheolaidd oherwydd eu bod yn credu bod stociau pysgod yn is.[252]

---

[246] Diwrnod 6.

[247] Diwrnod 8.

[248] Diwrnod 7.

[249] Diwrnod 11.

[250] Diwrnod 8.

[251] Diwrnod 9.

[252] Diwrnod 8.

ch. Dywedodd Mr Renwick yn XX '*ein hamgylchedd gwaethaf erioed fyddai mynd i afon lle nad oes unrhyw bysgod. Mae'n sylfaenol.'*

d. Esboniodd Dr Mawle, yn ei PoE, '*yr hyn sy'n debygol o leihau gweithgarwch genweirio, a buddion economaidd-gymdeithasol cysylltiedig, yw dalfeydd gwael fel a gafwyd yn 2018, neu'r disgwyliad ohonynt. Yn wir, mae'r ddalfa flynyddol gyfartalog â gwialen fel arfer yn cael ei hystyried yn ffactor allweddol sy'n pennu'r galw am gyfleoedd pysgota, ac felly gwerth hawliau pysgota am eogiaid…'*[253]

220. Sut bynnag, cydnabu'r AT (yn ei lythyr cydlofnodedig, dyddiedig 23 Gorffennaf 2014) '*hyd yn oed gyda C&R, bydd pysgodfeydd eogiaid Cymru, o'u marchnata'n dda, yn denu genweirwyr sy'n ymweld, fel y dangoswyd ar afon Gwy.*'[254] Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth Dr Marsh-Smith (Afonydd Cymru), a ddywedodd hefyd yn ei Brif X, o ran is-ddeddfau Gwy: '*Roedd gwrthwynebiad chwyrn ar y pryd. Ond flwyddyn yn ddiweddarach, roedd ein genweirwyr yn ymddangos yn fodlon iawn arnynt. Dechreuodd llawer ohonynt bysgota â phlu, a chawsant fwy o bleser o ganlyniad.*'[255] Nid oes rheswm pam na all yr is-ddeddfau arfaethedig ddilyn llwybr tebyg.

***Yr effaith economaidd-gymdeithasol***

221. Mae canllawiau NASCO yn pennu bod angen i effaith economaidd-gymdeithasol rheolaethau pysgodfeydd gael ei hystyried.[256] Yn gyffredinol, mae gwrthwynebwyr wedi dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd sy'n dangos, yn eu barn nhw, y bydd effaith arwyddocaol ar yr economi leol, yn enwedig o ran cau clybiau genweirio a thwristiaeth, ac maen nhw'n honni na roddwyd ystyriaeth i'r dystiolaeth hon.[257]

222. Yn XX, mynegodd Mr Woodford ei farn '*Nid yw [CNC] wedi ystyried yr effaith economaidd-gymdeithasol*.'

223. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gywir. Unwaith eto, mae'n ymddangos y tybir bod methiant i gytuno â safbwynt penodol ynglŷn â'r effaith economaidd-gymdeithasol yn golygu nad oes asesiad wedi cael ei gynnal. Fodd bynnag, cynhaliodd CNC ystyriaeth gynhwysfawr o effaith economaidd-gymdeithasol yr is-ddeddfau ar y pysgodfeydd gwialen a'r pysgodfeydd rhwydi. Mae TC CNC yn amlinellu'r ystyriaeth a roddwyd i effeithiau economaidd-gymdeithasol yr is-ddeddfau arfaethedig yn fanwl iawn.[258]

224. Yn gyffredinol, mae CNC wedi ceisio sicrhau bod y buddion economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â physgodfeydd gwialen a physgodfeydd rhwydi yn cael eu gwarchod, i'r graddau sy'n gymesur â sicrhau'r arbedion stoc sy'n ofynnol i leihau'r pwysau parhaus arni.[259] At hynny, fel yr esboniwyd uchod, disgwylir i unrhyw ostyngiad mewn

[253] GM/1.

[254] GM/4.

[255] Diwrnod 8.

[256] CD POL/11.

[257] Gweler, er enghraifft, cyflwyniad John Eardley: ID CPWF/INQ/6.

[258] CD APP/4, tudalennau 120-129.

[259] Gweler PoE Peter Gough: ID NRW/1, paragraff 9.41.

gweithgarwch genweirio fod yn gymharol fach a byrhoedlog, a chael ei wrthbwyso, sut bynnag, gan adferiad stoc.

225. Bu'n rhaid i CNC gynnal ymarfer cydbwyso, sy'n cynnwys gorfod gwarchod buddion economaidd-gymdeithasol cynhenid ehangach y stociau eogiaid a brithyllod y môr eu hunain ar gyfer y dyfodol. Mae CNC wedi ceisio achosi'r effaith economaidd-gymdeithasol leiaf niweidiol posibl, yn enwedig trwy geisio peidio â chau unrhyw afonydd i bysgota.

226. At hynny, fel yr esboniwyd gan Mr Gough yn ystod XX gan Mr Woodford, y prif ffactor sy'n effeithio ar fuddion economaidd-gymdeithasol genweirio yn y dyfodol yw argaeledd pysgod.[260] Esboniodd Mr Gough fel a ganlyn:

> *Oes, mae perygl y bydd rhai pobl yn ymateb yn y tymor byr. Fodd bynnag, yn ystod yr oddeutu 10 mlynedd diwethaf, bu dirywiad arwyddocaol yn nifer y bobl sy'n ymhêl â genweirio, sy'n adlewyrchu'r dirywiad yn y stoc sydd ar gael. Os na fyddwn yn gweithredu o gwbl, gallai'r dirywiad barhau beth bynnag. Felly, diben ein camau gweithredu, yn groes i'r hyn y mae pobl yn ei honni, yw cynyddu gweithgarwch genweirio ar raddfa amser briodol. Os na fyddwn yn gweithredu – bydd y dirywiad yn parhau….mae buddion economaidd-gymdeithasol yn dirywio. Bydd y ddau'n dirywio os na fydd unrhyw beth yn newid.*[261]

227. Yn y pen draw, felly, mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn ceisio gwarchod yr adnodd naturiol, fel y bydd pobl yn gallu parhau i bysgota â gwialen a physgota â rhwydi yn y dyfodol. Fel y datganwyd yn y TC:

> *Diben ein camau gweithredu yw gwella'r stoc fel y bydd pysgota'n cynyddu yn y dyfodol.*[262]

*Yr effaith ar bysgota â gwialen*

228. Gwnaed nifer o honiadau penodol ynglŷn ag effaith economaidd-gymdeithasol yr is-ddeddfau arfaethedig ar bysgota â gwialen.

229. Mae gwrthwynebwyr, gan gynnwys CPWF, wedi cyfeirio at werth cyffredinol pysgota â gwialen i economi Cymru. Gorbwysleisiwyd hyn mewn nifer o wahanol ffyrdd.[263] Yn arbennig, dyfynnwyd y ffigur £150 miliwn fel meintioliad o'r gwerth hwnnw. At hynny, yn ystod ei ddatganiad agoriadol, dywedodd Mr Gerald John fod pysgota o werth tebyg i economi gwledig Cymru ag allforio cig oen i'r cyfandir.[264]

230. Fodd bynnag, chwalodd Mr Gough y camdybiaethau hyn, ac esboniodd yn ystod ei Brif X:

> *'crybwyllodd rywun y ffigur £150 miliwn. Ffigur rhyfedd yw hwnnw sy'n adlewyrchu pysgota mewndirol ac arfordirol…Mae hynny'n amcangyfrif bod*

---

[260] Diwrnod 1.

[261] Diwrnod 1.

[262] CD APP/4, tudalen 120.

[263] Roedd datganiad agoriadol Mr Hulmston, er enghraifft, yn cyfeirio at y ffigur hwn (Diwrnod 1).

[264] Diwrnod 1.

*pysgota ar afonydd yn cynhyrchu tua £20 miliwn y flwyddyn mewn gwerth ychwanegol gros, a'i fod yn cynnal tua 700 o weithwyr amser llawn. Nid yw'n rhagori ar allforion cig oen nac yn cyfateb iddynt. Mae'n ffigur sylweddol. Fe allai fod yn fwy, oherwydd bu'n fwy yn y gorffennol. Rydym eisiau gwarchod ein stociau ar gyfer y dyfodol yn gynaliadwy fel bod modd i'r gwerth economaidd-gymdeithasol gael ei wella a'i gynyddu i'r eithaf'.*[265]

231. At hynny, cynhaliwyd asesiad academaidd o fuddion economaidd-gymdeithasol a buddion cymdeithasol genweirio am bysgod mudol o deulu'r eog yn rhan o'r Prosiect Brithyllod y Môr Celtaidd. Dadansoddodd CNC ei adroddiad, sef 'Pysgota am Atebion' (Sylwedd 2012) yn y TC. Yn arbennig, rhestrodd yr adroddiad chwe budd cymhleth a chydgysylltiedig:

1) Cymryd rhan mewn camp,
2) Iechyd a Lles,
3) Yr Amgylchedd Naturiol,
4) Datblygu Cymunedol,
5) Cymunedau Gwledig a Thwristiaeth Genweirio,
6) Pobl Ifanc.[266]

232. Ystyriwyd yr holl faterion hyn yn ymarfer cydbwyso CNC.

*Yr effaith ar bysgota â rhwydi*

233. Ystyriwyd yr effaith economaidd-gymdeithasol ar bysgota â rhwydi hefyd, ac fe'i dadansoddwyd yn y TC. Cyfrifodd CNC y buasai'r is-ddeddfau arfaethedig, yn 2016, wedi arwain at leihau gwerth y gwerthiant cyntaf o £46,032 i £30,901, sef gostyngiad 19% ledled Cymru. At hynny, cydnabu ymhellach na fyddai incwm yn cael ei golli'n gyfartal ar draws pysgodfeydd rhwydi nac, yn wir, o fewn y pysgodfeydd eu hunain, gan fod cyfranogiad ac ymdrech bysgota yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol rwydwyr. Fodd bynnag, byddai'r cynigion yn cael effaith fach yn unig ar fwyafrif y pysgodfeydd rhwydi.[267]

234. At hynny, dadansoddodd ac ystyriodd CNC werth treftadaeth pysgodfeydd cwrwgl Cymru, a chyfeiriodd at asesiad economaidd a gynhaliwyd gan yr EA yn 2004. Roedd casgliad CNC fel a ganlyn:

*Nid yw CNC, felly, yn credu bod y cyfuniad o fesurau a gynigir gan yr is-ddeddfau arfaethedig (h.y. dim newid i nifer y trwyddedau sydd ar gael, rheolaethau sy'n gwahardd cymryd eogiaid, newidiadau i'r tymhorau pysgota, ar yr un pryd â chaniatáu pysgota am frithyllod y môr yn ystod mi Mai, mis Mehefin a mis Gorffennaf) yn bygwth gwerth treftadaeth y pysgodfeydd cwrwgl. Nid ydym yn credu bod y gwerthoedd treftadaeth a'r buddion cymdeithasol yn dibynnu ar barhau i dargedu brithyllod y môr sy'n dychwelyd yn gynnar na chymryd eogiaid.*[268]

---

[265] Diwrnod 1. 211. Mae pysgota mewn afonydd yn cynhyrchu tua £20 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros. Mae'r ffigur hwn wedi'i seilio ar adroddiad a gomisiynodd CNC ar economeg gymdeithasol genweirio gan Dr Mawle yn 2018: CD ACC/142, tudalen 10.

[266] CD ACC/9; CD APP/4, tudalennau 118-119.

[267] CD APP/4, tudalen 120. Dywedodd Mr Randles y byddai Is-ddeddfau Cymru Gyfan yn lleihau ei incwm blynyddol 3%: ID TR/INQ/1.

[268] CD APP/4, tudalen 121.

235. Mae'r rhwydwyr cwrwgl a CNC yn cytuno bod y gwerth treftadaeth yn bwysig, ac y dylai pysgota cwrwgl gael ei warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn ystod XX, cydnabu Mr Rees y byddai angen i'r stoc gael ei hadnewyddu er mwyn i hyn ddigwydd.[269]

236. At hynny, cytunwyd hefyd y byddai'r gwerthoedd treftadaeth a'r buddion cymdeithasol yn parhau hyd yn oed pe byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn cael eu cyflwyno.[270]

237. Yn ystod eu tystiolaeth lafar, eglurodd y rhwydwyr masnachol fod un pwynt y dadleuir yn ei gylch o ran Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017. Maen nhw'n gwrthwynebu colli mis Ebrill fel mis i bysgota am frithyllod y môr, gan fod yr is-ddeddfau'n byrhau'r tymor rhwydi. Fodd bynnag, byddai mwyafrif y rhwydwyr (heblaw am Mr Davies a Mr Dalton) yn cefnogi'r is-ddeddfau fel arall.[271]

238. Amlinellir y sail i'r cynnig hwn yn nhystiolaeth Mr Gough, ac yn y TC.[272] Yn fyr, y brithyllod môr sy'n dychwelyd i afonydd ym mis Ebrill yw'r pysgod mwyaf o ran maint, a'r mwyaf ffrwythlon.[273]

239. Hanfod gwrthwynebiad y rhwydwyr yw y byddai nifer y pysgod a fyddai'n cael eu harbed ym mis Ebrill yn gymharol ddibwys i'r stoc, ond yn werthfawr yn ariannol iddyn nhw. Fel y dywedodd Mr Rees, y rhain yw'r '*pysgod mwyaf gwerthfawr*.'[274]

240. Fodd bynnag, yn ystod XX, cyfeiriwyd Mr Rees at y TC, a amlinellodd nifer amcangyfrifedig yr wyau ychwanegol a fyddai'n cael eu dyddodi o ganlyniad i gau'r pysgodfeydd rhwydi yn ystod mis Ebrill. Er enghraifft, ar afon Tywi, byddai 604,328 o wyau ychwanegol yn cael eu dyddodi yn ystod y flwyddyn gyntaf:[275]

> ***Cwestiwn. Mae nifer sylweddol iawn o wyau ychwanegol yn cael eu dyddodi o ganlyniad, yn union oherwydd bod y pysgod sy'n fwyaf gwerthfawr i chi yn werthfawr iawn yn enetig?***
>
> *Ateb. Oes... ni allaf ddadlau â'r ffaith, nid oes gennyf amddiffyniad, na gwybodaeth ystadegol i wrthwynebu.*[276]

241. Yn y pen draw, mae'n rhaid i CNC daro cydbwysedd rhwng gwerth ariannol pysgod mis Ebrill i bysgotwyr rhwydi, a gwerth genetig y pysgod i'r stoc. Derbyniodd Mr Rees yn ystod XX y byddai'r cyfnod 10 mlynedd pryd y byddai'r is-ddeddfau'n cyfyngu ar bysgota â rhwydi ym mis Ebrill yn bris sy'n werth ei dalu am adnewyddu'r stoc a fyddai, yn ei dro, yn

---

[269] Diwrnod 12.

[270] Diwrnod 12.

[271] Diwrnod 12. Mynegodd Mr Rees, Mr Harries, Mr Walters a Mr Dalton gefnogaeth amodol (yn amodol ar golli mis Ebrill).

[272] CD APP/4, tudalennau 103-107.

[273] Diwrnod 12.

[274] XX, Diwrnod 12.

[275] APP/4, tudalen 107.

[276] Diwrnod 12.

gwarchod treftadaeth pysgota cwrwgl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.[277] Mesur cymesur yw hwn. Mae CNC wedi osgoi cau'r pysgodfeydd rhwydi yn gyfan gwbl, fel sy'n wir yn Lloegr ac yn yr Alban. Nid oes rheswm, mewn egwyddor, pam na allai'r cytundeb rhesymol a gynigiwyd gan Mr Rees fod wedi cael ei dderbyn gan enweirwyr â gwialen am gyfnod dros dro.

*Buddion economaidd-gymdeithasol eogiaid a brithyllod y môr*

242. Mae eogiaid a brithyllod y môr yn adnodd naturiol gwerthfawr iawn. Mae'n bwysig cofio bod eogiaid a brithyllod y môr yn fwy nag adnodd naturiol i bysgotwyr yn unig, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n ehangach. Er enghraifft, yn ei dystiolaeth, esboniodd Mr White fod yr eogiaid yn Rhaeadr Conwy yn atyniad mawr i dwristiaid. Mae dyfodol y stociau hyn yn y fantol.[278]

243. Fel y nodwyd yn y TC, '*mae'n anodd osgoi'r casgliad bod gwarchod stociau gwerthfawr yn bwysicach o lawer nag unrhyw effaith fyrhoedlog ar weithgarwch economaidd*.'[279] At hynny, crynhodd Mr Gough safbwynt CNC yn ei Brif X fel a ganlyn: '*bydd dal a rhyddhau yn effeithiol, a bydd yn cynnal buddion economaidd-gymdeithasol.'*[280]

***Materion cydraddoldeb***

244. Mae gan CNC gyfrifoldebau cydraddoldeb statudol, ac mae wedi'u cyflawni. Cynhaliodd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.[281] Beirniadwyd yr is-ddeddfau arfaethedig, o ran eu heffaith ar gydraddoldeb, gan Mr Meyrick mewn cyflwyniadau ysgrifenedig.[282] Ymdrinnir â'r beirniadaethau hyn yn fanwl yn nhystiolaeth ysgrifenedig Mr Gough.[283]

245. Yn ei hanfod, casgliad CNC yw bod ei gynigion yn gymesur â nod dilys gwarchod stociau sydd wedi'u disbyddu'n ddifrifol. Ar ôl ystyried y materion yn ofalus cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad, diwygiodd CNC ei gynnig i wahardd defnyddio berdys a chorgimychiaid fel abwyd ar sail cydraddoldeb. At hynny, roedd pryderon ynglŷn â chyfranogiad genweirwyr anabl ac oedrannus wedi pwyso'n drwm yn erbyn gwaharddiad llwyr ar fwydod. Yr effaith gyffredinol yw cynnal cyfleoedd i enweirwyr sy'n gallu pysgota ag abwyd yn unig. Ym marn CNC, mae hyn yn golygu bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn cael effeithiau cymesur ac y gellir eu cyfiawnhau'n wrthrychol ar enweirwyr sy'n llai abl yn gorfforol.[284] Yn ogystal, a sut bynnag, bydd genweirwyr sy'n llai abl yn gorfforol (yn yr un modd â genweirwyr ifanc sy'n dechrau arni) yn gallu parhau i bysgota bras â mwydod, na fydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn effeithio arno o gwbl. Ni fyddant yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i enweirio.

---

[277] Diwrnod 12.

[278] Diwrnodau 5 a 6.a

[279] CD APP/4, tudalen 118.

[280] Diwrnod 1.

[281] CD APP/30.

[282] CD DM/1.

[283] ID NRW/1R2, paragraffau 2.1-2.8.

[284] ID NRW/1, paragraffau 4.41-4.3; ID NRW/1R2, paragraffau 2.1-2.8.

Nid yw'r honiad gan y Parchedig Cawthorne y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn lladd pysgota gêm i bobl ifanc yn wir, gan eu bod yn gallu pysgota bras.

## D. MESURAU ERAILL A GYMERIR GAN CNC

246. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn elfen gyflenwol o gyfres eang o fesurau. Cydnabyddir bod angen i'r is-ddeddfau gael eu gweithredu ar y cyd â chynigion rheoli tir ac adfer cynefin. Ymdrinnir â'r mesurau hyn yn fanwl yn nhystiolaeth Mr Vaughan.[285] Mae'r mesurau hyn yn cynnwys, er enghraifft:

i. Defnyddio ei rymoedd adnodd dŵr i reoli tynnu dŵr er mwyn sicrhau bod dŵr yn cael ei warchod, ei gynyddu a'i ailddosbarthu ac y sicrheir bod dŵr yn cael ei ddefnyddio'n briodol, ar yr un pryd â chydbwyso anghenion dilys yn erbyn anghenion amgylcheddol mewn afonydd;

ii. Trwy'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (yr WFD)[286], amlygu pryderon ynglŷn â llif a lefel mewn cyrff dŵr yng Nghymru a datblygu a darparu datrysiadau;

iii. Mabwysiadu a hyrwyddo dulliau draenio cynaliadwy mewn lleoliadau trefol a gwledig ac mewn datblygiadau newydd a phresennol. Mae hyn yn symud i ffwrdd oddi wrth ddatrysiadau diwedd pibell ac yn mynd i'r afael â dŵr ffo lle mae'n dechrau, fel bod dŵr yn cael ei gadw mewn dalgylchoedd a'i ryddhau'n araf er budd pysgod ac afonydd;

iv. Hyrwyddo'r rhaglen Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy i unioni gweithgarwch tynnu dŵr hanesyddol a allai fod yn niweidio'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys gosod sgriniau ar bwyntiau tynnu dŵr i atal pysgod rhag mynd i mewn iddynt;

v. Defnyddio ei ganllawiau ynni dŵr sydd wedi'u cynllunio'n benodol i warchod pysgod; a,

vi. Defnyddio canllawiau Coedwigoedd a Dŵr y DU i gyflawni arfer gorau o ran gweithrediadau coedwigaeth ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a dylanwadu ar y sector preifat i wneud yr un peth.[287]

247. Yn ei Brif X, esboniodd Mr Vaughan sut mae CNC yn mynd ati i ymdrin â materion amgylcheddol cymhleth ac amlhaenog. Mae CNC yn canolbwyntio ar ystyried a gweithredu nifer o wahanol fesurau, lle y bo'n briodol, i dargedu a mynd i'r afael â gwahanol elfennau o broblem benodol ar wahanol gamau ar un tro. Fel y dywedodd Mr Vaughan yn ei Brif X:

[285] ID NRW/6.

[286] CD LEG/16.

[287] ID NRW/6a.

*Mae'n rhaid i chi fynd i'r afael â'r mater lle mae'n tarddu, yn hytrach na lle mae'n diweddu. Yna, gallwch gyflwyno cyfres o ymyriadau. Rydym ni'n galw hyn yn is-haenu – rydym yn edrych ar faterion i lawr yr afon, ac yn mynd i'r afael â'r broblem mor agos i'r ffynhonnell â phosibl. Rydym ni'n ystyried yr opsiynau ac yn penderfynu pa rai sy'n ymarferol. Byddai'r datrysiad hwnnw'n cynhyrchu amrywiaeth o fuddion...cynnwys y cyfan.*[288]

248. Ymhellach, yn ystod Prif X, esboniwyd y canlynol:

***Cwestiwn. O ystyried bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn targedu pysgota â rhwydi a physgota â gwialen, ac yn gorfodi newidiadau penodol o ran y ddau o'r rhain, sut mae'r cynigion hynny'n cysylltu â'ch asesiad eich hun o'r angen i ystyried yr achos sylfaenol yn ofalus a theilwra sefyllfa i beth bynnag y bo'r achos neu'r achosion hynny?***

*Ateb. Mae'n rhan o'r grŵp hwnnw o ddatrysiadau rydym ni'n eu hystyried. Pan fyddwn wedi amlygu problem – byddwn wedi ystyried yr holl opsiynau sy'n rhan o'r cymysgedd hwnnw. Rydym yn eu hystyried, rydym yn penderfynu pa rai y gallen eu gweithredu, ac yna rydym yn gweithredu pob un o'r rhai sy'n berthnasol…ar y cyd, gallant gyflawni mwy na datrysiad unigol… Mae'n rhaid i ni ystyried pob offeryn sydd ar gael. Yn y gorffennol, rydym wedi gwneud hynny fesul tipyn ac nid ydym wedi cael digon o effaith o ganlyniad. Trwy gamu'n ôl ac ystyried y broblem yn ei chyfanrwydd, a'r opsiynau sydd gennym i ddatrys y broblem, lle bynnag y bônt, gallwn ddarparu ffordd gyflymach o ddatrys y broblem*[289]*.* (pwyslais wedi'i ychwanegu)

249. Mae'n anffodus bod CNC wedi cael ei feirniadu am ddiffyg bwriad canfyddedig i fynd i'r afael â materion o'r fath gan wrthwynebwyr, gan gynnwys yr AT, a oedd wedi cydnabod nad oeddent wedi darllen tystiolaeth Mr Vaughan.[290] Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd nifer o wrthwynebwyr at yr is-ddeddfau arfaethedig fel yr unig fesur a geisiwyd.[291]

250. Pan dynnwyd eu sylw atynt, cydnabu rhai gwrthwynebwyr y byddai'r gyfres o fesurau'n cael effaith gadarnhaol. Derbyniodd Mr Mark Frey, er enghraifft, pe byddai'r mesurau hyn yn cael eu gweithredu '*yn frwd*', fel y bwriedir gan CNC, y byddent yn sicr o wneud gwahaniaeth.[292]

251. Yn ystod XX, ac wrth gloi, mynegodd Dr Mawle rywfaint o sinigiaeth ynglŷn â'r gyfres o fesurau, ond dywedodd y canlynol:

*Efallai bod rhai pethau'n digwydd – mae gwahaniaeth rhwng gweithgarwch a chyflawniad – mae gweithredoedd o'r fath yn digwydd ond nid wyf wedi'm*

[288] Diwrnod 4.

[289] Diwrnod 4. Gweler hefyd tystiolaeth Ms Jenkins ynglŷn â chaffael ystod ehangach o rymoedd statudol CNC yn gymharol ddiweddar: ID NRW/5; Diwrnod 4.

[290] Diwrnod 7.

[291] ID CPWF/2, paragraff 12, ID AOA/1 paragraff 84, ID AR/1 paragraff 18 a 21, ID AN/1a paragraff 32.

[292] XX, Diwrnod 8.

*hargyhoeddi bod y pethau eraill hyn yn derbyn sylw – os gallwch gael y sicrwydd, yna fe gefnogaf yr Is-ddeddfau.*[293]

252. Yn ei SRPoE, rhoddodd Mr Vaughan y sicrwydd hwn, gan gyfeirio'n benodol at gyflwyniad Dr Mawle:

*Drwy gydol fy nhystiolaeth, rwyf wedi dangos bod llawer o faterion sy'n effeithio ar ein dalgylchoedd, eu hafonydd a'u pysgod. Yn ei sleid olaf, mae Dr Mawle yn amlygu chwe ffactor y mae angen gweithredu arnynt yn effeithiol ac yn brydlon, y mae un ohonynt yn berthnasol i'r Genweirwyr eu hunain. Credaf fod llawer mwy o ffactorau'n berthnasol ac rwyf wedi dangos sut mae CNC wedi amlygu'r achosion sylfaenol hyn a beth mae wedi'i wneud i ddatblygu ymagweddau a fydd yn helpu i liniaru'r problemau a'r materion a amlygwyd. Mae'n amlwg mai'r ffordd fwyaf effeithiol o warchod pysgodfeydd yw mynd i'r afael â'r holl faterion hyn. Mae angen dybryd i weithredu mesurau a rhoi amser i natur adfer cyn gynted ag y gall. Mae angen i'r holl randdeiliaid gyfrannu at gyflawni'r camau gweithredu i gael yr effaith orau. Mae CNC yn bwriadu chwarae ei ran lawn yn y gwaith hwn ac ymdrechu i annog eraill i wneud yr un peth.*[294]

253. Mae'n sicr yn bwysig i'r holl randdeiliaid gynorthwyo CNC i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol pellgyrhaeddol hyn. Yn ystod ei dystiolaeth, dywedodd Mr Lloyd ei fod wedi gweld digwyddiadau llygredd '*mor aml fel nad oes pwynt adrodd amdanynt*.'[295] Fodd bynnag, mae amlder digwyddiadau o'r fath yn golygu ei bod yn bwysicach fyth rhoi gwybod i CNC amdanynt. Wrth XX Mr Vaughan, dywedodd Mr White ei fod bob amser yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau llygredd ac esboniodd eu bod '*yn derbyn sylw yn brydlon*.'[296]

254. Bydd CNC yn parhau i geisio'r mesurau hyn i fynd i'r afael â'r problemau amgylcheddol ehangach sy'n cael effaith niweidiol ar stociau pysgod. Esboniodd Mr Vaughan yn ei Brif X:

*rydym yn deall bod rhaid i ni wneud cryn ymdrech. Mae angen cryn ymdrech i unioni'r amgylchedd. Mae'r mesurau yma yn ceisio mynd i'r afael â'r ffaith ein bod ni'n parhau i ddefnyddio'r adnodd hwnnw mewn ffordd ac ar gyflymder sy'n anghynaliadwy yn ein barn ni, a bod dulliau pysgota'n parhau y tu hwnt i ymagwedd wirfoddol i gynyddu effaith yr holl fesurau hynny. Mae'r effaith gyfunol honno'n hollbwysig.*[297]

## Dd. CASGLIAD

255. Nid ar chwarae bach y mae CNC wedi penderfynu ceisio gweithredu'r is-ddeddfau arfaethedig. Dilynodd hyn ymagwedd ar y cyd â rhanddeiliaid ac arfer barn arbenigol ar ôl ystyried y dystiolaeth berthnasol yn ofalus. Nid yw CNC yn ymddiheuro am y ffaith ei fod

[293] Diwrnod 10.

[294] ID NRW/6R2, paragraff 7.2.

[295] Diwrnod 7.

[296] Diwrnod 4.

[297] Diwrnod 4.

wedi mynd i'r afael â'r broses o ystyried a hyrwyddo newid deddfwriaethol yn sgil yr is-ddeddfau arfaethedig yn ofalus ac yn ddiwyd, gan gynnwys trwy benodi ei dîm cyfreithiol.

256. Ond, mae'n bwysig cynnal rhywfaint o bersbectif ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei gynnig. Wedi'r cyfan, byddai canlyniadau ymarferol yr is-ddeddfau arfaethedig, i lawer os nad y mwyafrif, yn gymharol gymedrol. Nid yw CNC yn cynnig atal pysgota. Nid yw CNC yn cynnig gwahardd genweirio ar unrhyw afon yng Nghymru. Byddai genweirwyr yn gallu parhau i bysgota am eogiaid a brithyllod y môr, yn ogystal â rhywogaethau eraill nad yw'r is-ddeddfau arfaethedig yn effeithio arnynt o gwbl. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig am gyfnod cyfyngedig o 10 mlynedd yn unig, gydag adolygiad ar ôl 5 mlynedd. Ac i'r mwyafrif llethol o enweirwyr a rhwydwyr (sydd eisoes yn arfer C&R gwirfoddol gyda chyfyngiadau cysylltiedig ar ddulliau), ni fydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn arwain at unrhyw newid ymarferol sut bynnag. Fodd bynnag, byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn gwneud gwahaniaeth hollbwysig i'r stoc eogiaid a brithyllod y môr sy'n lleihau yng Nghymru ar adeg pan fo angen dybryd am fesurau i atal a gwrthdroi disbyddu stoc. Felly, nid oes amheuaeth gan CNC, er gwaethaf effaith yr is-ddeddfau arfaethedig ar leiafrif bach, eu bod yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn rhesymol, o ystyried cyflwr presennol y stoc brithyllod y môr ac eogiaid yng Nghymru. Y rheswm am hyn, yn ei hanfod, yw lle mae poblogaethau'r rhywogaethau hyn yn fregus, fel y maent ar hyn o bryd, mae lladd un brithyll y môr neu eog yn fwriadol yn annerbyniol ac yn rhoi eu stociau sy'n lleihau mewn perygl uwch fyth.

257. Mae'n hollbwysig gwarchod adnodd silio pwysig eogiaid a brithyllod y môr yn yr afonydd a dargedir gan yr is-ddeddfau arfaethedig, nid dim ond er mwyn y rhywogaethau hynny ond, yn y pen draw, er mwyn y rhai sy'n dymuno parhau i bysgota amdanynt yn y dyfodol. Ond, mae CNC bob amser wedi pwysleisio bod rhaid i'r mesurau deddfwriaethol y mae'n eu cynnig gyd-fynd ag ystod o fentrau ac arferion i wella ansawdd amgylcheddol yr afonydd y mae'r rhywogaethau hyn yn byw ynddynt. Mae CNC o'r farn bod yr is-ddeddfau arfaethedig, ar y cyd â'r mesurau eraill y mae wedi'u hamlinellu, yn fodd hanfodol, angenrheidiol, rhesymol a chymesur o fynd i'r afael â phroblem ddifrifol disbyddiad y stoc eogiaid a brithyllod yng Nghymru.

258. Felly, mae CNC yn awgrymu'n barchus y dylai'r is-ddeddfau arfaethedig[298] gael eu hargymell i Ysgrifennydd y Cabinet yn Llywodraeth Cymru.

### Achos Gwrthwynebwyr ac Eraill

### Chris White ar ran CPWF

259. Sefydliad gwirfoddol yw CPWF sy'n cefnogi genweirwyr cyffredin ledled Cymru y byddent wedi'i chael hi'n anodd cyflwyno achos gerbron yr Ymchwiliad ond a oedd eisiau i'w lleisiau gael eu clywed. Gan gydnabod hyn, mae CPWF wedi cynrychioli 21 o glybiau genweirio, perchenogion glan afon a sefydliadau ledled Cymru yn yr Ymchwiliad. Mae'r sefydliadau hyn wedi rhoi eu caniatâd i CPWF eu cynrychioli ac maen nhw wedi cyfrannu at baratoi tystiolaeth CPWF.

260. I rywun lleyg, mae'r achos technegol o blaid yr is-ddeddfau arfaethedig a gyflwynwyd gan CNC yn gymhellol, fel y nodwyd yn y papur tystiolaeth[299] a gyflwynwyd gan Mr Tony

[298] Ar y ffurf ddiwygiedig a ddarparwyd i'r Ymchwiliad ar Ddiwrnod 11 NRW/INQ/17.

[299] ID WW/1

Harrington sy'n cynrychioli Dŵr Cymru ac a ddatganodd ei fod yn cefnogi cynigion CNC, lle mae'n dweud "Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â dirywiad stociau eogoaid yn gynhwysfawr ac yn gymhellol". I'r rhai nad oes ganddynt lawer o wybodaeth am bysgod mudol, a'r materion sydd wedi arwain at eu dirywiad, mae'r cynigion yn ymddangos yn gymesur; ond, nid oes tystiolaeth y bydd yr is-ddeddfau arfaethedig eu hunain yn gwrthdroi'r dirywiad hwn.

261. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan wrthwynebwyr wedi dangos eu parodrwydd i gefnogi mesurau gwirfoddol ac, wrth gyflwyno eu tystiolaeth, mae gwrthwynebwyr wedi esbonio sut mae clybiau'n gosod rheolau ar eu haelodau er mwyn gwarchod stociau pysgod, sy'n llawer mwy effeithiol nag is-ddeddfau. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i rannau unigol o afon ac yn adlewyrchu'r is-ddeddfau presennol ar gyfer y system afonydd honno, hynny yw, is-ddeddfau y cytunwyd arnynt dros flynyddoedd gyda'r asiantaeth bryd hynny.

262. Mae sail tystiolaeth CNC, fel y'i cyflwynwyd yn yr achos technegol, yn dibynnu ar y fethodoleg a'r technegau ystadegol a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y CL ar gyfer pob system afonydd. Datblygwyd y fethodoleg hon yn wreiddiol ar Afon Bush yng Ngogledd Iwerddon, sef afon sy'n dal 100% o leisiaid mudol a gleisiaid aeddfed sy'n dychwelyd, ac y gwyddys beth yw ansawdd y dŵr a'r cynhwysedd cludo h.y. mae paramedrau mewnbwn yn feintiau hysbys. Mae datblygwr y model ystadegol (sydd wedi marw erbyn hyn) yn dweud yn y papur gwreiddiol a gyhoeddwyd nad oes modd trosglwyddo'r model oherwydd y'i datblygwyd yn erbyn paramedrau mesuradwy, hysbys yn seiliedig ar un system afonydd.

263. Mae tystiolaeth CPWF[300] yn cyfeirio at rannau o bapurau technegol (W64 ac W65) a gomisiynwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd ym 1997 sy'n amlygu'n glir y diffygion mewn methodoleg a ddatblygwyd ar gyfer un system afonydd â pharamedrau hysbys, sef afon Bush yn yr achos hwn. Yr hyn sy'n fwyaf arwyddocaol yw'r dybiaeth fod ansawdd dŵr yn ddilychwin a goroesiad morol yn hysbys, y mae'r ddau ohonynt yn cael effaith arwyddocaol ar y camgymeriad a gynhyrchir gan y fethodoleg hon. Mae plotio cromlin atchwel i ddangos dyddodi wyau yn seiliedig ar ddata mewnbwn y dangoswyd ei fod yn ddiffygiol yn ein tystiolaeth ni, yn codi amheuon difrifol ynglŷn â phenderfyniad CNC i seilio'r is-ddeddfau arfaethedig ar hyn gan ei fod yn dangos bod y rhan fwyaf o afonydd 'Mewn Perygl' neu 'Mewn Perygl yn Ôl Pob Tebyg' o fethu â bodloni eu CL ymhen pum mlynedd. Mae achos technegol CNC wedi'i seilio ar ragamcanu'r llinell atchwel hon ar gyfer y dyfodol ac, yn hanesyddol, canfuwyd bod hyn yn annibynadwy.

264. Mae dadansoddiad CPWF[301] o gywirdeb "rhagfynegiadau" 5 mlynedd CNC o statws stoc (rhagfynegiadau ar gyfer y llinell atchwel wedi'i phlotio) yn afonydd Cymru yn seiliedig ar gofnodion dal genweirwyr yn ystod y pedair blynedd o 2013 i 2016 yn dangos anghywirdebau o ran cofnodon dal, gan fod dim ond: 41% yn gywir yn 2013, 41% yn gywir yn 2014, 27% yn gywir yn 2015, a 18% yn gywir yn 2016.

265. Mae CNC yn cydnabod diffygion a gwallusrwydd dilynol y model CL presennol ac, yn ei ddogfennau tystiolaeth wrthbrawf[302], mae CNC yn darparu dolen i bapur ymchwil: ICES Journal of Marine Science, Cyfrol 73, Rhifyn 6, 1 Mehefin 2016, Tudalennau 1513–1524, sy'n disgrifio methodoleg fwy cywir ar gyfer rhagfynegi CL. Cyhoeddwyd y papur hwn

[300] ID CPWF/2 (tudalennau 29 a 30)

[301] ID CPWF/2 (tudalen 18)

[302] ID NRW/2R/C

gyntaf ym mis Mawrth 2016, ac felly roedd ar gael i CNC cyn y cyflwyniad i Fwrdd CNC ym mis Ionawr 2018. Pe byddai'r fethodoleg ddiwygiedig hon wedi cael ei chyflwyno i Fwrdd CNC ym mis Ionawr 2018, fe allai fod wedi darbwyllo'r Bwrdd i ohirio ei benderfyniad cyn i'r fethodoleg ddiwygiedig gael ei phrofi. Mae CNC wedi cydnabod yr angen i adolygu'r fethodoleg CL ac yn dweud y bydd yn gweithio gyda'r EA a CEFAS ar fethodoleg ddiwygiedig ac yn adolygu'r sefyllfa ymhen 5 mlynedd pan fydd methodoleg newydd wedi cael ei mabwysiadu.

266. Aeth cwnsler CNC allan o'i ffordd i ddrysu tystiolaeth Mr Ashwin, gan honni bod Mr Ashwin yn cyflwyno tystiolaeth newydd wrth geisio disgrifio model ystadegol cymhleth iawn. Yn yr un modd, cwynodd Cwnsler CNC fod yr asesiad annibynnol o'r fethodoleg a gynhaliwyd gan Dr O'Hagan a Dr Fop, sef ymgynghorwyr Dulyn, yn annerbyniol gan na allai Mr Ashwin ddarparu llythyr cyfarwyddo a oedd yn cynghori Dr O'Hagan a Dr Fop yn glir bod y llinell atchwel CL bresennol wedi'i seilio ar fethodoleg Bayesaidd.

267. Yn ei dystiolaeth lafar, esboniodd Mr Barry, sef ystadegydd a gyflogwyd gan Cefas, fod gwahaniaethau yn y fethodoleg ystadegol yn ddadl rhwng academyddion ynglŷn â'r dull mwyaf priodol a'i fod ef, yn bersonol, yn cefnogi'r model presennol. Ym mhapur O'Hagan a Fop[303], maen nhw'n argymell defnyddio methodoleg seiliedig ar amser, ac mae llawer o'r hyn a argymhellwyd gan O'Hagan a Fop wedi'i gymhwyso yn y ddolen i'r fethodoleg ddiwygiedig[304]. Mae'r fethodoleg ddiwygiedig hon hefyd yn defnyddio efelychiad Monte Carlo a ddefnyddiwyd i fodelu tebygolrwydd gwahanol ganlyniadau mewn proses na ellir ei rhagfynegi'n rhwydd o ganlyniad i ymyriad hapnewidynnau. O ganlyniad i'r hapnewidynnau a ddefnyddiwyd yn y fethodoleg bresennol, mae CNC yn plotio graff fel 'ffit orau' yn seiliedig ar gromlin ddamcaniaethol a adwaenir fel cromlin Ricker. Amcan call yn unig yw'r ffit orau hon, ac nid yw hynny'n sail i gyflwyno deddfwriaeth arni heb sôn am ei defnyddio fel esgus i guddio y tu ôl i 'ymagwedd ragofalus'.

268. Yn syml, mae'r model ystadegol presennol yn ddiffygiol h.y. mae sbwriel i mewn yn golygu sbwriel allan. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i newidynnau mewnbwn wedi'u seilio ar ddata ansicr sy'n dibynnu ar y dybiaeth fod ansawdd dŵr yn ddilychwin a bod cofnodion genweirwyr ynglŷn â dalfeydd â gwialen yn gywir. Nid yw'r fethodoleg bresennol yn ystyried newidynnau fel digwyddiadau llifogydd, llygredd ac ysglyfaethu, ac mae'n tybio rhaniad rhwng Eogiaid a fu yn y Môr am Flwyddyn sy'n Bwydo yn y Gaeaf (1SW) ac Eogiaid a fu yn y Môr am Sawl Blwyddyn sy'n Dychwelyd yn y Gaeaf (MSW), nad yw'n ddilys mwyach o ganlyniad i newidiadau yn yr amgylchedd morol. Yn ei broflen dystiolaeth, mae Mr Davidson[305] yn amlygu'r newid yng nghyfansoddiad eogiaid sy'n dychwelyd o eogiaid 1SW i MSW, ac eto nid yw hyn wedi'i gynnwys, ar hyn o bryd, wrth gyfrifo'r CL h.y. mae mwy o wyau'n cael eu dyddodi oherwydd bod mwy o bysgod MSW yn dychwelyd i'n hafonydd.

269. Mae Afon Dyfrdwy yn gwrs dŵr a addaswyd yn sylweddol oherwydd bod yr afon yn cael ei defnyddio fel sianel i gludo dŵr o gronfa ddŵr Celyn i orsafoedd pwmpio. Defnyddir Afon

[303] ID CPWF/2 tudalennau 50-56

[304] ID NRW/2R/C

[305] ID NRW/2 tudalen 13 paragraffau 3.21 a 3.22

Dyfrdwy fel afon fynegai[306], ac felly defnyddir asesiadau o CL ac allbwn gleisiaid fel meincnodau ar gyfer afonydd eraill yng Nghymru. Felly, mae unrhyw wallau yn asesiad Dyfrdwy yn cael eu hailadrodd ym mhob afon yng Nghymru. Mae Mr Ashwin, ar ran CPWF, yn ymdrin â'r mater hwn yn ei ddatganiad i gloi.

270. Ym mhroflen dystiolaeth Mr Gough[307], cydnabyddir bod llawer o stociau pysgod mudol wedi bod yn dirywio yn ystod y degawd diwethaf (nid yw CPWF yn herio hyn), a hynny er gwaethaf yr ymateb gan enweirwyr, y mae mwy a mwy ohonynt wedi dychwelyd yr eogiaid maen nhw'n eu dal yn wirfoddol[308]. Dylid nodi, er bod genweirwyr wedi ymateb yn ystod y degawd diwethaf, na fu llawer o ymateb, neu ddim ymateb o gwbl, gan CNC na'i asiantaethau rhagflaenol i amlygu a chymryd camau cadarnhaol i wrthdroi'r dirywiad hwn h.y. mae CNC a'i asiantaethau rhagflaenol wedi methu â chyflawni eu dyletswydd statudol i 'gynnal pysgodfeydd', gan ddibynnu ar enweirwyr i weithredu yn unig. Mae CNC bellach yn dibynnu'n drwm ar ymagwedd ragofalus o ganlyniad i'w ddiffyg tystiolaeth wrthrychol mewn ymgais i guddio ei fethiannau o ran cynnal pysgodfeydd ar yr un pryd â derbyn nad ymelwa gan enweirwyr yw'r broblem.

271. Yn ei broflen dystiolaeth, mae Mr Gough yn dweud bod rhesymeg yn awgrymu os bydd mwy o bysgod yn cael eu harbed, y bydd hynny'n cynyddu'r adnodd silio, gan arwain at gynhyrchu mwy o bysgod ifanc. Er bod hyn yn ymddangos yn ddadl resymegol, nid yw wedi'i hategu gan dystiolaeth.

272. Mae tystiolaeth CNC[309] yn cynnwys tabl sy'n dangos y gyfradd ymelwa a'r gyfradd dal a dychwelyd ar afon Dyfrdwy rhwng 1992 a 2017. Mae'r tabl hwn, yn yr un modd â sawl un arall yn nhystiolaeth CNC, yn gamarweiniol gan fod y gyfradd ymelwa wedi'i seilio ar gofnodion dal datganedig (pysgod a ddaliwyd gan enweirwyr) ac nid yr ymelwa wedi'i seilio ar nifer amcangyfrifedig yr eogiaid sy'n mynd i mewn i'r afon. Nid yw genweirio hamdden yn ddull effeithlon o ddal pysgod mudol. Amcangyfrifir bod genweirwyr yn dal rhwng 10% a 15% o'r eogiaid sy'n mynd i mewn i'n hafonydd, ac amcangyfrifodd Mr Davidson (CNC) y gall hyn fod mor uchel ag 20% mewn rhai blynyddoedd. Roedd tystiolaeth CPWF yn cynnwys sleidiau[310] i ddangos y materion craidd, ac yn sleid 5, defnyddiwyd data o un o daenlenni CNC i ddangos cyfraddau dal eogiaid yn ystod 2016. O'r sleid hon, a chan dybio bod genweirwyr yn dal 15% (mae'r cyfartaledd yn fwy tebygol o fod yn 12%) o gyfanswm nifer yr eogiaid sy'n mynd i mewn i afonydd Cymru, gellir dangos, yn 2016, bod yr ymelwa gan enweirwyr yn cyfateb i gyfradd ymelwa o 3% (dim ond 50% o'r rhain fyddai'n hwyfellod). Yn ei gyflwyniad llafar, awgrymodd Dr Mawle fod y gyfradd ymelwa rhwng 3% a 4% ar afon Wysg. Ar sail afonydd unigol, gan ddefnyddio data 2016, mae'r gyfradd ymelwa ar gyfer pob afon yn amrywio rhwng 1% ac 8% h.y. mae mwy na digon o bysgod yn goroesi i silio, a'r colledion yn yr afon yw'r hyn y mae angen mynd i'r afael ag ef. Er bod genweirwyr yn gallu cynorthwyo â'r broses hon, ac yn gwneud hynny, trwy fesurau

[306] ID CPWF/2 tudalen 3

[307] ID NRW/1 9.13, 9.14, 9.24, 9.25, 9.26

[308] ID CPWF/2 tudalen 25

[309] ID NRW/8C

[310] IDCPWF/INQ/5

gwirfoddol, nid nhw yw prif achos y dirywiad, a chydnabyddir hyn gan CNC[311] a Cefas[312]. Mae Ffigur 1 'O'r Ŵy i'r Môr ac yn Ôl' yn nhystiolaeth CPWF (tudalen 7) yn dangos ble mae'r colledion mawr yn digwydd.

273. Byddai mynd i'r afael â cholledion mewn afonydd, y mae CNC wedi amlygu'n glir ei fod yn broblem fawr, yn cael effaith fwy o lawer ar wrthdroi'r dirywiad mewn stociau pysgod. Yn ei thystiolaeth[313], mae Ms Jenkins yn honni bod yr is-ddeddfau arfaethedig wedi'u bwriadu i warchod adnoddau bridio hollbwysig tra bod materion eraill sy'n llethu ansawdd amgylcheddol yn derbyn sylw. Prin bod ymelwa ar 3% o'r stoc silio gan enweirwyr yn ormodol, ac mae'n annhebygol o ddisbyddu'r 'adnoddau bridio hollbwysig' gan fod genweirwyr yn dal 15% yn unig o'r pysgod aeddfed sy'n dychwelyd, ar y gorau, h.y. mae 85% o'r 'adnodd hollbwysig' heb ei gyffwrdd.

274. Wrth ymateb i awgrym bod nifer o lyfrynnau gloyw wedi cael eu cynhyrchu yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf heb lawer o gamau gweithredu, neu ddim o gwbl, yn deillio ohonynt, cadarnhaodd Ms Jenkins y gallai camau gael eu cymryd dim ond gyda chyllid ac adnoddau gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod croesholi, wrth ymateb i'r cyfeiriad gan Ms Jenkins at hamdden a mynediad, gofynnwyd iddi a fyddai cyfyngiadau'n cael eu gosod ar weithgareddau antur ar afonydd, o dan yr ymagwedd ragofalus, o ganlyniad i'r aflonyddu parhaus ar bysgod sy'n silio, sy'n cael effaith arwyddocaol ar recriwtio pysgod ifanc. Mae hyn wedi'i gynnwys yn nhystiolaeth CPWF[314] i ddangos ymdrechion i annog CNC a'i asiantaeth ragflaenol i warchod pysgod sy'n silio dros fwy na 10 mlynedd. Mae'r niwed a wneir trwy aflonyddu ar bysgod yn eu hardaloedd silio yn cael effaith fwy o lawer ar recriwtio nag ymelwa gan enweirwyr, sef mater yr ymdriniwyd ag ef mewn cyfarfod gyda Phennaeth Pysgodfeydd Mewndirol LlC yn 2014. Yn lle gwarchod safleoedd silio, mae CNC yn annog aflonyddu o'r fath o ganlyniad i'r cyngor anghywir a roddir ar ei wefan. Mae'r cyngor hwn wedi'i seilio ar afon Gwy ac nid yw'n dderbyniol ar y nentydd silio llai o lawer yng ngogledd Cymru. Mae canfyddiad bod yr is-ddeddfau'n ymwneud yn fwy â gyrru genweirwyr oddi wrth yr afonydd dŵr gwyn yng ngogledd Cymru i alluogi mwy o ddefnydd gan gwmnïau gweithgareddau antur ni waeth beth fo'r effaith ar recriwtio pysgod mudol. Pe byddai'r is-ddeddfau'n cael eu cymhwyso yn erbyn genweirwyr, o dan yr ymagwedd ragofalus, mae'n dilyn bod y rhain yn cael eu hymestyn i'r holl weithgarwch ymwthiol ar afonydd lle mae pysgod mudol yn silio rhwng mis Tachwedd a diwedd mis Ionawr y flwyddyn ganlynol.

275. Yn ei dystiolaeth, mae Mr Vaughan[315] yn amlygu'n eithaf clir y meysydd rheoli tir y mae angen mynd i'r afael â nhw, a bod LlC yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i fynd i'r afael â hyn. Ni fydd unrhyw ddeddfwriaeth trwy LlC yn dod i rym tan 2020 ar y cynharaf a, hyd yn oed wedyn, bydd cyfnod gweithredu fesul cam. Os yw'r is-ddeddfau arfaethedig yn parchu'r 'ymagwedd ragofalus', fel y mynegir yn barhaus, pam nad yw llygredd amaethyddol, sy'n achosi cymaint o ddifrod i'r amgylchedd dyfrol, wedi derbyn sylw yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf? Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod sefydliadau genweirio wedi amlygu hyn fel un o achosion sylfaenol y dirywiad mewn stociau pysgod yn ystod y

[311] ID NRW/4 tudalen 11, paragraff 5.8

[312] ID NRW/4b Atodiad 1 paragraff 7

[313] ID NRW/5 paragraff 2.3

[314] ID CPWF/2 Gorfodi, tudalen 38

[315] ID NRW/6

cyfnod hwn. Mae'n ymddangos ei bod yn gyfleus defnyddio'r ymagwedd ragofalus fel esgus i osod deddfwriaeth i guddio diffyg CNC a'i asiantaethau rhagflaenol i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn stociau pysgod mudol yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf.

276. Wrth holi gwrthwynebwyr, cyfeiriodd yr Arolygydd sawl gwaith at gyfres o fesurau arfaethedig gan LlC i ategu'r cynigion ar gyfer yr is-ddeddfau arfaethedig, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r gred bod y cynigion hyn wedi'u cynllunio i ategu'r is-ddeddfau, yn hytrach, cyd-ddigwyddiad cyfleus yn unig ydyw y gallent wneud hynny. Wrth holi Dr Marsh-Smith, gofynnodd yr Arolygydd a oedd yn ymwybodol o'r cynigion yn nhystiolaeth Mr Vaughan, ac atebodd Dr Marsh-Smith trwy ddweud bod cyfres o fesurau'r is-ddeddfau arfaethedig yn 'ddyheadol' yn unig ac amser a ddengys a fydd yr addewidion hyn yn cael eu gwireddu. 'Does dim dwywaith y gallai lleihau llygredd amaethyddol trwy ddeddfwriaeth rheoli tir yn ddetholus wella recriwtio pysgod mudol, ond mae tipyn o ffordd i fynd o hyd cyn i hyn gael ei gymhwyso a bydd yn cymryd hyd yn oed mwy o amser iddo ddod yn effeithiol. Nid yw hyn yn gyfiawnhad dros gymhwyso ymagwedd ragofalus yn erbyn genweirwyr yn unig, sy'n cael yr effaith leiaf ar stociau pysgod. Yn syml, mae genweirwyr yn 'darged meddal'.

277. Er bod rhai genweirwyr yn dewis dychwelyd yr holl eogiaid maen nhw'n eu dal yn wirfoddol, nid yw hyn bob amser yn bosibl o ganlyniad i niwed neu straen wrth lanio pysgodyn, sy'n arwain at farwolaeth. Mae'r rhai sy'n arfer C&R yn wirfoddol yn gwneud hynny'n ofalus iawn i osgoi unrhyw niwed diangen, ond efallai na fydd y rhai sy'n cael eu gorfodi gan ddeddfwriaeth i ddychwelyd eu pysgod yn defnyddio'r un gofal. Nid yw dychwelyd pysgodyn marw i'r afon yn gwella'r stoc silio mewn unrhyw ffordd. Os gellir dangos yn ddiwrthbrawf bod stociau eogiaid mewn afon ar drengi, dylid gwahardd pysgota am eogiaid yn llwyr ar afonydd, er y byddai angen adnoddau sylweddol i warchod afonydd o'r fath rhag potswyr. Wrth groesholi Mr Gough a Mr Russell, gofynnwyd i'r ddau a oedd stociau eogiaid mewn unrhyw afon yng Nghymru ar drengi, ac atebodd y ddau trwy ddweud nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw afon lle'r oedd eogiaid ar drengi. Yn syml, maen nhw'n cyfeirio at y llinell atchwel CL sy'n rhagfynegi y gallai hyn ddigwydd.

278. Yn ei dystiolaeth lafar ar ran Cefas, defnyddiodd Mr Barry siart troi i ddangos y rhesymeg wrth wraidd yr ymagwedd ragofalus, a dywedodd er ei fod yn derbyn efallai nad yw'r rhagfynegiadau ystadegol yn gywir, ei bod yn well bod yn rhagofalus. Y broblem â'r ymagwedd hon yw'r effaith economaidd ddiangen sy'n digwydd o ganlyniad i ddilyn y ffordd honno o weithredu. Mae pob system afonydd yn unigryw a dylai gael ei hasesu ar lefel leol gan ystyried yr holl newidynnau h.y. cyfnodau o sychder/llifogydd/ysglyfaethu gan adar, ac ati, sydd oll yn cael effaith arwyddocaol ar stociau pysgod mudol.

279. Yn ei broflen dystiolaeth[316], mae Mr Gough yn nodi y byddai gwelliannau i ansawdd cynefin yn fwy effeithiol os oes mwy o bysgod sy'n silio i fanteisio arnynt. Mae pysgota C&R statudol llawn am eogiaid a brithyllod y môr ar bob adeg wedi bod ar waith ar afonydd Taf a Gwy ers y 7 mlynedd diwethaf ond nid yw stociau pysgod mudol wedi adfer llawer, os o gwbl. Nid oes tystiolaeth y bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn gwrthdroi'r dirywiad. Mae'r gwelliannau ar afon Gwy yn deillio'n bennaf o welliannau i gynefin a dileu rhwystrau.

[316] ID NRW/1 9.13, 9.14, 9.24, 9.25, 9.26

280. Wrth i Dr Marsh-Smith[317] gael ei groesholi gan Mr John (gwrthwynebwr) ynglŷn â dileu rhwystr ar un o isafonydd afon Gwy ac effeithiolrwydd hynny, atebodd Dr Marsh-Smith drwy ddweud bod 5 cladd (redd) wedi cael eu gweld uwchben y rhwystr a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf, a bod mwy o gladdau wedi cael eu gweld o flwyddyn i flwyddyn. Cofnodwyd uchafswm o 33 cladd yn yr ardaloedd silio newydd a oedd ar gael, ac eto mae afon Gwy wedi'i dosbarthu'n afon sydd 'Mewn Perygl yn Ôl Pob Tebyg', ond rhagfynegir y bydd yn un 'Nad yw mewn Perygl' o fewn y 5 mlynedd nesaf yn seiliedig ar flaenragamcanu'r gromlin atchwel. Gosodwyd cyfyngiadau abwyd ar afon Gwy yn ogystal â chyfyngiadau C&R, ond nid yw'r naill na'r llall wedi arwain at welliant sylweddol eto o ran gwrthdroi'r dirywiad mewn stociau pysgod mudol yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, ac mae unrhyw welliant bach yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â gwella cynefin a dileu rhwystr. Mae afon Gwy yn dioddef llygredd amaethyddol a siltio, yn yr un modd ag afonydd eraill yng Nghymru.

281. Yn ei dystiolaeth, mae Mr Gough yn dweud bod rhai elfennau o stociau eogiaid a rhai brithyllod y môr wedi parhau i ddirywio er gwaethaf y rheolaethau C&R hyn, h.y. nid oes tystiolaeth o'u heffeithiolrwydd. Yn nodweddiadol, mae heriau i effeithiolrwydd C&R a chyfyngiadau ar ddulliau yn ysgogi'r ymateb canlynol gan CNC, "nid ydym yn gwybod cymaint yn waeth y buasai wedi bod pe na byddai'r cyfyngiadau wedi cael eu cymhwyso"; barn yn unig yw hyn ac nid tystiolaeth.

282. Yr hyn sydd wedi camystumio'r CL yn y rhan fwyaf o afonydd yw'r dirywiad[318] yn yr eogiaid 1SW (gleisiaid), oherwydd safleoedd a ddefnyddir yn bennaf gan eogiaid 1SW yw llawer o'r safleoedd electrobysgota. Nid yw effaith dileu rhwystrau uwchben rhai o'r safleoedd cyfeirio electrobysgota wedi cael ei hystyried h.y. bydd pysgod mudol yn teithio ymhellach i fyny'r nentydd silio pan fydd y rhwystrau wedi cael eu dileu, sy'n golygu na fydd eu safleoedd silio gwreiddiol yn cael eu defnyddio digon. Byddai mynd i'r afael â cholledion mewn afonydd, y mae CNC wedi amlygu'n glir ei fod yn broblem fawr, yn cael effaith fwy o lawer ar wrthdroi'r dirywiad mewn stociau pysgod.

283. Yn ei broflen dystiolaeth, mae Mr Gough yn dod i'r casgliad bod cynnydd yn nifer y pysgod MSW yn dystiolaeth o effeithiolrwydd C&R a chyfyngiadau ar ddulliau. Ar ôl 20 mlynedd o C&R gorfodol o dan y Rheoliadau Eogiaid Cenedlaethol, pe byddai hynny'n wir, ni fyddai ein hafonydd yn cael eu datgan 'Mewn Perygl', felly nid oes tystiolaeth fesuradwy i gefnogi'r farn hon. Ymatebodd Mr Gough yn aml yn ei dystiolaeth lafar trwy ddweud 'Credwn', ond barn yn unig yw cred ac nid tystiolaeth.

284. Er y bu cynnydd yn nifer yr eogiaid MSW, mae'r rhesymau wrth wraidd hyn yn aneglur ac yn gymhleth. Mae tystiolaeth Mr White (Sleid 18 a Thudalen 27 yn ei broflen dystiolaeth) yn cynnwys graff a gymerwyd o gyflwyniad gan Dr Nigel Milner sy'n dangos amrywioldeb dalfeydd eogiaid mewn 7 afon yng ngogledd Cymru, a honnir bod y graff hwn yn dangos effaith rhwydi Drifft Iwerddon ar y dirywiad yn nifer yr eogiaid mewn afonydd yng Nghymru. Yn ystod croesholi, gofynnwyd i Mr Russell a fyddai dileu rhwydi mewn afonydd yn cael unrhyw effaith ar nifer y pysgod sydd ar gael i silio, a chytunodd y byddai dileu rhwydi mewn afonydd yn cael effaith. Yna, gofynnwyd iddo pam, yn sgil y ffaith bod rhwydi wedi'u dileu ar afonydd Clwyd a Dyfrdwy, na fu gwelliant mewn dalfeydd â gwialen nac, o ran hynny, gwelliant yn y CL. Nid oedd ateb i hyn. Yn hanesyddol, roedd afon

[317] CD ACC/2

[318] CD APP/4 tudalen 18 paragraff 4

Dyfrdwy yn cynnal o leiaf 21 o rwydwyr a laddai'r holl eogiaid yr oeddent yn eu dal. Bryd hynny, byddai genweirwyr yn lladd popeth yr oeddent yn ei ddal hefyd, ac eto gallai'r afon gynnal ymelwa o'r fath raddau. Mae'r rhesymau dros y dirywiad parhaus mewn stociau pysgod mudol wedi cael eu cydnabod yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan CNC, ac eto, ar hyn o bryd, nid yw'r materion hyn yn derbyn sylw, dim ond mwy o lyfrynnau gloyw gydag addewidion gwag.

285. Ni fydd yr is-ddeddfau'n cael unrhyw effaith ar wrthdroi'r dirywiad, hyd yn oed os eir i'r afael ag achosion sylfaenol y dirywiad. Fodd bynnag, mae tystiolaeth eglur fod genweirwyr wedi ymateb trwy fesurau gwirfoddol y gellir eu gwella ymhellach trwy gydweithio. Mae CNC yn gwybod ble nad yw genweirwyr yn bodloni'r gyfradd ryddhau 90% sy'n ofynnol. Yn hytrach na buddsoddi mymryn o gost yr Ymchwiliad hwn mewn addysg a chydweithio, mae CNC wedi dewis llwybr cyfwynebol ac, yn dilyn yr ymgynghoriad, wedi anwybyddu'r gwrthwynebiadau a dilyn yr opsiwn a ffefrir gan CNC, gan wybod yn ddigamsyniol na fydd yn cyflawni'r amcan a ddymunir.

286. Yn ei dystiolaeth, mae Mr Randles[319], sef rhwydwr a arferai weithredu ar Afon Dyfrdwy ac sydd bellach yn gweithredu trwydded ar Afon Conwy, yn esbonio ei fod wedi negodi gyda Chymdeithas Pysgodfeydd Dyfrdwy yn y flwyddyn 2000 i ddileu 21 o rwydi oddi ar Afon Dyfrdwy. Nid yw'r rhwydi hyn wedi gweithredu ers 2008 yn dilyn gorchymyn cyfyngu ar rwydi 10 mlynedd a ymestynnwyd am 10 mlynedd arall yn 2018. Er bod y rhwydi masnachol hyn wedi cael eu dileu oddi ar Afon Dyfrdwy, ni fu gwelliant amlwg yn nifer yr eogiaid sy'n dychwelyd. Yn yr un modd, ni fu adferiad yn Afon Clwyd ar ôl i Ffederasiwn Genweirwyr Clwyd brynu rhwydi'n gyfan gwbl rhyw 10 mlynedd yn gynharach nag ar Afon Dyfrdwy. Er bod Afon Dyfrdwy y tu allan i gwmpas cynigion yr is-ddeddfau hyn (ar hyn o bryd), gan ei bod yn afon drawsffiniol, mae tystiolaeth Mr Randles yn dangos bod dileu rhwydi'n cael effaith leiafsymiol ar adfer stociau pysgod.

287. Wrth iddo gael ei groesholi, gofynnwyd i Mr Russell a oedd y cynnydd yn nifer y pysgod MSW sy'n dychwelyd i afonydd Cymru yn gysylltiedig â diwedd pysgota rhwydi drifft Iwerddon. Ymatebodd Mr Russell trwy ddweud bod rhwydi drifft Iwerddon yn dal gleisiaid (pysgod 1SW) yn bennaf, ac er y gallai hyn fod yn wir am rwydi drifft aberol Iwerddon, efallai nad yw'n wir am rwydi drifft môr mawr Iwerddon. Mae tagiau gwobrwyo a ddychwelwyd gan rwydwyr Gwyddelig a gymerwyd oddi ar eogiaid a dagiwyd yn silfa Maerdy yng ngogledd Cymru yn dangos yn glir bod eogiaid a oedd ar eu ffordd i afonydd Cymru yn cael eu dal oddi ar arfordir Iwerddon am gyfnod o oddeutu 20 mlynedd. Mae ymelwa ar yr eogiaid hyn yn cyd-fynd â dechrau'r dirywiad difrifol yn nifer yr eogiaid mewn afonydd yng Nghymru.

288. Nid oes tystiolaeth fod pob afon yng Nghymru yn profi dirywiad difrifol neu debyg. Dangoswyd diffygion defnyddio llinell atchwel (sy'n seiliedig ar amcangyfrif dyddodi wyau) i ragfynegi asesiad stoc 5 mlynedd yn y dyfodol. Mae strategaeth oroesi eogiaid yn cyfrif am amodau silio gwael a digwyddiadau tywydd gwael, oherwydd bod brithyllod brych (*parr*) yn aros yn eu nentydd silio am 1, 2 neu 3 blynedd, ac, yn yr un modd, mae pysgod aeddfed yn aros yn y môr am 1, 2 a 3 gaeaf h.y. mae pysgod aeddfed yn y môr bob amser i gynnal y rhywogaeth. Mae'r strategaeth hon yn arwain at amrywioldeb dalfeydd

[319] ID TR/INQ/1

genweirwyr, fel y dangosir yn y graff gan Dr Nigel Milner a ddefnyddiwyd yn nhystiolaeth CPWF. Gallai stociau eogiaid adfer yn gyflym o gael afonydd dilychwin a llai o ysglyfaethu.

289. Mae'n rhaid i afonydd gael eu hasesu'n unigol gan nad oes dwy afon yr un fath. Ar hyn o bryd, mae 10 set ranbarthol o is-ddeddfau gyda dyddiadau dechrau a gorffen gwahanol ar gyfer pysgota[320]. Yn ogystal, mae cyfyngiadau ychwanegol sy'n cydnabod bod pob afon yn unigryw. Mae clybiau genweirio a pherchenogion glannau afon yn cydnabod yr is-ddeddfau lleol hyn a'r gwahaniaethau yn y rheolau maen nhw'n eu gosod ar enweirwyr sy'n pysgota yn eu dyfroedd. Honnodd Mr Gough y byddai cyflwyno is-ddeddfau 'Cymru gyfan' yn haws i enweirwyr eu deall gan y byddai un set o reolau ledled Cymru, ond nid yw hyn yn gysylltiedig â chadwraeth eogiaid. Mae genweirwyr lleol yn llwyr ddeall yr is-ddeddfau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw ac mae aelodaeth â'u clybiau'n atgyfnerthu'r is-ddeddfau hyn yn rheolau'r clwb.

290. Roedd y Cwnsler a oedd yn cynrychioli CNC wedi drysu rhywfaint oherwydd, wrth groesholi Mr Woodford, a esboniodd mai'r cyfrifiadau silod mân a brithyllod brych ar Afon Ogwen yn 2018 oedd yr uchaf a gofnodwyd erioed, dywedodd wrtho nad yw cyfrifiadau silod mân a brithyllod brych yn rhan o'r asesiad CL. Er bod hyn yn wir am ddyddodi wyau, defnyddir cyfrifiadau silod mân a brithyllod brych i asesu llwyddiant silio, ac mae hyn yn rhan graidd o Achos Technegol CNC yn seiliedig ar ddifrod a achoswyd gan lifogydd yn 2015 a'r cyfrifiadau silod mân a brithyllod brych yn 2016, a allai arwain at ddiffyg pysgod yn 2020. Wrth groesholi Mr Renwick, gofynnodd Cwnsler CNC a oedd yn ymwybodol bod y CL wedi'i seilio ar ddata o faglau, dyfeisiau cyfrif a chyfrifiadau silod mân a brithyllod brych, sy'n gwrth-ddweud ei sylwadau blaenorol. Mae'r cyfrifiadau silod mân a brithyllod brych uchel yn 2017 a 2018 yn dangos er y gallai llai o oedolion fod yn dychwelyd yn 2020, bod hynny'n fyrhoedlog, fel yr adlewyrchir yn y graff gan Dr Nigel Milner.

291. Amcan cynigion yr is-ddeddfau yw gwrthdroi'r dirywiad mewn stociau pysgod mudol neu, fel y dywed Ms Jenkins yn ei thystiolaeth[321], "gwarchod adnoddau bridio hollbwysig tra bod materion eraill sy'n llethu ansawdd amgylcheddol yn derbyn sylw". Hyd yn oed pe byddai genweirwyr yn lladd yr holl eogiaid maen nhw'n eu dal, byddai 85% o gyfanswm y rhediad pysgod ar gael i silio o hyd, yn seiliedig ar enweirwyr yn dal cymaint â 15% yn unig o'r eogiaid sy'n mynd i mewn i afon, a'r tebygolrwydd yw y byddai'r ffigur yn llai. Mae CNC yn derbyn nad genweirwyr yw'r broblem. Felly, mae'n ymddangos mai'r unig gyfiawnhad dros osod y mesurau llym hyn yn erbyn genweirwyr yw fel bod CNC yn gallu dangos ei fod yn gwneud rhywbeth gan ddefnyddio'r ymagwedd ragofalus fel esgus, ac i dynnu'r sylw oddi wrth y ffaith bod CNC a'i asiantaethau rhagflaenol wedi methu yn eu dyletswyddau statudol i gynnal stociau pysgod mudol am fwy nag 20 mlynedd. Fel yr awgryma Ms Jenkins, mesur dros dro yn unig yw hwn "tra bod materion eraill sy'n llethu ansawdd amgylcheddol yn derbyn sylw". Mae CNC a'i asiantaethau rhagflaenol wedi bod yn ymwybodol o'r "materion eraill" hyn ers mwy nag 20 mlynedd, ac eto dim ond nawr maen nhw'n cynnig gweithredu i fynd i'r afael â'r achos sylfaenol yn dilyn cwyn i'r UE gan Afonydd Cymru h.y. nid yw cynigion LlC yn cefnogi'r is-ddeddfau arfaethedig gan eu bod yn ôl-ddyddio TC 2015 CNC; cyfleustra pur yw honni eu bod yn cefnogi'r cynigion.

292. Mae'n bosibl ailstocio afonydd yr effeithiwyd arnynt gan lygredd neu lifogydd. Mae'r ddadl yn erbyn stocio yn seiliedig ar y ddamcaniaeth bod hyn yn gwanhau'r gronfa enynnau.

[320] CD APP/4.7

[321] ID NRW/5

Ychydig iawn o afonydd yng Nghymru, os unrhyw rai o gwbl, nad ydynt wedi cael eu stocio â physgod o afonydd eraill. Yn ogystal, mae eogiaid a brithyllod y môr yn aml yn crwydro rhwng systemau afonydd. Mae olrhain trwy radio a thagio yn dangos hyn oherwydd adroddwyd bod un pysgodyn o silfa yng Nghanada wedi cael ei ddal yn Afon Tyne, a dyma'r nodwedd sydd wedi ailboblogi afonydd fel Taf a Mersi. Er ei bod yn wir bod pysgod yn addasu i'w hamgylchedd, mae llawer o bapurau ymchwil sy'n dangos bod yr epil wedi addasu i amodau eu hafonydd o fewn tair cylchred silio. Ni fydd y rhai nad ydynt yn addasu yn gallu silio.

293. Yn ei dystiolaeth[322], mae CNC yn cyfeirio at reoliadau mewn awdurdodaethau eraill yn y DU. Ond nid yw'n dweud bod afonydd yn yr Alban yn cael eu hadolygu a'u hasesu'n flynyddol, gan weithio gyda pherchenogion glannau afon a Byrddau Pysgodfeydd Lleol i sicrhau bod dychweliadau dal cywir yn cael eu cofnodi. Mae hyn yn golygu y gellir ymateb yn gyflym i newidiadau mewn statws stoc. Mae CNC wedi gwrthod gweithio'n agos gyda chlybiau genweirio lleol o blaid deddfwriaeth lawdrom gan ddefnyddio'r ymagwedd ragofalus fel esgus. Gellid dadlau y byddai gweithio gyda genweirwyr lleol yn cyflawni canlyniad cystal neu well na deddfwriaeth nad oes modd ei gorfodi o ganlyniad i ddiffyg adnoddau.

294. Yn nhystiolaeth wrthbrawf Mr Gough[323], gan gyfeirio at orfodi, mae'n cynnwys histogram sy'n dangos y gostyngiad mewn digwyddiadau potsio yr adroddwyd amdanynt; roedd y graff hwn yn rhan o gyflwyniad gan y Pennaeth Gorfodi yn y Fforwm Pysgodfeydd ym mis Hydref 2018. Roedd tystiolaeth Mr White yn cynnwys ail sleid o'r cyflwyniad gan Bennaeth Gorfodi CNC (sleid 37 yng nghyflwyniad Mr White), a thynnodd sylw at y trionglau du sy'n dangos adroddiadau yr ystyrir 'Nad ydynt yn Arwyddocaol', yn ôl yr allwedd. Mae pob un o'r trionglau du hynny ar system Conwy yn adroddiad am weithgarwch potsio. Mae potswyr ar Afon Conwy ac afonydd eraill yng ngogledd Cymru yn lladd mwy o eogiaid o lawer na'r holl enweirwyr sy'n pysgota ar afon Conwy, ac eto yn ôl CNC ni ystyrir bod y digwyddiadau hyn yn arwyddocaol. Felly, ychydig o enweirwyr sy'n adrodd am ddigwyddiadau potsio oherwydd anaml iawn y ceir unrhyw ymateb a, hyd yn oed os ceir ymateb, daw ar ôl y digwyddiad h.y. ar ôl i'r potswyr dynnu'r eogiaid neu'r brithyllod y môr. Mae CNC wedi dweud yn ei asesiad NASCO y bydd yn rhoi blaenoriaeth i orfodi'r is-ddeddfau os cânt eu gweithredu, ond mae'n ymddangos bod niwed gan botswyr, ar y llaw arall, yn cael ei ystyried yn ddibwys.

295. Efallai mai'r ffordd gyflymaf o wrthdroi'r dirywiad mewn stociau pysgod mudol fyddai rheoli ysglyfaethu gan adar ac, er y cyfeirir at hyn yn y TC[324], ni amcangyfrifir faint o bysgod a gollir i adar sy'n bwyta pysgod (FEBs). Ar system Conwy, yn seiliedig ar gyfrif nifer y FEBs (Hwyaid Danheddog) yn ystod blwyddyn h.y. mis Ionawr tan fis Rhagfyr, mae CPWF yn amcangyfrif bod oddeutu 50,000 o frithyllod brych/gleisiaid y flwyddyn yn cael eu colli yn seiliedig ar bob FEB yn bwyta 440gm o bysgod y dydd. Yn ei broflen dystiolaeth, mae Mr Renwick[325] yn gofyn 'ble mae'r afon brawf'? Archwiliwyd hyn rhyw 10 mlynedd yn ôl gyda thîm rheoli pysgodfeydd lleol yr asiantaeth flaenorol (EA(W)), gan fod ymchwil o afon ar

---

[322] CD APP/4.8 Atodiad 8 paragraff 1.2

[323] ID NRW/1R Ffigur 5 tudalen 13

[324] CD APP/4 tudalen 77 paragraff 5.6

[325] ID AR/1

arfordir dwyreiniol Canada yn darparu tystiolaeth eglur bod rheoli FEBs yn arwain at welliant sylweddol yn nifer y pysgod aeddfed sy'n dychwelyd trwy alluogi mwy o leisiaid i gyrraedd y môr. Ni all stociau pysgod adfer lle mae FEBs yn ymelwa arnynt gormod h.y. bydd recriwtio mwy o bysgod ifanc heb reolaethau FEB effeithiol ar waith yn arwain at fwy o FEBs ar yr afon gan y bydd mwy o fwyd ar gael.

296. Mae'n rhaid bodloni'r prawf cymesuredd o dan Gyfraith Weinyddol y DU[326] cyn i'r is-ddeddfau arfaethedig gael eu cymeradwyo. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad na fydd gorfodi'r is-ddeddfau arfaethedig yn gwrthdroi'r dirywiad mewn stociau pysgod mudol, hyd yn oed os cyflwynir deddfwriaeth arfaethedig LlC ar reoli tir, na fyddai'n dod i rym am sawl blwyddyn. Os bwriedir defnyddio ymagwedd ragofalus yn erbyn genweirwyr, dylid gwneud yr un peth o ran llygredd amaethyddol.

297. Trwy geisio cyflwyno deddfwriaeth, mae CNC wedi gwrthod gweithio gyda'i randdeiliaid, sydd wedi dangos droeon eu bod yn fodlon mabwysiadu mesurau gwirfoddol effeithiol. Mae'n ddiddorol darllen y cofnodion golygedig ar gyfer cyfarfodydd Grwpiau Pysgodfeydd Lleol (LFG). Oherwydd bod y cofnodion hyn wedi cael eu golygu, nid ydynt yn wir adlewyrchiad o'r hyn a ddywedwyd yn y cyfarfod h.y. mae llawer o'r feirniadaeth o CNC, a oedd yn groch ar adegau, wedi cael ei gadael allan. Roedd sleid 15 y cyflwyniad yn cynnwys copi o gofnodion LFG Dyfrdwy, sy'n dangos bod cyfradd C&R Genweirwyr Corwen a'r Cylch wedi cynyddu o 48% yn 2011 i 94% yn 2017 trwy fabwysiadu mesurau gwirfoddol. Mae clwb Mr White yn amrywio rhwng 98% a 100% C&R, ac mae'r amrywiad o ganlyniad i farwolaeth pysgod ac nid cymryd pysgod yn fwriadol. Mae'r dyddiau pan oedd mwyafrif y genweirwyr eogiaid yn lladd popeth yr oedden nhw'n ei ddal wedi hen ddarfod.

298. Mae Mr Eardley a Mr White o CPWF yn aelodau o Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd, Conwy a Gwynedd (fel Ysgrifennydd, ac Is-gadeirydd a Thrysorydd, yn ôl eu trefn). Mae'r gwaith prosiect a gynhelir a'r cyllid a dderbynnir ar gyfer y prosiectau hyn yn amodol ar arian cyfatebol, ac i gyflawni hyn maen nhw'n dibynnu'n drwm ar lafur gwirfoddol, sy'n dod yn bennaf o glybiau genweirio a pherchenogion glannau afon. Amser a ddengys beth fydd yn digwydd os bydd y mesurau llym hyn yn cael eu gweithredu, ond y farn gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid yw na fyddant yn gwneud gwaith yn y dyfodol maen nhw'n credu y dylai CNC fod yn ei wneud.

299. Wrth groesholi Mr Nicholson, gofynnodd Cwnsler CNC iddo ble oedd y cyfeiriad at ddatganiad Mr Russell (Cefas) ei fod wedi cymryd y dystiolaeth 'ar ei golwg'. Fe'i gwelir yn ID NRW/4b Atodiad 1, Tudalen 1, paragraff olaf, sy'n dweud "Fodd bynnag, roedd y dogfennau hyn yn cynnwys tablau a ffigurau i raddau helaeth (D.S. Rwyf wedi cymryd y data crai a ddarparwyd yn y dogfennau hyn ar ei olwg), felly mae'r ychydig sylwadau sydd gennyf ar y dogfennau hyn wedi'u rhestru isod hefyd". Felly, roedd yn amlwg nad oedd Mr Russell wedi herio cywirdeb y data a roddwyd iddo.

300. Roedd cyflwyniad llafar y rhwydwyr yn cefnogi'r ffaith bod y dirywiad mewn stociau pysgod wedi bod o ganlyniad i botsio, llygredd ac ysglyfaethu, ac roeddent o'r farn mai llygredd oedd yr effaith fwyaf. Cyfeiriwyd hefyd at effaith rhwydo ar fôr mawr Iwerddon, fel yr amlygwyd yn y graff gan Dr Nigel Milner, a'r ffaith eu bod nhw bellach yn gweld mwy o bysgod MSW.

---

[326] ID CPWF/2 tudalen 6

301. Mae cyfle i weithio ar y cyd â CNC oherwydd bod gan CPWF berthynas dda iawn â swyddogion pysgodfeydd lleol CNC.

**Reuben Woodford ar ran CPWF a Chymdeithas Genweirio Dyffryn Ogwen/Clwb Pysgota Penrhyn**

302. Mae'r datganiad canlynol yn ffurfio'r 'cyflwyniad terfynol' ar ran clybiau a genweirwyr Afon Ogwen, Gwynedd; deisebwyr dwy ddeiseb; a rhan o'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar y cyd gan CPWF. Mae'r clybiau hyn yn erbyn yr is-ddeddfau arfaethedig sydd, yn eu barn nhw, yn afresymol, yn anghymesur ac yn peryglu rheolaeth y pysgodfeydd yn y dyfodol a llesiant yr amgylchedd, pysgodfeydd a chymunedau.

*Cyflawni Canlyniadau'n Llwyddiannus*

303. Er mwyn cyflawni'r nod a rennir ar gyfer llesiant pysgodfeydd, genweirio a chymunedau, mae angen ffurfio modd o gyflawni canlyniadau'n llwyddiannus mewn ffordd nad yw'n ysgogi'r canlyniadau niweidiol a ddaw yn sgil cynigion CNC.

304. Ni all yr is-ddeddfau arfaethedig, sydd wedi'u seilio ar ymagwedd fyrolwg, gyflawni'r canlyniadau a ddymunir gan bawb am nifer o resymau, ac nid ydynt yn cyfeirio adnoddau y mae mawr angen amdanynt at fynd i'r afael â'r ffactorau achosol sy'n effeithio ar gynhyrchedd pysgodfeydd. Ar ôl addasu'n raddol i'r heriau sy'n gysylltiedig â rheoli ymelwa ar bysgod, mae'r gymuned enweirio bellach yn wynebu beirniadaeth annheg am ddiffyg, a ddiffiniwyd yn afresymol.

305. Mewn datganiadau terfynol eraill, mae CPWF wedi dweud y gellir priodoli'r prif ostyngiad mewn stociau i'r gostyngiad 20-30 mlynedd mewn goroesiad gleisiaid yn y môr, sy'n cael ei gydnabod ac y mae tystiolaeth ohono. Gan fod nifer o afonydd yn agored i ffactorau dalgylch sy'n effeithio ar gynhyrchu pysgod ifanc dilychwin, mae hynny'n peryglu cynhyrchu gleisiaid fwy byth. Dyma'r hyn sy'n achosi dirywiad stoc – nid ymelwa ymylol gan wialenni, sy'n cyfrif am oddeutu 2% o gyfanswm yr ymelwa yng Nghymru, sy'n parhau i leihau.

306. Mae'r enillion sy'n bosibl trwy dargedu ymelwa gan enweirwyr trwy wahardd yn gwbl anghymesur â'r honiadau cyffredinol sy'n cael eu gwneud gan CNC. Yn baradocsaidd, y brif risg sy'n wynebu rheoli ein pysgodfeydd yw'r risg i weithio mewn partneriaeth a sefydliadau genweirio a ddaw yn sgil yr is-ddeddfau arfaethedig. Sefydlogrwydd a chydnerthedd y system reoli yw'r ffactor hollbwysig sy'n sail i'r dystiolaeth a'r dulliau cydgysylltiedig y dibynnir arnynt i'w rheoli nhw a stociau pysgod, ac sy'n gwella lles mewn amryw ffyrdd. Fel y dywedodd Robert Vaughan (CNC) yn yr Ymchwiliad, 'Mae'n cymryd llawer o waith dros flynyddoedd lawer i wneud i bartneriaethau weithio', ac eto mae CNC, gan wybod hyn, wedi bod yn fodlon chwalu ei berthynas â'r gymuned enweirio drwy gydol y broses hon.

307. Fel y dywedodd Ian Davidson (CNC) yn yr Ymchwiliad, 'ni allwn ddiystyru dalfeydd fel data ffynhonnell hollbwysig'. Os cyflwynir yr is-ddeddfau arfaethedig, bydd dalfeydd yn cael eu hystumio am amryw resymau a bydd unrhyw obaith o ddilysrwydd y brif set ddata a'r gallu i weithredu system wedi'i seilio ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar ddalgylch, yn cael ei golli.

308. O ystyried prif ddatganiadau CNC, bydd y rhai sydd wedi derbyn rhethreg CNC ar ei olwg yn synnu gwybod nad yw stociau mudol yng Nghymru mewn sefyllfa argyfwng; ac nad ydynt ychwaith wedi cyrraedd 'pwynt tyngedfennol' fel y dywedodd Ruth Jenkins a

rheolwyr eraill CNC yn yr Ymchwiliad. O ran dehongliad Peter Gough 'nad yw rheolaethau (ar enweirwyr) wedi gweithio'; mae'n amlwg bod CNC wedi dewis safbwynt polareiddiedig o broblem fwy cymhleth. Gan fod genweirwyr yn llwyddo i ddychwelyd y rhan fwyaf o'r pysgod maen nhw'n eu dal yng Nghymru, mae 86.5%, sef maint go iawn y gwelliant posibl mewn cyfraddau dychwelyd, yn fach erbyn hyn ac yn arwain at enillion sy'n lleihau.

309. Y flaenoriaeth bellach yw cynnal ymddiriedaeth a chydweithrediad genweirwyr ac felly cynnal awydd gan gymunedau i wneud y gorau y gallant i ddiogelu dyfodol pysgod, pysgodfeydd a sefydliadau genweirio trwy addasu'n deg ac yn gymesur. Mae'n eithaf amlwg o brofiad dalgylchoedd afonydd mai'r 'hyn nad yw'n gweithio' yw camau cadarn lleol i wella cynefinoedd ategol ar gyfer pysgod.

310. Nid yw'r stociau uwch sy'n deillio o addasu dulliau genweirio wedi cael eu cynyddu i'r eithaf oherwydd nid genweirwyr yw'r broblem ac mae llawer o'r rhesymau dros gynefinoedd anghefnogol a chyfraddau goroesi isel yn y môr yn parhau. Mae rheoli pysgodfeydd yn system synergyddol, sy'n dibynnu 100% ar iechyd genweirio a sefydliadau genweirio. Bydd rheoli pysgodfeydd yn gweithio dim ond os yw CNC yn rhoi sylw i bob agwedd ar ei gydnerthedd – ac nid yw wedi bod yn gwneud hynny. Pan fydd CNC yn rhoi'r gorau i amddiffyn methiant, gallwn symud ymlaen, neu fel arall byddwn yn sicr o weld gwaeth. Nid yw'n arfer rheoli adeiladol a chynaliadwy pan fydd 'hyrwyddiad genweirio cynaliadwy' CNC (Peter Gough) wedi'i arwain gan waharddiad a bygythiad o ddirwy o £2000.

*Rhwystr rhag Cydweithredu*

311. Mae methiant CNC i ymwneud â phroses gydgynghorol ac effeithiol wedi tanseilio ein gallu i gyflwyno'r sylfeini rhagflaenol ar gyfer gwell pysgodfeydd. Yn ystod y tymor byr i'r tymor hir, mae darparu llesiant yn gontinwwm, ac oni roddir sylw priodol i elfennau cynyddol y broses drosiannol honno, prin y gellir cyflawni addewid CNC o lesiant amgylcheddol a chymdeithasol, ac ar y gwaethaf bydd yn arwain at effeithiau canlyniadol arwyddocaol.

312. Nid oedd 83% o'r rhai a ymatebodd i'r 'Ymgynghoriad ar yr Is-ddeddfau Arfaethedig' yn 2017 yn cefnogi mesurau'r is-ddeddfau, a hynny am resymau sylfaenol. Yr unig fodd o symud ymlaen yn deg yw trwy ymagwedd ddiwygiedig a chydweithredol. Os cyflwynir yr is-ddeddfau, bydd y drws yn cau i gydweithredu o'r fath a byddai CNC yn gyfrifol am yrru niferoedd mawr o enweirwyr i ffwrdd oddi wrth ein hafonydd, gan felly analluogi'r broses asesu stoc.

313. Dywedodd cwnsler cyfreithiol CNC yn yr Ymchwiliad nad oedd gwrthwynebiad cryf i'r sylw bod y stoc wedi dirywio. Fodd bynnag, roedd y datganiad yn anwybyddu'r prif asgwrn cynnen – lefel ganfyddedig y dirywiad a statws presennol stociau. Yn ogystal, honnodd CNC fod y perygl i frithyllod y môr ac eogiaid yr un fath, sy'n ysgogi gorgyffredinoli a chyfiawnhad dros fesurau cyffredinol sy'n cymhwyso syniadau mewn ffordd anghynnil. Mae gan afonydd fel afon Ogwen boblogaeth iach o frithyllod y môr a stoc o eogiaid sy'n fwy na'i CL; mae cyffredinoli yn arfer annefnyddiol.

314. Mae CNC wedi arwain pawb at sefyllfa fregus, er bod hynny'n anodd iddo dderbyn. Mae'r mesurau, o ddechrau'r broses ddatblygu, wedi cael eu hymgorffori gan opsiwn o waharddiad trwy is-ddeddfau. Syniadau rhagdybiedig yw'r rhain. Nid yw'n ymddangos bod CNC yn ymwybodol o'i dawedogrwydd i amddiffyn yn hytrach na datblygu dulliau darparu ymarferol. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn cynrychioli prinder risg a thuedd i achosi gwaeledd na fesurwyd gan CNC a, lle y rhoddwyd enghreifftiau gan y gymuned enweirio, trechwyd y dystiolaeth hon.

315. Mae CNC yn cyfeirio at nifer y cyfarfodydd ymgynghori fel dangosydd llwyddiant, ond cyfle oeddent yn unig i CNC ddangos ei rym ac ansymudoldeb ei gredoau personol; maen nhw'n dangos methiant i wrando a chydweithredu. Mae hyn yn fethiant llwyr o'r broses briodol, a thrwy amddiffyn ei annigonolrwydd i wasanaethu cymunedau a'i weithlu ei hun mewn ffordd fuddiol, mae'n gwaethygu'r broblem i bawb sy'n gysylltiedig.

*Gwahardd – Dull Diffygiol*

316. Y cadarnhad pwysicaf o amhriodoldeb gwaharddiad gorfodol o ran y mesurau hyn yw ymateb EA Lloegr i reoli ei afonydd. Mae wedi dweud bod cymhwyso dull rheoli trwy orchymyn yn 'ddull diffygiol'. Mae'r EA yn dweud bod gwahardd y gweithredoedd hyn yn amhosibl ei amlinellu'n gyfreithiol, ac felly'r unig ffordd ymarferol o ysgogi'r math hwn o addasu yw ar sail wirfoddol trwy rymuso clybiau genweirio.

317. Felly, nid yw datganiad CNC yn ei bapur i'r Bwrdd, sef CNC BB 8.18, sy'n dweud bod CNC ac EA yn rhannu'r un ymagwedd, yn berthnasol mwyach. Yn ogystal, mae CNC yn hyrwyddo rheolaeth orfodol ar enweirio am eogiaid ac, ar rai afonydd, brithyllod y môr fel dull gwarantedig o ddarparu canlyniadau, ac eto nid yw'r warant honno'n dal dŵr. Anaml iawn y bydd gwahardd rhywbeth yn ei atal rhag digwydd – yn enwedig pan ystyrir ei fod yn anghyfiawn yn gymdeithasol a bod y gweithredoedd sy'n cael eu troseddoli yn anghymesur â throseddau ysgeler. Yn yr achos hwn, mae'r gweithredoedd sy'n cael eu gwahardd wedi'u gwarchod yn ddiwylliannol a'u deall yn gynhwysfawr gan y genweirwyr eu hunain yn unig. O'u harfer gan roi sylw priodol i drafod pysgod yn ofalus a chanllawiau presennol CNC ar arfer da, bydd y dulliau a gynhwysir yn yr is-ddeddfau arfaethedig yn cael effaith ddibwys ar nodau pennaf yr ymarfer cyffredinol.

318. Yn baradocsaidd, mae'n debygol iawn y byddai mesurau'r is-ddeddfau arfaethedig yn arwain at effeithiau canlyniadol ar stociau pysgod trwy fwy o ymelwa anghyfreithlon; mae hyn yn ymagwedd risg uchel. Mae angen dybryd am barhau i rymuso'r gymuned enweirio i atal hyn a pharhau i ategu adnodd gorfodi disbyddedig CNC. Gallai'r is-ddeddfau arfaethedig hefyd yn wrthdroi'r cynnydd helaeth a wnaed gennym trwy alw genweirwyr yn droseddwyr.

319. Mae'r is-ddeddfau'n achosi risg i: 1. Gwerth cynhenid genweirio; 2. Llesiant meddyliol genweirwyr; 3. Cydnerthedd clybiau genweirio; 4. Y buddion economaidd-gymdeithasol i gymunedau; 5. Llesiant pysgodfeydd ac amgylcheddau; a, 6. Gweithio mewn partneriaeth. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn cyflwyno risg ormodol i reoli pysgodfeydd a system seiliedig ar dystiolaeth, oherwydd bod y system ei hun yn dibynnu ar gyfranogiad genweirwyr mewn amrywiol ffyrdd. Mae'r synergedd rhwng genweirwyr, cymunedau a CNC yn allweddol i gyflawni canlyniadau a sicrhau bod cydnerthedd y system reoli'n parhau. Mae'r system eisoes yn dioddef symptomau esgeulustod, a natur orfodol yr is-ddeddfau arfaethedig yw'r hyn a fyddai'n ei hanalluogi.

320. Mae gwrthwynebwyr wedi amlygu rhai o'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â system orfodol, y mae eu symptomau eisoes wedi'u gweld yn rhannol. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys: risg i gydnerthedd clybiau genweirio; gostyngiad o ran diddyledrwydd clybiau a'u gallu i gyflawni swyddogaethau cynhwysfawr y clwb, gan gynnwys gweithredoedd iechyd a diogelwch a chynnal mynediad; dychwelyd pysgod marw i'r dŵr; colli budd economaidd i gymunedau; effaith negyddol ar sgiliau a gwerthoedd traddodiadol; gorfodi genweirwyr i ymhêl â'u diddordeb yn rhywle arall – allforio net twristiaeth enweirio; canlyniadau gwrthnysig – yn groes i ofynion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy; effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg; dadrymuso clybiau genweirio cymunedol; tanseilio ymatebion rheoli

penodol dalgylchoedd; cynnydd mewn pysgota anghyfreithlon ac effaith ar stociau pysgod; cynnydd mewn troseddau amgylcheddol ac effaith ar ecosystemau; colli data gwyddoniaeth pobl a methiant dilynol y systemau seiliedig ar dystiolaeth; ac, effaith negyddol ar brosiectau 'amgylcheddol' sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

321. Yn yr Ymchwiliad, dywedodd Ruth Jenkins fod CNC wedi sefydlu protocol hirsefydlog am 'weithio gydag eraill', a phan ofynnwyd iddi a oedd yr is-ddeddfau'n peryglu ffactorau economaidd-gymdeithasol, ymatebodd trwy ddweud 'Mae'n siŵr gen i ei bod yn dibynnu ar sut mae'r gymuned enweirio'n ymateb'. Pe byddai CNC wedi rhoi sylw priodol i ddeall effeithiau canlyniadol yr is-ddeddfau a gwrando ar y gymuned enweirio, byddai'n sylweddoli'r perygl sy'n gysylltiedig â dibyniaeth gyfeiliornus ar ddull cyflawni gorfodol.

322. Yn annealladwy, mae'r dull cyflawni gorfodol yn golygu mai'r is-ddeddfau arfaethedig yw'r gwrthwyneb i'r ysgogiad sy'n ofynnol, gan gyflwyno risg annerbyniol o effeithiau gwaeledd. Dyma bris mesurau nad ydynt yn cynnig canlyniadau gwarantedig oherwydd eu bod yn llym, yn y bôn. Mae'n rhaid i'r ffordd ymlaen ganolbwyntio ar swyddogaeth ac effeithlonrwydd. Mae'n rhaid iddo fod yn ymarferol, yn wahanol i'r cynnig hwn.

*Gwahardd – Y Gallu i Orfodi*

323. Fel y dywedodd Robert Vaughan o CNC yn yr Ymchwiliad, 'nid oes gan CNC yr adnodd gorfodi i orfodi'r is-ddeddfau'. Dywedodd Peter Gough yn yr Ymchwiliad fod, 'gorfodi yn ymagwedd seiliedig ar risg' a bod 'genweirwyr ar lan yr afon yn hollbwysig' i hynny a'i fod yn 'annog genweirwyr i adrodd am ddigwyddiadau'. Ychwanegodd Peter Gough 'nad yw genweirwyr yn adrodd am ddigwyddiadau yn llu mwyach, oherwydd nad ydynt yn credu y bydd ymateb' a'i bod 'yn drueni mawr na fydd genweirwyr yn parhau i helpu.'

324. Mae'n ddilornus i CNC awgrymu yn yr Ymchwiliad bod peidio â darparu gwybodaeth yn fygythiad gan enweirwyr. Os caiff genweirwyr eu gwthio allan o afonydd gan na allant 'gefnogi' eu diddordeb mwyach, "ni fyddant yno" i adrodd am ddigwyddiadau, yn syml. Os ceryddir genweirwyr gan CNC fel sydd wedi bod yn digwydd, nid yw'n syndod bod llawer wedi rhoi'r gorau i gymryd rhan. Mae'n rhaid cydnabod hefyd bod adrodd am weithgarwch troseddol yn arwain at berygl dial, ac nid yw genweirwyr yn cael eu talu, fel y mae CNC, i ddioddef perygl niwed.

325. Mae pawb yn gwybod bod lladd pysgod yn anghyfreithlon yn cael ei hybu gan farchnad ddu sy'n fodlon prynu pysgod. Mae deddfau eisoes ar waith i atal y gweithgarwch hwn, yn ddamcaniaethol, ac eto mae swyddogion gorfodi CNC yn cyfaddef nad oes ganddynt rym i weithredu i'w atal. Mae cais Rhyddid Gwybodaeth i CNC yn dangos na fu unrhyw erlyniadau am werthu eogiaid a ddaliwyd â gwialen neu a ddaliwyd yn anghyfreithlon yng Nghymru rhwng 2013 a 2018. Nid yw awgrymu bod yr ystadegyn dim yn deillio o effaith ataliol, fel y mae CNC wedi'i wneud yn yr Ymchwiliad hwn, wedi'i seilio ar ffaith ac mae'n dangos yr argyhoeddiad anghymesur a osodir ar reolau gorfodol i greu canlyniadau. Yr adborth rydym wedi'i gael gan bersonél gorfodi, gan swyddogion CNC ar y rheng flaen i uwch reolwyr yn yr Ymchwiliad hwn, yw na ellir gorfodi'r is-ddeddfau.

*Cyfyngu ar Ddulliau*

326. Gall pawb ddadlau doethineb addasu elfennau o offer genweirio, neu wahardd dulliau. Fodd bynnag, yn y pen draw, yr hyn sy'n allweddol i drafod a rhyddhau pysgod mewn cyflwr da yw addysgu genweirwyr i ddefnyddio ac addasu technegau ac arfer da. Mae'r budd hwn yn ddeuol oherwydd bod gwarchod pysgod yn cynnal genweirio, gan felly gynnal

yr amgylchedd gweithredu ynghyd ag ystyriaethau llesiant a chymhwyso egwyddorion rheoliaeth gynaliadwy yn gyffredinol.

327. Yn gyffredinol, mae bachau heb adfachau yn fuddiol. Fodd bynnag, mae dadleuon amgen a gwrthddadleuon a rhai gwrthddywediadau amlwg yn berthnasol i bob elfen arall o'r cyfyngiadau ar ddulliau yn yr is-ddeddfau arfaethedig. Yn y pen draw, os byddwch chi'n gwneud dal pysgod yn fwy anodd i enweirwyr, fel y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn ei wneud, mae llai o reswm o lawer i bysgota; mae llai o debygolrwydd o lawer o ddal pysgod, ac felly cyfyngir ymhellach ar gyfranogiad genweirwyr a'r modd i gymdeithasau genweirio cymunedol fod yn hyfyw yn ariannol. Yr ail effaith hollbwysig yw colli data dal a dychwelyd, gan felly danseilio'r broses asesu stoc sydd eisoes yn fregus.

328. Mae'r denwr 'Flying c' yn ddenwr o ddyluniad penodol sy'n enwog am amryw resymau. Cyfeiriwyd ato ar gam mewn fersiwn ddrafft o ddogfen dystiolaeth 1A Peter Gough ac, o ganlyniad, rhoddwyd sylw amhriodol iddo yn yr Ymchwiliad. Wrth wneud sylwadau ar y denwr a defnyddio bachau sengl yn hytrach na bachau triphlyg, dywedodd Peter Gough nad oedd yn credu bod defnyddio bachau sengl 'yn cyfyngu ar atyniad y denwr i'r pysgodyn'. Nid yw'n gwneud hynny, ond bydd yn effeithio ar y gallu i ddal, glanio ac felly, unwaith eto, cyfrannu at ddata dal a dychwelyd. Felly hefyd unrhyw un o'r addasiadau sy'n ofynnol o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar ddulliau. Mae datgan lefel berthnasol o ddealltwriaeth o ddulliau a'u cymhwysiad, pan fo CNC wedi dangos nad yw'n meddu ar hynny, yn gyfraniad annefnyddiol at ddadl a phrotocolau a ddylai gael eu sbarduno a'u rheoli gan y rhai sy'n arbenigwyr yn y maes hwn, sef genweirwyr.

329. Mae gwahardd defnyddio mwydod i bysgota am eogiaid ar afonydd yn eu llif, fel Afon Ogwen, yn waharddiad ar yr elfen fwyaf gwarchodol o bysgota ar afonydd o'r fath ac yn gyfystyr â gwahardd pysgota am eogiaid o dan yr amodau hyn. Ar y cyd â gwahardd defnyddio berdys i bysgota ar hyd y rhan fwyaf o'r tymor, o dan y rheolau cadwraeth presennol ar gyfer hanner Afon Ogwen, byddai hyn yn gyfystyr â gwaharddiad llwyr ar bysgota am eogiaid yn ystod amodau distyll. Ar gyfartaledd, byddai hyn yn atal pysgota am eogiaid am fwy na 2 fis y flwyddyn. Dywedodd Ruth Jenkins, 'nid oedd CNC eisiau gwahardd genweirio', ond mae'r ymateb anghymesur gan CNC trwy orchymyn yn arwain at yr union beth hynny i'r 'Genweiriwr Eogiaid' yn yr amgylchiadau hyn.

330. Yn ddieithriad, defnyddir techneg ddrifftio neu droelli'n araf i bysgota â berdys, felly mae'n parhau i symud. Mae'n anghyffredin iawn i eog lyncu'r abwyd hwn. Nid yw cythreulio'r math hwn o enweirio yn gwneud unrhyw synnwyr rhesymegol, ac mae ei ganiatáu o dan yr is-ddeddfau arfaethedig am ran olaf y tymor fel 'cyfle estynedig i bysgota â berdys', fel y dywedwyd gan CNC, pan fu ar gael y rhan fwyaf o'r tymor yn flaenorol, yn gamenwad ac yn golled amlwg. O ystyried cyd-destun yr uchod, nid yw datganiad Peter Gough 'y bydd pysgota â berdys yn lliniaru effaith y gwaharddiad ar bysgota â mwydod' wedi'i seilio ar ffaith.

331. Gan fod CNC yn datgan 'credwn fod caniatáu defnyddio berdys neu gorgimychiaid tua diwedd y tymor yn dderbyniol, gan ddilyn cyngor a dderbyniwyd ar fachu nodweddiadol yn y geg' – nid oes rheswm dilys i gyfyngu ar bysgota â berdys o gwbl, mewn gwirionedd, o ystyried y bydd rhai eogiaid yn derbyn unrhyw ddenwr, unrhyw fis o'r flwyddyn a bysgotir gan enweiriwr profiadol. Nid yw cred CNC, sef nad oes lle i ymelwa ar unrhyw eogiaid yn afonydd Cymru, yn cyd-fynd â statws stoc Afon Ogwen, ond mae clybiau Afon Ogwen o'r farn y dylent barhau â'r cynnydd arwyddocaol a wnaed hyd yma wrth gyflawni cyfraddau dychwelyd cynyddol o eogiaid. O ran pysgod sy'n gwaedu'n drwm, ychydig iawn o

enweirwyr a fyddai'n dychwelyd pysgodyn sy'n marw i'r dŵr, o ystyried y byddai'n wastraffus ac yn anfoesegol i wneud hynny.

332. Yn gyfochrog, ystyrir bod mwy o gefnogaeth foesol i'r safbwynt hwn na gwrthodiad CNC yn yr Ymchwiliad hwn i dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddylanwadu ar ddulliau'r DU o reoleiddio ffermydd eogiaid masnachol, sydd nid yn unig yn cynhyrchu cynnyrch o ansawdd amheus i gwsmeriaid, ond y profwyd hefyd eu bod yn bygwth iechyd stociau pysgod gwyllt o fewn eu llwybrau mudo. Yr eironi trist yw pe byddai'r unig eogiaid a fwytawn wedi'u bridio mewn ffermydd, byddent nid yn unig wedi'u magu mewn fersiwn niweidiol o'r silfeydd a waherddir gan CNC, ond byddent hefyd yn cyfrannu at yr union broblem maen nhw'n ceisio ei datrys. Dyna wir gyd-destun y mesurau hyn a'r benbleth y byddai genweirwyr yn ei hwynebu bob dydd.

*Is-ddeddfau Cymru Gyfan*

333. Yn groes i ddatganiadau CNC yn yr Ymchwiliad, mae mesurau'r is-ddeddfau arfaethedig yn bolisi Cymru gyfan. Fel y cyfryw, maen nhw'n amddifadu clybiau unigol a chydweithfeydd ar ddalgylchoedd afonydd yng Nghymru o'r gallu i gymhwyso rheolau addasu wedi'u teilwra i wella rheolaethau a chanllawiau presennol sy'n benodol i afonydd. Byddai'r is-ddeddfau'n dadrymuso pwyllgorau clybiau ac yn tanseilio hyrwyddo 'cymunedau wedi'u grymuso'.

334. Ledled Cymru, mae afonydd heblaw am y 23 prif afon eogiaid wedi cael eu cynnwys yn y rheoliadau hyn trwy ddewis CNC yn unig. O dan ganllawiau NASCO, y mae CNC yn honni ei fod yn cydymffurfio â nhw, mae proses strwythur penderfynu NASCO yn gofyn i fesurau gwirfoddol gael eu mabwysiadu ar gyfer yr afonydd hyn – nid mesurau gorfodol. Mae holl afonydd Ynys Môn yn perthyn i'r categori hwn. Mae'r ddau ddalgylch afonydd ar bob ochr i Afon Ogwen yn perthyn i'r categori hwn. Dewis sefydliadol yw prif reswm CNC dros gymhwyso'r mesurau hyn ledled Cymru – mae'n mynd yn groes i ganllawiau NASCO trwy wneud hynny. Mae cadw'r hyn sydd gennym yn awr, a'i ddatblygu, yn well o lawer na dibynnu ar athrawiaeth gyfeiliornus ac amcanestyniad ynglŷn â'r dyfodol, a ddyfeisiwyd yn ddi-sail.

*Afon Ogwen – Cydymffurfio ag Amcan Rheoli NASCO*

335. Ym mhapur CNC i'w Fwrdd, sef CNC BB 8.18, mae'n datgan ei fod yn ymwybodol o 'ymrwymiadau rhyngwladol y DU i NASCO'; mae Ian Russel (Cefas) hefyd wedi dweud yn yr Ymchwiliad bod ymagwedd CNC yn cydymffurfio â chanllawiau NASCO. Mae stoc eogiaid aeddfed Afon Ogwen, a ddangosir gan ddata EA/CNC, yn dangos y cyrhaeddwyd Amcan Rheoli NASCO yn ystod 9 o'r 10 mlynedd diwethaf. Gan gydymffurfio ag Amcan Rheoli NASCO, torrwyd y CL ar gyfer Afon Ogwen yn ystod 4 o'r 5 mlynedd diwethaf. O dan ganllawiau NASCO, nid yw dal a rhyddhau 100% gorfodol yn ddewis rheoli ar sail y dystiolaeth hon ac mae datganiad Ian Davidson, sef na thorrwyd terfynau cadwraeth yng Nghymru, yn ffeithiol anghywir.

336. Mae amcangyfrif CNC o'r boblogaeth brithyllod brych (eogiaid ifanc) ar gyfer Afon Ogwen yn dangos stoc eogiaid gynhyrchiol. Ym mhob un o'r 9 mlynedd diwethaf, mae CNC wedi cofnodi bod cyfrifiadau brithyllod brych yn weddol i ragorol yn ôl system raddio'r Cynllun Dosbarthu Pysgod Cenedlaethol. Ceisiodd CNC ddiystyru perthnasedd y dystiolaeth hon ar gam yn yr Ymchwiliad. Ni waeth pa mor soffistigedig yw'r prif fodel ystadegol ar gyfer asesu stoc sy'n cyfrannu at gydymffurfio â'r terfyn cadwraeth, gall roi amcangyfrif yn unig o nifer yr wyau a ddyddodwyd mewn afon. Nifer wirioneddol y pysgod ifanc sy'n bresennol

yn ein hafonydd yw'r hyn sy'n dangos y gwir sefyllfa, ac felly mae'r data ar gyfer Afon Ogwen yn helpu i gefnogi statws cynhyrchiol yr afon o ran eogiaid.

337. Mae Peter Gough yn dweud mai un o'r prif resymau dros gynigion Is-ddeddfau Cymru Gyfan oedd lefel isel o recriwtio pysgod ifanc, ac yn enwedig 'methiant llwyddiant silio yn ystod gaeaf 2015/2016'. Nid oedd hyn yn wir am Afon Ogwen. Mae cynnwys afonydd yn yr is-ddeddfau arfaethedig trwy allosod yn awgrymu Agenda Cymru Gyfan unwaith eto. Mae cyfraddau dal a rhyddhau ar Afon Ogwen yn dda erbyn hyn ac wedi gwella'n raddol ers canol y 1990au. Er nad yw ystadegau ffurfiol CNC ynglŷn â chyfraddau rhyddhau tymor 2018 yr afon wedi cael eu cyhoeddi eto, mae clybiau Ogwen wedi gwneud ymdrech i wella cyfraddau dychwelyd yn nhymor 2018. Roedd dychweliadau Clwb Pysgota Penrhyn yn 75% yn 2018.

338. Gan fod genweirwyr yn llwyddo i arfer C&R yn wirfoddol yn genedlaethol, cyfradd ymelwa Cymru gyfan ar gyfer eogiaid yw 1-2% trwy ymelwa â gwialen; mae hyn yn dangos y pwyslais anghymesur a roddir ar gyflwyno is-ddeddfau gwaharddol ar wialenni yn hytrach na gweithredoedd eraill.

339. Ystyrir bod stociau brithyllod y môr 'heb fod mewn perygl yn ôl pob tebyg' yn Afon Ogwen ac, ymhen 5 mlynedd, rhagwelir y bydd statws stociau brithyllod y môr 'heb fod mewn perygl'. Gan fod sefyllfaoedd o'r fath yn bresennol mewn afonydd yng Nghymru, mae'n rhaid ailadrodd ei bod yn achos pryder mawr bod CNC wedi achub ar bob cyfle yn ystod yr Ymchwiliad i geisio cyfleu darlun cyffredinol fod stociau eogiaid a brithyllod y môr ar lefelau peryglus. Mae'r rhethreg yn awgrymu'r angen i bortreadu darlun cyffredinol ar draws Cymru gyfan i gyfiawnhau polisi Cymru gyfan amhriodol. Mae'n rhaid i ni lynu wrth y dyheadau a gyflwynwyd yn wreiddiol ym mhysgodfeydd mewndirol cynaliadwy CNC ei hun yng Nghymru – gweledigaeth agenda ar gyfer newid, sef ein bod yn cynnal ymagwedd ddalgylch ar bob cyfrif.

340. O dan system yr Alban, ni fyddai unrhyw gyfyngiadau'n cael eu gosod ar Afon Ogwen o ganlyniad i'w statws stoc presennol, ac felly mae'r datganiad ynglŷn â system yr Alban ym mhapur Bwrdd CNC (CNC BB 8.18) yn gamarweiniol yn hyn o beth. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Lloegr wedi dilyn ffordd wahanol o weithredu i is-ddeddfau arfaethedig CNC, sy'n cyd-fynd â dyheadau'r gymuned enweirio yng Nghymru. Mae Papur Bwrdd CNC yn gyfeiliornus bellach trwy gymharu ei ymagwedd ef ag ymagwedd yr EA.

341. Gan ddilyn ymagwedd Lloegr, ni fyddai rheolaethau gorfodol yn cael eu gosod ar Afon Ogwen, yr ystyrir ei bod 'Mewn Perygl yn Ôl Pob Tebyg' ar hyn o bryd o ran eogiaid. Trwy gynnig yr is-ddeddfau hyn, ni fydd CNC yn dilyn canllawiau NASCO a chyfarwyddyd polisi cenedlaethol. Fel is-ddeddfau arfaethedig, byddent yn mynd yn groes i'r uchod yn amlwg trwy gymhwyso mesurau gorfodol i afonydd sydd 'Mewn Perygl yn Ôl Pob Tebyg' (PAR) neu 'Mewn Perygl' (AR), heb ddefnyddio 'Opsiynau cam tri' (NASCO) yn gyntaf sy'n mynnu bod mesurau gwirfoddol yn cael eu hyrwyddo'n ffurfiol am flwyddyn a bod genweirwyr ac afonydd yn cael cyfle i gyflawni cyfraddau dal a rhyddhau 90%. Pe byddai Cymru'n cymhwyso'r is-ddeddfau i'w hafonydd, mae'n amlwg y byddai'n dod yn allforiwr net twristiaeth genweirio i Loegr, yr Alban ac Iwerddon, gan eu bod nhw wedi amddiffyn eu buddiannau genweirio.

*Ysglyfaethu Naturiol*

342. Gan nad oes data gwrthrychol ar gael gan y rheoleiddiwr ynglŷn â chyfraddau ysglyfaethu ar bysgod yn Afon Ogwen, gwnaethom gyfrifo ffigurau dangosol ar sail arsylwadau yn ystod tymor genweirio 2018 a data dal a dychwelyd o dymor 2017. Mae'r data'n dangos

bod y nifer fwyaf o bysgod yn cael eu lladd gan ddyfrgwn, sef 86.7%, yn ôl pwysau, o'r 4 grŵp a ystyriwyd. Mae hwyaid danheddog yn gyfrifol am ladd 6.3% o'r pysgod yn ôl pwysau, sy'n debygol o gynrychioli mwyafrif yr ysglyfaethu ar bysgod ifanc – felly mae hyn yn rhan allweddol o'r broblem. Yn 2017, sef blwyddyn dal uwch na'r cyfartaledd, roedd genweirwyr yn gyfrifol am 3.5% yn unig o'r ymelwa ar bysgod, y gellir ei briodoli i ddau ddigwyddiad potsio yn unig y gwyddys amdanynt, sydd ynddo'i hun yn rhybudd clir o effaith bosibl pysgota anghyfreithlon anhysbys. Mae'r dirywiad difrifol yn y boblogaeth llyswennod mewn afonydd yng Nghymru yn golygu mai pysgod o deulu'r eog yw'r brif ysglyfaeth ar gyfer dyfrgwn, a gofnodwyd yn 94% o'r safleoedd arolygu yng Ngwynedd yn 2009-10. Pan holwyd ef, mynegodd Peter Gough wrthwynebiad llwyr i ystyried camau rheoli i ddeall yr effaith ar boblogaethau pysgod a'r posibilrwydd o reoli niferoedd gormodol o ddyfrgwn. Er na fyddai'r gymuned enweirio'n dymuno gweld dyfrgwn yn cael eu herlid eto, ni all system wedi'i seilio ar dystiolaeth anwybyddu'r ffaith y gallai dyfrgwn fod yn brif laddwr eogiaid aeddfed yn ein hafonydd bellach, a gefnogir yn eironig gan agenda gadwraeth. Ni ellir cyflawni ymateb rheoli cymesur os oes tuedd sefydliadol o'r fath ar waith.

*Yr Ymagwedd Ddalgylch*

343. Y prif gyfyngiadau dalgylch sy'n effeithio ar iechyd stoc yn nalgylch Afon Ogwen yw morffoleg sianel wedi'i herydu, cynefinoedd wedi'u niweidio, materion ansawdd dŵr sy'n gysylltiedig â charthffosiaeth ac arferion amaethyddol, a rhwystrau rhag mudo. Hyd yn oed pan oedd cyfraddau dychwelyd eogiaid a ddaliwyd â gwialen oddeutu 30% ar gyfer yr afon, roedd swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn disgwyl y byddai cyfraddau dychwelyd uwch yn arwain at enillion llai, a hynny'n bennaf o ganlyniad i gapasiti cludo cyfyngedig yr afon mewn perthynas â safleoedd silio cyfyngedig. Nid oes unrhyw beth wedi newid i arwain at gynydd rheoledig yn y capasiti cludo hwn, ac nid oes unrhyw gynlluniau cyhoeddedig yn bodoli i wneud hynny. Mae'r unig obaith am weithredu o'r fath yn awr yn segur yn nhudalennau'r Cynllun Gweithredu Eogiaid gwreiddiol ar gyfer yr afon.

344. Mae'r ysgol bysgod ar gored glannau Ogwen wedi bod mewn cyflwr gwael ers yr 8 mlynedd diwethaf, yn dilyn methiant CNC a chyrff etifeddol i ddatrys y broblem allweddol. Yr ysgol bysgod yw'r porth i ardaloedd silio uchaf Afon Ogwen, ac mae gwrthodiad CNC i ysgogi datrysiad i'r broblem yn fethiant trychinebus i flaenoriaethu rhwystr allweddol i daith pysgod. Mae'n parhau i fod yn arwydd amlwg o anallu CNC i gymryd camau brys ar lefel dalgylch, er y bu'n barod i ddefnyddio ei adnoddau i hyrwyddo coredau HEP helaeth ledled dalgylchoedd Eryri, gan gynnwys yn y safle hwn. Mae hyn yn rhybudd bod y sefydliad, yn y mwyaf amlwg o sefyllfaoedd integredig posibl, wedi methu â sicrhau datrysiad integredig. Mynegir sinigiaeth fod CNC wedi rhoi hysbysiad statudol i berchenogion yr ysgol bysgod segur o fewn graddfa amser yr Ymchwiliad i arbed ei wyneb yn unig. Mae'n gam y gellid bod wedi'i gymryd yn rhwydd unrhyw bryd yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf gan yr awdurdodau rheoleiddiol, ac eto fe'i gohiriwyd ar y gynsail y dylid ceisio dyluniad arfer gorau ar gyfer y strwythur. Nid yw'r hysbysiad presennol yn mynegi anghenraid o'r fath ac felly bydd ysgol bysgod islaw'r safon yn dilyn.

345. Yn y 1990au a'r 2000au cynnar, roedd Cynlluniau Gweithredu Eogiaid (SAP) a chymorthfeydd pysgodfeydd cysylltiedig yn helpu clybiau genweirio a sefydliadau rhagflaenol CNC i sefydlu blaenoriaethau dalgylch ar gyfer pysgodfeydd. Fel y dywedodd Peter Gough yn yr Ymchwiliad, disodlwyd SAPau gan 'Ddogfennau Adnabod eich Afon'. Fodd bynnag, nid ydynt yn gweithredu fel sbardun ar gyfer camau gweithredu neu gynlluniau cyflawni mwyach, ond yn hytrach yn rhoi crynodeb cyffredinol o iechyd stoc ar gyfer prif afonydd eogiaid. Yn ystod bodolaeth CNC, nid oes unrhyw waith adfer cynefin na

sianel afon wedi cael ei wneud ar Afon Ogwen. Er y nodwyd bod yr WFD yn sbardun ar gyfer gweithredu mewn dalgylch, nid yw hyn wedi bod yn wir am yr afon hon mewn gwirionedd. Ac fel y dywedodd Peter Gough ei hun yn yr Ymchwiliad hwn, mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon a Chynlluniau Adfer Afon yn rhoi gobaith am weithredu yn y dyfodol 'dim ond os nad ydynt yn cael eu gadael ar y silff' fel mentrau eraill.

346. Dywedodd Mr Vaughan (CNC), o ran rheoli dalgylch, fod CNC 'yn ystyried ffyrdd eraill o reoli pethau' a, chan gydnabod y 'cyni economaidd' presennol y cyfeiriwyd ati gan holl dystion CNC yn yr Ymchwiliad, yr 'ymyl arian' oedd y gallu i 'weithio mewn partneriaeth ag eraill.' Cyfeiriodd Mr Vaughan at 'greu'r awyrgylch priodol' ac, o ran genweirwyr a CNC, yr angen i 'roi ein gwahaniaethau o'r neilltu'. Mae'n eithaf amlwg nad yw Mr Vaughan yn deall maint methiant CNC i ymgysylltu â'r gymuned enweirio na'r perygl mawr y mae'r is-ddeddfau'n ei achosi i'r holl ystyriaethau llesiant.

347. Yn y 1990au hwyr a'r 2000au cynnar, adferodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ran o gynefin Afon Ogwen yn y dalgylch uchaf. O ganlyniad i'r gwelliant hwn, cyflwynwyd stoc a fagwyd yn Silfa Mawddach, a darddodd o stoc fag o Afon Ogwen, i'r rhan o'r afon a oedd wedi'i gwella. Wrth i bysgod aeddfed ddychwelyd a dechrau defnyddio'r cynefinoedd wedi'u hadfer i silio, gofynnodd Cymdeithas Genweirio Dyffryn Ogwen i is-ddeddf leol gael ei chreu i atal yr holl bysgota yn y dalgylch uchaf o ddiwedd y tymor brithyllod nad ydynt yn fudol. Cefnogir yr is-ddeddf leol gan y gymuned enweirio, a weithiodd ar y cyd â'r rheoleiddiwr i weithredu ymateb cyfannol, penodol i ddalgylch, er mwyn gwella'r bysgodfa heb effeithio ar y rhan fwyaf o'r tymor genweirio yn gyffredinol. Mae'n debygol iawn mai'r fenter hon sydd bellach yn darparu rhywfaint o linell fywyd i Afon Ogwen o ran ei stociau eogiaid a brithyllod y môr presennol.

348. Er bod Mr Vaughan (CNC) yn dweud 'Ond mae adfer ecosystemau'n broses tymor hir – mae angen i CNC reoli disgwyliadau'r rhai sy'n ceisio gwelliannau'n syth'; mae'n anodd gweld sut mae'r sylw hwn yn berthnasol o ystyried sefyllfaoedd fel ysgol bysgod Glannau Ogwen, lle y bu diffyg camau gweithredu tymor byr sylfaenol. Fel y mae Mr Vaughan yn ei dderbyn o ran yr WFD – 'nid genweirwyr yw'r rhai cyntaf i feirniadu methiannau CNC', ond mae'n ffuantus iawn o CNC i fynnu bod genweirwyr yn cydymffurfio mor fanwl â thargedau pan nad yw dyheadau CNC ei hun a gofynion yr WFD yn cael eu bodloni. Fel y mae Mr Vaughan yn ei ddweud, 'Efallai na fydd afonydd yng Nghymru yn cyrraedd statws ecolegol da'; ac eto mae CNC yn ymddangos fel petai'n ddi-fai.

349. Canfu adroddiad 2016 ar gyflwr adnoddau naturiol Cymru nad oedd 63% o'r holl gyrsiau dŵr croyw yn cyflawni'r statws angenrheidiol, ac mai un o chwe chynefin dŵr croyw yn unig yr ystyriwyd eu bod yn 'ffafriol' ar gyfer bywyd gwyllt. Mae hyn yn broblem ddifrifol. Ac eto, gorfodwyd genweirwyr trwy'r broses niweidiol hon er nad nhw yw'r 'broblem' mewn gwirionedd. Yr hyn a oedd yn siomedig iawn oedd yr enghraifft o SMNR a roddwyd gan Robert Vaughan ynglŷn â CNC a Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd (FCRM). O ystyried bod Mr White wedi gweithio yn y maes hwn i'r sefydliad hwn, mae'n cydnabod, yn amlach na pheidio, bod hyrwyddo SMNR trwy FCRM daearol fel arfer yn golygu gwneud llai yn y maes FCRM; mae'n ymwneud yn rhannol ag ymroi ffydd ddall yng ngweddill y sefydliad i helpu i adfer elfennau o ddalgylch i gyflwr mwy naturiol. Unwaith eto, mae hyn yn golygu bod angen i'r prif sbardunwyr, sef cyllid a dyhead, fod ar waith – mae hyn yn gofyn llawer o sefydliad sy'n brin o adnoddau.

*Clybiau Pysgota Afon Ogwen – Effeithiau'r Is-ddeddfau*

350. Mae gostyngiad sydyn mewn aelodaeth yn 2017 yn golygu bod clybiau Genweirio Afon Ogwen yn ei chael hi'n anodd aros yn ariannol hyfyw ar hyn o bryd. Dywedodd Ruth Jenkins (CNC) 'Os bydd nifer y genweirwyr yn lleihau, gellir eu hadfer yn ddiweddarach'. Mae hyfywedd clybiau'n derfynedig. Mewn nifer o achosion, mae aelodaeth clybiau wedi lleihau cymaint fel bod goroesiad neu fethiant y clwb hwnnw'n dibynnu ar lond dyrnaid o aelodau. Ar sail arolygon genweirwyr a'r duedd bresennol, byddai clybiau'n cael eu rhoi mewn perygl dybryd pe byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn cael eu gweithredu. Mae cydnerthedd presennol y clybiau eisoes wedi'i danseilio'n ddifrifol gan fygythiad yr is-ddeddfau.

351. Mae elfennau o'r is-ddeddfau arfaethedig yn gwrth-ddweud y rheolau cadwraeth presennol a gymhwysir gan Gymdeithas Genweirio Dyffryn Ogwen yn ystod adeg distyll, a byddai'n rhaid dileu'r rhain. Byddai hyn yn arwain at fwy o gipfachu pysgod, a fyddai'n effeithio ar oroesiad pysgod. Bydd Cymdeithas Genweirio Dyffryn Ogwen yn cynnal 'cyfarfod eithriadol' ar 6 Mawrth 2019 i ystyried ei ddyfodol, o ystyried nad yw ymddiriedolwyr yn gallu ymdopi â'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd gweithredu presennol. Dyma'r tro cyntaf i glwb genweirio ar yr afon wynebu sefyllfa o'r fath.

*Ystyriaethau Llesiant*

352. Mae'r her lesiant i bob sefydliad cyhoeddus, gan gynnwys CNC, wedi'i hamlinellu yn y ddogfen Arweiniad Sector Cyhoeddus. Yr 'her arweinyddiaeth' i'r rhai o fewn sefydliadau y cyfeirir ati yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ni waeth beth fo'u swydd yn y sefydliad hwnnw, yw 'gweithio mewn ffordd sy'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i'n helpu ni i greu Cymru y dymunwn fyw ynddi yn awr ac yn y dyfodol'. 'Mae'n ffordd o feddwl ac ymddwyn – datblygu dyfodol a rennir lle y gallwn oll gydweithio gyda diben a rennir' (Deddf 2015 – Arweiniad).

353. Mae is-ddeddfau arfaethedig CNC yn peryglu llesiant amgylcheddol a chymunedol. Heb roi ystyriaeth briodol i'r effeithiau canlyniadol sy'n gysylltiedig â'r is-ddeddfau arfaethedig a'r broses ymgynghori, mae'r risgiau a achosir gan yr is-ddeddfau arfaethedig yn parhau i fod heb eu mesur, ac felly heb eu hystyried wrth asesu'r tebygolrwydd o gyflawni canlyniadau neu, yn eironig, achosi gwaeledd. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn achosi risg arwyddocaol i ffyniant economaidd; gwerthoedd cymdeithasol-ddiwylliannol/amwynder; iechyd a chyfranogiad; tystiolaeth a dadansoddeg; partneriaethau yn y dyfodol ac atal gweithgarwch anghyfreithiol. Mae CNC wedi bychanu'r risgiau hyn ac nid yw wedi cynnal asesiad risg ystyrlon. Yn syml, nid yw ystyriaethau llesiant wedi bod yn rhan annatod o'r broses hon, gan alluogi CNC i ddyfeisio mesurau y mae'n honni'n gyfeiliornus nad ydynt yn cael llawer o effaith yn y tymor byr ac a fydd fuddiol i lesiant yn y tymor hir.

354. Yn yr Ymchwiliad, dywedodd Peter Gough o CNC, o ran 'asesiad o'r effaith economaidd-gymdeithasol, nid yw CNC yn deall buddion genweirio i'r holl baramedrau economaidd-gymdeithasol ar hyn o bryd.' Y prif gwestiwn, felly, yw ar ba sail y mae'n credu ei fod wedi meintioli'r risgiau a achosir gan yr is-ddeddfau? Nid yw hyn yn lefel dderbyniol o aneglurder o ystyried nad yw CNC ychwaith wedi bod yn barod i dderbyn safbwyntiau a thystiolaeth y cymunedau genweirio. Mae'r Ddeddf Llesiant yn ceisio ysgogi sefyllfaoedd 'cydfuddiannol', felly dylid canolbwyntio ar gyfle ar draws y nodau llesiant. Nid ateb syml yw cyflawni llesiant yn y dyfodol; continwwm ydyw ac mae'n hanfodol llunio modd o gyfiawnhau pob cam o'r ffordd i wireddu'r canlyniadau a geisir i wella gwasanaethau ecosystem a chynnal pysgodfeydd.

355. Mae'r Ddeddf Llesiant yn dehongli 'Datblygu Cynaliadwy fel proses o wella llesiant.' Dyma ein nod ar y cyd a chyfrifoldeb CNC o dan 'y Ddeddf'. Gan fod CNC wedi datblygu mesurau sy'n ysgogi gwaeledd, nid yw hyn yn 'ddatblygu cynaliadwy' a dylai'r mesurau hynny, o ystyried y diffiniad, gael eu hystyried yn amhriodol. Mae'r ddau ddatganiad canlynol wedi'u cynnwys yn y ddogfen ganllaw gyhoeddus:

- 'Mae cynnwys pobl a chymunedau yn effeithiol wrth wraidd gwella llesiant yn awr ac yn y dyfodol. Mae'n cydnabod pwysigrwydd cynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn ychwanegu at yr Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd, yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.' a,
- 'Ffactor llwyddiant pwysig ar gyfer datblygu cynaliadwy yw cael mwy o gonsensws a chryfhau cyfranogiad y gymuned wrth benderfynu ar flaenoriaethau, ac wrth gyflawni.'

356. Mae'r broses hon wedi atal gwella llesiant am nifer o resymau eglur:

- Gwrthodwyd rhoi'r cyfle i gynyddu sut mae pobl yn cyfrannu at y broses hon i'r eithaf;
- Mae CNC wedi bod yn amharod i rannu gwybodaeth ac wedi defnyddio ymagwedd fyrolwg wedi'i seilio ar syniadau ragdybiedig;
- Collwyd y cyfle i ddarparu budd trwy'r holl nodau llesiant – nid yw dewis a dethol nodau i weddu i anghenion CNC ei hun yn ymagwedd resymol; ac,
- Mae hyn wedi arwain at bwyslais ar y dyfodol ar draul ystyriaethau'r presennol; mae CNC yn dweud ei fod 'yn credu mai'r ffordd orau o gynyddu buddion llesiant ac economaidd i'r eithaf yn y tymor canolig i'r tymor hir yw trwy adfer stociau eogiaid a brithyllod y môr' (CNC BB 8.18), sy'n ymddangos yn ddiniwed fel datganiad ar wahân.

357. Y tro yn y cynffon yw bod yr is-ddeddfau'n arwain at waeledd ac yn rhoi clwb genweirio mewn perygl dybryd oherwydd nad oes ganddo sicrwydd o fodoli i wasanaethu ei gymuned yn y tymor byr i'r tymor canolig heb sôn am y tymor hir. Felly, mae CNC yn credu ei bod yn dderbyniol gorfodi gwaeledd ar elfennau o gymuned, heb sôn am y perygl llai pwysig o syrthio'n fyr o ysgogi llesiant, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae'r symudiadau hyn yn rhai heb y bobl ac yn erbyn y bobl, ac yn tynnu'n groes i fwriad y Ddeddf sy'n ceisio gwella llesiant 'yn awr ac yn y dyfodol'. Ni ddylid cyfaddawdu llesiant, gan fod dyfeisgarwch yn ein hymagwedd yn gallu ymdopi â chanlyniadau o'r fath. Mae EA Lloegr wedi mabwysiadu ymagwedd wirfoddol sy'n grymuso'r gymuned enweirio ac yn osgoi ymateb gorfodol diffygiol.

358. Yn ei thystiolaeth yn yr Ymchwiliad, mae Ms Jenkins yn dweud mai deddfwriaeth yng Nghymru yw'r prif reswm dros yr ymagwedd wahanol yng Nghymru a Lloegr – ac eto mae Deddf WFG (Cymru) yn bodoli i warchod ein llesiant, nid ei danseilio fel y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn ei wneud. Mae'n ymddangos yn anghrediniol bod opsiynau amgen a ddarparwyd gan y gymuned enweirio yn ymdopi ag ystyriaethau llesiant yn unol â'r Ddeddf, ac eto eu bod wedi cael eu diystyru. Trwy ddweud bod 'yr amgylchedd yn sail i lesiant', mae Ms Jenkins rywsut yn awgrymu cyn belled â bod CNC yn bwriadu gwella'r amgylchedd, y bydd ystyriaethau llesiant yn cael eu bodloni. Mae'r sail resymegol hon yn

or-syml ac yn anghyfiawnadwy o ystyried bod polisi'n gallu arwain at niwed a chreu effeithiau sy'n anghyson ag amcanion. Mae'n rhaid i'r risgiau hyn gael eu hystyried a'u rheoli, ac nid yw hyn wedi digwydd.

359. Nid yw CNC wedi mesur y risgiau i lesiant, yn awr ac yn y dyfodol, oherwydd ei bod yn amlwg nad oedd yr ystyriaethau hyn wedi'u hymgorffori yn y broses ddatblygu fel y dylent fod. Mae'n annealladwy bod Ruth Jenkins, yn ystod croesholi, wedi ceisio cyfiawnhau'r ffaith bod CNC wedi osgoi ystyried cwmpas llawn ystyriaethau llesiant. Y pwynt allweddol yw bod anallu i wella llesiant mewn sawl ffordd, ac eto bod CNC wedi dewis dadlau ei ffordd allan o'r sefyllfa hon. Mae CNC wedi dewis a dethol rhannau o'r Ddeddf Llesiant i gyfiawnhau ei ddulliau, i bob pwrpas. Nid yw CNC wedi darparu unrhyw dystiolaeth ychwaith i ddangos y gellir cyfiawnhau ei anghytgord â'r WFD mewn unrhyw ffordd. Roedd yn amlwg o ymatebion Ms Jenkins yn ystod croesholi fod ystyriaeth CNC o lesiant yn ystod proses ddatblygu'r is-ddeddfau arfaethedig ymhell o fod yn eglur; gan amrywio o ddatganiad a oedd yn awgrymu ei bod yn credu bod yr holl nodau llesiant wedi'u cyflawni, i ddweud yn ddiweddarach nad oedd gan CNC gyfrifoldeb i weithio tuag at yr holl nodau llesiant, a bod gwella stociau pysgod yn y dyfodol yn gwneud iawn am annigonoldeb ystyriaethau llesiant eraill. Mae'n werth nodi, yn y ddogfen 'Pysgodfeydd Mewndirol Cynaliadwy yng Nghymru – Agenda ar gyfer Newid', bod CNC yn datgan y canlynol o ran datblygu cynaliadwy, 'Bydd pob canlyniad, rhaglen a pholisi yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn i gynaliadwyedd a thegwch trwy bwyslais ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.' Ni fyddai'r effeithiau a achosir gan yr is-ddeddfau arfaethedig yn cyd-fynd â Datganiad Llesiant 2017/2018 CNC.

*Casgliad*

360. Os yw cymunedau'r presennol a'r dyfodol am elwa o'n gweithredoedd, mae'n rhaid i ni lunio ffordd ddiwygiedig o gyflawni canlyniadau llesiant i'r amgylchedd a chymdeithas trwy'r broses hon. Ar gyfer pysgod ac ar gyfer pobl; ar gyfer yr amgylchedd a'r gymuned. Mae is-ddeddfau arfaethedig CNC yn achosi effeithiau gwaeledd presennol a chynyddol. Mae cyflawniadau ac ymrwymiad genweirwyr hyd yma i agenda wedi'i seilio ar gadwraeth wedi paratoi'r ffordd ar gyfer cynnydd pellach, ac eto gwrthodir ein grymuso ymhellach. Mae'r sefyllfa bresennol yn rhybudd i bawb; os na ddaw pawb at ei gilydd i ganfod ffordd o gydweithio i fynd i'r afael â'r her hon yn awr, bydd y genhedlaeth hon yn ymdrechu nid yn unig am gynnydd, ond i grafu'n ôl tir cyffredin i achub ein gweithredoedd ar y cyd.

361. A hithau wedi'i dieithrio o'r maes hwn, bydd y gymuned enweirio, heb unrhyw fai arni hi ei hun, yn ei chael ei hun mewn sefyllfa lle na fydd yn gallu helpu. Mae anghymesuroldeb y mesurau hyn a'r ffaith na ellir eu gorfodi, ynghyd â'r niwed y byddent yn ei achosi i gymunedau gwledig, yn golygu nad ydynt yn addas i'r diben. Ni ellir darparu'r profiad a'r nwyddau amgylcheddol y mae'r genhedlaeth bresennol yn dibynnu arnynt i genedlaethau'r dyfodol os yw'r cysylltiad rhwng y presennol a'r dyfodol yn cael ei ddileu gan fesurau anghymesur a ddatblygwyd ar sail resymegol fyrolwg.

362. Nid yw'r cynigion yn rhesymol, yn gymesur nac yn angenrheidiol. Nid ydynt yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol ac ni fyddant yn gwella stociau. Maen nhw'n amlygu stociau pysgod afonydd a chymunedau i effaith negyddol ehangach a dwysach, a dylid eu dychwelyd i GC ar unwaith.

**John Eardley ar ran CPWF**

363. Fel sefydliad sydd bob amser wedi ymdrechu i weithio ochr yn ochr â CNC a'i ragflaenwyr, yr hyn sy'n ganolog i safbwynt CPWF yw'r gwrthodiad i weithio gyda rhanddeiliaid i

benderfynu ar ddatrysiad gwirfoddol. Efallai bod CNC yn honni ei fod yn *“ceisio gweithio mewn partneriaeth yn eang ac yn gadarnhaol”*, ond geiriau gwag iawn yw’r rheiny ar hyn o bryd i’r rhan fwyaf yn y gymuned enweirio.

364. Er y cyfeirir yn bennaf at Afon Mawddach ac Afon Wnion yng Ngwynedd wrth gyflwyno’r dystiolaeth hon, mae’r pryderon yn gyffredin i nifer o afonydd eraill yng Nghymru a gellir eu crynhoi yn y pwyntiau isod.

365. *A) Nid yw’r data a ddefnyddiwyd gan CNC, EA a Cefas i gynhyrchu eu Hasesiadau Stoc Eogiaid yn ddibynadwy ac nid yw’n adlewyrchu arsylwadau’r rhai sy’n treulio amser ar yr afon, fel a ganlyn.*

1. Bu dirywiad enfawr mewn ymdrechion genweirio. Mae ffigurau swyddogol (EA Cymru) yn dangos gostyngiad o 72.6% ar Afon Mawddach rhwng 1995 a 2009. Teimlai 75% o enweirwyr a gymerodd ran mewn arolwg diweddar y bu gostyngiad pellach o 50% – 75% yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Mae’r awgrym bod 10% i 15% o’r eogiaid yn yr afon yn cael eu dal gan enweirwyr, pan fo cyn lleied yn pysgota mewn gwirionedd, yn amcangyfrifiad mor bell ohoni fel ei fod yn camystumio’r dosbarthiad canlyniadol.

2. Nid yw defnyddio afon a reoleiddir mor drwm ag Afon Dyfrdwy i lywio patrwm mudol unrhyw afon yn ei llif yn adlewyrchu’r gwir sefyllfa[327]. Mae patrymau rhedeg yn gymhleth ac yn gynyddol naill ai allan o’r tymor, neu ar adeg pan fo cyfyngiadau ar ddulliau a/neu reolau cadwraeth lleol yn golygu bod eogiaid yn annhebygol o gael eu dal gan wialen a llinell. Ni all y data dal â gwialen a adroddwyd arwain at asesiad cywir o statws stoc afon, a dylid nodi y tynnwyd sylw CNC at hyn yn ôl ym mis Tachwedd 2014[328].

3. Mae tanadrodd gan enweirwyr (49.5% ar Afon Dyfi yn 2017) yn camystumio’r model ymhellach, ac nid yw addasiadau diweddar i’r model asesu stoc wedi adlewyrchu newidiadau yn y byd go iawn.

4. Ni waeth pa mor soffistigedig yw’r model ystadegol, gall gynhyrchu “*amcangyfrifiad*” yn unig o nifer yr wyau a ddyddodir mewn afon. Nifer wirioneddol y pysgod ifanc sy’n bresennol yn ein nentydd a’n hafonydd yw’r hyn sy’n dangos y gwir sefyllfa (gweler C3 yn ddiweddarach yn y ddogfen hon).

366. *B) A oes angen i bob eog a ddelir gan enweirwyr mewn afonydd yng Nghymru gael ei ddychwelyd er mwyn i’r rhywogaeth oroesi?*

1. Mewn nifer o afonydd, yr ateb pendant yw <u>nac oes</u>. Nid yw’r darlun ledled Cymru yn un o ddirywiad cyffredinol. Dangosodd wyth o’r prif afonydd eogiaid yng Nghymru welliant o flwyddyn i flwyddyn yn ystod y 3 blynedd 2015 - 2017. Mae pedair o’r afonydd hynny, gan gynnwys Wysg, Conwy ac Ogwen, a ddangosir ar y graffiau sy’n cymharu pedair afon yng Nghymru a Lloegr[329], wedi

[327] Gweler ID CPWF/INQ/6 tudalen 5

[328] ID CPWF/INQ/6 tudalen 6

[329] ID CPWF/INQ 6 tudalen 35

rhagori ar eu CL yn ystod pob un o'r 3 blynedd diwethaf, a chyflawnodd 3 afon fwy na 200% o'u CL yn 2017. Honnodd CNC fod cyfrifiadau gwael o ran silod mân a brithyllod brych yn 2015/6 yn golygu y bydd yr effeithiau i'w gweld yn 2020 h.y. flynyddoedd yn ddiweddarach. Mae hyn wedi'i seilio ar ragamcanu'r llinell atchwel ymlaen 5 mlynedd.

2. Mae cymharu dychweliadau dal o'r 1950au hyd heddiw ar gyfer Afon Tyne[330] yn cefnogi'r farn bod afonydd yn gallu adfer o amgylchiadau enbyd heb gyflwyno rheolaethau dal gorfodol.

3. Yn ei broflen dystiolaeth[331], mae Laurence Hutchinson, sy'n arbenigwr ym maes ecoleg ddyfrol, yn dweud y bydd tynnu pysgod o afon yn ysgafnhau'r pwysau ar yr afon honno ac yn rhoi mwy o gyfle i bysgod ifanc oroesi. Yn fyr, mae gan bob nant *"gapasiti cludo"* ac ni waeth faint o eogiaid sy'n silio, ni all nifer y pysgod ifanc mewn nant fod yn fwy na'i chapasiti cludo. Nid nifer y pysgod sy'n silio yw'r peth pwysig, ond y nifer sy'n goroesi o'r ŵy i fod yn leisiaid sy'n cyrraedd y môr[332].

4. O gael cynefin da, a rheoli ysglyfaethu gan adar yn briodol, gall nifer fach o eogiaid aeddfed gynhyrchu digon o bysgod ifanc i boblogi nant yn rhwydd. Yn syml iawn, ac yn enwedig yn yr afonydd hynny yng Nghymru sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar eu CL yn rheolaidd, nid oes angen dychwelyd pob eog i'r afon er mwyn i'r rhywogaeth oroesi.

5. Yr hyn sy'n hollbwysig i adfer ein stociau pysgod mudol yw sicrhau bod colledion o ganlyniad i ysglyfaethu gan adar a llygredd amaethyddol yn derbyn sylw ar frys. Mae "*Prosiect Eogiaid Coll*" Ymddiriedolaeth Eogiaid yr Iwerydd yn pwysleisio'r angen i "*flaenoriaethu achosion marwolaeth".* Nid yw genweirio'n flaenoriaeth. Yn wir, nid yw ar ei rhestr hyd yn oed!

6. Nid yw Dr Mawle[333] "Felly, mae'r is-ddeddfau yn annhebygol o gyflawni llawer ar eu pen eu hunain i warchod a gwella'r stoc", ac Ian Russell[334] "felly, bydd mesurau'r is-ddeddfau arfaethedig yn arwain at gynnydd cymharol gymedrol yn nifer yr hwyfellod, er y disgwylid i'r buddion gronni dros amser", yn cyflwyno achos cymhellol dros ddatrysiad gorfodol, yn enwedig ar yr afonydd hynny sy'n rhagori ar eu CL fel mater o drefn, ac y dylid eu cydbwyso yn erbyn colledion mwy, o bosibl, trwy botsio.

367. *C) A yw afonydd yng Nghymru mewn sefyllfa waeth nag afonydd tebyg yn Lloegr y cynigiwyd datrysiad gwirfoddol iddynt?*

1. Yn fyr, nac ydynt. Er efallai bod canran fwy o afonydd yng Nghymru wedi'u dosbarthu "*Mewn Perygl yn Ôl Pob Tebyg"* neu *"Mewn Perygl"* nag yn Lloegr, nid

[330] ID CPWF/INQ/6 tudalen 11

[331] ID CPWF/2 Atodiad F, tudalennau 69 a 70

[332] ID CPWF/2 Ffigur 1 Tudalen 7

[333] ID P8 GM1

[334] ID NRW4 tudalen 11

yw'r darlun yng Nghymru yn un o ddirywiad cyffredinol yn seiliedig ar fethodoleg amheus a'r defnydd o ragamcanu llinell atchwel ymlaen (fel y nodwyd yn flaenorol yn B1 uchod).

2. Mae cymharu canran y CL a gyflawnwyd mewn 4 afon yng Nghymru a 4 afon yn Lloegr[335] yn dangos yn glir bod y 4 afon yng Nghymru yn gwneud ychydig yn well na'r afonydd yn Lloegr. Fodd bynnag, cynigir datrysiad gwirfoddol i'r afonydd hynny yn Lloegr tra bod yr "*Egwyddor Ragofalus*" yn cael ei nodi yng Nghymru fel rheswm dros wrthod rhoi cyfle tebyg i enweirwyr yng Nghymru.

3. Mae'r wybodaeth ym Mwletin Pysgodfeydd CNC ym mis Ionawr 2019[336] yn dangos yn glir bod nifer o afonydd yng ngogledd Cymru yn gwneud yn dda iawn ar hyn o bryd o ran pysgod ifanc. Yn wir, dywedir mai'r canlyniadau o Fawddach ac Wnion yw'r *"gorau a gofnodwyd erioed"*, ac ychwanegodd CNC *"mae'n rhaid y bu silio'n llwyddiannus hefyd i gyflawni dwysedd mor uchel".*

*368. Ch) A oes modd gorfodi'r is-ddeddfau arfaethedig?*

1. Un o'r risgiau a amlygwyd gan CNC yn ei drafodaeth gychwynnol â'i Fwrdd yn ôl ym mis Gorffennaf 2015 oedd yr *"Angen posibl i ailgyfeirio neu gynyddu adnoddau gorfodi pysgodfeydd i orfodi unrhyw reoliadau newydd".*

2. Yng nghyfarfod Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd (LFAG) Gwynedd ar 5.12.18, dywedwyd wrthym y bydd yr 16.25 o Swyddogion Gorfodi cyfwerth ag amser llawn presennol yn cael eu haildrefnu'n 10 tîm.[337]

3. Bydd llai o enweirwyr ar lan yr afon yn arwain at lai o ataliaeth i weithgarwch anghyfreithlon a llai o wybodaeth i helpu'r tîm gorfodi sydd eisoes yn brin o staff. Gwaethygir y sefyllfa hon wrth i enweirwyr gael eu dieithrio gan safbwynt presennol CNC ynglŷn â chynigion yr is-ddeddfau.

4. Mae'r datganiad *"gobeithiwn y bydd genweirwyr yn parhau i roi gwybodaeth i ni dros y ffôn"* yn amlygu pryderon o fewn CNC y gallai diffyg gwybodaeth fod yn broblem gynyddol yn y dyfodol.

5. Yn fyr, heb bartneriaeth ystyrlon rhwng CNC a rhanddeiliaid genweirio, ni ellir plismona'r is-ddeddfau arfaethedig yn effeithiol. Gallai'r colledion o ganlyniad i botsio fod yn fwy o lawer nag unrhyw enillion ymylol y gellid eu cyflawni trwy orfodi deddfwriaeth ar enweirwyr dilys sy'n dilyn y gyfraith, ac felly mae mwy o'r stoc silio'n debygol o gael ei cholli.

*369. D) A fydd "unrhyw ostyngiad yn nifer y bobl sy'n pysgota yn fach a byrhoedlog"?*

1. Mae ymateb genweirwyr i C&R gorfodol yn gymhleth. Mae llawer o enweirwyr yn ei chael hi'n anodd cyfiawnhau bachu, blino a glanio pysgodyn maen nhw'n gwybod y bydd rhaid iddyn nhw ei ddychwelyd i'r afon, a'u hymateb yw

---

[335] ID CPWF/INQ/6 tudalen 35

[336] ID CPWF/INQ/6 tudalen 22

[337] ID CPWF/INQ/6 tudalen 46

*"Buasai'n well gen i adael llonydd iddyn nhw"*. Mae hyn yn llai o broblem i eraill.

2. Fodd bynnag, mae pawb yn gwybod oni bai y gwaherddir pysgota'n gyfan gwbl, y bydd gweithredoedd o'r fath yn arwain at farwolaeth pysgodyn yn y pen draw. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl i'w ddychwelyd i'r afon yn farw yn yr amgylchiadau hynny gan na fydd yn cyfrannu at y stoc silio.

3. Yr *"opsiwn"* o allu cadw pysgodyn, er na fydd llawer o enweirwyr yn gwneud hynny mewn gwirionedd, yw'r hyn sy'n ein galluogi i leihau'r gostyngiad mewn aelodaeth clybiau genweirio a'r bygythiad a achosir gan fwy o golledion trwy weithgarwch anghyfreithlon pan fydd llai o enweirwyr ar afonydd.
4. Mae'r dystiolaeth gan glybiau genweirio yng ngogledd Cymru a'n cydweithwyr ar afon Border Esk, sef cymuned wledig sy'n debyg iawn i rannau o Gymru, yn awgrymu effaith fwy o lawer nag a ragfynegwyd gan CNC[338].
5. Er bod CPWF wedi amlygu'r risgiau amlwg i economïau gwledig bregus a achosir gan ddirywiad mewn twristiaeth enweirio, fel ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd, Conwy a Gwynedd, mae'r effaith ar gyfranogiad genweirwyr mewn gweithgorau yn achos pryder mawr o ran gwaith gwella cynefin a chynlluniau adfer afonydd.

*370. Dd) A yw'r is-ddeddfau arfaethedig yn cynnig datrysiad cyfrannol?*

1. Nac ydynt. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae statws stociau eogiaid yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, ac felly nid yw 'un ateb i bawb' yn briodol.

2. Mae'n ymddangos bod yr egwyddor ragofalus yn cael ei defnyddio i gyfiawnhau peidio â chynnig datrysiad gwirfoddol fel cam cyntaf ar gyfer afonydd sydd *"Mewn Perygl yn Ôl Pob Tebyg"* yng Nghymru. Er bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn fater i Lywodraeth Cymru yn y pen draw, ni allwn ddeall pam y byddai Cymru'n dymuno mabwysiadu ymagwedd lymach na Lloegr, yn enwedig pan fo'r EA a CNC yn gweithio ar y cyd â Cefas ar eu hasesiadau stoc eogiaid.

3. Gweithiodd Clybiau a Sefydliadau Genweirio ledled Cymru yn galed i gyflawni cyfradd dychwelyd gwirfoddol o 86% yn 2017. Ar afonydd Mawddach ac Wnion, y ffigur gwirfoddol a gyflawnwyd yn 2017 oedd 86.5%, gyda chyfraniad dibwys o'r cyfnod gorfodol cyn 16 Mehefin. Ar yr adeg hon, ni all cyflwyno Dal a Rhyddhau Gorfodol arwain at unrhyw fuddion gwerth chweil, yn enwedig gan y bydd cynnydd mewn gweithgarwch anghyfreithlon yn arwain at fwy o golledion.

[338] ID CPWF/INQ/6 tudalen 37-38

4. Bydd cyflwyno mesurau gorfodol am gyfnod o 10 mlynedd, yn enwedig pan fo lefelau stoc mor amrywiol ac yn dangos gwelliant 3 blynedd mewn nifer o afonydd ar hyn o bryd, yn gyfystyr â chyflwyno dedfryd oes sy'n chwalu pob gobaith i lawer o enweirwyr, yn enwedig y rhai sy'n hŷn na'r oedran ymddeol.
5. Trwy fethu ag ymgysylltu â rhanddeiliaid genweirio wrth ddatblygu'r is-ddeddfau arfaethedig, fel y cydnabuwyd gan Fwrdd a Gweithrediaeth CNC yng Nghyfarfod Bwrdd mis Ionawr 2018, mae'n anodd gweld o ble y daw unrhyw gefnogaeth o fewn y gymuned enweirio i helpu CNC i gyflawni ei amcanion. Mae digwyddiadau yn ystod y 12 mis diwethaf wedi gwaethygu'r sefyllfa ymhellach.
6. Heb bartneriaeth ymarferol rhwng CNC a rhanddeiliaid genweirio, ni ellir gweithredu'r cynigion presennol. Mae'r diffyg cydweithrediad hwnnw'n ymateb dynol syml i wrthodiadau mynych ac nid *"bygythiad"*, fel yr awgrymwyd yn ystod trafodaethau yn yr Ymchwiliad hwn.

*371. E) A oes ffordd well ymlaen?*

1. Oes. Mae datrysiad gwirfoddol ar gael, sy'n datblygu fformat y "cymorthfeydd pysgodfeydd" nad ydynt yn bodoli mwyach ac sy'n gweithio ar sail afonydd unigol, sy'n cynnig dewis llawer mwy *"cydnerth"* a *"chynaliadwy"* i fynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol[339]. Fe'i cynigiwyd i CNC fel ymagwedd amgen cyn hired yn ôl â mis Mehefin 2016, ond, er y cydnabuwyd bod iddo *"werth go iawn"* a'i fod wedi cael *"sylwadau cadarnhaol iawn",* fe'i gwrthodwyd yn sgil yr ymgais diarbed bron i sicrhau datrysiad deddfwriaethol. Gall ymagwedd bragmatig a chreadigol o'r fath at fynd i'r afael â'r hyn sy'n amlwg yn broblem gymhleth ein helpu i osgoi effaith anfwriadol a fydd yn para'n hir ar ôl i'r gweithwyr presennol ymddeol a'm cenhedlaeth i roi eu gwialenni i gadw am y tro olaf.
2. Dylem gofio mai addysg, cydweithredu, grymuso a phartneriaeth yw'r hyn sydd wedi gweld cyfraddau dychwelyd gwirfoddol yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn i'r lefel uchaf erioed o 86% ledled Cymru[340]. A yw democratiaeth yn yr 21ain ganrif wir eisiau cefnu ar y gwerthoedd hynny sydd wedi dod â ni mor bell, ar draul datrysiad awtocrataidd sy'n dieithrio'r union randdeiliaid hynny y mae eu gwybodaeth am eu hafonydd mor angenrheidiol i'w hadferiad?
3. Mae cyfle cyffrous ar gael i greu dyfodol gwell i afonydd a stociau pysgod mudol yng Nghymru. Mae'r genweirwyr eisiau gweithio mewn partneriaeth â CNC, nid mewn gwrthwynebiad cyson, fel yr ydym wedi cael ein gorfodi iddo.
4. Gall genweirwyr, sydd â buddiant breintiedig mewn dyfodol afonydd, ond gobeithio y bydd canlyniad yr Ymchwiliad hwn yn darparu'r camau cyntaf tuag at ddatrysiad cydweithredol sy'n sicrhau'r dyfodol gorau posibl i afonydd, stociau pysgod mudol a'r clybiau genweirio a'r dwristiaeth wledig a gynhelir gan afonydd iach.

---

[339] ID CPWF/INQ/6 tudalen 52

[340] ID CPWF/INQ/6 tudalen 54

**Mike Ashwin ar ran CPWF**

372. Mae Mr Ashwin yn canolbwyntio ar honiad a chyfiawnhad CNC bod stociau wedi cyrraedd argyfwng ac mai mesurau gorfodol a chyfyngiadau gorfodol ar ddulliau yw'r unig ddewis sydd ar gael i reoli pysgota â gwialen, ac mae'n herio'r honiad a'r cyfiawnhad hynny. Pwysleisir eto nad oedd CNC wedi croesholi na herio unrhyw dystiolaeth ystadegol a gyflwynwyd yng ngwrthwynebiad CPWF i achos CNC ar unrhyw adeg. Cyflwynodd CPWF wrthwynebiadau ystadegol di-ddadl ac mae'n amlygu cywiriadau i ddatganiadau tyst allweddol CNC.

Strategaethau Cadwraeth a Dylanwad Tueddiadau Arwyddocaol ar Fodelu Stoc a Stociau a Arsylwyd

373. Nid yw stociau mudol mewn afonydd yng Nghymru wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol lle nad oes troi'n ôl, fel y mynegwyd gan CNC, ac nid ydynt ychwaith mewn argyfwng. Mae ffigurau hanesyddol dal eogiaid â gwialen fel prif ddangosydd iechyd stoc yn dangos tystiolaeth o "flynyddoedd dalfeydd isel" tebyg yn ystod 1982-4, 1989-92 a 1997-2003[341]. Cydnabyddir, fodd bynnag, bod tueddiadau ac effeithiau arwyddocaol yn yr amgylchedd dŵr croyw a morol yn bygwth recriwtio pysgod ifanc a goroesiad gleisiaid, ac y byddant yn peryglu stociau cynaliadwy os na roddir sylw iddynt.

374. Y farn gyffredin ymhlith pysgotwyr gwialen yng Nghymru yw nad yw dogfen TC CNC yn amlinellu strategaeth eglur na chydlynol i reoli stociau pysgod mewn afonydd yng Nghymru. Mae hyn yn amlwg trwy fethiant i gynnal a chyflwyno asesiad risg sylfaenol o fygythiadau i foblogaethau cam bywyd yr oedd CPWF yn gallu ei gyflwyno mewn diagram marwoldeb cylchred oes gyfan syml. Byddai gwneud hynny'n amlygu heriau i stociau afonydd a grwpiau genetig/cydrannol, ac yn blaenoriaethu camau gweithredu ymarferol mewn ardaloedd a fydd yn cyflawni'r gwelliant mwyaf. Mae'r diffyg adnoddau a roddir i adrannau pysgodfeydd yn dangos absenoldeb strategaeth a nodau a ddiffiniwyd yn eglur.

375. Mae CNC wedi sôn am gyfres o fesurau, ond nid oes tystiolaeth o hyn ym mhapurau TC yr is-ddeddfau arfaethedig o ran dyrannu adnoddau, gosod amcanion a chyflawni targedau mesuradwy. Yn ystod croesholi, mae CNC wedi cyfeirio at yr un gyfres o fesurau fel targedau "dyheadol".

376. Y gwir yw ei bod hi'n amhosibl mesur stociau afonydd yn fanwl gywir, hyd yn oed ar bwyntiau cyfeirio biolegol critigol (dyddodi wyau a gleisiaid sy'n gadael afonydd), a bod modelau afonydd damcaniaethol a thybiaethau critigol yn cael eu gwneud i amcangyfrif stociau presennol a rhagamcanol. Mae CLs a'r MO uwch i reolwyr anelu atynt yn hanesyddol. Fe'u sefydlwyd o fewn y cyfnod 1990 i'r 2000au cynnar a chymhwyswyd amcangyfrifon ynglŷn â goroesiad yn y môr a newidynnau eraill i asesiadau blynyddol nad ydynt bellach yn cyd-fynd ag amcangyfrifon cyfredol. Mae CPWF wedi dangos nad yw egwyddorion y model cadwraeth sy'n diffinio CLs afonydd unigol trwy'r 'gromlin recriwtio stoc' (cam pysgod ifanc mewn afonydd) a'r 'llinell ddisodli' (cam gleisiaid sy'n cyrraedd y môr) yn addasu i ostyngiadau mewn tueddiadau goroesi yn y môr a'u bod, mewn gwirionedd, yn lleihau targedau CL yn wrthreddfol i gynnydd mewn marwolaethau gleisiaid yn y môr.

[341] Cyfeiriwch at dabl 12, tudalen 26, CD ACC/28

377. Mae achos cadwraeth is-ddeddfau eogiaid CNC yn troi ar yr honiad bod ei asesiad o'r stoc mewn afonydd yng Nghymru, yn ei chyfanrwydd, yn ddigon o reswm dros orfodi mesurau a chyfyngiadau ysgubol a hollgynhwysol ar gyfer afonydd Cymru, a bod cyfiawnhad i'r rhain ni waeth beth fo statws stoc afonydd unigol. Yn ganolog i hyn yw'r adroddiadau cenedlaethol o amcangyfrifon stoc silio blynyddol mewn afonydd unigol i CL ac, yn dilyn ymlaen o'r rheiny, gweithdrefnau cydymffurfio ffurfiol sy'n defnyddio methodoleg sy'n mynegi tuedd linol atchwel 10 mlynedd afon i CL fel "tebygolrwydd" afon o gyflawni ei MO yn y flwyddyn bresennol ac fel "rhagfynegiad" pum mlynedd o statws stoc afon.

378. Yn ystod cyfnod asesu stoc 10 mlynedd yr is-ddeddfau, ac yn ystod y tymor hwy, mae newidiadau mawr wedi digwydd i'r amodau amgylcheddol ym mhob cam o gylch oes pysgod mudol o deulu'r eog. Mae rheoliadau pysgodfeydd (e.e. Is-ddeddfau Eogiaid y Gwanwyn) a newidiadau i godau ac ymddygiad cadwraeth genweirwyr hefyd wedi cael dylanwad arwyddocaol ar stociau a arsylwyd ac a amcangyfrifwyd.

379. Mae "gwir" ymelwa trwy bysgota â rhwydi a physgota â gwialen (eogiaid sy'n cael eu dal a'u lladd) wedi lleihau 90% ers y 1970au cynnar[342]. Mae genweirwyr yng Nghymru wedi cyfrannu'n sylweddol at y gostyngiad hwn, gan fod cyfran flynyddol yr eogiaid a ddaliwyd â gwialen ac a ryddhawyd wedi gwella'n sylweddol o 7% ym 1993 i 86% yn 2017[343]. O ystyried cyfradd C&R o 90% ac ymelwa â gwialen ar rhwng 10 - 20% o'r stoc pysgod aeddfed, mae hyn yn gyfystyr â chymryd 1 -2% yn unig o'r stoc silio[344]. Yn arwyddocaol, mae pysgota â gwialen yng Nghymru (eogiaid a brithyllod y môr) wedi lleihau 60% yn ystod y blynyddoedd 1994 i 2017[345], ac mae'n anodd meintioli ei wir effaith ar ddal pysgod â gwialen mewn afonydd fel mesur go iawn o amcangyfrifon silio.

380. Tynnodd CPWF sylw at ostyngiad yn nifer y gleisiaid sy'n goroesi yn y môr, sydd wedi bod yn destun adroddiadau ac ymchwiliadau cenedlaethol. Cyfeiriodd hefyd at amcangyfrifon afon mynegai a adroddwyd o afonydd Dyfrdwy, Tamar a Frome sy'n dangos bod stociau 1SW ac MSW gyda'i gilydd wedi gostwng yn sylweddol ers y 1970au, a hynny heb achos nac effaith wedi'u hesbonio na'u priodoli. Mae Bwrdd Ymchwil Rhyngwladol Eogiaid yr Iwerydd ac eraill wedi gwario degau ar filiynau o bunnoedd ar astudio marwolaeth yn y môr a llwybrau mudo yn y môr, ond, heblaw am gyfyngiadau ar rwydo stociau morol ar y môr mawr ac ar y glannau, nad ydynt wedi llwyddo i wrthdroi'r duedd hon, nid oes unrhyw gamau eraill wedi'u cymryd yn genedlaethol nac yn rhyngwladol i wrthdroi hyn.

381. Dangosodd CPWF[346] na fydd rhai afonydd, er eu bod yn cynhyrchu'r nifer fwyaf o leisiaid sy'n gadael i fynd i'r môr, yn gwrthbwyso'r lefel hon o farwolaeth i ddychwelyd digon o hwyfellod, hyd yn oed gyda thargedau CL is. Bydd yr afonydd hyn yn parhau i wynebu diffygion o ran nifer y gleisiaid sy'n gadael i fynd i'r môr oni bai bod camau rhyngwladol sy'n cynnwys gwledydd y DU yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â cholli gleisiaid yn y môr. Yn ystod y cam pysgod ifanc mewn dŵr croyw, mae pob afon yn agored i ffactorau dalgylch amgylcheddol sy'n cyfyngu ar gynhyrchu pysgod ifanc dilychwin a gleisiaid sy'n

---

342 Cyfeiriwch at dudalen 23 – CD ACC/28

343 Cyfeiriwch at dabl 12 tudalen 27 CD ACC/28

344 Cyfeiriwch at ffigur 1 tudalen 7 ID CPWF/2 Cylch oes eogiaid

345 Cyfeiriwch at dabl 8 tudalen 17 CD ACC/28

346 Cyfeiriwch at dudalennau 42 a 43 ID CPWF/2

gadael i fynd i'r môr, a thybir y rhain yn y model cadwraeth ar gyfer gosod y CL ac MTs. Mae CNC yn cydnabod maint ac effaith gyfunol y rhain fel y prif ffactor sy'n herio ac yn bygwth stociau cynaliadwy. Dyma lle mae'n rhaid i strategaeth cadwraeth dŵr croyw gyflawni camau gweithredu wedi'u targedu.

382. Gellid dadlau mai'r effaith unigol fwyaf ar ddal â gwialen ac amcangyfrifon stociau eogiaid mewn afonydd yn ystod cyfnod 10 mlynedd asesiadau stoc afonydd yr is-ddeddfau arfaethedig fu'r gwrthdroad a'r newid yng nghyfran y stociau 1SW ac MSW trwy batrymau gwahanol o rediadau stoc pysgod aeddfed sy'n dychwelyd i'w hafonydd gwreiddiol. Cyfeirir at hyn yn hirfaith ym mhroflen dystiolaeth Ian Davidson[347], a orffennodd drwy ddatgan yn 3.25 '*Gan fod y rhan fwyaf o'r prif afonydd eogiaid yng Nghymru wedi'u dominyddu gan leisiaid – mae gostyngiadau nodedig mewn niferoedd gleisiaid yn debygol o fod yn ffactor arwyddocaol sy'n achosi methiant nifer o afonydd yng Nghymru i gyrraedd eu Terfynau Cadwraeth'*.

383. Mae'r newidiadau hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn dehongli iechyd stoc afonydd unigol, ac yn amlygu'r angen brys i adolygu amcangyfrifon dal â gwialen, cyfraddau ymelwa â gwialen a rhediadau y tu allan i'r tymor yn dymhorol. Yn fyr, ar ôl cyfnod o 40 mlynedd pryd y cyflwynwyd modelau eogiaid a CLs ar gyfer afonydd sy'n cael eu monitro lle'r oedd pysgodfeydd yn profi rhediadau rheolaidd o bysgod haf a hydref 1SW/gleisiaid llai o faint a oedd yn cynrychioli 60 - 70% o'r stoc, mae'r rhain wedi cael eu gwrthdroi mewn nifer o afonydd ac yn ymddangos fel petaent wedi sefydlogi yn ystod y tair blynedd diwethaf, gan gyfrannu ar gyfartaledd at 30 – 40% yn unig o ddalfeydd â gwialen a rhediadau silio amcangyfrifedig mewn afonydd[348]. Cydnabyddir bod y ffenomen naturiol a arsylwyd, sef Osgiliad Gogledd yr Iwerydd, yn gyfrifol am gyflwyno cylchredau 40-50 mlynedd tymor hir o gerhyntau Gogledd yr Iwerydd sy'n cynhesu ac yn oeri am yn ail, a bod hyn yn newid y ffynonellau bwyd morol sydd ar gael. Mae afonydd a dalfeydd â gwialen wedi bod yn newid yn ystod y 5-7 mlynedd diwethaf i rediadau llai o eogiaid MSW mwy o faint sy'n cario cyfraniadau uwch o ddyddodiadau wyau silio.

384. Mae cyflwyno'r Is-ddeddfau Eogiaid y Gwanwyn cenedlaethol (sy'n mynnu C&R gorfodol cyn 16 Mehefin) a newidiadau i batrymau rhediadau afonydd wedi cael effaith sylweddol ar ymdrechion genweirwyr a dalfeydd â gwialen yn gyffredinol, yn ogystal ag ansicrwydd pellach o ran amcangyfrifon stoc silio wedi'u seilio ar ddalfeydd â gwialen.

Adroddiadau ac Ansicrwydd Amcangyfrifon Stoc Silio Afonydd Blynyddol i CL

385. Wrth asesu stociau afonydd unigol, cymhwysir nifer o ffactorau amrywiol a thybiaethau ynglŷn â phwysau/graddfa dyddodi wyau i bennu'r stociau silio hwyfellod 1SW ac MSW mewn afonydd a'r gyfradd dyddodi wyau derfynol mewn afon gyfan fel mesur o berfformiad yn erbyn CL. Mae pob ffactor yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i amcangyfrifon terfynol a gall anghywirdeb mewn un ffactor neu gyfuniad o ffactorau beryglu cywirdeb perfformiad afon yn erbyn CL. Mae ansicrwydd yn y ddwy elfen o'r tablau hyn sy'n ymwneud â genweirwyr yn ddigonol i godi amheuon ynglŷn â dibynadwyedd yr asesiadau stoc afonydd 10 mlynedd hanesyddol sy'n sail i gyflwyno achos cadwraeth yr is-ddeddfau arfaethedig.

[347] Cyfeiriwch at ID NRW/2 tudalen 12-14 cyf 3.2.17-25

[348] Cyfeiriwch at dabl 19, tudalen 33 CD ACC/28.

*Amcangyfrifon dalfeydd genweirwyr a chywiriadau am ddalfeydd wedi'u tanadrodd*

386. Heblaw am yr amcangyfrifon o ddyfeisiau cyfrif neu faglau ar gyfer Afonydd Dyfrdwy a Thaf, mae'r holl amcangyfrifon stoc eraill o afonydd sy'n cael eu monitro yn deillio o fetrig sylfaenol dalfeydd gan enweirwyr. Yn ystod y tair blynedd asesu diwethaf, sef 2015-17, mae CNC wedi cymhwyso cywiriadau ac ymgodiadau i ddychweliadau a adroddwyd yn amrywio o 28 - 36%[349], o ganlyniad i broblemau canfyddedig â chyflwyno dull adrodd ar-lein, lle'r oedd 55 - 59% yn unig o'r trwyddedau mudol a roddwyd wedi cael eu dychwelyd a'u prosesu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Cyn 2015, cymhwyswyd cywiriad safonol o 10%. Mae dadansoddiad CPWF o ddwy afon, sef Afon Gwy ac Afon Dyfi, lle y casglwyd amcangyfrifon dalfeydd â gwialen annibynnol a dibynadwy dros nifer o flynyddoedd, yn dangos bod y dalfeydd gan enweirwyr a danadroddwyd i CNC yn amrywio rhwng 25 - 40% yn y blynyddoedd cyn 2015[350]. Credir bod saith o'r blynyddoedd adrodd blaenorol am ddalfeydd â gwialen o fewn cyfnod 10 mlynedd asesiadau stoc 2007-16 sy'n ffurfio dynodiadau statws stoc afonydd a'r cyfiawnhad dros yr is-ddeddfau arfaethedig, wedi'u tanadrodd ac yn annibynadwy.

*Lluosyddion Cyfradd Ymelwa â Gwialen*

387. Defnyddiwyd lluosyddion cyfradd ymelwa â gwialen wrth gysylltu dalfeydd 1SW ac MSW â gwialen â'r stoc silio derfynol. Mae Cefas, CNC ac EA yn cydnabod nad yw elfennau allweddol o bennu cyfraddau ymelwa â gwialen yn gywir wedi cael eu cynnwys yn y cyfrifiadau hyn ers i'r fethodoleg dosbarthu afonydd gael ei chyflwyno yn 2004. Y rhain yw, yn bennaf, gwell cywirdeb o ran cyfanswm ymdrechion genweirwyr a dosrannu rhywogaethau (eogiaid a brithyllod y môr), cyflwr llif afonydd ac addasiadau o ganlyniad i rediadau y tu allan i'r tymor. Yn unigol neu ar y cyd, gall y rhain arwain at gywiriadau arwyddocaol i amcangyfrifon cyfredol a golygu bod angen adolygu'n flynyddol yn y dyfodol i gyfrif am ffactorau tymhorol. Cafodd CPWF gadarnhad yn yr Ymchwiliad ym mis Ionawr 2019 trwy ddatganiad gwrthbrawf Ian Davidson[351] fod Cefas, CNC ac EA bellach yn adolygu'r holl gyfraddau ymelwa ar afonydd yng Nghymru a Lloegr ac y bydd hyn yn effeithiol o asesiadau 2018 ymlaen. Yn amlwg, ni fydd yr adolygiad cenedlaethol hwn yn cywiro nac yn diwygio asesiadau a ddefnyddiwyd ac a gyflwynwyd ar gyfer 2007-2016 a wnaed yn y TC, a dyma'r rheswm pam yr argymhellodd CPWF i GC y dylid cytuno ar gynigion C&R dros dro hyd nes bod yr adolygiad a'r ailasesiadau wedi'u cwblhau. Mae enghraifft CPWF o ymdrechion genweirwyr o ran eogiaid, a ostyngodd 73% ar Afon Mawddach a 58% ar Afon Wnion yn y blynyddoedd rhwng 1999 a 2004[352], yn dangos gostyngiadau arwyddocaol ac amrywiol mewn ymdrechion genweirwyr ac amcangyfrifon ynglŷn â dalfeydd posibl â gwialen ac iechyd stoc. Mae'r pryderon mwyaf lle mae amcangyfrifon o un afon yn cael eu cymhwyso i sawl afon.

388. Mae CPWF yn argymell bod gweithrediadau maglau Afon Dyfrdwy, sy'n fynegai sy'n bwysig yn genedlaethol ac y mae mwyafrif yr amcangyfrifon ymelwa â gwialen mewn afonydd eogiaid sy'n cael eu monitro yng Nghymru a'r rhan fwyaf o'r rhai yng ngogledd-orllewin Lloegr yn cyfeirio atynt, yn datgelu manylion cefndir i'r cyfrifiadau hyn trwy eu Hadroddiad

[349] Cyfeiriwch at dudalen 46 ID CPWF/2

[350] Cyfeiriwch at dudalen 46 ID CPWF/2

[351] Cyfeiriwch at ID NRW/2R - 3.9

[352] Cyfeiriwch at dudalen 47 ID CPWF/2

pwysig ar Raglen Asesu Stoc Genweirwyr Afon Dyfrdwy. Codir amheuon ynglŷn â'r dybiaeth fod cyfran yr eogiaid a ddaliwyd â gwialen sydd wedi'u tagio a heb eu tagio ymhlith dychweliadau cynllun Cofnodlyfr Dyfrdwy yn darparu sgôr "effeithlonrwydd" gywir o'r cyfrifydd ac yn adlewyrchu cyfran y pysgod a faglwyd yng Nghored Caer o gymharu â rhediad silio'r afon gyfan a ddilyswyd. Ceisir mwy o eglurder ynglŷn â maint sampl genweirwyr Afon Dyfrdwy, y dulliau a ddefnyddiwyd, ymdrech a lleoliad sy'n gynrychiadol o ymdrechion dibynadwy genweirwyr a pha effaith y mae amser segur 40% y fagl yn ei chael ar ryng-gipio ac amcangyfrif yn gywir symudiadau maint rhediad silio'r afon gyfan, o fewn a'r tu allan i'r tymor genweirio.

Methodoleg dosbarthu afonydd ar gyfer asesu statws afonydd – gwendid a diffyg dilysu

389. Yr unig beth sy'n sicr wrth gyflwyno neu ddadansoddi tueddiadau a rhagfynegiadau ynglŷn â'r stoc eogiaid, yw bod ansicrwydd mawr ynglŷn â rhagfynegi amseriad, cyfansoddiad stoc a maint rhediad. Mae amcangyfrifon dal â gwialen a chyfrifydd/magl a setiau data hanesyddol 5 neu 10 mlynedd yn darparu amcangyfrifiad gorau (yn nhermau rheoli stoc) o stociau'r flwyddyn i ddod. Mae'r model dosbarthu afonydd yn defnyddio perfformiad dyddodi wyau blynyddol hanesyddol 10 mlynedd afon, gan ei fynegi ar ffurf tuedd linol (llinell syth) 20fed canradd atchweledig a gostyngedig, ac yn rhagamcanu hyn ymlaen 5 mlynedd gan dybio y bydd stociau'n dilyn y duedd honno yn union yr un fath mewn llinell syth. Diffinnir statws stoc afon fel "y tebygolrwydd y bydd ei stoc yn cyrraedd yr amcan rheoli" (gan ragori ar y CL mewn 4 blynedd o bob 5). Yn y "rhagfynegiad" 5 mlynedd ar gyfer y dyfodol, mae safle tuedd linol yr afonydd mewn perthynas â'r targed CL a'r hyder a briodolir i amrywioldeb stociau blynyddol yn gosod y band statws Risg o fewn pedwar band tebygolrwydd rhagosodedig, sef AR, PAR, PnaR a NAR.

390. Mae'r ymagwedd ragofalus wedi'i hymsefydlu'n ddwfn wrth gymhwyso'r model hwn, lle y cymhwysir gwerthoedd tuedd atchweledig is (yr 20fed canradd islaw tuedd wirioneddol yr afon) yn yr asesiad cydymffurfio ffurfiol. Yn ymarferol, mabwysiadu ymagwedd ragofalus lle'r MT yw'r targed uwch i reolwyr anelu ato. Mae defnyddio'r model tuedd linol ac ychwanegu estyniad 5 mlynedd tybiedig ar gyfer y dyfodol o'r duedd 10 mlynedd hanesyddol yn ddadleuol ac yn cael ei herio gan bysgotwyr gwialen a nifer o arbenigwyr. Ymhelaethwyd ar hyn yn y Gweithdy Asesu Stoc Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2016 gyda chyflwyniadau a chyfraniadau gan Cefas, EA a CNC[353] a phapur crynhoi gydag argymhellion gan Ivor Llewelyn o AST, sef "Newidiadau posibl i CLs ac Asesiadau Stoc yn Lloegr[354].

391. Gyda'i gilydd, comisiynodd NWATFCC a CPWF ystadegwyr annibynnol o Goleg Prifysgol Dulyn i gynhyrchu adroddiad[355] i werthuso a thrafod y fethodoleg gyfredol a ddefnyddir ar gyfer y model dosbarthu afonydd cenedlaethol a'i gymhwysiad i bennu statws stoc afon, ac i roi disgrifiad byr o rai dewisiadau amgen posibl a'u buddion.

392. Cadarnhaodd y datganiad cymwys ac annibynnol y gwendidau a'r diffygion canlynol yn egwyddorion y model a'i gymhwysiad:

- Nid yw'r model dosbarthu afonydd wedi'i ddilysu ac nid yw wedi bod yn destun

[353] Cyfeiriwch at ID CPWF/1A - SD/7 ac SD/8

[354] Cyfeiriwch at ID CPWF/1A - SD/6

[355] Cyfeiriwch at ID CPWF/2 tudalen 50–56

craffu cyfnodol annibynnol. Pe byddai hyn wedi cael ei wneud, byddai gwendidau'r system wedi cael eu hamlygu a'u hunioni yn gynharach. Mae is-ddeddfau deddfwriaethol a gyflwynir gan ddefnyddio system nad yw wedi'i dilysu na'i sicrhau o ran ansawdd yn agored i'w herio;

- Nid oes sail ystadegol i dybio y bydd stociau afonydd yn y dyfodol yn dilyn tuedd llinell syth linol sylfaenol. Yn wir, mae tueddiadau afonydd yn bendant yn aflinol. Mae cywirdeb rhagfynegol gwael rhagfynegiadau 5 mlynedd CNC ar gyfer afonydd yn adlewyrchu hyn, gan fod 31.75% yn unig yn gywir yn ystod y pedair blynedd 2013 – 2016. Unwaith eto, mae seilio is-ddeddfau ar ragfynegiadau 5 mlynedd sydd â chanlyniadau asesu stoc hanesyddol gwael yn agored i'w herio;

- Mae'n ymddangos bod camddealltwriaeth sylfaenol bod yr atchwel 20-canradd yn cyfateb i debygolrwydd 80%. Nid yw hyn yn wir;

- Rhywbeth na ddeellir yn gyffredin, efallai, yw y bydd afonydd sy'n dangos tueddiadau cylchol 10 mlynedd tymor hwy cryfach wedi'u nodweddu gan ragfynegiadau llinol 5 mlynedd ar eu cyfnodau uchaf ac isaf sy'n rhagfynegi ymhell y tu allan i amrediad disgwyliedig y cyflenwad stoc disgwyliedig. Ar y pen eithaf, yn 2015 a 2016, rhagfynegwyd y byddai rhai afonydd yng Nghymru a Lloegr ar drengi o fewn pum mlynedd. Mae hyn wedi profi i fod yn gwbl ddi-sail hyd yma; ac,

- Yn Atodiad 4 ei TC – System Rheoli Stoc Eogiaid – mae CNC yn dweud bod yr MO, sef yr elfen allweddol o bennu statws stoc afon yn y dyfodol, yn Rhagori ar y CL mewn 4 blynedd o 5 ac yn Rhagori ar y CL mewn 4 blynedd o 5 <u>ar gyfartaledd</u>. Ni y ddau fod yn wir, ac, yn unigol, maen nhw'n amwys ac yn amhenodol yn ystadegol. Wrth iddynt gael eu croesholi gan CPWF, mae Dr Barry ac Ian Davidson yn ansicr pa MO y mae CNC yn ei ddefnyddio. Mae adroddiad yr ystadegwyr yn gofyn am ddileu'r amwysedd a'r amhenodolrwydd hyn trwy ddilysu'r model yn annibynnol. Mae CPWF wedi gwneud cais i'r Gweinidogion a NASCO am ailddiffinio'r MO.

393. Mae'n arwyddocaol bod NASCO, wrth lunio ei ddogfen Cynllun Gweithredu 2019 – 2024[356], wedi ymrwymo i adolygu'r fethodoleg stoc a chynnwys gwelliannau o fewn amserlen tair blynedd. Fel rhanddeiliaid, rhoddodd NWATFCC a CPWF gyflwyniad ar y cyd a oedd yn cynnwys argymhellion manwl ynglŷn â'r cynigion drafft hyn i gynrychiolydd Cymru a Lloegr NASCO ym mis Rhagfyr 2018, a chawsant gadarnhad bod y rhain yn cael eu hystyried. Cynhwyswyd yr argymhellion hyn yn llythyrau CPWF at GC a Gweinidog Defra ym mis Ebrill a mis Medi 2018[357].

Y Broses Strwythur Penderfynu a Defnyddio Egwyddorion Ymagwedd Ragofalus

394. Mae'r broses strwythur penderfynu y mae'n ofynnol i CNC ei defnyddio o ran ei bysgodfeydd pysgota am eogiaid â gwialen yng Nghymru yn dilyn canllawiau cadwraeth

[356] Cyfeiriwch at ID CPWF/1A - SD/3

[357] Cyfeiriwch at ID CPWF/7a a 13

NASCO a datganiadau polisi unfath ar gyfer Cymru a Lloegr, ac fe'i diffiniwyd yn eglur yn nogfennau'r Ymchwiliad. NASCO – CNL (18)50 Cynllun Gweithredu Drafft ar gyfer y cyfnod 2019 - 2024[358], Atodiad 2: Strwythur penderfynu ar gyfer datblygu rheolaethau pysgota yng Nghymru a Lloegr, a TC ac atodiadau CNC[359] Atodiad 4: System rholi stoc eogiaid.

*Y Strwythur Penderfynu ar gyfer datblygu rheolaethau pysgota yng Nghymru a Lloegr*

395. Mae'r ymagwedd asesu cydymffurfiaeth a ddisgrifir uchod ar gyfer pennu perfformiad pob afon eogiaid hefyd wedi'i chynnwys mewn strwythur penderfynu cenedlaethol (Cymru a Lloegr) ar gyfer llywio penderfyniadau ar yr angen am reoliadau pysgota. Dangosir y 'Strwythur Penderfynu' mewn siart lif, ynghyd â nodiadau esboniadol ar sut i'w ddefnyddio. Cymru a Lloegr – Cefas, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru (2018a) Stociau a physgodfeydd eogiaid yng Nghymru a Lloegr 2017 – Adroddiad Cefndir[360].

396. Roedd yn amlwg nad oedd tystion CNC yn gwybod neu eu bod wedi camddeall bod y broses 'Strwythur Penderfynu' yn ddiagram llif syml o gamau rheoleiddiol. Dywedodd CPWF wrth yr Ymchwiliad mai'r nodiadau esboniadol yw'r offeryn llywio a'r camau sy'n diffinio'r broses 'Strwythur Penderfynu' a mesurau angenrheidiol. Mae'r polisi cyffredin hwn rhwng NASCO – CNC ac EA wedi'i amlinellu isod, a dylid nodi bod 12 o'r afonydd yng Nghymru sy'n cael eu monitro Mewn Perygl (AR) a bod 8 Mewn Perygl yn Ôl Pob Tebyg (PAR).

> *Trydydd cam – gwerthuso opsiynau*
>
> *Diben y cam hwn yw amlinellu a gwerthuso opsiynau i wireddu'r newidiadau sy'n ofynnol o ran ymelwa. Ar gyfer afonydd PAR lle mae 50% ≤ p < 95% (p= tebygolrwydd o fethu â chyflawni'r amcan rheoli) ac mae'r duedd i lawr gyda dalfa flynyddol o >20 o eogiaid a chyfradd C&R < 90%, bydd dal a rhyddhau (C&R) gwirfoddol yn cael ei hyrwyddo am flwyddyn. Os na fydd hyn yn gwella cyfraddau C&R yn sylweddol, ystyrir C&R gorfodol neu gau'r bysgodfa. Rhoddir pwyslais penodol ar afonydd a warchodir, fel ACAau (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig).*
>
> *Ar gyfer afonydd lle mae'r meini prawf uchod yn berthnasol, heblaw bod y ddalfa eogiaid gymedrig flynyddol yn <20 o eogiaid, bydd mesurau gwirfoddol yn cael eu hyrwyddo. Ar gyfer afonydd AR lle mae p>95% (h.y. mae'r amcan rheoli'n cael ei fethu'n amlwg) a lle mae dalfa flynyddol o>20 o eogiaid a chyfradd C&R o < 90%, bydd C&R gwirfoddol yn cael ei hyrwyddo am flwyddyn. Os na fydd hyn yn gwella C&R yn sylweddol, ystyrir C&R gorfodol neu gau'r bysgodfa.*

397. Trwy gynnig gweithredu'r is-ddeddfau arfaethedig, ni fydd CNC yn dilyn canllawiau NASCO na'i gyfarwyddebau polisi ei hun ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae opsiynau cam tri ar gyfer afonydd AR a PAR yn gofyn am hyrwyddo mesurau gwirfoddol am flwyddyn a rhoi cyfle i enweirwyr ac afonydd gyflawni cyfradd C&R o 90%. Mae nifer o afonydd yn agos at gyflawni'r targed hwn neu eisoes yn ei gyflawni, ac mae CPWF yn argymell y

[358] Cyfeiriwch at ID CPWF/1A, SD/3 tudalen 31-32

[359] Cyfeiriwch at CD App/4 tudalen 4-6

[360] Cyfeiriwch at CD ACC/25 tudalen 74-77 Atodiad 7

dylai CNC ganolbwyntio ar sicrhau bod yr holl afonydd sydd mewn perygl yn cyflawni'r targed hwn.

398. Nid yw'r duedd yn gostwng mewn rhai afonydd PAR ac felly dylid ystyried mesurau a chamau gwiethredu gwahanol. Yn ogystal, mae polisi CNC ar gyfer prif afonydd neu afonydd PAR sy'n cael eu monitro, sydd â dalfa gymedrig gyfartalog o lai nag 20 o eogiaid y flwyddyn, yn datgan bod rhaid i fesurau C&R gwirfoddol gael eu mabwysiadu, NID mesurau gorfodol.

399. Trwy ddiystyru ei bolisi ei hun a chynnig ei Opsiwn 2, sef mesurau C&R gorfodol ar gyfer eogiaid[361], mae CNC wedi gwrthod dewis gwirfoddol a oedd ar gael iddo. Cyfiawnhaodd ei benderfyniad ar y sail ei bod yn anodd cymhwyso cyfyngiadau gwirfoddol mewn pysgodfeydd rhwydi, bod cyfraddau C&R gwirfoddol yn arbennig o isel, sef oddeutu 60% yn rhai o'r prif bysgodfeydd eogiaid, bod mesurau gwirfoddol wedi cael eu hyrwyddo ers cryn amser a'u bod yn annhebygol o newid yn sylweddol yn y tymor byr, ac o'r rheolaethau posibl a amlygwyd, yr opsiwn rheoli C&R gorfodol a amlygwyd fyddai'n lleihau nifer yr eogiaid sy'n cael eu lladd gan y pysgodfeydd hyn ac yn helpu i wella statws y stoc eogiaid yng Nghymru. Yn ogystal, dadleuwyd y byddai cyfyngu ar ddulliau yn helpu i sicrhau goroesiad pysgod sy'n cael eu rhyddhau.

400. Mae CPWF yn herio datganiad tyst Ian Russell[362] ac nid yw'n ei dderbyn, sef bod is-ddeddfau arfaethedig CNC yn gwbl gyson â chanllawiau NASCO a'r ymagwedd ragofalus, na'u bod yn ymateb i statws gwael stociau yng Nghymru yn gyffredinol, eu bod wedi cael eu datblygu yn unol â'r strwythur penderfynu cenedlaethol presennol a'u bod wedi'u bwriadu i warchod yr adnodd, sef y prif ofyniad rheoli.

401. Mae gweithredu mesurau gorfodol ym mhob afon yng Nghymru heb ystyried statws stoc a dalfeydd cofnodedig blynyddol afonydd, yn mynd yn groes i feini prawf a llwybrau penderfynu cenedlaethol a NASCO yn glir. Mae defnyddio egwyddorion ac Ymagwedd Ragofalus wrth lunio is-ddeddfau rheoliadol yn gosod rhwymedigaethau a chyfrifoldebau ar bartïon a gwledydd sy'n cymryd rhan i ddilyn a chyflawni egwyddorion CNL (86) 46 NASCO. Mae CNC yn defnyddio'r ymagwedd ragofalus ar gyfer yr holl afonydd eogiaid sy'n cael eu monitro, gan gymhwyso'r duedd stoc 20[fed] canradd is mewn asesiadau cydymffurfio ffurfiol presennol a phum mlynedd yn y dyfodol ar gyfer statws stoc afonydd. Wrth wneud hynny, mae CPWF yn amau p'un a yw CNC wedi cyflawni ei rwymedigaethau, yn enwedig yr egwyddorion canlynol:-

- CNL(98)46 *Cytundeb ar Fabwysiadu Ymagwedd Ragofalus*

  *Mae NASCO a'i Bartïon Contractio yn cytuno i fabwysiadu a chymhwyso Ymagwedd Ragofalus at warchod, rheoli ac ymelwa ar eogiaid er mwyn amddiffyn yr adnodd a gwarchod yr amgylcheddau y mae'n byw ynddynt. Yn unol â hynny, dylai NASCO a'i Bartïon Contractio fod yn fwy gochelgar pan fydd gwybodaeth yn ansicr, yn annibynadwy neu'n annigonol.*

[361] Cyfeiriwch at CD APP/4 Achos technegol, tudalen 95-96

[362] Cyfeiriwch at Cefas ID NRW/4a cyf 3.5

402. Mae CPWF yn honni bod rhaid bod yn ofalus wrth gynnig mesurau gorfodol nad ydynt yn gyson â chanllawiau NASCO, lle mae gwybodaeth ac amcangyfrifon stoc yn cynnwys cywiriadau dalfeydd â gwialen a chyfradd a methodoleg ymelwa gan wialenni sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac y cydnabyddir eu bod yn ansicr ac yn annibynadwy. Dylai CNC ystyried y trefniadau adolygu a diwygio hyn cyn cyflwyno mesurau pellgyrhaeddol a gorfodol.

*Amlygu canlyniadau annymunol a mesurau a fydd yn eu hosgoi neu'n eu cywiro o flaen llaw.*

403. Nid yw CNC wedi amlygu strategaethau sy'n cyflawni'r un nodau neu nodau gwell h.y. mesurau gwirfoddol – gan felly leihau canlyniadau annymunol, sef llai o gyfranogiad gan enweirwyr a cholledion refeniw. Nid yw'r disgwyliad annymunol o lai o gefnogaeth gan enweirwyr i gefnogi rhaglenni gorfodi a gwella cynefin a rheoli ysglyfaethu wedi cael ei amlygu na'i unioni.

*Lleoli'r baich profi'n briodol trwy lynu wrth y gofynion uchod.*

404. Mae tystiolaeth eglur yn dangos, ac mae CNC yn cyfaddef, nad genweirwyr sy'n "disbyddu'r stoc" – ni chyflawnwyd y baich profi. Nid yw CNC wedi diffinio'n eglur effaith wirioneddol ac ymylol ymelwa gan wialenni ar stociau silio. Mae hyn yn cynrychioli 1-2% o'r stociau silio aeddfed yn seiliedig ar gyfradd C&R o 90% a chyfradd dal â gwialen o 10 i 20% o stociau afonydd. Nid yw ychwaith wedi diffinio'r budd y mae genweirwyr yn ei gyfrannu at stociau pysgod trwy gymryd rhan mewn rhaglenni cadwraeth a dŵr – potsio/ysglyfaethu gan adar/cadw llygad ar afonydd am lygredd a thynnu dŵr yn anghyfreithlon, a chyfraniadau at waith cynefin afonydd.

*Llunio camau rheoli a gytunwyd o flaen llaw ar ffurf gweithdrefnau i'w cymhwyso mewn amrywiaeth o amodau stoc.*

405. Nid yw pysgodfeydd gwialen a genweirwyr yn cytuno â'r camau rheoli a gytunwyd o flaen llaw. Nid yw opsiynau'r is-ddeddfau wedi cael eu cyflwyno mewn fformat opsiwn ymgynghori sy'n ennyn cefnogaeth y rhanddeiliaid sydd â'r mwyaf i'w ennill ac sy'n gallu dylanwadu ar newid a gwelliannau i ddalgylchoedd.

Ystyried Modelau Stoc Amgen ac Awdurdodaethau Eraill

406. Er bod CNC wedi rhestru dulliau amgen o fodelu stociau afonydd o'r Alban ac Iwerddon fel enghraifft mewn awdurdodaethau eraill, nid yw'n ymddangos y gwnaed ymdrech i archwilio gwendidau amlwg yn y fethodoleg ddosbarthu a'r ymagwedd seiliedig ar fesurau a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr. Nid oes unrhyw ddadansoddiad cymharol wedi cael ei gyflwyno ychwaith o ganlyniadau modelau amgen.

407. Mae strategaeth gadwraeth CNC yn amlwg yn groes i fesurau a gymerwyd gan EA a Defra wrth lunio is-ddeddfau Lloegr. Mae Cymru a Lloegr yn defnyddio'r un modelau dosbarthu afonydd, ond maen nhw wedi llunio cynigion gwahanol. Mae CNC yn cynnig mesurau llymach a fydd yn golygu bod yr holl afonydd sy'n cael eu monitro ac nad ydynt yn cael eu monitro (heblaw am afonydd Gwy a Hafren) yn ddarostyngedig i fesurau C&R gorfodol 10 mlynedd ar gyfer eogiaid a chyfyngiadau ychwanegol ar ddulliau.

408. Yn Lloegr, gohiriodd ac ailystyriodd yr EA ei chynigion ymgynghori ar gyfer ei 40 o afonydd sy'n cael eu monitro. Yn sgil asesiadau 2017 wedi'u diweddaru, cymhwysodd

fesurau gorfodol i bedair afon AR a'r holl afonydd sy'n adfer, gyda'r 36 sy'n weddill (gan gynnwys afonydd PAR) yn mabwysiadu mesurau gwirfoddol. Tynnwyd cyfyngiadau cenedlaethol ar ddulliau yn ôl gan na fyddai modd eu gorfodi.

409. Gallai cyflwyniadau gan arbenigwyr ac allbwn o'r 'Gweithdy asesu stoc cenedlaethol' ym mis Gorffennaf 2016 fod wedi ysgogi timau pysgodfeydd cenedlaethol i graffu ar systemau presennol yn agosach, ac archwilio pam oedd yr Alban wedi cynnal 'Ymgynghoriad llawn â buddiannau afonydd' yn 2016-17 a phenderfynu cyflwyno system gydymffurfio ffurfiol wedi'i seilio ar asesiadau graddio afonydd unigol gan ddefnyddio perfformiad cyfartalog cymedrig hanesyddol 5 mlynedd eglur a manwl gywir yn erbyn y CL. Roedd y model hwn yn cynnwys elfennau i gywiro ffactorau tymhorol e.e. llif afonydd ac ati. Ym mis Mawrth 2018, dadansoddodd a chynhaliodd CPWF, ynghyd â Chyngor Ymgynghorol Pysgodfeydd Ymddiriedolaeth Genweirio'r Gogledd-orllewin (NWATFCC), adolygiad o sefyllfaoedd modelu gwahanol ar gyfer pob un o'r 64 afon yng Nghymru a Lloegr, gan gyflwyno tri opsiwn gyda mesurau C&R awgrymedig a thabl yn cymharu â'r fethodoleg Dosbarthu Statws Afonydd bresennol[363]. Roedd y tabl hwn yn cynnwys diwygio mesurau C&R o fewn canllawiau cadwraeth presennol a model tebyg i un yr Alban fel un opsiwn.

410. Mynegodd CPWF a NWATFCC y pryderon cryf canlynol trwy'r AT, yn ei llythyrau dyddiedig 17 Medi 2018 at Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru a Gweinidog Defra:

- *dilysu'r system;*
- *cydymffurfiaeth amwys ac amhenodol â'r amcan rheoli;*
- *defnydd o duedd atchwel linol ac allosodiad pum mlynedd yn y dyfodol;*
- *effaith newidiadau i ymdrechion genweirwyr, llif afonydd, rhediadau y tu allan i'r tymor ac adroddiadau amhenodol am ddalfeydd genweirwyr; a,*
- *chydberthynas wael rhwng perfformiad stoc a ragfynegwyd yn y gorffennol a pherfformiad stoc gwirioneddol.*

411. Gofynnodd CPWF a NWATFCC i CNC a'r EA gyflwyno cynigion dros dro i alluogi strategaeth gadwraeth gydgordiol a chyffredin i gael ei hailfabwysiadu o fewn amserlen tair blynedd. Dadleuwyd gan eu bod yn dair gwlad gyfagos sydd â thair prif afon drawsffiniol ac sy'n defnyddio'r un CL a system dosbarthu afonydd, ystyrir y byddai strategaeth a rennir yn arwain at fuddion niferus ac amlwg – effeithlonrwydd gweithredol, gwell adnoddau ac adroddiadau mwy eglur ar amcanion gweladwy. Gofynnwyd onid yw model a mesurau cadwraeth cyffredin ar gyfer tir mawr y DU yn amcan a chanlyniad dymunol a chyflawnadwy?

Argymhellion a Datrysiadau CPWF i Sicrhau Elfennau Allweddol o'r Polisi Cadwraeth

412. I gloi, mae'r is-ddeddfau arfaethedig wedi'u ffurfio ar sail adroddiadau stoc hanesyddol, asesiadau stoc a statws stoc afonydd ansicr. Mae cyfraddau ymelwa â gwialenni yn cael eu hadolygu'n genedlaethol ar hyn o bryd gan Cefas, CNC a'r EA. Nid yw'r model a'r fethodoleg dosbarthu afonydd wedi'u dilysu, ac maen nhw'n cael eu diwygio a'u gwella wrth i NASCO lunio ei Gynlluniau Gweithredu ar gyfer 2019-24.

[363] Cyfeiriwch at dudalennau 64 a 65 Tabl 8 ID CPWF/2

413. Mae CNC yn defnyddio ymagwedd ragofalus wrth asesu stociau trwy ei weithdrefnau cydymffurfio ffurfiol ar gyfer pennu statws stoc afonydd unigol. Mae pysgodfeydd yng Nghymru yn mynnu bod CNC yn dilyn ei bolisi datganedig ei hun a chanllawiau NASCO, a'i fod yn cyflawni ei rwymedigaethau trwy arfer mesurau C&R a ddiffiniwyd yn eglur ar gyfer statws afonydd unigol.

414. Mae CPWF o'r farn bod y cynigion presennol yn afresymol, yn anghymesur ac yn ddiangen, ac y byddant yn cael effaith barhaol a negyddol ar stociau wrth i enweirwyr a chyrff sy'n cynrychioli pysgodfeydd dynnu'n ôl o raglenni gwarchod a gwella stoc. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn amlygu stociau afonydd a chymunedau pysgota i ganlyniadau ehangach nad ydynt wedi'u hystyried yn briodol, ac felly na ddylid eu cymeradwyo. Mae CPWF yn gofyn iddynt gael eu dychwelyd i GC i'w hailystyried.

*Mae cyfle i ddod i gytundeb yn bodoli o hyd*

415. Mae CPWF o'r farn bod mesurau Opsiwn 2 Gwirfoddol ar gael, mai'r mesurau hynny yw'r opsiwn gorau a bod modd eu datblygu o hyd gyda physgodfeydd gwialen. Gallai cynigion dros dro fod yn fodd o sicrhau cytundeb rhwng y partïon hyd nes y bydd adolygiadau a gwelliannau diwygio cenedlaethol a rhyngwladol a drefnwyd yn cael eu cwblhau. Gall y rhain sicrhau cefnogaeth pysgodfeydd gwialen ac elfennau allweddol o'r polisi cadwraeth trwy ymagwedd bartneriaeth hanfodol y mae mawr angen amdani.

**Andy Nicholson**

416. Mae Mr Nicholson wedi treulio mwyafrif helaeth ei fywyd yng Nghymru yn pysgota, ar ei wyliau ac yn gweithio, felly mae hyn yn bwysig iawn iddo. Mae'n pryderu bod yr holl waith y mae ef a llawer o rai eraill wedi'i wneud i hyrwyddo genweirio yng Nghymru, dros flynyddoedd lawer, ar fin cael ei ddifetha.

417. Nid yw'r Ymchwiliad wedi darparu llwyfan deg i gyflwyno tystiolaeth gyfunol y gwrthwynebwyr yn erbyn tîm cyfreithiol helaeth, a gobeithir y bydd yr anghydbwysedd hwn yn cael ei gydnabod. Fodd bynnag, mae gan y gwrthwynebwyr achos pendant dros wrthod yr is-ddeddfau arfaethedig yn llwyr.

418. Does dim dwywaith bod tystiolaeth CNC ynglŷn â'r is-ddeddfau arfaethedig yn tynnu'n groes i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon ac mewn llawer o fannau eraill ledled y byd, lle mae pob system afonydd yn cael ei hystyried ar sail ei rhinweddau ei hun, ac ymdrinnir â phroblemau yn unol â hynny a thrwy fesurau gwirfoddol, yn hytrach nag ymagwedd gyffredinol ar raddfa eang. Mae'n rhwydd iawn addasu ac ystumio gwyddoniaeth i weddu i ddadl CNC ac i geisio cyfiawnhau ei gynigion llym, ond y ffaith amlwg yw nad yw'n cyd-fynd â gweddill y DU e.e. yn enwedig o ran pa mor effeithiol yw silfeydd wrth adnewyddu stociau.

419. Yr hyn sy'n dra amlwg yw ymagwedd CNC at ysglyfaethu gan adar: mae wedi llwyddo i gynhyrchu llawer o ffeithiau, data a gwyddor pysgodfeydd dybiedig ynglŷn â phob agwedd, ond wedi methu'n llwyr â rheoli, archwilio, cychwyn nac ymchwilio i ac ymdrin ag un o'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am farwolaeth pysgod ifanc, sef ysglyfaethu gan adar sy'n bwyta

miloedd ar filoedd o bysgod ifanc bob blwyddyn ar bob afon. Pe byddai'r broblem unigol hon yn cael ei thrin yn iawn, ni fyddai stociau'n lleihau heddiw.

420. Nid yw ychwaith wedi gallu mynd i'r afael â phroblem ansawdd dŵr a phlismona'r afonydd, gan nad oes swyddogion gorfodi effeithiol i'w gweld; y gymuned enweirio a rhanddeiliaid sy'n gorfod gofalu am afonydd yng Nghymru, eu gwarchod, eu hadnewyddu, eu cynnal, eu plismona a'u monitro, ynghyd â gosod mesurau gwirfoddol priodol sy'n berthnasol i bob system afonydd a'i hanghenion. Mae'r rhanddeiliaid yn adnabod yr afonydd yn well na neb, a'r hyn sy'n angenrheidiol i gynnal a gwella'r stoc, ac i ofalu amdanynt.

421. Gan fod tystiolaeth yn cael ei chlywed ar hyd nifer o ddiwrnodau yn yr Ymchwiliad, mae'n rhwydd i'r materion craidd gael eu colli yng nghanol y dystiolaeth amhendant helaeth a'r rhethreg anghywir gan CNC. Roedd y ffordd yr oedd tîm cyfreithiol CNC wedi arwain holl dystion CNC trwy eu tystiolaeth yn fedrus a gwneud i'r dystiolaeth deneuaf, hyd yn oed, edrych yn dda, yn rhwydd i bawb ei gweld. Nid oedd gan y gwrthwynebwyr fraint cwnsleriaid, ond rydym wedi cyflwyno achos gwell a mwy argyhoeddiadol, o ganlyniad i'n gwybodaeth fanwl am yr afonydd.

422. Mae bellach yn amlwg iawn nad yw CNC, yn ei gyflwr presennol, yn gallu gofalu am adnoddau gwerthfawr afonydd Cymru, eu cynnal, eu plismona, eu gwarchod, eu hadnewyddu, eu hadfywio na'u hailgyflenwi. Fel y mae Chris Evan AS yn iawn i'w ddweud, "Mae ymddiriedaeth yn CNC ar ei hisaf erioed ac mae angen i rywbeth gael ei wneud"; mae'n rhaid i LlC ystyried hyn.

423. Os caniateir i'r cynigion llym hyn gan CNC gael eu gweithredu, byddant yn cael effaith drychinebus, heb rithyn o amheuaeth, a hynny nid yn unig ar bysgota gêm yng Nghymru, ond ar iechyd economaidd-gymdeithasol Cymru hefyd. Bydd swyddi'n cael eu colli, bydd cenedlaethau o fywoliaethau a busnesau'n cael eu colli, bydd twristiaeth yn lleihau'n sylweddol, bydd clybiau a chymdeithasau genweirio'n colli nifer fawr o aelodau, a bydd rhai'n cau.

424. Bydd afonydd yn agored i chwiw potswyr a diffyg cynnal a chadw os bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn cael eu derbyn. Profwyd nad yw CNC yn gallu plismona afonydd Cymru na chymryd unrhyw gamau gorfodi arnynt. Y rhanddeiliaid yn unig sy'n plismona afonydd; ni fydd llygredd yn cael ei fonitro na'i adrodd a bydd cyflwr yr afonydd yn dirywio. Fel y cadarnhawyd gan CNC, ni fydd ysglyfaethu gan adar yn cael ei reoli, oherwydd genweirwyr yn unig sy'n gwneud cais am drwyddedau rheoli a'u gweithredu, a bydd y rhain yn gostwng yn sylweddol.

425. Mae CNC yn cyfaddef y bydd llai o drwyddedau'n cael eu gwerthu os derbynnir y cynigion, gan felly leihau'r arian sydd ar gael i ofalu am afonydd, ynghyd â'r dychweliadau dalfeydd; mae CNC yn dibynnu ar y rhain. Bydd hyn yn cael effaith negyddol a chynyddol. Bydd yn gwahaniaethu'n ddifrifol yn erbyn yr henoed a'r anabl, ac yn eu rhoi dan anfantais sylweddol; bydd yr hen do a genweirwyr newydd sy'n defnyddio mwydod i ddal eogiaid yn diflannu am byth. Bydd ffordd o fyw, treftadaeth ac etifeddiaeth, ynghyd â hen hanes genweirio, yn cael eu dileu. Mae achos cyfan CNC wedi bod yn ddiffygiol, ac yn parhau i fod felly. Mae dicter y cyhoedd a'r gymuned enweirio, ynghyd ag eraill, yn aruthrol.

426. Mae'r gwrthwynebwyr i'r is-ddeddfau arfaethedig a fynychodd yr Ymchwiliad yn ysgwyddo cyfrifoldeb enfawr, a hwythau'n nifer fach sy'n cynrychioli lliaws. Maen nhw wedi cymell llawer iawn i beidio â mynychu'r Ymchwiliad; pe byddai pawb a ddymunai fynychu wedi gwneud hynny, byddai'r Ymchwiliad wedi bod yn anhrefn lwyr.

427. Dywedodd Chris Evan AS ei fod wedi cael llif o negeseuon. Mae eraill wedi cael eu peledu â phryderon, ofnau, dicter, pryderon a rhwystredigaeth ynglŷn â'r anghyfiawnder o bob rhan o'r gymuned enweirio. Mae Mr Nicholson wedi gwneud ffilmiau a rhaglenni teledu genweirio a ffilmiwyd yng Nghymru yn unig, wedi trefnu teithiau di-rif yng Nghymru i'r wasg, wedi treulio llawer iawn o amser yn hyrwyddo genweirio yng Nghymru, ac wedi cyfrannu at gynyddu twristiaeth yng Nghymru. Mae'n dweud ei fod yn siomedig bellach i weld y gwaith hwn yn cael ei ddifetha, ynghyd â ffordd o fyw, pysgota a threftadaeth. Yn ogystal, pe byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn cael eu caniatáu, byddent yn dinistrio cymunedau, yn arwain at golli swyddi, yn achosi caledi i'r economi ac yn niweidio a bygwth y gymuned enweirio'n ddifrifol.

428. Gwirfoddolwyr genweirio yw enaid a gwarcheidwaid afonydd Cymru, a hynny ers cenedlaethau; mae genweirwyr wedi dod at ei gilydd ar eu traul eu hunain ac yn eu hamser eu hunain i ymladd yn frwd yn erbyn y cynigion llym hyn.

429. Mae'r holl enweirwyr wedi gweithio mor eithriadol o galed, gydag ymroddiad ac aberth a phroffesiynoldeb, wrth gyflwyno tystiolaeth mewn ymgais i warchod afonydd Cymru. I rai, yr Ymchwiliad hwn yw diwedd blynyddoedd o waith caled stoicaidd; mae wedi bod yn rhan ganolog o'u bywydau. Mae'r gagendor rhwng y ddwy ochr yn lledu bob dydd. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn gwbl anghywir ac ni fydd unrhyw ddarn o bapur sy'n cael ei wthio gerbron Mr Nicholson yn ei ddarbwyllo fel arall.

430. Yr hyn sy'n cymell genweirwyr yw gwarchod afonydd a ffordd o fyw; mae'r pris dynol a phersonol i enweirwyr yn anferth. Yn yr Ymchwiliad hwn, gwirfoddolwyr yw genweirwyr sydd wedi talu eu costau a'u treuliau eu hunain; nid yw elw ariannol personol yn bwysig iddynt.

431. Os caniateir yr is-ddeddfau arfaethedig, bydd nifer y genweirwyr yn lleihau'n sylweddol. Dylai'r cyhoedd sy'n genweirio arfer yr hawl ddemocrataidd fwyaf, sef pleidleisio â'u traed. Dylai LlC ddeall y bydd yr ôl-effeithiau'n drychinebus ac yn enfawr. Mae gan y gwrthwynebwyr gronfa amhrisiadwy o wybodaeth, fel y dangoswyd gan dystion ac eraill yn yr Ymchwiliad, yr awgrymir ei bod yn fwy o lawer na gwybodaeth CNC. Dadleuwyd bod genweirwyr wedi bod yn rhan o'r broses; nid yw hyn yn wir oherwydd talwyd gwasanaeth gwefusau iddynt, yn hytrach na gwrando arnynt, ac ni dderbyniwyd eu cyngor.

432. Mae gan y rhai a ymddangosodd gerbron yr Ymchwiliad, a llawer o rai eraill, wybodaeth fanwl am eu systemau afonydd unigol; roedd Peter Gough yn amlwg yn anghywir i awgrymu bod genweirwyr ond yn gwybod am bwyntiau mynediad a'r ddaearyddiaeth, mewn gwirionedd.

433. Mae gan enweirwyr wybodaeth fanwl ymarferol, a gronnwyd ar hyd oes ar afonydd Cymru, am bob agwedd ar yr afonydd, yn enwedig gwyddoniaeth afonydd a bywyd afon, ynghyd â'r gymuned bwysig sy'n amgylchynu'r afon; gellir trosglwyddo'r holl wybodaeth hon i afonydd eraill.

434. Mae genweirwyr yn gynrychioliad hynod bwysig ond microsgopaidd o gyfoeth a dyfnder y wybodaeth sydd ar gael i CNC ledled Cymru; mae genweirwyr dirifedi fel y rhai a ymddangosodd gerbron yr Ymchwiliad ledled Cymru sy'n adnabod eu systemau afonydd yn fanwl ac y gallai, ac y dylai, CNC fod wedi galw arnynt a chydweithredu, ymgynghori a chydweithio â nhw; nid yw hyn wedi digwydd. Mae genweirwyr wedi cael eu hanwybyddu a'u gwthio i'r neilltu, gan olygu y bu'n rhaid iddynt fynychu'r Ymchwiliad hwn i gael eu clywed; ni ddylai hyn byth fod wedi digwydd. Mae Neil Hamilton AC yn gandryll a bydd ôl-effeithiau yn y Senedd.

435. Mae llawer iawn o dystiolaeth wedi canolbwyntio ar yr effaith ofnadwy y bydd y cynigion yn ei chael ar gymuned enweirio Cymru, ac wedi pwysleisio nad C&R gorfodol, ynghyd â chyfyngiadau ar ddulliau, yw'r ffordd ymlaen, ac mai'r unig ffordd gywir ymlaen yw'r mesurau gwirfoddol y mae genweirwyr yn eu gosod arnyn nhw eu hunain, sy'n berthnasol i anghenion a phroblemau afonydd unigol ledled Cymru, a adnabyddir orau gan enweirwyr.

436. Yn ystod yr Ymchwiliad, codwyd sgwarnogod ar ffurf "ymagwedd ragofalus" y mae CNC eisiau ei mabwysiadu yn seiliedig ar ffigurau sydd, ym marn genweirwyr, wedi cael eu profi'n anghywir y tu hwnt i amheuaeth. Nid oes unrhyw beth ragofalus am yr is-ddeddfau arfaethedig; yn wir, maen nhw'n gwbl ddiofal.

437. Sut gellir dweud ei bod yn rhagofalus i yrru genweirwyr i ffwrdd oddi wrth yr afonydd a'u herlid am fethiannau CNC a Dŵr Cymru, i ddifetha busnes, i wneud pobl Cymru yn ddi-waith, i roi'r afonydd mewn perygl o botsio, llygredd a mwy o ysglyfaethu, i glybiau a chymdeithasau gau, ac i afonydd gael eu hesgeuluso. Nid yw hynny'n rhagofalus.

438. Nid yw'r is-ddeddfau arfaethedig yn angenrheidiol nac yn gymesur, ac nid oes modd eu gorfodi. Yn wir, os cânt eu gweithredu, bydd y cynigion yn cael effaith ymrannol a dinistriol ar bob agwedd ar enweirio gêm yng Nghymru a'r economi, a byddant yn cael effaith negyddol fawr ar stociau pysgod; byddant yn dieithrio'r holl gyhoedd sy'n genweirio a rhanddeiliaid yng Nghymru, ac felly mae'n rhaid i'r cynigion gael eu gwrthod.

439. Ni ddylai'r rhai sy'n anghytuno â'r is-ddeddfau arfaethedig gael eu labelu'n wrthwynebwyr; genweirwyr yw gwarcheidwaid, gofalwyr a cheidwaid yr afonydd yng Nghymru, llygaid a chlustiau'r afonydd, sy'n cymryd camau pendant i ofalu am afonydd, eu plismona, eu hadnewyddu a'u cynnal bob dydd, yn wahanol i CNC.

**Mark Frey**

440. Mae'n bwysig nodi, hyd yn oed os gellir dangos bod yr achos technegol yn llawn anghysondebau ac asesiadau amhriodol, nad yw pob genweiriwr yn anghytuno â'r is-ddeddfau arfaethedig eu hunain. Fodd bynnag, maen nhw'n anghytuno â'r ffordd y cynigiwyd y mesurau hyn, sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad gwreiddiol, ac, yn bwysicaf, y teimlad bod genweirwyr yn 'darged meddal' sy'n cael eu cosbi'n annheg am broblem aml-haenog y maen nhw wedi cyfrannu'r lleiaf at ei hachosi.

441. Mae genweirwyr wedi cwyno droeon ar hyd y blynyddoedd nad yw CNC a'i ragflaenwyr wedi gwneud yn agos at ddigon ynglŷn ag ysglyfaethu, llygredd, adnewyddu cynefin a rhwystrau rhag silio, sy'n broblemau mawr ym marn genweirwyr. Yn ogystal, mae agwedd CNC at silfeydd, sy'n unigryw yn y byd, wedi bod yn asgwrn cynnen i enweirwyr. Felly, yn fyr, mae'r genweirwyr, sy'n ystyried eu hunain yn warcheidwaid yr afonydd a'r pysgod, yn cael eu trin yn annheg iawn, a hynny yn wyneb ychydig neu ddim gweithredu i fynd i'r afael â'r gwir elynion.

442. Mae gwrthwynebwyr a roddodd dystiolaeth i'r Ymchwiliad wedi rhoi rhesymau da iawn dros wrthod y TC, ac wedi esbonio sut mae'r ystadegau a ddefnyddiwyd yn amheus, sut y cymhwyswyd yr asesiad yn anghywir, a nifer o elfennau eraill sy'n cyfrannu at wrthbrofi safbwynt CNC yn effeithiol. Sut bynnag, pe byddai'r egwyddor ragofalus yn cael ei chymhwyso i'r is-ddeddfau arfaethedig, byddai angen bod yn ofalus am y rhesymau canlynol:

- Mae'r ymagwedd hon yn cosbi genweirwyr heb dystiolaeth go iawn y bydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth ystyrlon i stociau;
- Bydd llai o enweirwyr yn pysgota, gan adael y dyfroedd yn agored i botsio;
- Bydd genweirwyr yn dioddef niwed afresymol, yn enwedig y rhai a allai fod dan anfantais neu'n fethedig;
- Nid oes gan CNC ddigon o adnoddau i blismona'r is-ddeddfau nac ymdrin â mwy o botsio;
- Ni fydd gan CNC unrhyw rwymedigaeth na chymhelliad ychwanegol i fynd i'r afael â materion arwyddocaol ysglyfaethu, llygredd ac adnewyddu cynefin.
- Bydd methiant y berthynas gydweithredol rhwng genweirwyr a CNC yn arwain at effeithiau negyddol arwyddocaol.
- Bydd busnesau sy'n ymwneud â genweirio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn dioddef, yn enwedig twristiaeth.

443. Dylid adolygu'r pwyntiau hyn yn ofalus fel y bônt yn gysylltiedig â'r ffactorau cyfrannol 'eraill'. Materion perthnasol yw'r rhain y mae angen mynd i'r afael â nhw mewn unrhyw gasgliadau. Mae CNC wedi eu rhoi at ei gilydd yn syml a mynd i'r afael â nhw trwy 'Gyfres o Fesurau'; mae'r rhai sydd wedi bod yn ymwneud â'r materion hyn ac sydd wedi gweithio gyda CNC yn gwybod mai rhestr o ddymuniadau a grëwyd yn gyflym yw hon sydd, ar ei gorau, yn ddyheadol ac, ar ei gwaethaf, yn fesur hunanamddiffynnol a ddyfeisiwyd i osgoi beirniadaeth yn yr Ymchwiliad. Heb ymgymeriad ffurfiol neu statudol, nid yw'r gymuned enweirio'n credu y bydd camau ystyrlon yn cael eu cymryd. Y materion perthnasol eraill yw:

- Ysglyfaethu gan Adar – nid oes gan CNC ddata ystyrlon ar hyn, nid oes arolygon wedi'u cynnal, nid oes neb yn gwybod faint o silod mân, brithyllod brych neu leisiaid y mae'r adar hyn yn eu bwyta. Mae Peter Gough yn dweud wrthym yn ei dystiolaeth ac yng nghyfweliad Andy Nicholson nad oes ganddo ddata, ond ei fod yn ymwybodol o fwy o ysglyfaethu. Nid oes unrhyw gynigion i unioni'r diffyg hwn;
- Mae'r system drwyddedu ar gyfer difa yn afresymegol ac anymarferol;
- Silfeydd – mae CNC wedi coladu tystiolaeth yn ofalus i ategu ei farn nad yw silfeydd yn werthfawr iawn, os o gwbl. Mae'r byd yn meddwl yn wahanol. Ar draws y ffin yn Lloegr, mae silfa Tyne yn fenter lwyddiannus iawn; Afon Tyne yw'r afon eogoaid orau yn y DU. Mae'r ddadl ynglŷn â chyfanrwydd genetig wedi cael ei gwrthbrofi'n llwyr. Mae angen i'r maes hwn gael ei adolygu'n annibynnol i geisio deall pam mae CNC ar ei ben ei hun o ran ei farn am silfeydd.
- Ansawdd Dŵr/Adnewyddu Cynefin – mae digon o dystiolaeth wedi'i rhoi i godi amheuon ynglŷn ag effeithiolrwydd CNC yn y meysydd hyn. Dylid ystyried adroddiad annibynnol ar effeithiolrwydd CNC yn y meysydd hyn.

444. Mewn ymgais i fod yn adeiladol, pe ganfyddir bod y TC ac achos CNC yn gyffredinol yn cael eu ffafrio, er gwaethaf eu diffygion, ar sail yr egwyddor ragofalus, dylai unrhyw effaith gadarnhaol yn hyn o beth gael ei phwyso yn erbyn yr effeithiau negyddol ar enweirwyr a'r economi, yn enwedig yng ngoleuni ffactorau eraill sy'n berthnasol. Dylid pwysleisio nad

yw'r is-ddeddfau 'un ateb i bawb' yn briodol gan fod pob system afonydd yn unigryw ac yn wynebu ei heriau ei hun; mae genweirwyr yr afonydd hyn yn eu hadnabod yn well o lawer nag unrhyw un arall.

**Peter Gerard John**

445. Parhaodd yr Ymchwiliad am nifer o wythnosau a chlywodd CNC yn rhoi rhesymau annigonol am erlid genweirwyr. Mae'r honiad bod CNC wedi cynnal cyfarfodydd ymgynghori a bod pawb yn fodlon â'r is-ddeddfau arfaethedig yn amlwg yn gwbl anghywir. Mae CNC wedi cael cyfle i gyfiawnhau ei fodel asesu stoc, ond dewisodd aros yn ddistaw. Ar afon Dyfrdwy, mae canran yr eogiaid sy'n cael eu rhyddhau gan enweirwyr wedi cynyddu o 7% ym 1994 i 86.4% yn 2016, heb unrhyw effaith fuddiol ar y stoc bysgod. Mae hyn yn dangos yn eglur na fydd cynyddu'r ganran a ryddheir o 86.4% i 100% yn cael effaith fuddiol ychwaith; mae'n arwyddocaol nad yw CNC wedi ceisio dadlau yn erbyn y dystiolaeth hon.

446. Er gwaethaf yr holl adnoddau a oedd ar gael i CNC yn ystod yr Ymchwiliad, mae'n amlwg y dangoswyd bod ei achos yn ddiffygiol, ac felly mae angen dybryd i CNC droi ei sylw at ymdrin â bygythiadau mwy difrifol i bysgod na genweirwyr. Mawr obeithir y bydd LIC yn cydnabod hyn ac nid yn unig yn gwrthod yr is-ddeddfau arfaethedig yn llwyr, ond yn rhoi sicrwydd i enweirwyr na fyddant yn dychwelyd; dim ond ar ôl i hyn ddigwydd y gall genweirwyr ddechrau'r gwaith caled o ailennyn diddordeb mewn pysgota er budd economi wledig Cymru ac er budd pobl yn gyffredinol.

**Dr. Guy Mawle**

447. Mae Dr Mawle yn ymgynghorydd pysgodfeydd sydd â phrofiad lleol, cenedlaethol a rhyngwladol o reoli eogiaid. Mae ei dystiolaeth yn ymwneud ag Afon Wysg yn Sir Fynwy. Gan ddefnyddio data o 2018, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y stoc eogiaid mewn cyflwr gwaeth nag asesiad CNC ar gyfer 2017. Nid yw CNC yn anghytuno. Buasai wedi bod yn well petai CNC wedi cyflwyno asesiad cyfredol ar gyfer eogiaid aeddfed ac ifanc ei hun. Mae eogiaid yn nodwedd ddynodedig o ACA Afon Wysg, sy'n flaenoriaeth genedlaethol a rhyngwladol ar gyfer cadwraeth.

448. O ystyried yr arfer genweirio presennol ar yr afon, mae'r budd a ddaw i stoc eogiaid Wysg o ganlyniad i'r is-ddeddfau yn debygol o fod yn fach. Er hynny, heblaw am rai newidiadau i ddefnyddio abwyd, cytunir bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn angenrheidiol. Mae CNC wedi dweud yn yr Ymchwiliad y bydd yn cywiro gwall sy'n gwahardd defnyddio mwydod naturiol i bysgota am frithyllod nad ydynt yn fudol. Fodd bynnag, mae'n bwriadu caniatáu pysgota â mwydod, i bysgota am frithyllod y môr yn ôl pob golwg, er nad oes pysgodfa o'r fath yn afon Wysg. Mae hefyd yn bwriadu caniatáu pysgota â chorgimychiaid a berdys am bythefnos ym mis Medi. Diben hyn yw galluogi genweirwyr llai symudol i bysgota, y mae'n dweud na fyddent yn pysgota fel arall. Nid yw wedi cynnig tystiolaeth i ategu'r honiad hwn ac nid yw'n arfer presennol ar afon Wysg. At hynny, mae ei is-ddeddfau arfaethedig yn gwrthgyferbynnu â'r rhai ar afon Gwy gyfagos, sydd hefyd yn ACA ar gyfer eogiaid sydd â stoc wedi'i disbyddu a physgodfa leiafsymiol ar gyfer brithyllod y môr. Byddai gwaharddiad llwyr ar ddefnyddio abwyd ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr ar afon Wysg, fel ar afon Gwy, yn haws i'w ddeall ac yn rhwyddach i'w orfodi, gan gynnig amddiffyniad bach arall i eogiaid.

449. Nid oes llawer mwy i'w ennill o ddibynnu ar weithredu gwirfoddol ychwanegol gan enweirwyr. Heb yr is-ddeddfau arfaethedig, gallai rhai genweirwyr ddefnyddio dulliau genweirio niweidiol fel esgus i ladd eog sydd wedi'i anafu. Hefyd, os na chymeradwyir yr

is-ddeddfau arfaethedig, gallai rhai pobl ddod i'r casgliad nad oes eu hangen. Mae cefnogaeth Dr Mawle i'r is-ddeddfau yn parhau i fod yn amodol. Mae ffactorau eraill, sydd o fewn cylch gorchwyl CNC a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â nhw, yn effeithio ar eogiaid afon Wysg. Byddai gorfodi'r is-ddeddfau ar enweirio am eogiaid ar afon Wysg yn 'rhesymol' ac yn 'gymesur' dim ond os cymerir camau prydlon ac effeithiol o fewn yr un raddfa amser i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn. Manylir ar y rhain yn ei dystiolaeth ysgrifenedig yn ogystal ag ar sleid olaf ei gyflwyniad[364].

450. Bwriedir mynd i'r afael yn llawn ag effaith tynnu dŵr erbyn 2022. Fel arall, nid yw tystiolaeth CNC i'r Ymchwiliad hwn yn dangos y bydd camau prydlon ac effeithiol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â ffactorau eraill. Yn wir, mae'r diffyg cydnabyddiaeth o annigonolrwydd ei ymateb yn achos pryder, hyd yn oed os cydnabyddir y problemau eu hunain yn llawn.

451. Yn ei dystiolaeth wrthbrawf[365], ceisiodd Robert Vaughan o CNC fynd i'r afael â gwaddodiad, o amaethyddiaeth yn bennaf. Yn anffodus, mae'r gwrthbrawf hwn ond yn cynyddu'r pryder. Ni allai ddangos bod CNC yn deall graddau'r broblem o gwbl, na sut y gallai fod yn newid. Amlygwyd y broblem gan ragflaenwyr CNC bymtheng mlynedd yn ôl yng Nghynllun Gweithredu Eogiaid Wysg, ac unwaith eto yn y Cynllun Rheoli Craidd ar gyfer ACA Wysg. Pam nad yw CNC yn gallu dangos sut mae'r broblem hon wedi'i datrys neu nad yw wedi gwaethygu? Yn wir, nid yw hyd yn oed wedi dangos ei fod yn gallu diffinio'r broblem. Mae CNC yn monitro materion ansawdd dŵr mewn amrywiaeth o ffyrdd, ond nid gwaddodiad nac erydiad pridd, yn ôl pob golwg.

452. Wrth geisio gwrthbrofi tystiolaeth[366] ynglŷn ag afon Wysg, rhoddodd Mr Vaughan enghreifftiau o gamau gorfodi gan CNC lle y bu llygredd o ganlyniad i waddodiad. Mae'n nodweddiadol o fethiant CNC i fynd i'r afael â'r mater hwn nad oedd y naill na'r llall o'r enghreifftiau a roddwyd o fewn dalgylch Wysg hyd yn oed. Mae'n wir bod un yn ymwneud ag amaethyddiaeth (NRW/6R2/H), ond roedd nid yn unig mewn degawd gwahanol, sef 2006, ond mewn gwlad wahanol, sef Lloegr, a chan sefydliad gwahanol, sef Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Nid yw fel petai digwyddiadau llygredd o'r fath heb godi, ac yn ddiweddar, yn nalgylch Wysg. Nid yw'n ymddangos bod CNC yn ymwybodol o'r gwahaniaeth presennol yn y cyfundrefnau rheoliadol ar gyfer amaethyddiaeth rhwng Cymru a Lloegr.

453. Yn wahanol i Asiantaeth yr Amgylchedd, nid yw CNC wedi cymryd camau rheoliadol effeithiol. Nid yw CNC ychwaith, fel y nodwyd yn nhystiolaeth Dr Mawle[367], wedi mabwysiadu technegau a ddatblygwyd yn Lloegr o gymryd mesurau rhagataliol effeithiol wedi'u targedu. Argymhellir bod Mr Vaughan yn cysylltu ag Afonydd Cymru a Sefydliad Gwy ac Wysg, a all esbonio'r problemau yn ne-ddwyrain Cymru yn fanylach.

454. Ymatebodd Mr Vaughan hefyd i feirniadaeth o'i sylwadau ar amseroldeb camau CNC i fynd i'r afael â phroblemau gwaddod yn afon Wysg. Cyfeiriodd, fel enghraifft, at raglen CNC ar gyfer adfer mwyngloddiau metelau, sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang. Er y cymeradwyir y gwaith hwn, nid yw'n gysylltiedig o gwbl â phroblemau gwaddodiad a llygredd amaethyddol

---

[364] ID GM/10 ac ID GM/INQ/4

[365] ID NRW/6R2 Adran 6

[366] ID NRW/6R2

[367] ID GM/1

arall yn ACA Wysg, sydd wedi bodoli ers tro ac efallai'n gwaethygu. Yn yr un modd, nid oes unrhyw beth i awgrymu y bydd CNC yn darparu digon o adnoddau i sicrhau nad yw eogiaid yn cael eu tynnu'n anghyfreithlon, yn enwedig o'u hardaloedd silio.

455. Mae CNC yn gobeithio dechrau ymchwilio i effaith ysglyfaethu ar leisiaid gan adar yn afon Wysg, sydd i'w groesawu. Fodd bynnag, hyd yn oed os ariennir y gwaith hwn, bydd yn cymryd amser a bydd angen i'r canlyniadau gael eu trosi'n gamau effeithiol. I'r graddau ei fod yn berthnasol i'r Ymchwiliad, nid oes unrhyw beth i ddangos na fydd CNC yn cymeradwyo parhau i ladd eogiaid Wysg ym mhysgodfeydd aber Afon Hafren.

456. Llongyferchir CNC ar lawer o'i dystiolaeth i'r Ymchwiliad. Fodd bynnag, mae rhywfaint o wrthodiad os nad o rai problemau, yna o'i anallu i fynd i'r afael â nhw. Mae CNC yn bwriadu chwarae ei ran lawn[368], ond nid yw bwriadau da yn ddigon. Fe'i bernir yn ôl ei gyflawniadau. Mae llawer o rai eraill eisoes yn chwarae eu rhan nhw, yn nodedig trwy gynnydd y mudiad ymddiriedolaethau afonydd, ond mae'n ddyletswydd ar CNC i reoleiddio'n effeithiol. Nid yw bob amser wedi gallu gwneud hyn. Mae CNC yn iawn i ddweud na all yr is-ddeddfau hyn, ar eu pen eu hunain, reoli stociau eogiaid yn afon Wysg, sef un o'r stociau mwyaf gwerthfawr yn Ewrop, yn gynaliadwy. Yn anffodus, nid yw ei dystiolaeth y bydd camau effeithiol eraill yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r holl faterion yn gymhellol.

**Geoff Rothwell**

457. Mae gan bob afon yng Nghymru ei phroblemau penodol ei hun. Mae CNC wedi cyffredinoli ei ymagwedd heb roi ystyriaeth briodol i'r gwahaniaethau hyn. Roedd cau'r rhaglen stocio ar afon Dyfi, o ganlyniad i ymchwil ar gyfanrwydd genetig, yn gamgymeriad, tra bod y problemau amgylcheddol niferus yn parhau i fodoli. Mae llawer o broblemau a chryn dystiolaeth iddynt, megis:

- Newid yn yr hinsawdd;
- Coedwigo;
- Draenio ucheldir;
- Fflachlifoedd ffyrnig sy'n dinistrio claddau ac yn arwain at golli pyllau gorffwys dwfn a diogel ar gyfer pysgod mudol sy'n silio; a,
- Heriau i'r amgylchedd morol.

458. O ganlyniad i'r problemau hyn, sefydlwyd rhaglen stocio pysgod ar afon Dyfi ym 1984 a dargedwyd yn benodol at yr ardaloedd lle'r oedd y problemau'n fwyaf difrifol. Nid yw CNC erioed wedi archwilio nac asesu'r polisi stocio penodol hwn a'r technegau magu pysgod a ddefnyddir – y cyfleusterau dal stoc mag arbenigol, yr unedau deor, y gweithdrefnau deor a bwydo. Mae llawer o'r pysgod wedi'u 'tagio' a fagwyd yn silfa Mr Rothwell wedi cael eu dal yn dychwelyd i fyny afon Dyfi i silio ar ôl goroesi sawl blwyddyn yn y môr.

459. Ystyrir mai afon Dyfi yw'r afon orau yn y DU o ran stociau pysgod. Y rheswm am hyn yw'r ffordd broffesiynol y'i rheolwyd gan Gymdeithas Pysgodfa Dyfi Newydd (1929) Cyf ers blynyddoedd lawer. Anogir GC i adael iddi barhau i wneud penderfyniadau ynglŷn â'i dyfodol.

[368] ID NRW/6R2 paragraff 7.2

### Andrew Renwick

*Safbwynt Genweirwyr*

460. Mae llawer o enweirwyr o bob cefndir wedi mynegi eu safbwynt nhw, a safbwynt miloedd ar filoedd yn fwy, yn yr Ymchwiliad. Yn wahanol i CNC, nid oes gan y genweirwyr weithwyr amser llawn cyflogedig na chynrychiolaeth gyfreithiol i ddadlau eu hachos; mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â thegwch y broses.

461. Mae genweirwyr yn amlygu a chwestiynu'r ffordd y mae'r data y dibynnir arno gan CNC wedi cael ei adolygu, ei ddadansoddi, ei allosod ac, yn ôl rhai, ei ystumio (h.y. afon Gwy) er mwyn i CNC gyflwyno ei achos. Mae genweirwyr yn derbyn efallai nad oes ganddynt arbenigedd wyddonol, ond mae ganddynt lawer o brofiad a gwybodaeth, ac maen nhw'n gwybod bod y rhywogaeth dan fygythiad ac felly bod rhaid iddynt gymedroli eu hymddygiad.

462. Mae'n amherthnasol yn ystadegol p'un a oes gan fachyn un pwynt neu dri, neu adfach, neu b'un a ddefnyddir un mwydyn neu ddau i bysgota. Dylai swyddogion CNC archwilio tanc slyri un ffermwr am ollyngiadau neu fethiant posibl na chyfrif y pwyntiau ar fachau neu nifer y mwydod a ddefnyddir gan enweirwyr. Gall un digwyddiad ffermio ladd miloedd o bysgod ar un tro; ble y gellid sicrhau'r budd mwyaf?

463. Does dim dwywaith y bydd C&R 100% yn arbed rhai eogiaid a bod cyfyngiadau ar ddal yn lleihau nifer y pysgod a leddir. Ond, mae genweirwyr yn dychwelyd mwy a mwy o eogiaid a nifer sylweddol o frithyllod y môr bob blwyddyn yn wirfoddol; dychwelwyd 83% o eogiaid yn 2017 yn erbyn cymedrig pum mlynedd o 74%.

464. Felly, gan nad oes llawer o wyddoniaeth ar ochr y genweirwyr, yr hyn sydd ar ôl iddynt yw rhesymeg, fel a ganlyn:

- Bydd mwy o gyfyngiadau ar ddulliau ac offer yn gwneud pysgota am eogiaid a brithyllod y môr yn llai deniadol i enweirwyr;
- Bydd llai o enweirwyr yn golygu llai o gyllid i'r clybiau a'r gwaith cynefin a gwrthbotsio maen nhw'n ei wneud, ac wrth i lai o docynnau dydd gael eu gwerthu i enweirwyr sy'n ymweld, bydd mwy o glybiau genweirio'n mynd i'r wal;
- Bydd llai o enweirwyr yn golygu llai o ddalfeydd ac felly llai o ddychweliadau dal – sut bydd CNC yn casglu data? Allosod yr hyn sydd eisoes wedi'i allosod?;
- Bydd llai o enweirwyr ar lannau afonydd yn golygu llai o lygaid a chlustiau; bydd mwy o botsio, mwy o lygredd a mwy o ysglyfaethu yn mynd heb ei adrodd;
- Potsio, llygredd ac ysglyfaethu sy'n gyfrifol am farwolaeth mwyafrif yr eogiaid a'r brithyllod y môr ym mhob dosbarth oedran. Yn anffodus, yr unig brawf yw pan fydd potswyr yn cael eu dal (*nid ydynt yn cael eu dal yn aml ac nid ydynt yn darparu dychweliadau dal i'w dadansoddi*) a phan welir pysgod marw ar ôl llygredd (*ond faint na welir?*), ac mae'n anodd dadlau nad yw graddau'r ysglyfaethu (*gan adar yn arbennig*) yn cael effaith sylweddol ar eogiaid a brithyllod y môr ifanc;
- Genweirwyr yw'r hawsaf i ymdrin â nhw, ac maen nhw'n dilyn y gyfraith at ei gilydd; a,

- Genweirwyr yw'r grŵp hawsaf i'w dargedu er mwyn '*dangos tystiolaeth o weithredu yn ei erbyn'*. Nid yw'r lobi genweirwyr mor gryf ag NFU Cymru a'r RSPB, ond credir bod genweirwyr yn cael eu gwthio i bwynt di-droi'n-ôl.

465. Genweirwyr yw'r grŵp buddiant mwyaf sy'n cael yr effaith fuddiol net fwyaf ar y ddwy rywogaeth. Mae'n wir bod genweirwyr yn lladd rhai pysgod (17% o eogiaid a 24% o frithyllod y môr yn 2017[369]), ond maen nhw'n darparu cynefin buddiol, yn gwella'r amgylchedd yn yr afon ac yn atal elfennau mwy maleisus rhag lladd eogiaid a brithyllod y môr ar bob cam o'u cylch bywyd – o'r ŵy i bysgod silio.

466. Genweirwyr yw gwarcheidwaid y rhywogaethau hyn; mae'n anffodus i'r pysgod hyn eu bod nhw'n waed oer, yn ddi-flew ac yn aml yn anweledig o dan y dŵr. Ni fydd y cyhoedd yn gweld eisiau'r hyn nad ydynt yn ei weld; nid dyfrgwn neu weilch y pysgod yw'r rhain. Bydd llai o enweirwyr yn golygu llai o bysgod.

467. Mae'n anghywir gosod cyfyngiadau ychwanegol a allai fod yn gam yn rhy bell i rai, yn orthrwm olaf. Mae hyn yn anghymesur â'r budd y mae'n ymddangos y bydd yn ei greu ond na fydd yn ei greu. Bydd gobeithion CNC am unrhyw ewyllys da a chydweithrediad gan enweirwyr yn diflannu, a hynny am byth, yn ôl pob tebyg. Gan fod 20 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn unig yn gweithio i CNC ledled Cymru gyfan, bydd yn ei roi ei hun dan anfantais fawr trwy wneud hyn. Mae'n debygol y bydd yr is-ddeddfau hyn yn creu rhwystr yn hytrach na chydweithrediad os cânt eu pasio.

*Myfyrio ar y broses sy'n amgylchynu'r is-ddeddfau hyn*

468. O ystyried faint o amser ac adnoddau y mae CNC wedi'u hymrwymo i'r broses hon, beth yw'r gwerth am arian i drethdalwyr? Efallai y byddai wedi bod yn well anfon yr arian i rywle arall yn hytrach na dilyn y trywydd hwn sydd wedi'i seilio ar bolisïau presennol sy'n methu a'r 'un hen' ffordd o feddwl. Byddai canolbwyntio ar unrhyw un arall o'r meysydd a grybwyllwyd uchod yn sicrhau mwy o fudd o'r buddsoddiad na gorfodi'r is-ddeddfau arfaethedig. Mae CNC wedi gwastraffu arian, ac yn parhau i wastraffu arian, ar strategaeth flinderus a fydd, yn y pen draw, ond yn achosi i enweirwyr gefnu ar afonydd ac yn lleihau'r amddiffyniad ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr. Bydd yn wrthgynhyrchiol i'r ddwy rywogaeth a bydd mwy o bysgod yn marw.

469. Ni dderbynnir natur dros dro'r cynigion. Ymestynnwyd is-ddeddfau C&R y gwanwyn ar gyfer eogiaid trwy fesur arbennig heb ymgynghoriad unwaith eto eleni. Dyma'r 20fed flwyddyn iddynt fod ar waith (mewn blociau o ddeng mlynedd) heb welliant mesuradwy o bwys a pharhad o rywbeth nad yw'n gweithio. Os bydd yr is-ddeddfau hyn yn cael eu cyflwyno, ni fyddant byth yn cael eu diddymu; beth ddigwyddodd i'r egwyddor ragofalus?

470. Bydd cymhwyso'r is-ddeddfau hyn yn niweidiol iawn i'r gymuned enweirio, economi Cymru a'r eogiaid a'r brithyllod y môr. Dylid anghofio am y cynigion hyn, a sefydlu gweithgor priodol i hyrwyddo arfer gorau, ystyried dalgylch pob afon a chytuno ar gynigion ar y cyd i fynd i'r afael â'r meysydd eraill a grybwyllwyd yn flaenorol mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar a allai gael mwy o effaith, nid yr is-ddeddfau arfaethedig llym a chyffredinol.

**Karl Humphries, yn cynrychioli Cymdeithas Genweirio'r Tywysog Albert (PAAS)**

[369] Fel y dywedwyd yn ID AR/INQ/1

471. O ran p'un a yw'r mesurau yn yr is-ddeddfau arfaethedig yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn rhesymol o ystyried stociau pysgod ledled Cymru, gwneir y pwyntiau canlynol:

*Dadleuon Technegol ynglŷn â C&R*

472. Mae PAAS wedi cyflwyno ei mesurau cadwraeth ei hun, fel cyfyngu i 2 dag eogiaid yn yr holl ddyfroedd yng Nghymru (er bod tagiau'n berthnasol i Loegr hefyd), ac os defnyddir y ddau dag, gall aelodau barhau i bysgota â phlu neu droellwr (bachau heb adfachau) yn unig, ond rhaid dychwelyd pob pysgodyn. Yn ogystal, ni chedwir unrhyw bysgod benyw ar ôl 30 Medi, a gall aelodau gadw 2 frithyll y môr yn unig y dydd a 10 ar gyfer y tymor cyfan.

473. Mae llawer o'r afonydd y mae PAAS yn pysgota ynddynt yn anaddas i ddulliau heblaw am bysgota ag abwyd. Nid yw PAAS yn deall sut y byddai cyfyngiadau ar bysgota â mwydod yn cael eu plismona mewn pysgodfeydd cymysg. Dylid nodi hefyd bod swyddogion PAAS yn rheoli problemau ar afonydd.

*Effeithiolrwydd dulliau/bachau heb adfachau*

474. Nid yw PAAS yn deall pwy fydd yn gorfodi maint bachau (sy'n amrywio) oherwydd bod swyddogion gorfodi CNC eisoes o dan bwysau mawr. Mae'r EA yn Lloegr wedi sylweddoli pa mor gymhleth yw'r maes hwn ac wedi penderfynu yn erbyn deddfwriaeth o'r fath.

*Data Ystadegol*

475. Nid oes gan PAAS lawer o ffydd yn yr asesiadau presennol gan nad oes cyfrifiadau claddau na chofnodion cywir o nifer y pysgod sy'n mynd i fyny afonydd Cymru. Y pryder yw mai ymarfer swyddfa oedd y data a gasglwyd gan CNC heb wybodaeth go iawn am afonydd unigol, ac felly nad yw'n wir adlewyrchiad o'r sefyllfa yn y byd go iawn.

*Effeithiolrwydd Rhaglenni Stocio*

476. Mae'n amlwg y byddai nifer o afonydd yn elwa o stocio adferol. Mae PAAS wedi cyfrannu'n flaenorol at stocio dalgylchoedd Mawddach/Wnion a Hafren/Fyrnwy; mae'r penderfyniad i gau silfeydd a rhoi'r gorau i stocio yn golygu nad yw arian yn cael ei fuddsoddi mwyach yn nyfodol y dalgylchoedd hyn.

*Effeithiau Economaidd-gymdeithasol*

477. Mae aelodau PAAS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at dwristiaeth yng Nghymru yn ystod ymweliadau tymor byr neu dymor hwy. Mae gwerthiannau trwydded pysgota â gwialen yn lleihau'n sylweddol yn y DU; mae'n afresymol achosi niwed pellach i economïau gwledig bregus trwy yrru genweirwyr i ffwrdd.

478. Mae llawer o enweirwyr yn amharod i fuddsoddi mewn offer pysgota newydd hyd nes y gwyddys canlyniad yr is-ddeddfau; mae'r cylchgrawn Trout & Salmon yn adrodd am ostyngiad 40% mewn gwerthiannau offer pysgota am eogiaid yn y DU yn ystod 2018.

*Y Gallu i Orfodi'r Is-ddeddfau*

479. Ni ellir gorfodi'r is-ddeddfau tra bod tîm gorfodi CNC mor brin o staff; mae cyfranogiad rhanddeiliaid yn hollbwysig. Mae gan PAAS dîm penodol o feilïaid sy'n plismona ein dyfroedd ac yn gorfodi rheolau, y mae llawer ohonynt yn gweithio'n agos gyda swyddogion gorfodi CNC. Mae angen datblygu'r berthynas rhwng PAAS a CNC yn hytrach na'i niweidio trwy wrthodiad CNC i drafod datrysiad amgen â genweirwyr i'r is-ddeddfau arfaethedig.

*Ffactorau Eraill*

480. Mae PAAS wedi buddsoddi'n sylweddol mewn rheoli ysglyfaethu gan adar a rhywogaethau goresgynnol eraill ar ddyfroedd yng Nghymru. Pan gyflwynwyd Is-ddeddfau Eogiaid y Gwanwyn, bu'n rhaid i PAAS gymryd mwy o ddyfroedd cerpynnod i ddarparu ar gyfer y genweirwyr a newidiodd o enweirio eogiaid o ganlyniad. Mae PAAS yn siomedig o hyd nad yw CNC wedi trafod yr is-ddeddfau arfaethedig â genweirwyr, ac yn hytrach wedi rhoi gwybod iddynt am ei fwriadau yn unig.

**Y Parchedig Paul Cawthorne**

481. Mae genweirwyr yn hollbwysig i sicrhau bod yr afonydd yn cael eu plismona rhag gweithgareddau fel potsio. Mae'n debygol y bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn arwain at lai o enweirwyr, a allai arwain at fwy o eogiaid yn cael eu tynnu o afonydd trwy botsio, gan felly danseilio'r amcan sylfaenol; codir amheuon ynglŷn â gallu CNC i orfodi'r is-ddeddfau arfaethedig yn ddigonol o ystyried ei gyfyngiadau cyllidebol. Mae genweirwyr sydd wedi'u dieithrio gan yr is-ddeddfau yn llai tebygol o adrodd am ddigwyddiadau potsio.

482. Ystyrir bod nifer y trwyddedau a werthwyd yn fesur rhy fras o gyfranogiad genweirio; dylai asesiadau CNC fod wedi cynnwys nifer y diwrnodau a dreuliwyd ar lannau'r afon o ran ymdrech enweirio.

483. Gofynnir p'un a ellid defnyddio bachau adfachau bychain fel dewis tynerach na bachau heb adfachau, a hefyd p'un a yw'r elfennau cyfyngol blaenorol yn Is-ddeddfau'r Gwanwyn yn arweiniad da i effaith cyfyngiadau tymor llawn, fel sy'n ofynnol gan yr is-ddeddfau arfaethedig.

484. Codir amheuon ynglŷn â gwrthwynebiadau CNC i ddefnyddio silfeydd, ac ystyrir bod y gwrthwynebiadau i'r math hwn o stocio yn ymwneud yn fwy ag arbed costau sy'n gysylltiedig â chau silfeydd nag unrhyw beth arall.

485. O ran ysglyfaethu gan adar, ystyrir bod nifer enfawr o eogiaid ifanc yn cael eu colli. Pe byddai hyn yn derbyn sylw, gallai wneud i effeithiau cadarnhaol yr is-ddeddfau arfaethedig ar niferoedd stoc edrych yn fach iawn.

486. Methwyd â chynnal deialog adeiladol rhwng CNC a genweirwyr yn ystod y broses hon.

**Noel Hulmston**

487. Mae'n codi amheuon ynglŷn â'r gallu i orfodi'r is-ddeddfau arfaethedig. Mae'n codi'r ffaith bod materion eraill yn cyfrannu at ddisbyddu stociau pysgod, gan gynnwys colledion yn y môr, llygredd mewn afonydd o ganlyniad i ddiwydiant/amaethyddiaeth, rhwystrau ffisegol ar afonydd, effaith gweithrediadau coedwigaeth, a hynny'n enwedig gan CNC o ran defnyddio plaleiddiaid e.e. cypermethrin, sy'n rhedeg i mewn i afonydd, ac ysglyfaethu gan adar fel hwyaid danheddog.

488. Mae'n codi amheuon ynglŷn â defnyddio uchafswm maint dalfa o 60 cm ar gyfer brithyllod y môr yn yr is-ddeddfau arfaethedig pan fo terfyn is wedi'i osod ar gyfer rhywogaethau eraill o bysgod sydd mewn perygl ledled Ewrop; mae'n dadlau nad oes esboniad gwyddonol i'r ffigur a ddewiswyd gan CNC a'i fod yn ymddangos yn fympwyol.

489. Mynegir pryder ynglŷn ag effaith yr is-ddeddfau arfaethedig ar economi Cymru, yr amcangyfrifir bod genweirio'n cyfrannu oddeutu £150 miliwn ati.

490. Ystyrir bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn anghymesur o ran eu heffaith ar enweirwyr yng Nghymru; honnir bod y dyfarniad yn Mott[370], sy'n ymwneud â chymesuredd a chydbwysedd teg o ran cyfyngu ar weithgareddau pysgota, yn dangos cefnogaeth i'r ddadl y bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn cael effaith ddifrifol ar enweirwyr.

**Emyr Lewis, sy'n cynrychioli Clwb Genweirio Llanbrynmair (LAC)**

491. O ran p'un a yw'r mesurau yn yr is-ddeddfau arfaethedig yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn rhesymol o ystyried stociau pysgod yng Nghymru, gwneir y pwyntiau canlynol:

- Nid yw'r holl stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru yn dirywio i'r un graddau, ac mae stociau brithyllod y môr yn arbennig yn dangos cydnerthedd da; ac,
- Ni ystyrir y bydd mân newidiadau, fel y rhai a gynigir gan yr is-ddeddfau sy'n ymwneud â physgota ag abwyd neu nifer y bachau, yn cael unrhyw effaith o gymharu ag effeithiau ehangach camreoli'r amgylchedd o ran amaethyddiaeth a choedwigaeth.

492. Yn ogystal, o ran yr effeithiau economaidd-gymdeithasol, bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn cael effaith niweidiol ddifrifol ar glybiau genweirio lleol a bywyd gwledig yng Nghymru. Byddent yn arwain at dranc clybiau genweirio lleol oherwydd byddent yn atal genweirwyr rhag defnyddio dulliau traddodiadol o bysgota, ac felly ni fyddai unrhyw ddiben parhau i rentu dyfroedd; effaith arall yw y byddai pobl ifanc yn colli'r cyfle i ymwneud â genweirio. Byddai tirfeddianwyr yn colli incwm rheolaidd bach ond arwyddocaol.

493. O ran y gallu i orfodi'r is-ddeddfau arfaethedig, mae'n amheus a ellir eu gorfodi'n llwyddiannus o ganlyniad i ddirywiad difrifol mewn gorfodi ar afonydd yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd sy'n golygu bod nifer fach yn unig o staff rheng flaen ar gael erbyn hyn i blismona afonydd Cymru; ni fyddai potsio a llygredd yn cael eu herio.

494. Ffactorau eraill sy'n effeithio ar stociau pysgod yw ysglyfaethu gan adar fel Mulfrain a Hwyadwyddau, a hefyd gan Ddyfrgwn; mae'r ysglyfaethwyr hyn yn cael eu gwarchod ar draul stociau pysgod. Mae llygredd ac arferion amaethyddol/coedwigaeth gwael yn effeithio ar stociau pysgod hefyd.

**Victor Bonutto**

495. Y prif fater yw p'un a yw'r is-ddeddfau arfaethedig yn rhesymol, yn angenrheidiol ac yn gymesur. Ystyrir bod yr is-ddeddfau'n ddiffygiol, nad ydynt yn gymesur, a'u bod yn niweidiol i gadwraeth pysgod am y rhesymau canlynol:

- Byddent yn caniatáu parhau i ddefnyddio abwyd troellog 'flying C'; mae profiad personol yn dangos nad oes unrhyw abwyd arall sy'n arwain at gynifer o achosion o fachu eogiaid yn ddwfn;
- Mae'r defnydd o 1 neu 2 fwydyn yn amherthnasol i raddau helaeth, ac felly hefyd maint y bachyn; os yw bachyn ymhell i lawr stumog pysgodyn, ni ellir ei dynnu ymaith; ac,
- Mae'r defnydd o ferdys a chorgimychiaid fel abwyd yn cael ei wahardd yn helaeth yn Iwerddon ac mewn mannau eraill lle nad yw'r defnydd o'r abwyd hwn yn effeithio ar stociau pysgod. Byddai'n fwy cymesur hyrwyddo pob dull pysgota

[370] (ar gais Mott) (Ymatebwr) v Asiantaeth yr Amgylchedd (Apelydd)

sy'n caniatáu ar gyfer tynnu bachau ymaith yn rhwydd; mae profiad personol wedi dangos bod defnyddio berdys a chorgimychiaid yn arwain at fachu eogiaid yn ysgafn yn y geg bron bob tro, a bod y bachyn yn rhwydd i'w dynnu ymaith. Mae'n ymddangos bod CNC hefyd wedi colli'r cyfle i gymhwyso egwyddorion cadwraeth syml, fel defnyddio gefeiliau rhydweliau, a ddylai fod yn orfodol; mae'n haws o lawer tynnu bachyn ymaith, hyd yn oed fachyn mwydyn sydd ymhell i lawr gwddf eog.

496. Codir amheuon ynglŷn â'r gallu i orfodi'r is-ddeddfau arfaethedig o ystyried toriadau i gyllideb CNC o ran adnoddau gorfodi penodol. Mae eogiaid a brithyllod y môr yn edrych yn debyg iawn i'w gilydd, hyd yn oed i'r rhai gwybodus, felly bydd yr is-ddeddfau'n rhoi rhwydd hynt i droseddwyr posibl ddrysu'r mater pe byddai'n cael ei godi. Hefyd, mae'n amheus p'un a yw'n realistig gorfodi senario un mwydyn, fel y cynigir, pan allai mwydyn o'r fath gael ei rannu'n ddau neu hyd yn oed yn dri; nid yw hyn yn gymesur nac yn rhesymol gan na fydd yn helpu stociau eogiaid.

497. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig wedi'u seilio ar achos technegol CNC, ond codir amheuon ynglŷn â chywirdeb y wybodaeth a gynhwysir yn yr achos hwnnw, fel defnyddio data sy'n gysylltiedig â dyfais gyfrif Glan Teifi, yr ystyrir ei fod yn anghywir oherwydd bod y ddyfais cyfrif pysgod yn ddiffygiol; mae hyn yn dangos bod achos CNC yn ddiffygiol iawn ac yn codi amheuon ynglŷn â ph'un a oes diffygion mewn agweddau eraill o'r TC. Yn ogystal, mae gwybodaeth bwysig ar goll, gan na fesurwyd nifer yr eogiaid sy'n dychwelyd yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'n ymddangos nad yw CNC wedi rhoi llawer o ystyriaeth i asesu nifer y pysgod ifanc (gleisiaid) sy'n dychwelyd i afonydd Cymru o ran asesu'r stoc a'i rheoli yn y dyfodol.

498. Ni ystyrir bod C&R wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol pan ddychwelwyd mwyafrif y pysgod yn wirfoddol – pe byddai'n gymaint o lwyddiant byddai mwy o eogiaid i'w gweld yn afonydd Cymru. Nid yw TC CNC wedi rhoi llawer o ystyriaeth i ysglyfaethu gan adar, nac arferion mudo gleisiaid eogiaid, sef data sy'n hollbwysig i reoli eogiaid.

**Mark Lloyd, sy'n cynrychioli'r Ymddiriedolaeth Genweirio (AT)**

499. Mae prif wrthwynebiad yr AT i'r is-ddeddfau arfaethedig yn ymwneud â gosod C&R gorfodol. Mae natur orfodol yr is-ddeddfau yn annerbyniol; mae'n well gan enweirwyr reoleiddio gwirfoddol gan ei bod yn bwysig iawn bod gan enweirwyr yr hawl i gymryd pysgodyn, hyd yn oed os nad yw'r hawl honno'n cael ei harfer am resymau cadwraeth. Mae'r AT wedi gwrthwynebu C&R gorfodol a'r rhan fwyaf o reoliadau sy'n cyfyngu ar ddulliau genweirwyr yng Nghymru a Lloegr ers iddynt gael eu crybwyll gyntaf gan yr EA a CNC yn 2014/15, ac mae wedi cyflwyno gwrthwynebiadau i'r prosesau ymgynghori a gynhaliwyd. Yng Nghymru, mae genweirwyr, sy'n dal 10-15% yn unig o'r eogiaid mewn afon ar hyn o bryd, yn dychwelyd 86%, sy'n golygu bod genweirwyr yn gyfrifol am lai na 2% o farwolaethau eogiaid aeddfed.

500. Nid yw'r AT yn credu y bydd rheoleiddio gorfodol 100% yn effeithiol gan fod adnoddau gorfodi CNC yn brin ac yn dibynnu'n drwm ar gydweithrediad gwirfoddol genweirwyr; ni fydd pawb yn barod i gydweithredu os cyflwynir yr is-ddeddfau arfaethedig. Byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn arwain at lai o enweirwyr, a fyddai'n golygu bod llai o enweirwyr ar yr afonydd i atal potswyr a'r gyfran fach, ond arwyddocaol, o enweirwyr eraill a fyddai'n cymryd pysgod yn anghyfreithlon. Felly, gallai C&R gorfodol arwain at lai o bysgod nag ymagwedd wirfoddol gyda tharged o 90%, fel yr argymhellwyd gan yr EA yn Lloegr.

501. Mae'n werth nodi bod Lloegr wedi penderfynu peidio â gosod C&R gorfodol, sy'n ymagwedd bragmatig a chymesur. Mae'n ymddangos bod deddfwriaeth gyffredinol ar gyfer Cymru gyfan am 10 mlynedd yn offeryn rheoli llawdrwm iawn pan fo afonydd eu hunain yn amrywio'n fawr o ran stociau pysgod, ac yn enwedig o ystyried bod yr is-ddeddfau arfaethedig wedi'u llunio hyd at 3 blynedd cyn iddynt gael eu gweithredu o bosibl.

502. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn debygol o orfodi sawl clwb genweirio i gau ac achosi niwed difrifol i fusnesau sy'n dibynnu ar enweirwyr sy'n ymweld, fel siopau offer, gwersyllfeydd, gwestai a thafarndai. Mae troseddoli genweirwyr am gymryd un eog a niweidio hyfywedd busnesau gwledig a grwpiau cymunedol yn ymagwedd anghymesur o lawdrom at reoleiddio sector nad yw'n achosi'r broblem. Mae sectorau eraill yn cael effaith fwy o lawer ar eogiaid a'r amgylchedd naturiol, fel llygredd amaethyddol, carthffrwd, niwed i gynefin, ynni dŵr, a rhwystrau rhag mudo; mae rheoleiddio yn y meysydd hyn yn ysgafn neu nad yw'n cael ei orfodi.

503. Gan fod cyllid ar gyfer CNC wedi cael ei gwtogi ar hyd y blynyddoedd, ni ystyrir ei fod yn fygythiad go iawn i botswyr, nac yn gallu asesu stociau pysgod mewn amser real na gorfodi yn erbyn difrod i'r amgylchedd o ffynonellau eraill, fel amaethyddiaeth, sy'n gwneud llawer mwy o niwed i stociau eogiaid.

504. Mae genweirwyr yn dadlau bod adar, fel mulfrain, wedi cael effaith sylweddol ar nifer y pysgod, ac eto ni fu newid mewn polisi i ganiatáu i glybiau reoli ysglyfaethu anghynaliadwy gan yr adar hyn, er y cydnabyddir bod CNC wedi sefydlu grŵp adolygu i astudio'r mater.

505. O ran rheolaethau ar ddulliau, mae'r AT o'r farn bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn ymateb anghymesur, yn enwedig o ran pysgota â mwydod ar afonydd bach yn eu llif yng Nghymru; byddai nifer y pysgod a arbedir gan y gwaharddiad hwn yn fach iawn ond byddai'r effaith ar ddiwylliannau a'r gymuned enweirio'n ddifrifol. Fodd bynnag, mae'r AT yn cefnogi disodli bachau triphlyg ar ddenwyr 'flying C' â bachau sengl, oherwydd byddai hyn yn gymharol rwydd i'r gymuned enweirio ei fabwysiadu ac mae tystiolaeth anecdotaidd i ddangos y byddai'n atal marwolaeth anfwriadol rhai eogiaid.

506. O ran tystiolaeth CNC sy'n ymwneud ag asesu stociau pysgod, mae'r AT yn derbyn y bu dirywiad difrifol yn nifer yr eogiaid yng Nghymru ac ymhellach i ffwrdd. Fodd bynnag, nid oes ganddo lawer o hyder yn yr asesiad o stociau gan CNC ar afonydd penodol, ac mae'n credu bod perfformiad blaenorol rhagfynegiadau wedi bod yn wael; mae hyn yn atal rheoli eogiaid yn effeithiol yn y dyfodol ac yn darparu sail fregus i weithredu mesurau gorfodol fel y'u cynigir yn yr is-ddeddfau.

507. Mae lleiafrif arwyddocaol o enweirwyr eogiaid sy'n chwyrn yn erbyn rheoleiddio genweirio am eogiaid ymhellach y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes yn bodoli; byddai rheoleiddio ychwanegol yn afresymegol, yn anghymesur ac yn anymarferol.

**Dr Marsh-Smith, sy'n cynrychioli Afonydd Cymru (AC) (y grŵp ambarél ar gyfer y chwe ymddiriedolaeth afonydd yng Nghymru)**

508. Mae AC yn rhannu tir cyffredin â CNC yn yr ystyr ei fod yn credu bod angen rheolaethau ymelwa ychwanegol yn yr amgylchiadau presennol, ac mae'n cytuno bod dull CNC o osod targedau cadwraeth yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at lywio'r broses o reoli ymelwa. Fodd bynnag, ystyrir bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn ymdrin â symptomau llai o bysgod yn hytrach na mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r broblem, fel llygredd amaethyddol.

509. O ran yr is-ddeddfau, ystyrir y dylai'r defnydd o rwydi gael ei gyfyngu ymhellach i ganol mis Mai neu hyd yn oed ddechrau mis Mehefin, yn hytrach na'r dyddiad dechrau a nodir yn yr is-ddeddfau arfaethedig, sef 1 Mai, i ganiatáu i fwy o hwyfellod silio; gellid rhoi mwy o gyfle i ddianc hefyd trwy wahardd rhwydo ar un neu ddiwrnod ychwanegol yn ystod yr wythnos, er mwyn unioni'r hyn yr ystyrir ei fod yn anghydbwysedd rhwng budd economaidd rhwydo a physgod a ddelir ar wialen.

510. Ystyrir bod y cynnig i osod C&R gorfodol ar gyfer brithyllod y môr cyn dechrau'r tymor rhwydo yn anniogel gan y bydd pysgod yn parhau i fod ar gael i'w dal ar ôl 1 Mai; mesur cadwraeth symlach fyddai pennu uchafswm maint unigol o 50cm drwy gydol y flwyddyn (sy'n llai na'r 60 cm yn yr is-ddeddfau arfaethedig) a dim cyfnod C&R.

511. Mae'n amheus p'un a ellir rhyddhau eogiaid yn ddiogel o rwydi, yn enwedig gan bysgotwyr cwrwgl.

512. O ran cyfyngiadau'r is-ddeddfau arfaethedig ar ddulliau pysgota, byddai'r is-ddeddfau'n caniatáu defnyddio berdys fel abwyd am 2 wythnos ar afon Wysg heb esboniad boddhaol, er y byddai mathau eraill o abwyd yn cael eu gwahardd. Yn ogystal, o ran y cynnig i ganiatáu defnyddio mwydod i bysgota am frithyllod y môr, y ffaith yw y gallai eogiaid gymryd yr abwyd ac y gallai rhai farw pe byddent yn cael eu dychwelyd i'r dŵr; awgrymir gwaharddiad llwyr ar fwydod, corgimychiaid a berdys o blaid pysgotwyr plu sydd, fel grŵp, yn fwy tebygol o gyfranogi mewn C&R.

513. Gall C&R fod yn offeryn defnyddiol iawn o ran cadwraeth pysgod, ond y prif fater yw p'un a ddylai fod yn orfodol neu'n wirfoddol; mae'n anodd i AC ddychmygu bod cymryd hyd yn oed un pysgodyn pan fo stociau'n isel yn unrhyw beth heblaw am gwbl amhriodol, ond fe allai fod yn fwy ymarferol caniatáu pysgota â mwydod ar rai afonydd llai o faint lle nad yw dulliau eraill yn ymarferol.

**Creighton Harvey, sy'n cynrychioli Cymdeithas Genweirio Amatur Abertawe a Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin (SAAA & CFF)**

514. O ran dal a rhyddhau â rhwydi (eogiaid), cefnogir yr is-ddeddf arfaethedig yn rhannol i'r graddau nad yw'n caniatáu unrhyw rwydo am frithyllod y môr ym mis Mawrth a mis Ebrill pan fydd y rhai mwyaf ohonynt yn mynd i mewn i afonydd. Fodd bynnag, mae'r is-ddeddf yn ddiffygiol oherwydd y byddai'n gorfodi rhwydwyr, rhwydwyr sân a physgotwyr cwrwgl i ddychwelyd pob eog. Er y croesewir y nod o warchod eogiaid, mae'n amheus a allai pysgotwyr cwrwgl gydymffurfio â C&R gan nad yw'n addas i gydymffurfio â chanllawiau CNC ar ryddhau eogiaid yn ddiogel.

515. O ran C&R ar gyfer eogiaid gan enweirwyr, er y cefnogir hyn mewn egwyddor, ni fyddai'n caniatáu am ladd ambell bysgodyn na ellid ei ddychwelyd yn ddiogel.

516. O ran yr is-ddeddf sy'n ymwneud â C&R ar gyfer brithyllod y môr a ddelir â gwialen ym mis Ebrill, byddai hyn yn caniatáu pysgota am frithyllod y môr ym mis Ebrill yn unig; nid oes rheswm cadwraeth pam mae angen yr is-ddeddf hon ar bysgota am frithyllod y môr â gwialen o ystyried bod yr uchafswm maint yn berthnasol i'r tymor cyfan. Byddai'r uchafswm maint yn gwarchod y stoc werthfawr o frithyllod y môr mawr ac mae nifer cyfyngedig o frithyllod y môr ym mis Ebrill.

517. O ran yr is-ddeddf arfaethedig sy'n cyfyngu ar faint y brithyllod y môr y gellir eu dal; byddai cynnwys maint slot 60 cm yn gwarchod brithyllod y môr aeddfed sy'n gallu cynhyrchu niferoedd mawr o wyau, ac mae dechrau'r tymor rhwydo sân a chwrwgl ar 1 Mai

yn galonogol. Bydd y mesurau hyn yn darparu amddiffyniad hanfodol i stoc sy'n ymddangos fel petai wedi dirywio'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar.

518. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig sy'n gwahardd pysgota am eogiaid ag abwyd a defnyddio abwyd i bysgota am frithyllod y môr cyn 1 Mai, yn anniogel gan nad yw'r pysgod yn gallu gwahaniaethu rhwng mwydyn a fwriadwyd ar gyfer brithyll y môr a mwydyn a fwriadwyd ar gyfer eog; byddai rhai genweirwyr yn ildio i'r demtasiwn i bysgota am eogiaid. Ystyrir y dylai pysgota am eogiaid a brithyllod y môr â mwydod gael ei wahardd yn llwyr hyd nes bod y stociau'n adfer. Croesewir yr is-ddeddf sy'n caniatáu defnyddio berdys a chorgimychiaid i bysgota am eogiaid ar ôl 31 Awst.

519. O ran yr is-ddeddf arfaethedig sy'n ymwneud â gwahardd bachau triphlyg, a physgota am eogiaid a brithyllod y môr gan ddefnyddio bachau heb fachau neu fachau heb adfachau yn unig; cefnogir yr olaf. Honnir y byddai gwahardd bachau triphlyg yn helpu i warchod pysgod ifanc, yn enwedig, ac yn helpu i ddychwelyd pysgod aeddfed i'r dŵr yn gyflym ar ôl eu dal, gan felly gynyddu cyfraddau goroesi.

520. Ffactor arall sy'n arwain at ddisbyddu stociau pysgod yw llygredd amaethyddol, sy'n gallu effeithio ar stociau pysgod am flynyddoedd lawer. O ran stocio afonydd â physgod, byddai SAAA & CFF yn cael eu harwain gan gyngor gwyddonol.

521. O ran effeithiau economaidd-gymdeithasol, ystyrir y bydd unrhyw gynnig sy'n lleihau faint o bysgota sydd ar gael, neu ei atynioldeb, yn lleihau nifer y twristiaid genweirio.

522. O ran y gallu i orfodi'r is-ddeddfau, cyhyd â bod y ddeddfwriaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur, bydd mwyafrif y genweirwyr yn cydymffurfio â hi.

523. Derbynnir bod y lefelau stoc presennol yn golygu na ellir cynnal y sefyllfa bresennol ar gyfer genweirwyr na rhwydwyr masnachol; ni ellir cefnogi cynnal y lefelau ymelwa presennol ar sail treftadaeth yn unig gan ei fod yn gwarchod buddiannau nifer fach o bysgotwyr yn unig y mae eu gwerth net wedi'i gyfyngu i'r ddalfa yn unig ac nid yr economi ehangach.

524. Er y derbynnir bod stociau eogiaid a brithyllod y môr yn dirywio yn afonydd Sir Gaerfyrddin a Chymru yn gyffredinol, ni dderbynnir bod genweirio'n achos arwyddocaol, ac mae unrhyw effaith niweidiol fach gan enweirio wedi'i gorbwyso'n drwm gan welliannau i gynefin, ac adrodd am ddigwyddiadau potsio/llygredd.

525. Ar ôl i'r dystiolaeth lafar hon gael ei chyflwyno, dywedodd Clwb Genweirio Abergwili (AAC)[371] nad oedd eisiau cael ei gysylltu ag unrhyw sylwadau a wnaed gan Mr Harvey gan ei fod yn anghytuno â'i safbwyntiau; mae AAC yn honni bod ei safbwyntiau'n groes i farn clybiau genweirio lleol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi dadlau yn erbyn yr is-ddeddfau arfaethedig.

### Rhwydwyr

526. Roedd y tystion canlynol yn cynrychioli buddiannau pysgotwyr rhwydi ac roedd eu tystiolaeth yn canolbwyntio bron yn llwyr ar yr is-ddeddfau sy'n ymwneud â physgota â rhwydi; crynhoir y pwyntiau perthnasol a wnaed isod.

[371] ID AAC/2

### Malcolm Rees

527. Rwy'n bysgotwr cwrwgl ac yn Ysgrifennydd Cymdeithas Cwrwglwyr a Rhwydwyr Caerfyrddin (CONA). Mae trwyddedau CONA wedi cael eu lleihau o 12 i 8, ac yn 2018 dim ond 3 deiliad trwydded oedd yn pysgota'n rheolaidd. Mae cyfyngiadau'r is-ddeddfau arfaethedig ar bysgota â rhwydi, gan gynnwys lleihau hyd y tymor pysgota â rhwydi, yn cael eu herio o ystyried bod pysgotwyr rhwydi eisoes wedi'u cyfyngu i dymor 5 mis lle mae amodau fel y tywydd a'r llanw eisoes yn cyfyngu ar unrhyw ddalfa gyfreithlon.

528. Ni fydd targedu genweirwyr a rhwydwyr yn cael llawer o effaith ar stociau pysgod sy'n dirywio gan fod materion pwysicach o lawer i'w trin, gan gynnwys: llygredd amaethyddol, fel dŵr ffo slyri a'i effeithiau dinistriol ar ecoleg afon; llongau treillio masnachol, yn enwedig ym Môr Iwerddon, sy'n gallu dal brithyll yn anfwriadol; llygredd diwydiannol fel gollyngiad olew Valero yn 2016 i afon Tywi; asideiddio afon Tywi trwy goedwigo, yr ystyrir ei fod yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at ddirywiad y stoc bysgod yn yr afon; rhwydo anghyfreithlon ym Mae Caerfyrddin, sy'n haws gan fod llai o bobl yn cael eu cyflogi i blismona afonydd; ysglyfaethwyr fel morloi, dyfrgwn, mulfrain a hwyaid danheddog sydd oll yn ffynnu ar draul stociau pysgod; a'r newid yn yr hinsawdd.

529. Gallai'r rhwydwyr dderbyn colli mis Mawrth o'r tymor, ond erfynnir bod misoedd Ebrill, Mai a Mehefin yn cael eu cadw; gallai mis Gorffennaf aros, fodd bynnag, os gwaherddir rhwydwyr rhag cymryd eogiaid gan ei fod yn ychwanegiad dibwrpas at y calendr.

### Ian Harries

530. Mae Mr Harries yn bysgotwr cwrwgl ar afon Teifi sydd wedi dal trwydded ers 24 mlynedd. Rhoddwyd gwybod i'r rhwydwyr am yr is-ddeddfau arfaethedig yn unig; nid oedd unrhyw drafodaeth ar y mater. Y prif fater yw'r gwaharddiad llwyr ar bysgota cwrwgl ym mis Ebrill er mwyn atal dal brithyllod y môr mwy o faint. Mae mis Ebrill yn fis pwysig i bysgotwyr cwrwgl sy'n gallu gwneud y gwahaniaeth rhwng adennill costau a gwneud colled. Derbynnir bod stociau eogiaid yn is nag oeddent flynyddoedd yn ôl, ond mae'n ymddangos eu bod wedi gwella yn ystod y tair blynedd diwethaf, tra bod stociau brithyllod y môr yn ymddangos fel petaent wedi aros yn gyson. Gall llygredd amaethyddol ladd mwy o bysgod mewn un digwyddiad nag y byddai rhwydwr cwrwgl yn eu cymryd dros flynyddoedd lawer; mae ardaloedd lle y rhoddwyd terfyn ar lygredd yn afonydd y dyffrynnoedd dwyreiniol fel Rhymni a Thaf wedi gweld brithyllod y môr yn ailymddangos wrth i'r brithyllod symud yn ôl i rannau glanach yr afon.

531. Ceir pryder os bydd yr is-ddeddfau'n cael eu gosod, na fyddant yn cael eu gwrthdroi, hyd yn oed os bydd nifer y pysgod yn cyrraedd lefel dderbyniol yn y dyfodol.

532. Mae CNC yn honni bod y cyfyngiadau a osodir gan yr is-ddeddfau yn gydradd i bysgotwyr rhwydi a genweirwyr, ond, yn draddodiadol, mae'r tymor genweirio'n hirach o lawer na'r tymor pysgota â rhwydi, ac mae'r cynigion yn bwriadu byrhau'r tymor rhwydi ymhellach fyth.

### Andrew Davies, fel Cadeirydd Cymdeithas Cwrwglwyr a Rhwydwyr Caerfyrddin (CNNA)

533. Mynegir pryder bod ystadegau CNC sy'n ymwneud â stociau pysgod ar afon Tywi yn anghywir, gan fod dychweliadau CNNA yn dangos cynnydd yn nifer yr eogiaid a ddaliwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf, sy'n groes i'r hyn a gyflwynwyd gan CNC. Mae'n

ymddangos bod y dychweliadau dalfeydd y mae CNC yn dibynnu arnynt wedi'u seilio ar dybiaeth o 100% o ddychweliadau gan enweirwyr â gwialen; byddai sefyllfa o'r fath yn annhebygol o godi wrth ddal eogiaid a brithyllod y môr yn fasnachol gan fod angen i'r holl bysgod o'r fath gael eu tagio a'u cofnodi.

534. Ni fydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn mynd i'r afael ag effaith ansawdd dŵr gwael ar lwyddiant silio pysgod o deulu'r eog yng ngorllewin Cymru. Mae pysgotwyr cwrwgl Tywi yn talu mwy am eu trwydded na thrwydded debyg ar afonydd eraill yng Nghymru, ac ofnir y bydd unrhyw gyfyngiad pellach ar y rhwydwyr yn achosi straen ariannol i'r rhai sy'n ymwneud â chynnal pysgodfeydd treftadaeth sy'n rhan fawr o'r diwylliant Cymreig lleol.

**Peter Dalton**

535. Ac yntau wedi pysgota yn afon Tywi fel pysgotwr sân ers ei lencyndod ac wedi gweld newidiadau sydd wedi cyfyngu ar bysgodfeydd ar gyfer y math hwn o bysgota, mae Mr Dalton o'r farn mai'r cyfan y mae hyn wedi'i wneud yw creu gwagle a lenwyd gan botswyr. Mae'n credu bod rhaglenni ailstocio yng Nghymru wedi cael eu terfynu'n rhy gynnar, gan ei bod yn ymddangos bod afonydd mewn mannau eraill yn llwyddo yn hyn o beth. Mae'n pryderu bod angen mynd i'r afael ag ysglyfaethu a llygredd, yn enwedig o ffermio llaeth.

536. Bydd eogiaid a brithyllod y môr Tywi, sy'n cael eu gwerthu mewn busnesau lleol ar hyn o bryd, yn diflannu o ganlyniad i'r is-ddeddfau. Ac o safbwynt treftadaeth, bydd Glanyfferi yn colli ei physgotwr sân olaf.

**Len Walters**

537. Mae Mr Walters yn bysgotwr masnachol amser llawn ar y môr ac ar afon Teifi. Mae'n pysgota am amrywiaeth o rywogaethau, gan gynnwys eogiaid a brithyllod y môr, ac yn gwerthu cynnyrch mewn siop deulu. Mae'r tymor pysgota â rhwydi cwrwgl ar afon Teifi eisoes yn gyfyngedig o ganlyniad i hyd presennol y tymor a realiti gorfod gweithio gyda rhai amodau llanw anffafriol. Byddai dileu dau fis o'r tymor presennol yn gwneud pysgota cwrwgl yn anymarferol, yn achosi caledi ariannol personol, ac yn arwain at golli pysgodfa dreftadaeth.

538. Nid yw cyflwyniad CNC yn cydnabod bygythiadau i stociau eogiaid a brithyllod y môr o lygredd fel slyri, morloi (y mae eu niferoedd allan o reolaeth erbyn hyn), dolffiniaid a draenogiaid y môr sy'n bwydo ar frithyllod brych eogiaid.

**Richard Garner Williams ar ran Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod y Môr Cymru (STCC)**

539. Mae STCC yn cefnogi'r is-ddeddfau arfaethedig at ei gilydd, gyda rhai amheuon; manylir ar y pwyntiau perthnasol isod:

- Mae STCC yn cytuno â barn gyffredinol y rhan fwyaf o wyddonwyr pysgodfeydd, sef bod ychwanegu at stociau eogiaid naturiol yn artiffisial yn ymarfer costus ar ei orau ac yn fygythiad i oroesiad gweddill y boblogaeth wyllt ar ei waethaf;

- Gan gydnabod agweddau economaidd-gymdeithasol pysgodfeydd treftadaeth a rheoli pysgodfeydd at ddibenion hamdden, mae STCC hefyd yn credu bod Egwyddor Sandford yn gallu chwarae rôl werthfawr wrth ddatrys anghydfod ynglŷn ag ymelwa ar adnoddau naturiol. Cymhwyswyd yr Egwyddor i reoli Parciau Cenedlaethol yn wreiddiol, ac mae wedi datblygu ar sawl ffurf dros y blynyddoedd, ond, yn ei hanfod, mae'n datgan pan fydd gwrthdaro rhwng

gweithgarwch dynol a chadwraeth adnoddau naturiol, y dylai buddiannau cadwraeth gael blaenoriaeth. I'r perwyl hwnnw, byddai STCC yn annog pawb sy'n gysylltiedig i ystyried eu blaenoriaethau o ran gofynion Egwyddor Sandford. Hoffai STCC hefyd dynnu sylw at yr angen a fynegir gan NASCO i ddilyn yr 'Egwyddor Ragofalus' ym mhob mater sy'n ymwneud â chadwraeth eogiaid yr Iwerydd. Mae STCC yn cytuno bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn gam i'r cyfeiriad cywir o ran gwrthdroi dirywiad stociau eogiaid;

- Ym marn STCC, mae'r diwygiad dilynol i'r cynigion yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad a gefnogwyd gan y bwrdd ym mis Ionawr yn llai ffafriol na'r drafft gwreiddiol, ac felly'n gwanhau nodau cadwraeth yr ymarfer ymhellach;
- Mae STCC yn awgrymu y dylai gweithredwyr rhwydi fod yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ar faint slot ag y mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn eu bwriadu ar gyfer genweirwyr, a bod moratoriwm yn cael ei osod ar gymryd pysgod mewn rhwydi o afonydd AR a PaR;
- Mae angen dybryd am yr adnoddau angenrheidiol i warchod pysgod gwyllt Cymru, nid yn unig rhag ymelwa gan wialenni a rhwydi, ond hefyd rhag llygredd amaethyddol, arferion coedwigaeth amhriodol, rhwystrau rhag mudo a nifer o fygythiadau eraill; ac,
- Mae STCC yn dod i'r casgliad bod y dulliau presennol o asesu stoc yn gallu bod yn ddangosyddion gwael o'r gwir ganlyniadau. Honnir bod rhagfynegi adfer yn gallu bod yn obaith gwag ac oedi gwaith paratoi a gweithredu mesurau brys pe na byddai'r gwelliant a ragfynegwyd yn cael ei wireddu. Mae STCC yn annog dadansoddiad treigl, amser real fel y gellid ymyrryd yn gynharach pe byddai'r data'n dangos bod angen gweithredu mesurau unioni brys.

**Partïon Eraill**

540. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd uchod gan bartïon eraill, o blaid ac yn erbyn yr is-ddeddfau arfaethedig, yn adlewyrchu safbwyntiau'r cynrychiolaethau ysgrifenedig eraill a dderbyniwyd cyn ac yn ystod yr Ymchwiliad. Cyflwynwyd tystiolaeth ategol ysgrifenedig gan Ddŵr Cymru (WW) Hefyd. Dywedodd fod tystiolaeth CNC ynglŷn â sicrhau stociau eogiaid yn gynhwysfawr ac yn gymhellol. Dywedodd hefyd y bydd adfer stociau eogiaid i gyflwr ffafriol, fel y cyfeirir ato yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, yn gofyn am ymdrech ar y cyd gan lawer o randdeiliaid, gan gynnwys WW ac eraill fel y gymuned enweirio, i liniaru effeithiau ar eogiaid; ystyriwyd bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn ymddangos yn ffordd gymesur o gyflawni'r amcan hwn a chaniatáu ar gyfer stociau eogiaid cynaliadwy yn y dyfodol.

541. Mae CNC a'r Ymddiriedolaeth Genweirio (AT) wedi cytuno ar Ddatganiad Tir Cyffredin (SoCG)[372]. Crynhoir y materion y cytunwyd arnynt fel a ganlyn:

[372] ID ID/2

- Er bod statws presennol eogiaid a brithyllod y môr mewn nifer o afonydd yng Nghymru wedi disbyddu'n ddifrifol ac yn parhau i ddirywio mewn rhai afonydd, nid genweirwyr[373] sy'n gyfrifol am hynny;
- Mae angen datblygu gweithdrefn asesu a gweithdrefn ymateb rheoli newydd ar gyfer eogiaid. Fodd bynnag, nid yw'r partïon yn cytuno ar y raddfa amser briodol ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau newydd;
- O ran rhwydi, mae'n briodol cymhwyso dal a rhyddhau (C&R) gorfodol ar gyfer eogiaid, yn amodol ar gadarnhau ei effeithiolrwydd, fel sy'n ofynnol gan yr AT;
- O ran rhwydi, mae'n briodol addasu'r tymhorau pysgota â rhwydi i gysoni dyddiadau agor a chau pysgodfeydd a lleihau lefel gyffredinol pysgota am eogiaid a brithyllod y môr â rhwydi yng Nghymru; mae'r AT wedi datgan yn eglur ei bod yn ffafrio gwaharddiad llwyr;
- O ran brithyllod y môr, er bod CNC o'r farn bod angen mesurau'r is-ddeddfau arfaethedig ar bob afon, mae'r AT yn credu bod mesurau ychwanegol yn angenrheidiol ar rai afonydd yn unig;
- O ran pysgota am frithyllod y môr â gwialen, ystyrir bod terfyn slot 60cm yn briodol er mwyn sicrhau bod genweirwyr yn dychwelyd pysgod ffrwythlon mawr yn fyw i gyfrannu at stociau silio blynyddol; ac,
- O ran cyfyngu ar fachau ar ddenwyr 'flying C' i un bachyn heb adfachau er mwyn lleihau'r perygl uchel o fachu angheuol a welwyd yn y gorffennol, ystyrir bod y mesur hwn yn briodol.

**Arfarniad**

*Y Prif Fater*

~~542.~~ Ystyriaf mai'r prif fater yw p'un a yw'r mesurau a gynigir o dan Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 ac Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn rhesymol o ystyried stociau pysgod ledled Cymru.

*Asesu'r Stoc Bysgod*

543. Yr hyn sy'n ganolog i ddadleuon CNC o blaid yr is-ddeddfau arfaethedig yw'r dirywiad mewn stociau pysgod. Er bod llawer o wrthwynebwyr yn derbyn, at ei gilydd, bod stociau eogiaid a rhai stociau brithyllod y môr yng Nghymru yn dirywio'n barhaus, nid yw eraill[374] yn cytuno â dadansoddiad CNC. Maen nhw'n codi amheuon ynglŷn â methodoleg y data sylfaenol a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau'r ymagwedd ddilynol fel y'i crynhoir yn yr is-ddeddfau arfaethedig, ei ddibynadwyedd a'r dehongliad ohono.

544. Mae stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru yn cael eu monitro trwy gymhwyso'r elfennau allweddol a ddisgrifir isod, a ddefnyddir i ddarparu'r ffynonellau data ar gyfer asesu poblogaethau pysgod a llywio penderfyniadau rheoli cysylltiedig. Ar sail y data hwn, cynhyrchir amcangyfrifon o niferoedd hwyfellod a dyddodi wyau bob blwyddyn.

**Ffynonellau Data a Chanlyniadau**

*Defnyddio ystadegau dalfeydd â gwialenni a rhwydi*

---

[373] Mae'r sylw hwn, cyn i'r Ymchwiliad ddechrau, yn cyferbynnu â'r safbwynt a ddatganwyd gan CNC yn ystod ac ar ddiwedd yr Ymchwiliad.

[374] Fel CPWF, AT, PAAS

- Mae'n ofyniad cyfreithiol i ddeiliaid trwydded pysgota â gwialen ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr gyflwyno dychweliad dalfeydd llawn a chywir erbyn 1 Ionawr y flwyddyn ganlynol. Mae'n rhaid i ddeiliaid trwydded rhwydi a motor sefydlog masnachol gyflwyno eu dychweliadau o fewn 14 diwrnod o ddiwedd eu tymhorau pysgota unigol. Mae'r ystadegau hyn wedi bod ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o bysgodfeydd afonydd ac arfordirol yng Nghymru ers 1951 ac fe'u hadroddir yn flynyddol[375]; mae'r gyfres o gofnodion dal tymor hir yn ddi-ail o ran hyd y cyfnod maen nhw'n ei rychwantu o gymharu â ffynonellau eraill o ddata pysgodfeydd, ac felly maen nhw'n rhoi cipolwg amhrisiadwy ar batrymau a thueddiadau tymor hir cyflenwadau, yn ogystal â rhoi gwybodaeth am gyfansoddiad maint/oed pysgod sy'n dychwelyd. Ystyrir ffactorau eraill a allai effeithio ar ddehongli dalfeydd e.e. cyfraddau datgan. Mae dadansoddiad o'r ystadegau hyn sy'n mynd yn ôl rhyw 40 mlynedd yn dangos patrwm cyffredinol o ddirywiad cynyddol o ran eogiaid a brithyllod y môr[376]; mae hynny'n amlwg o ran eogiaid, gan fod llai nag 20% o'r dalfeydd cofnodedig uchaf ar ddechrau'r cyfnod, ond mae'n llai amlwg o ran brithyllod y môr, sef oddeutu 35% o'r uchafswm[377].

*Defnyddio maglau pysgod a dyfeisiau cyfrif pysgod awtomataidd*

- Defnyddir y rhain yn bennaf i gyfrif nifer yr eogiaid aeddfed sy'n dychwelyd. Mae'r arolygon hyn yn defnyddio mwy o adnoddau ac wedi'u cyfyngu i ambell system afonydd yn unig e.e. Dyfrdwy, Teifi, Taf/Elái, ond maen nhw'n cynhyrchu'r wybodaeth fanylaf sydd ar gael am ddigonedd a chyfansoddiad stociau sy'n dychwelyd. Dangosodd yr ystadegau hyn fod nifer y gleisiaid h.y. eogiaid aeddfed sydd wedi treulio un gaeaf yn unig yn bwydo yn y môr (eogiaid 1SW) cyn dychwelyd i ddŵr croyw i silio, wedi gostwng mwy nag 80% ers canol y 1980au, tra bod eogiaid aeddfed sydd wedi treulio dau aeaf neu fwy yn y môr (eogiaid MSW) wedi cynyddu oddeutu 50% ers y 2000au cynnar hyd at 2013 (er bod nifer yr eogiaid MSW wedi gwella, nid yw'r ddau grŵp oedran môr wedi dyddodi digon o wyau i gyflawni'r CL ar afon Dyfrdwy). Yn ôl CNC, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r prif afonydd eogiaid yng Nghymru wedi'u dominyddu gan leisiaid, mae unrhyw ostyngiadau nodedig yn eu niferoedd yn debygol o fod yn ffactor arwyddocaol sy'n achosi i lawer o afonydd yng Nghymru beidio â chyflawni eu CL.

*Defnyddio electrobysgota i fonitro eogiaid a brithyllod y môr ifanc*

- Mae'r arolygon hyn wedi cael eu cynnal yn y rhan fwyaf o ddalgylchoedd yng Nghymru. Roedd y diweddaraf yn cynnwys elfen dymhorol h.y. lle yr arolygir nifer o safleoedd penodol yn flynyddol, ac elfen ofodol h.y. lle yr arolygir nifer fwy o lawer o safleoedd wedi'u gwasgaru ar draws y dalgylch cyfan bob 6 blynedd i gael ciplun o boblogaethau pysgod dalgylchoedd. Dangosodd yr ystadegau hyn ostyngiad amlwg a helaeth yn nifer y silod mân eogiaid a brithyllod y môr mewn nifer o ddalgylchoedd yng Nghymru yn 2016. Er bod ffigurau 2017 yn well, fel yr amlygwyd gan CNC, ceir pryder sylweddol o hyd

[375] Cyfeiriwch at POL/25

[376] Mae eithriadau i batrwm y dirywiad e.e. gwelliant o ran dal brithyllod y môr â gwialen yn ystod y blynyddoedd diweddar ar afonydd fel Dyfi, Ogwen, Conwy, Clwyd, Dyfrdwy

[377] Cyfeiriwch at ID NRW/2 paragraffau 3.4 – 3.12

ynglŷn â nifer yr eogiaid aeddfed sy'n dychwelyd o 'ddosbarth blwyddyn' 2016, ac yn enwedig felly yn yr afonydd yr effeithir arnynt waethaf (ffactor sy'n derbyn sylw yng nghynigion yr is-ddeddfau ar gyfer afon Wysg). Nid yw'r astudiaethau electrobysgota wedi'u cynllunio i ddarparu mesurau blynyddol o gyfanswm y stoc bysgod a gynhyrchir (stoc sefydlog) ar raddfa dalgylch h.y. o gymharu ag asesiadau pysgod aeddfed. Fodd bynnag, defnyddir y data a gesglir ar raddfa safle ac is-ddalgylch i amlygu a mynd i'r afael â thanberfformiad neu bwysau amgylcheddol posibl, ac i ganiatáu ar gyfer archwilio tueddiadau cyffredinol, felly mae'n ychwanegiad defnyddiol at y 'pecyn cymorth' ffynhonnell ddata.

545. Ar sail y data uchod, mae amcangyfrifon o nifer yr hwyfellod a dyddodi wyau yn cael eu cynhyrchu'n flynyddol.

*Heriau i'r Fethodoleg a Ddefnyddiwyd gan CNC*

546. Beirniadodd nifer o wrthwynebwyr[378] ffynonellau data CNC a'r dehongliad ohonynt at ddibenion asesu stoc, a'r diffyg defnydd o dechnegau eraill o werthuso statws stoc. Roedd y gwrthwynebiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

547. Dadleuir nad yw'r cyfraddau ymelwa gan wialenni a fodelwyd yn rhoi ystyriaeth ddigonol i newidiadau blynyddol mewn ymdrechion pysgota na ffactorau eraill fel llif, sy'n debygol o ddylanwadu ar lwyddiant pysgota, bod yr ymdrechion pysgota hynny wedi dirywio ar rai afonydd yn ystod y blynyddoedd diweddar, e.e. Dyfrdwy a Mawddach, yr honnir ei fod yn gysylltiedig â gostyngiad tebygol mewn cyfraddau ymelwa, ac nad yw amseriad rhediad, h.y. canran y rhediad sy'n dod i mewn ar ôl diwedd y tymor genweirio, wedi'i gyfrif yn iawn wrth amcangyfrif nifer y pysgod sy'n dychwelyd.

~~548.~~ Mae CNC yn derbyn nad yw ymdrechion pysgota h.y. nifer y diwrnodau pysgota â gwialen, yn cael eu hystyried mewn amcangyfrifon sy'n ymwneud ag asesiadau cydymffurfio â CL, a bod y tywydd yn gallu effeithio ar arferion mudo pysgod ac ymdrechion genweirio. Fodd bynnag, mae'n datgan bod y rhesymau dros y dirywiad mewn ymdrechion pysgota yn gymhleth, ac yn cynnwys: llai o enweirwyr (fel y gwelir yn ôl gwerthiannau trwydded pysgota â gwialen); demograffig hŷn genweirwyr eogiaid a brithyllod y môr; ac, o bosibl, o ganlyniad i ddalfeydd isel diweddar a statws stoc gwael. Yn ogystal, mae CNC yn honni bod y tywydd yn gallu effeithio ar arferion mudo pysgod ac ymdrechion genweirio i'r un graddau. Fodd bynnag, er gwaethaf unrhyw ddiffygion, yn hyn o beth, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth berthnasol sydd ar gael, mae'n amlwg y bu patrwm arwyddocaol a pharhaus o ddirywiad cynyddol ym mwyafrif y stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru yn gyffredinol.

549. O ran pryderon ynglŷn â dibynadwyedd asesiadau wedi'u seilio ar ddalfeydd â gwialen, yn enwedig o ran dalfeydd heb eu datgan, mae CNC wedi cymhwyso ffactorau cywiro[379] i ddalfeydd a ddatganwyd mewn ymgais i gyfrif am danadrodd. Ni cheisiwyd cywiro

---

[378] Fel CPWF/2 paragraffau 46-49, a 49, AR/1 paragraffau 14-15, 21, PAAS/1 paragraff 4, NH/1A paragraff 30. Dylid nodi bod sylw Mr Ashwin yn ei ddatganiad i gloi, sef 'nid oedd CNC, ar unrhyw adeg, wedi croesholi na herio unrhyw dystiolaeth ystadegol a gyflwynwyd yng Ngwrthwynebiad CPWF i achos cadwraeth technegol CNC' yn anghywir; croesholwyd Mr Ashwin, ac mae sylfaen dystiolaeth CNC yn ID NRW2/2R yn cynnwys ymatebion i faterion a godwyd gan CPWF yn ei phroflenni tystiolaeth.

[379] Cymhwyswyd amryw ffactorau cynyddu i ddalfeydd â gwialen cyn 1994 yn ôl i 1975; o 1994 ymlaen, defnyddiwyd ffactor cynyddu cyson cenedlaethol (Cymru a Lloegr) o x1.1; ac, ers 2015, defnyddiwyd ffactor cenedlaethol o x1.3.

dalfeydd a adroddwyd o bysgodfeydd rhwydi ar gyfer dalfeydd heb eu datgan oherwydd diffyg gwybodaeth ac, yn bwysig, ers i dagio carcasau a chynllun cofnodlyfr gael eu cyflwyno yn 2009, ystyrir bod cyfraddau datgan yn agos at 100%.

550. O ran pryderon ynglŷn â defnyddio[380] data o faglau/dyfeisiau cyfrif, mae gwrthwynebwyr yn dadlau ei bod yn annibynadwy allosod data o afonydd fel afon Dyfrdwy i afonydd eraill yng Nghymru oherwydd natur yr afon e.e. maint, lleoliad. Dechreuodd y rhaglen maglu a thagio eogiaid yn afon Dyfrdwy ym 1991 ac mae'n un o'r rhaglenni hiraf a mwyaf cynhwysfawr o'i bath yn ardal Gogledd yr Iwerydd. Mae CNC yn dweud bod data o'r fath yn darparu'r amcangyfrifon mwyaf dibynadwy o rediadau pysgod aeddfed. Mae'r wybodaeth a gasglwyd[381] o afon Dyfrdwy ac, o ran hynny, o'r ddwy afon arall yng Nghymru sy'n defnyddio maglau/dyfeisiau cyfrif pysgod i gyfrif eogiaid, oll yn dangos patrymau tebyg o ddirywiad diweddar i'r rhai a awgrymwyd gan ddychweliadau dalfeydd. Er gwaethaf y pryderon a godwyd gan rai, nid oes tystiolaeth arwyddocaol bod data a gafwyd o faglau/dyfeisiau cyfrif yn annibynadwy; yn wir, mae'n adlewyrchu data arall a goladwyd ar wahân. Nid oes sail resymol i ddiystyru defnyddio data o'r fath.

551. Dadleuir nad yw CNC wedi defnyddio technegau eraill i werthuso statws stociau ac achosion dirywiad. Mae'r technegau eraill hyn yn cynnwys cyfrif claddau, tagio gleisiaid a dadansoddi DNA.

552. O ran cyfrif claddau, cadarnhaodd CNC y rhoddwyd terfyn ar y dechneg hon i raddau helaeth yng Nghymru a Lloegr yn y 1980au am nifer o resymau[382], gan gynnwys, er enghraifft, mae'n aml yn anodd gweld claddau neu eu priodoli i rywogaeth wreiddiol.

553. O ran tagio gleisiaid, mae gwrthwynebwyr yn dadlau bod eogiaid fferm o amgylch yr Hebrides Mewnol, ac unrhyw bla cysylltiedig o lau, yn debygol o fod yn ffactor arwyddocaol sy'n gyfrifol am golli gleisiaid (pysgod ifanc) eogiaid gwyllt sy'n gadael afonydd Cymru. Mae CNC yn dweud bod gleisiaid eisoes yn cael eu tagio yn afon Dyfrdwy ac mewn afonydd eraill yng Nghymru, ond dim ond i werthuso cyfran y pysgod sy'n goroesi i ddychwelyd fel pysgod aeddfed, ac nid yw astudiaeth o'r math hwn yr un peth â defnyddio tagiau acwstig i olrhain llwybrau mudo gleisiaid yn y môr, sy'n broses ddrud a thechnegol heriol. Er gwaethaf y costau a'r heriau technegol sy'n gysylltiedig â thagio gleisiaid, mae prinder tystiolaeth ystyrlon bod gleisiaid eogiaid o Gymru yn wynebu problemau ag eogiaid fferm yn yr Alban.

554. O ran defnyddio DNA, mae CNC yn dweud bod dadansoddiad o'r fath wedi cael ei ddefnyddio yn America i fonitro presenoldeb ac, o bosibl, cyflenwadau pysgod o samplau a gymerwyd o ddŵr, a bod CNC wedi bod yn cymryd camau pendant i archwilio'r defnydd ohono. Fodd bynnag, mae CNC yn dweud bod angen mwy o ymchwil i allu defnyddio'r dechneg hon at ddibenion monitro e.e. cyflenwadau eogiaid mewn afonydd.

555. Honnir nad yw arolygon electrobysgota yn ddibynadwy[383], ond roedd natur y dystiolaeth i wrth-ddweud y dystiolaeth a gyflwynwyd gan CNC yn anecdotaidd yn bennaf, heb sylwedd iddi, yn enwedig yng nghyd-destun Cymru. Dangosodd yr arolygon electrobysgota a

[380] E.e. cyfeiriwch at AR/1 tudalen 4

[381] Cyfeiriwch at NRW/2 Ffigur 4

[382] Cyfeiriwch at NRW/2R paragraffau 3.16-3.19

[383] Cyfeiriwch at PGJ/1a

gynhaliwyd gan CNC ostyngiad amlwg a helaeth mewn cyflenwadau silod mân eogiaid a brithyllod y môr mewn nifer o ddalgylchoedd yng Nghymru.

556. Mae rhai'n dadlau efallai bod patrymau cylchol tymor hir yn y cefnforoedd wedi effeithio ar stociau pysgod. Mae'n bosibl bod stociau pysgod o fewn rhyw fath o gylchred, ond nid yw hyn yn bendant oherwydd gallai ffactorau eraill fod yn cyfrannu, fel cynhesu byd-eang – na fyddent wedi bod mor amlwg nac yn cael eu hystyried mor niweidiol, o bosibl, yn y gorffennol.

557. Bydd rhywfaint o ansicrwydd bob amser yn gysylltiedig ag amcangyfrif nifer yr eogiaid neu'r brithyllod y môr aeddfed sy'n dychwelyd. Fodd bynnag, mae defnydd CNC o gyfuniad o ddulliau i asesu stoc wedi darparu dull rhesymol wrthrychol, cadarn a dibynadwy o olrhain tueddiadau, er gwaethaf y posibilrwydd o batrwm cylchol sy'n mynd yn ôl degawdau. Mae'r ymagwedd a ddefnyddiwyd gan CNC i asesu lefelau stoc yn adlewyrchu cyngor gan NASCO, sy'n datgan y dylai amrywiaeth o wybodaeth gael ei chasglu fel mater o drefn trwy raglenni monitro, ac y dylai gynnwys ystadegau dalfeydd e.e. nifer, maint, oedran ac afon wreiddiol y pysgod a ddaliwyd, ac amcangyfrifon dalfeydd heb eu hadrodd.

558. Nid yw'r gwrthwynebiadau uchod, nac unrhyw rai eraill sy'n ymwneud â ffynonellau data, wedi darparu tystiolaeth berthnasol i herio dilysrwydd data asesu stoc CNC.

*Heriau i'r Fethodoleg Ystadegol a Ddefnyddiwyd gan CNC*

559. Heriodd y gwrthwynebwyr y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gefnogi'r is-ddeddfau arfaethedig mewn nifer o ffyrdd eraill, fel sut y deilliwyd ac y cymhwyswyd CLs, sut y dosbarthwyd afonydd, a'r strwythur penderfynu a ddefnyddiwyd ar gyfer rheolaethau pysgota yng Nghymru.

~~560.~~ Mae'r gwrthwynebwyr yn dadlau bod amcanion rheoli (MOs) a thargedau rheoli cysylltiedig (MTs) ar gyfer CLs wedi cael eu cymhwyso'n anghywir gan CNC wrth asesu statws stociau afonydd unigol, ac felly eu bod yn annibynadwy.

*Deilliant CLs ac MTs*

561. Gan ddilyn cyngor ICES (y Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr) a NASCO, mae CLs a thargedau rheoli cysylltiedig wedi cael eu defnyddio i asesu statws stociau eogiaid yng Nghymru a Lloegr ers y 1990au cynnar. Ymgorfforwyd yr ymagwedd hon mewn Cyfarwyddyd Gweinidogol ym 1998[384] a oedd yn mynnu, ymhlith nifer o gamau gweithredu eraill, bod CLs yn cael eu gosod a'u defnyddio i asesu stociau'n flynyddol mewn 64 prif afon eogiaid yng Nghymru a Lloegr.

562. Mae CLs yn dangos y lefelau stoc silio dymunol lleiaf na ddylid caniatáu i stociau ostwng yn is na nhw. Gosodir y CL yn ôl maint stoc (a ddiffinnir yn ôl nifer yr wyau a ddyddodir), ac os bydd y lefel yn gostwng yn is na hynny bydd gostyngiadau ychwanegol yn nifer yr hwyfellod yn debygol o arwain at ostyngiadau sylweddol yn nifer y pysgod ifanc a gynhyrchir yn y genhedlaeth nesaf. Mae CLs yn cael eu deillio trwy ddefnyddio (i) cromliniau stoc a recriwtio wedi'u modelu (cromliniau SR) sy'n cysylltu nifer yr hwyfellod neu wyau ag allbwn gleisiaid, a (ii) 'llinell ddisodli', sydd, i bob pwrpas, yn trosi allbwn gleisiaid (recriwtiaid) yn ôl i hwyfellod aeddfed sy'n dychwelyd a'u cyfraniad wyau (stoc).

[384] Cyfeiriwch at LEG/13

563. Mae gweithdrefnau cydymffurfio'n mynnu bod lefelau silio'n uwch na'r CL mewn pedair blynedd o bump (h.y. 80% o'r amser) er mwyn i stoc gyflawni ei MO a'r MT cysylltiedig sy'n diffinio'r lefel stoc silio gyfartalog sy'n ofynnol i gyflawni hyn; mae CNC yn esbonio bod y weithdrefn hon yn sicrhau tebygolrwydd uchel bod stociau'n rhagori ar y CL a'i bod yn ymagwedd ragofalus yn unol â chanllawiau ICES a NASCO[385].

564. Cyfrifir cydymffurfiaeth â'r MO yn flynyddol ar gyfer stociau'r holl brif afonydd yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn asesu ddiweddaraf, ac fe'i rhagfynegir am bum mlynedd i'r dyfodol. Profir hyn gan ddefnyddio gweithdrefn ystadegol Bayesaidd, ac yna fe'i cynhwysir mewn strwythur penderfynu cenedlaethol[386] i lywio penderfyniadau ynglŷn â'r angen am reoliadau pysgodfeydd.

565. Er bod y broses a ddisgrifiwyd wedi cael ei defnyddio ar gyfer eogiaid, nid oedd dull sefydledig tebyg ar gyfer asesu brithyllod y môr. Felly, mae CNC wedi datblygu dull newydd lle y defnyddir data dalfeydd genweirio i ddeillio amcangyfrifon ynglŷn â rhediadau a dyddodi wyau ar gyfer brithyllod y môr yn yr un ffordd, fwy neu lai, ag y defnyddir y setiau data mewn gweithdrefnau cydymffurfio â CL ar gyfer asesu eogiaid. Felly, mae gwybodaeth am y berthynas rhwng stoc a recriwtio'n cael ei chynhyrchu, sy'n darparu cyfeirbwyntiau sy'n cyfateb yn fras i'r CLs a'r MTs a ddefnyddir wrth asesu eogiaid. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio'r un gweithdrefnau cydymffurfio ystadegol wedi'u seilio ar dueddiadau i asesu statws 'perygl' y stoc.

566. Mae statws stoc afonydd unigol yng Nghymru yn cael ei werthuso'n flynyddol yn erbyn y meini prawf hyn. Mae'n amlwg bod mwyafrif y stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru yn gostwng islaw eu MT ac ystyrir eu bod yn anghynaliadwy oherwydd perygl dirywiad parhaus i lefelau stoc anniogel. Yn hyn o beth, rhagamcenir bod 91% o'r stociau eogiaid yng Nghymru 'Mewn Perygl' neu 'Mewn Perygl yn Ôl Pob Tebyg', tra bod asesiadau o'r stoc brithyllod y môr aeddfed yn dangos dirywiad oherwydd ystyrir bod 7 stoc 'Mewn Perygl' a bod 16 'Mewn Perygl yn Ôl Pob Tebyg', o gymharu â 10 a 7, yn ôl eu trefn, ar adeg yr ymgynghoriad.

567. Yn ogystal â'r asesiadau a lywiodd y TA, roedd CNC yn gallu darparu diweddariad ychwanegol ar gyfer y flwyddyn 2017[387]; i grynhoi, roedd y setiau data'n gyson â chasgliad asesiadau blaenorol, sef bod y rhan fwyaf o'r stociau eogiaid a llawer o'r stociau brithyllod y môr yng Nghymru yn parhau i fod mewn cyflwr disbyddedig.

568. Mynegodd gwrthwynebwyr bryder ynglŷn ag addasu'r llinell ddisodli[388], a sut mae hyn yn effeithio ar y gwerth CL. Eglurodd CNC fod y llinell ddisodli wedi cael ei haddasu yn 2003 i adlewyrchu'r lefel is o eogiaid a oedd yn goroesi yn y môr nag y tybiwyd yn flaenorol wrth osod CLs. Arweiniodd y diwygiad at leihau'r gwerthoedd CL ym mhob afon (oherwydd gosodir y CL i gynyddu nifer y pysgod a ddelir sy'n dychwelyd i ddyfroedd cartref i'r eithaf, ac felly nid yw'n gyfeirbwynt i warchod stociau, fel y cyfryw); mae'r mesur hwn yn ymddangos yn rhesymol. Mae cynnwys yr MO a'r MT cysylltiedig yn amddiffyn stociau ymhellach gan eu bod yn rhoi clustog ychwanegol uwchben y CL. Mae'r ymagwedd hon a

385 Cyfeiriwch at NRW/4 paragraff 4 a POL/14
386 Cyfeiriwch at APP/4.4 - Atodiad 4 y TC
387 Cyfeiriwch at NRW/2 paragraffau 27-32
388 Yn ogystal â'r gromlin stoc a recriwtio, mae angen y 'Llinell Ddisodli' hefyd i osod y Terfyn Cadwraeth. Yn yr achos hwn, mae'r Llinell Ddisodli, i bob pwrpas, yn trosi allbwn gleisiaid ('Recriwtiaid') yn ôl i hwyfellod aeddfed sy'n dychwelyd a'u cyfraniad wyau ('Stoc'). Ynghyd â'r gromlin stoc a recriwtio, mae hyn yn ffurfio model cylch bywyd syml. I ddiffinio'r Llinell Ddisodli, mae angen gwybodaeth am oroesi yn y môr a maint/ffrwythlondeb cyfartalog pysgod sy'n dychwelyd (sydd wedi'i seilio, unwaith eto, ar arsylwadau o afonydd mynegai sy'n cael eu monitro yn ogystal â data penodol i afon)

fabwysiadwyd gan CNC yn cyd-fynd ag argymhellion ICES a NASCO; ystyrir ei bod yn dderbyniol. O ran pryderon y gallai CNC leihau CLs ymhellach mewn ymateb i ostyngiad mewn goroesi yn y môr, nid oes tystiolaeth fod hyn yn debygol o ddigwydd, oherwydd byddai gostyngiadau ychwanegol yn cael yr effaith annymunol o wanhau amddiffyniad stoc i lefelau annerbyniol, gan fod CLs presennol yn agos at gynhyrchiad gleisiaid mwyaf ond heb gyrraedd y lefel honno eto.

569. O ran y pryderon a godwyd ynglŷn ag amrywiadau mewn MOs a fynegwyd fel canran o'r CL, a'r defnydd dilynol ohonynt i adnabod diffyg wyau mewn perthynas â bregusrwydd graddio stociau afonydd, eglurwyd yn ystod yr Ymchwiliad bod lefel yr MT o gymharu â'r CL yn adlewyrchu graddau'r amrywiad mewn amcangyfrifon dyddodi wyau yn ystod y cyfnod deng mlynedd diweddaraf h.y. po fwyaf y mae stociau'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn, y lleiaf yw'r sicrwydd bod y CL yn cael ei fodloni. Mae hyn yn golygu, pan fydd stociau'n amrywio'n fawr, mae'n rhaid i'r MT fod yn uwch fel canran o'r CL er mwyn sicrhau bod stociau'n cyflawni eu MO (yn rhagori ar y CL mewn pedair o bum mlynedd); mae'r gwrthwyneb yn wir pan fydd stociau'n llai amrywiol, mae'r MT yn is fel canran o'r CL. Mae'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan CNC yn hyn o beth yn ymddangos yn rhesymol.

570. Mae gwrthwynebwyr[389] yn dadlau bod defnyddio perthnasoedd recriwtio a stoc (Ricker)[390], y mae CNC yn dibynnu arnynt, yn annibynadwy i ddeillio CLs ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr oherwydd eu bod yn anwybyddu nifer o ffactorau eraill e.e. ysglyfaethu. Mae dadansoddiadau cromlin Ricker yn cymharu nifer y gleisiaid â nifer yr wyau. Mae CNC yn derbyn y gallai ffactorau cyfamserol rhwng niferoedd wyau a gleisiaid esbonio rhywfaint o wyro oddi wrth gromlin Ricker, ond nodir mai'r pwyslais wrth ddefnyddio'r ymagwedd hon, yn gyffredin ag awdurdodaethau fel Iwerddon, oedd defnyddio'r model i ddiffinio cyfeirbwyntiau biolegol e.e. mae'r CL ar gyfer brithyllod y môr yn caniatáu gweithdrefn asesu fwy amddiffynadwy na'r ymagwedd seiliedig ar ymdrechion dal â gwialen fesul uned a ddefnyddiwyd yn flaenorol, yr oedd ganddi ddiffygion canfyddedig.

571. Sylweddolaf fod gan ddadansoddiad stoc Ricker ddiffygion, ond mae ei resymeg yn ymddangos yn gymharol gadarn fel sail resymol i'w defnyddio i wneud penderfyniadau am warchod stoc, fel y gwelir o'i ddefnydd mewn awdurdodaethau eraill fel Iwerddon a Lloegr. Nid yw unrhyw broses asesu stoc yn berffaith. Tueddaf i gytuno â Mr Russell o CNC a ddywedodd mewn tystiolaeth lafar, "nid yw absenoldeb perffeithrwydd yn ein hatal rhag gweithredu mewn ffordd ragofalus".

572. Mae'r dadansoddiad ystadegol[391] y mae CNC yn dibynnu arno i osod ac asesu CLs yn cynnwys dadansoddiad ystadegol cymhleth, y cyfeiriwyd at elfennau ohono uchod. Roedd llawer o'r gwrthwynebiadau i'r fethodoleg ystadegol a ddefnyddiwyd gan CNC i ategu'r is-ddeddfau arfaethedig wedi'u seilio'n fras ar feirniadaeth a gynhaliwyd ar ran CPWF gan Dr O'Hagan a Dr Fop o Brifysgol Dulyn (Ystadegwyr Dulyn). Byrdwn cyffredinol y feirniadaeth oedd bod ymagwedd CNC, sydd wedi'i seilio ar fodel atchwel, yn rhy besimistaidd a rhagamcanol o stociau, ac nid oedd yn adlewyrchu'n gywir yr ansicrwydd sy'n rhan gynhenid o'r gwir gyfrifiadau wyau a chyfeiriad y duedd yn y dyfodol. Roedd Ystadegwyr Dulyn yn ffafrio model cyfres amser a fyddai'n adlewyrchu natur y data ac ansicrwydd

[389] Gweler ID CPWF

[390] Cyfeiriwch at NRW/2R am esboniad manwl o ddadansoddiad ystadegol 'Ricker'

[391] Manylir arno yn nhystiolaeth ysgrifenedig a llafar Dr Barry (NRW/3), Mr Russell (NRW/4), a Mr Davidson (NRW/2, NRW/2R); mae Dr Barry, yn arbennig, yn ystadegydd hyfforddedig.

ynglŷn â'r cyfrifiadau yn well, ac a fyddai'n awgrymu rhagamcaniad mwy optimistaidd o statws stoc.

573. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gyflwynwyd gerbron yr Ymchwiliad yn awgrymu'n gryf bod dibyniaeth ar safbwyntiau Ystadegwyr Dulyn wedi'i thanseilio am y rhesymau canlynol:

- Mae'n ymddangos eu bod wedi cynnal eu hadolygiad o fethodoleg CNC ar sail camddealltwriaeth sylfaenol o'r fethodoleg Bayesaidd a ddefnyddiwyd (maen nhw'n cydnabod hyn mewn gohebiaeth a gyflwynwyd gerbron yr Ymchwiliad). Mae'n werth nodi tystiolaeth Dr Barry, lle y cyfeiriodd at eu defnydd o'r term cyfwng 'hyder' yn hytrach na chyfwng 'credadwy', a oedd yn dangos eu bod o'r farn bod y fethodoleg yn gysyniad Mynychol yn hytrach na Bayesaidd; mae hyn yn bwysig oherwydd bod unrhyw gamddealltwriaeth o'r fethodoleg sylfaenol yn tanseilio beirniadaeth benodol a wnaed ganddynt yn ogystal â dibynadwyedd cyffredinol eu hasesiad; ac,
- O ran y dogfennau a adolygwyd ganddynt, mae'n ymddangos eu bod wedi seilio eu sylwadau ar drosolwg o'r fethodoleg yn yr adroddiadau blynyddol cyhoeddedig ar statws stoc eogiaid ar gyfer Cymru a Lloegr, ac nid y manylion technegol llawn, a allai fod wedi esbonio'r gwahaniaethau o ran dehongli. Yn ogystal, nid oedd CPWF yn gallu darparu unrhyw dystiolaeth o'r brîff/cyfarwyddiadau ysgrifenedig a roddwyd i Ystadegwyr Dulyn, a fyddai wedi egluro eu cylch gwaith a llywio eu dadansoddiad dilynol, i raddau.

574. Mae'r uchod yn codi amheuon sylweddol ynglŷn â chywirdeb y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Ystadegwyr Dulyn trwy bartïon fel CPWF. Heb dystiolaeth arwyddocaol i ddangos fel arall, mae'n well gennyf y dystiolaeth ystadegol a gyflwynwyd gan CNC, yr ymddangosodd ei dri thyst arbenigol[392] gerbron yr Ymchwiliad, oherwydd ei bod yn fwy cadarn a chyfiawnadwy o lawer, yn gyffredinol, na'r dystiolaeth trydydd parti heb ei phrofi a roddwyd trwy'r gwrthwynebwyr i'r is-ddeddfau arfaethedig.

575. Er gwaethaf y pryderon uchod a'r beirniadaethau a wnaed gan Ystadegwyr Dulyn, roedd tystiolaeth Dr Barry o blaid yr is-ddeddfau arfaethedig wedi dilysu'r ymagwedd a ddefnyddiwyd yn rhesymol e.e. un o'r beirniadaethau a fynegwyd gan Ystadegwyr Dulyn oedd bod nifer yr arsylwadau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r llinell atchwel wedi'i seilio ar 10 mlynedd yn unig, ac felly bod unrhyw ddatganiadau sy'n ymwneud â chydymffurfio yn y dyfodol yn debygol o fod yn annilys ac yn destun ansicrwydd mawr. Fodd bynnag, dadleuodd Dr Barry y dewiswyd 10 mlynedd (o arsylwadau) i gydbwyso cael digon o wybodaeth i amcangyfrif y model, a bod yn gyfnod perthnasol yn fiolegol ar gyfer tuedd dymhorol sy'n rhychwantu dwy genhedlaeth o gylch bywyd eogiaid; heb unrhyw dystiolaeth berthnasol i ddangos fel arall, roedd yr esboniad hwn yn ymddangos yn rhesymol.

576. Mynegodd Mr Ashwin o CPWF, ac eraill, bryderon nad oedd CNC yn dilyn canllawiau NASCO, na'i ganllawiau ei hun, o ran y weithdrefn ar gyfer y 'Strwythur Penderfynu' i

[392] Mr I Davidson (Uwch Gynghorydd Technegol ar bysgod o deulu'r eog ar gyfer CNC), Mr I Russell (gwyddonydd pysgodfeydd a gyflogir gan Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu - CEFAS sef un o asiantaethau gweithredol DEFRA, ac y bu'n ymwneud â'r is-ddeddfau arfaethedig i ddechrau fel aseswr technegol o TC CNC), a Dr J Barry sy'n cynrychioli CEFAS ac a adolygodd y TC hefyd.

ddatblygu rheolaethau pysgota am eogiaid yng Nghymru a Lloegr[393]. Dadleuir bod y broses honno, yn y lle cyntaf, yn gofyn am fabwysiadu mesurau gwirfoddol ar gyfer yr afonydd hyn – nid mesurau gorfodol.

577. Mae Canllawiau NASCO yn datgan, "Yn gyson â chymhwyso'r Ymagwedd Ragofalus, dylai fod disgrifiadau eglur ar gael i'r holl randdeiliaid o'r broses a ddefnyddir i wneud penderfyniadau rheoli, ynghyd ag enghreifftiau o'r mathau o benderfyniadau y gellid eu disgwyl mewn gwahanol amodau stoc; gallai hyn fod ar ffurf diagram llif neu strwythur penderfynu". Mae'r Strwythur Penderfynu ar gyfer datblygu rheolaethau pysgota yng Nghymru a Lloegr yn ddiagram llif; mae'r diagram llif hwnnw'n dangos, o ran afonydd sydd 'mewn perygl yn ôl pob tebyg' ac 'mewn perygl', y gellir ystyried amrywiaeth o opsiynau (o ran y raddfa risg olaf, yn arbennig, mae'n cynnwys cyfeiriad penodol at C&R 100%).

578. Mae ymagwedd CNC yn cyd-fynd â'r Strwythur Penderfynu at ei gilydd h.y. mae wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau ac yna dewis yr opsiynau a ffefrir ganddo. Er efallai bod y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r diagram llif Strwythur Penderfynu yn dangos bod opsiynau eraill ar gael h.y. C&R gwirfoddol mewn rhai amgylchiadau, nid wyf o'r farn bod hyn yn gorfodi CNC i dderbyn y ffordd honno o weithredu, yn enwedig yn erbyn cefndir o: stociau eogiaid gwael; cyfraddau C&R gwirfoddol arbennig o isel o oddeutu 60% yn rhai o'r prif bysgodfeydd eogiaid[394]; ac, mae mesurau gwirfoddol wedi cael eu hyrwyddo ers cryn amser ac nid yw'n ymddangos y byddant yn newid yn sylweddol yn y tymor byr. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod CNC yn cael ei lywio gan yr *Egwyddor Ragofalus* h.y. pan allai'r amgylchedd fod yn y fantol, dylai dueddu at bwyll wrth wneud penderfyniadau, a'r Cyfarwyddyd Gweinidogol ym 1998 sy'n mynnu ymagwedd *ragofalus* at reoli stoc eogiaid.

579. Heriodd eraill gywirdeb cyffredinol statws dosbarthu risg rhagamcanol CNC ar gyfer afonydd, y dadleuir ei fod yn pwyso'n drwm o blaid yr ymagwedd ragofalus. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhagfynegiadau CNC yn gyson dan-ragofalus yn hytrach na gor-ragofalus h.y. nid ydynt yn ddigon rhagofalus. Dangosir hyn gan yr ystadegau ar gyfer 2009, lle y rhagfynegwyd y byddai 9 afon 'heb fod mewn perygl', ond y gwir oedd nad oedd unrhyw afonydd wedi'u dosbarthu 'heb fod mewn perygl'.

580. Yn gyffredinol, cydnabyddaf y bydd unrhyw broses fel asesiad CNC o stociau pysgod a'r dadansoddiad ystadegol cysylltiedig yn cynnwys ansicrwydd; nid yw unrhyw system yn berffaith. Fodd bynnag, nid yw'r pryderon a godwyd gan y gwrthwynebwyr, y cyfeiriwyd atynt uchod, nac unrhyw rai eraill, wedi fy narbwyllo nad yw ymagwedd CNC yn ddigon gwrthrychol a chadarn i allu dibynnu arni. Er gwaethaf y beirniadaethau o weithdrefnau CNC ar gyfer casglu/dehongli data, roedd yn amlwg bod nifer sylweddol o aelodau'r gymuned bysgota yn derbyn bod stociau eogiaid a rhai stociau brithyllod y môr mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. Fodd bynnag, hyd yn oed pe byddai gennyf amheuon ynglŷn â rhai elfennau o'r fethodoleg ystadegol a ddefnyddiwyd gan CNC, byddai sylfaen dystiolaeth CNC yn ei chyfanrwydd yn awgrymu y byddai cymhwyso'r ymagwedd ragofalus a argymhellir mewn cyfraith genedlaethol a chyfarwyddebau/rhwymedigaethau rhyngwladol yn ddoeth o ran dehongli unrhyw ddata a'r effeithiau ar stociau pysgod bregus.

### Datrysiad CNC i'r Dirywiad mewn Stociau

[393] Cyfeiriwch at CD POL/14 paragraff 2.1, CD APP/4.4

[394] Cyfeiriwch at Dabl 18, tudalen 113 y TC

581. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn cynnig sawl datrysiad i'r dirywiad mewn stociau pysgod. Fodd bynnag, yn gyffredinol, maen nhw'n ymwneud â C&R gorfodol, cyfyngiadau ar ddulliau, gwaharddiadau/cyfyngiadau ar abwyd, terfyn slot a chyfyngiadau tymhorol. Amlinellir y rhain yn llawn yn y dogfennau craidd CD APP/52 ac APP/53.

*C&R Gorfodol*

582. Byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn mynnu C&R gorfodol ar gyfer yr holl eogiaid a ddelir mewn pysgodfeydd rhwydi a gwialen. Byddai'r is-ddeddfau hefyd yn mynnu C&R gorfodol ar gyfer rhai stociau o frithyllod y môr a ddelir â gwialen mewn afonydd yn ystod y cyfnod pan gyfyngir ar bysgota â rhwydi hefyd.

583. Mae'r rhai sy'n gwrthwynebu C&R gorfodol yn dweud na fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth hyd nes yr eir i'r afael â ffactorau eraill sy'n effeithio ar y stoc bysgod. Dadleuir hefyd y byddai unrhyw effaith yn ddibwys, gan fod mwyafrif yr eogiaid sy'n cael eu dal â gwialenni a rhwydi eisoes yn cael eu dychwelyd.

584. O ran ffactorau eraill a allai fod yn cyfrannu at ddirywiad stociau pysgod, mae CNC yn honni ei fod yn ymateb i ddirywiad stociau pysgod mewn ffyrdd eraill cyflenwol, gan gynnwys trwy weithredu cyfres o fesurau rheoli tir i wella'r amgylchedd, a chymryd camau unioni i adfer ansawdd cynefin afonydd a mynd i'r afael â ffactorau eraill sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr croyw, sydd oll naill ai ar waith neu'n cael eu cynnig yn weithredol. Ymdrinnir â'r mesurau ychwanegol hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

585. O ran safbwyntiau gwrthwynebwyr[395] y byddai unrhyw arbedion stoc o ganlyniad i C&R gorfodol mor fach fel na fyddai diben eu ceisio, mae'n werth nodi'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Mr Russell o CNC, a esboniodd fod unrhyw ychwanegiadau at stociau silio yn arbennig o werthfawr pan fydd stociau'n isel, a bod hyd yn oed niferoedd cymharol fach yn hanfodol i adfer stoc mewn cyfnod mor fyr â phosibl e.e. amcangyfrifir y byddai C&R gorfodol yn arwain at ddyddodi 2 filiwn yn fwy o wyau eogiaid ledled Cymru yn ystod y flwyddyn gyntaf yn unig o weithredu'r is-ddeddfau arfaethedig. Ar ben hynny, byddai buddion cronedig yn sgil mwy o hwyfellod dros amser h.y. mae effaith luosydd mwy o wyau yn golygu mwy o bysgod aeddfed sydd, trwy gyrraedd mor bell â hynny yn y broses cylch bywyd, wedi profi mai nhw yw'r rhai mwyaf ffit.

586. Er gwaethaf barn gwrthwynebwyr i'r gwrthwyneb, dangoswyd bod cyflwyno[396] mesurau C&R gorfodol tebyg i'r rhai yn yr is-ddeddfau arfaethedig wedi cyd-fynd ag atal y duedd gynharach o ddirywiad stoc eogiaid cynnar y gwanwyn yng Nghymru; mewn rhai afonydd, roedd tystiolaeth o gynnydd yn y cyflenwad.

587. Dadleuwyd hefyd y byddai C&R yn arwain at ryddhau pysgod a anafwyd yn angheuol ar ôl iddynt gael eu dadfachu. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod C&R wedi dod yn offeryn rheoli cynyddol gyffredin i gynnal stociau pysgod a physgodfeydd, yn dilyn llawer o adolygiadau ac ymchwiliadau i'w effeithiolrwydd a'i effeithiau[397]. Yn wir, mae tystiolaeth anecdotaidd yn cyd-fynd â'r ymagwedd wyddonol y cyfeiriwyd ati'n flaenorol, e.e. dywedodd Mr White o CPWF, yn ystod 10 mlynedd o bysgota yng Nghymru, y gallai

[395] E.e. cyfeiriwch at ID CPWF/INQ/5

[396] Cyfeiriwch at CD LEG/28

[397] Er enghraifft, cyfeiriwch at Arlinghaus et al 2007 CD ACC/128; Olsen et al 2010 CD ACC/129; Gargan et al 2015 CD ACC/130; NASCO 2009 CD ACC/131; EA 2017 CD 132) yn Cyf. ACC/2, 4 ac 8.

gofio dau bysgodyn yn unig a fu farw ar ôl eu dal. Mae CNC yn amlygu er bod gwybodaeth helaeth ar gael am C&R mewn perthynas ag eogiaid a brithyllod di-esgynnol (brithyllod brown a brithyllod seithliw), ychydig a wyddys am effeithlonrwydd C&R mewn perthynas â brithyllod y môr. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r tebygrwydd ffisiolegol rhwng eogiaid a brithyllod y môr, ystyrir ei bod yn debygol y bydd yr effeithiau a'r effeithiolrwydd fwy neu lai yr un fath; nid oes gennyf reswm i gredu'n wahanol.

588. Mae rhai genweirwyr yn amau effeithiolrwydd C&R o ganlyniad i'r amodau y mae rhwydwyr yn gweithio ynddynt. Fodd bynnag, cadarnhaodd nifer o rwydwyr a ymddangosodd gerbron yr Ymchwiliad fod C&R yn effeithiol a'i bod yn rhwydd gwahaniaethu rhwng eog a brithyll y môr sydd wedi'i ddal mewn rhwyd; mae'n well gennyf y dystiolaeth o lygad y ffynnon gan rwydwyr profiadol. Yn ogystal, mae'n werth nodi bod y rhan fwyaf o bysgodfeydd rhwydi yng Nghymru wedi bod yn gweithredu C&R ar gyfer eogiaid ers yr 20 mlynedd diwethaf, a bod canlyniad astudiaethau[398] a gynhaliwyd gan CNC yn dangos bod goroesiad pysgod o'r fath yn gallu bod yn uchel os trafodir nhw'n gywir; mae hyn yn cyd-fynd â phrofiad anecdotaidd rhwydwyr.

589. Felly, mae astudiaethau gwyddonol sylweddol a chymhellol, yn ogystal â thystiolaeth anecdotaidd o lygad y ffynnon, fod C&R yn offeryn rheoli effeithiol i gynnal stociau pysgod a physgodfeydd.

590. Dadl gyffredin yn erbyn cyflwyno C&R gorfodol oedd bod y rhan fwyaf o enweirwyr eisoes yn arfer lefelau uchel o C&R yn wirfoddol e.e. y ffigur ar gyfer 2016 yw oddeutu 86%, yn ôl gwrthwynebwyr[399]. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn cynnwys elfen statudol o ganlyniad i Is-ddeddfau Eogiaid y Gwanwyn a'r mesurau gorfodol ar afon Gwy, ac afonydd Taf ac Elái. Mae dadansoddi afonydd yn unigol yn dangos amrywiad eithaf eang e.e. y ffigur ar gyfer Dwyrain Cleddau oedd 50%. Mae'r ystadegau hyn wedi'u gosod yn erbyn cefndir hanesyddol o CNC yn hyrwyddo C&R ers nifer o flynyddoedd.

591. Yn ogystal, clywais dystiolaeth lafar am enweirwyr a fydd bob amser yn cymryd pysgodyn, a adwaenir ymhlith genweirwyr fel 'helwyr pysgod'. Er y derbyniaf fod mwyafrif y genweirwyr yng Nghymru eisoes yn arfer C&R yn wirfoddol, serch hynny, yng nghyd-destun stociau pysgod sy'n dirywio, mae lleiafrif arwyddocaol sy'n parhau i ladd pysgod h.y. lladdodd 16.7% o enweirwyr yr holl eogiaid a ddaliwyd ganddynt[400] ac mae hyn er gwaethaf y ffaith bod CNC ac eraill yn hyrwyddo C&R gwirfoddol. Yn seiliedig ar dystiolaeth CPWF, bydd hwyfellod aeddfed yn dyddodi rhyw 4000 o wyau. Yn 2016, lladdwyd 527 o eogiaid gan enweirwyr; gan dybio bod hanner ohonynt yn hwyfellod, mae hynny'n gyfystyr â hyd at oddeutu miliwn o wyau a gollwyd, a'r effeithiau cronnol dilynol dros amser.

592. Byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn golygu na fyddai'r rhai sy'n pysgota yn gallu lladd brithyllod y môr nac eogiaid yn fwriadol mewn afonydd sydd 'mewn perygl' neu 'mewn perygl yn ôl pob tebyg'. Byddai rhoi'r rhyddid i enweirwyr barhau i ladd y pysgod hynny'n fwriadol yn peryglu ymhellach stoc y rhywogaethau hyn sy'n lleihau, a byddai hefyd yn creu anghydraddoldeb rhwng y rhai sy'n arfer C&R yn wirfoddol a'r rhai nad ydynt; mae

---

398 Cyfeiriwch at CD ACC/34-36

399 Er enghraifft, CPWF

400 Cyfeiriwch at ID CPWF/INQ/5 sleid 5 am y ffigur a ddyfynnwyd

hynny'n cynnwys rhwydwyr fel Mr Walters, sef rhwydwr cwrwgl a ddywedodd ei fod wedi rhyddhau'r holl eogiaid a ddaliodd yn 2017.

593. Heb C&R gorfodol, mae'n debygol y byddai lleiafrif arwyddocaol o enweirwyr yn bodoli o hyd na fyddent yn cydymffurfio â'r ymagwedd wirfoddol. Bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn creu sefyllfa deg.

594. Roedd rhai yn gwrthwynebu natur orfodol y C&R arfaethedig, yn hytrach na C&R ynddo'i hun, yr ymddangosai fod mwyafrif y genweirwyr yn ei gefnogi i raddau amrywiol. Fodd bynnag, nid oes hawl i gymryd pysgodyn. Mae'r hawl statudol o dan Ddeddf 1975 a roddir i ddeiliad trwydded bysgota yn rhoi'r hawl i bysgota, nid i gymryd pysgodyn. Ni fydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn amharu â'r hawl hon, ond byddant yn gosod cyfyngiadau cymesur ar sut y ceir ei harfer (mae is-ddeddfau eraill dros y blynyddoedd wedi cyfyngu ar yr hawl mewn modd tebyg).

*Cyfyngiadau ar Ddulliau yn yr Is-ddeddfau Arfaethedig*

595. Er mwyn cynyddu buddion pysgota C&R i'r eithaf, mae CNC yn bwriadu gosod cyfyngiadau ar ddulliau pysgota â gwialen yn rhan o'r is-ddeddfau arfaethedig; disgrifir y rhain isod.

*Cyfyngiadau ar Fachau*

596. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn cynnig defnyddio bachau heb adfachau a bachau y tynnwyd yr adfachau ohonynt yn unig a fydd, i bob pwrpas, yn gwahardd bachau triphlyg a dwbl ar ddenwyr a bachau triphlyg sydd ag agoriad o fwy na 7mm ar gyfer pryfed. Cyflwynir achos CNC ynglŷn â hyn gan dystiolaeth Mr Gough[401] ac fe'i hamlinellir yn y TC. I grynhoi, mae'r dystiolaeth honno'n honni:

- Bod bachau heb adfachau/y tynnwyd yr adfachau ohonynt yn gallu lleihau'r niwed corfforol sy'n gysylltiedig â bachu, yn enwedig o ran y pysgod hynny sy'n cael eu bachu'n ddwfn. Bydd hyn, yn ei dro, yn lleihau'r gyfradd farwolaeth sy'n gysylltiedig â genweirio, gan felly warchod stociau pysgod. Yn ogystal, bydd mesurau o'r fath yn lleihau amser trafod oherwydd dylai fod yn haws tynnu'r bachyn ymaith;

- Bydd cyfyngu ar faint bachau yn lleihau'r tebygolrwydd o dreiddio'n ddwfn ac anaf angheuol posibl. Bydd bachau llai yn lleihau'r posibilrwydd o fachu'n anfwriadol wrth bysgota â mwydod, a byddai'n galluogi parhau i ddefnyddio mwydod i bysgota am frithyllod y môr gyda llai o effaith bosibl ar eogiaid;

- Bod cyfyngu ar ddefnyddio bachau triphlyg neu ddwbl gydag adfachau neu hebddynt yn lleihau anafiadau posibl ac amser dadfachu, gan felly leihau marwolaeth i'r eithaf;

- Bod cyfyngu ar ddefnyddio denwyr 'flying C' i ganiatáu un bachyn yn unig yn debygol o gynyddu cyfraddau goroesi ar ôl C&R gan na fydd y pysgod yn cael eu bachu'n ddwfn; a,

- Chyfyngu ar bysgota am frithyllod y môr ag abwyd i un mwydyn a bachyn heb adfachau ag agoriad mwyaf o 8mm ar adegau ac mewn lleoliadau penodol; bydd

[401] Cyfeiriwch at ID NRW/1 a CD APP/4

hyn yn lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â pharhau i bysgota am frithyllod y môr ag abwyd a rhai genweirwyr sy'n targedu eogiaid yn llechwraidd.

597. Roedd gwrthwynebiadau i'r cyfyngiadau uchod ar ddulliau yn yr is-ddeddfau arfaethedig yn cynnwys honiadau bod adfachyn ar fachyn yn atal treiddio'n ddwfn i'r pysgodyn, y byddai bachyn heb adfachau yn ei gwneud yn haws i bysgodyn ddianc gan felly greu rheswm arall i enweirwyr beidio â chymryd rhan o gwbl, na ddefnyddir cyfyngiadau tebyg ar fachau heb adfachau neu fachau triphlyg mewn gwledydd eraill lle mae pysgota am eogiaid yn gyffredin, fel Gwlad yr Iâ, ac y gallai fod yn anodd dod o hyd i fachau.

598. Roedd mwyafrif helaeth y dystiolaeth yn erbyn y cyfyngiadau uchod ar ddulliau a oedd yn ymwneud â defnyddio bachau o natur anecdotaidd, yn wahanol i'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan CNC o blaid yr is-ddeddfau arfaethedig, a oedd yn dibynnu ar nifer o astudiaethau academaidd ac ymarferol[402] ynglŷn â'r mater. Canfûm fod yr olaf yn dystiolaeth fwy sylweddol a chymhellol.

599. Er y gallai cyfyngiadau ar fachau atal genweirwyr rhag cymryd rhan yn y gweithgaredd, nid oes tystiolaeth ddarbwyllol y byddai hyn ar raddfa arwyddocaol. Nid yw'r cyfyngiadau sydd ar waith mewn gwledydd eraill yn arbennig o berthnasol, o ystyried cefndir deddfwriaethol penodol Cymru a'r gwahaniaethau mewn data sylfaenol. Mae llawer o wahanol fathau o fachau ar gael i'w defnyddio gan enweirwyr, gan gynnwys rhai heb adfachau; ni welaf unrhyw reswm da pam na fyddai bachau o'r fath ar gael yn rhwydd pe byddai'r farchnad yn galw amdanynt. Yn wir, mae CNC yn amlygu bod rhai cyflenwyr yng Nghymru eisoes wedi adnabod marchnad ac yn cyflenwi yn unol â hynny ar gyfer genweirwyr sydd eisiau arfer C&R. Mae hefyd yn werth nodi bod is-ddeddfau eraill[403] yng Nghymru yn gosod rheolaethau ar ddulliau e.e. ar faint bachau.

*Gwahardd Defnyddio Mwydod fel Abwyd ar gyfer Eogiaid*

600. Byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn arwain at waharddiad llwyr ar ddefnyddio mwydod fel abwyd i bysgota am eogiaid. Mae CNC yn amlygu bod cyfraddau goroesi C&R eogiaid ar eu hisaf ar gyfer y rhai a ddelir gan ddefnyddio abwyd, sef, yn gyffredinol, llai na 50% yn achos mwydod oherwydd bod abwyd mwydod yn tueddu i fachu eogiaid yn ddwfn, gan achosi anafiadau mewnol angheuol; ni chyflwynodd gwrthwynebwyr unrhyw ddadleuon arwyddocaol yn erbyn y gwaharddiad. Derbyniaf na fydd gwahardd defnyddio mwydod fel abwyd i bysgota am eogiaid yn atal eogiaid rhag cymryd mwydyn yn gyfan gwbl, o ystyried y perygl o ddefnyddio mwydod i ddenu brithyllod y môr, ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod mesur o'r fath yn debygol o leihau'r risg yn sylweddol.

[402] Cyfeiriwch at CD POL/31 – Asiantaeth yr Amgylchedd (2017) Impact of catch and release angling practices on survival of salmon, CD ACC/1 – Ffederasiwn Eogiaid yr Iwerydd (2008) - Barbed and Barbless Hooks and their effect on Juvenile and Adult Salmonid Mortality - A Literature Review by Bill Bakke, Cyf. ACC/2 - Arlinghaus, R., Cooke, S.J., Lyman, J., Policansky, D., Schwab, A., Suski, C., Sutton, S.G. a Thorstad, E.B., (2007). Understanding the complexity of catch and-release in recreational fishing: An integrative synthesis of global knowledge from historical, ethical, social, and biological perspectives. Reviews in Fisheries Science, 15(1-2), 75-167, CD ACC/4 - Gargan, P.G., Stafford, T., Okland, F. a Thorstad, E.B., (2015). Survival of wild Atlantic salmon (Salmo salar) after catch and release angling in three Irish rivers. Fisheries Research, 161, 252-260, Ref. ACC/8 - Olsen, R.E., Naesje, T.F., Poppe, T., Sneddon, L.U. a Webb, J., (2010), Risk Assessment of Catch and Release, Opinion of the panel on Animal Health and Welfare of the Norwegian Scientific Committee for Food Safety. doc.nr 09/804, 1- 79, CD ACC/17 - Elsevier, Biological Conservation - Pan Holarctic assessment of post release mortality of angled salmon Salmo salar – by Robert J. Lennox, StevenJ.Cooke, Colin R. Davis, Paddy Gargan, Lorraine A. Hawkins, Torgeir B. Havn, Martin R. Johansen, Richard J. Kennedy, Antoine Richard, Martin-A. Svenning, Ingebrigt Uglem, John Webb, Frederick G. Whoriskey, Eva B. Thorstad

[403] Fel y manylir yn CD POL/26

601. Cyfeiriodd y gwrthwynebwyr hefyd at y ffaith y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn caniatáu defnyddio mwydod fel abwyd i bysgota am frithyllod y môr mewn pysgodfeydd cymysg ar adegau penodol, ac y gallai hynny arwain at ddal eogiaid yn anfwriadol. Fodd bynnag, mae CNC yn honni, yn seiliedig ar brofiad o gyfyngiadau presennol i warchod eogiaid y gwanwyn sy'n dychwelyd yn gynnar, fod hyn yn cael ei ystyried yn dderbyniol ac y bydd lleihau maint y bachyn ar gyfer pysgota am frithyllod y môr â mwydod, a defnyddio un mwydyn, yn helpu i leihau'r posibilrwydd o ddal eogiaid yn anfwriadol. Yn ogystal, byddai'r arfer o bysgota am eogiaid gan ddefnyddio sawl mwydyn, y cyfeirir ato weithiau fel "clystyru", yn dod i ben, a byddai defnyddio mwydod fel abwyd i bysgota am frithyllod y môr yn cael ei ganiatáu mewn lleoliadau ac ar adegau penodol yn unig.

602. Deallaf y pryderon a godwyd ynglŷn â'r posibilrwydd o ddal eogiaid yn anfwriadol mewn pysgodfeydd cymysg gan ddefnyddio mwydyn. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth sylweddol i ddangos bod unrhyw effeithiau o'r fath yn debygol o fod yn arwyddocaol. Nid yw cyfyngiadau ar ddefnyddio mwydod i bysgota am eogiaid yn gysyniad newydd; mae eisoes yn bodoli yn Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol 1999 a 2008, sy'n gwahardd defnyddio mwydod i bysgota am eogiaid ar adegau penodol o'r flwyddyn.

603. Mynegwyd pryderon y gallai'r arfer o "glystyru" mwydod gael ei ddisodli â thorri un mwydyn yn sawl rhan, y dadleuir ei fod yn groes i'r bwriad. Er bod modd i unrhyw fesur gael ei osgoi gan y rhai sy'n benderfynol o wneud hynny, nid oes tystiolaeth ystyrlon i awgrymu bod hyn yn debygol o ddigwydd i raddau sylweddol yn achos gwaharddiad ar fwydod. Byddai'r bachau a ganiateir yn rhai sengl a llai, felly hyd yn oed pe byddai mwydyn yn cael ei dorri'n rhannau, mae'n bosibl na fyddai abwyd o'r fath yn apelio cymaint â chlwstwr o fwydod heb eu torri'n ddarnau.

604. Wrth i Mr Gough o CNC gael ei groesholi gan wrthwynebwr, honnwyd mai'r unig ffordd o bysgota mewn afonydd bach yw trwy ddefnyddio mwydod, a fyddai'n eu hatal rhag genweirio, i bob pwrpas; roedd profiad Mr Gough yn dangos fel arall. Tybiaf mai'r gwir yw bod effeithiolrwydd pysgota mewn afonydd o'r fath heb ddefnyddio mwydod fel abwyd yn dibynnu ar fedrusrwydd y genweiriwr unigol.

*Cyfyngiadau Eraill ar Abwyd*

605. Byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn caniatáu defnyddio berdys a chorgimychiaid fel abwyd i bysgota am eogiaid yn dymhorol, gyda bachau sengl, dwbl neu driphlyg ar ôl 1 Medi. Roedd y mesur hwn mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid bod mwyafrif y pysgod a ddelir gydag abwyd o'r fath yn cael eu bachu yn nhu blaen y geg ac felly'n debygol iawn o oroesi ar ôl cael eu rhyddhau.

606. Mae gwrthwynebiadau i fesur o'r fath yn honni nad oes rheswm dilys i gyfyngu ar bysgota â berdys o gwbl ac, ar y cyd â'r gwaharddiad ar ddefnyddio mwydod fel abwyd, y gallai arwain at waharddiad llwyr ar bysgota am eogiaid, i bob pwrpas, mewn rhai afonydd pan fydd y dŵr yn isel, a'i fod yn cael ei ganiatáu mewn lleoedd eraill, fel Iwerddon; mae partïon eraill yn dadlau y dylai fod gwaharddiad llwyr.

607. O ran cyfiawnhau'r defnydd o ferdys/corgimychiaid ar ôl 1 Medi, mae CNC yn dweud, er na wyddys pam ar hyn o bryd, y bydd eogiaid yn cymryd berdys mewn dŵr cynnes a bod goroesiad ar ôl C&R yn waeth yn gyffredinol mewn amodau o'r fath. Mae CNC yn cyfeirio

at sawl adolygiad ac astudiaeth[404] sy′n awgrymu bod tymheredd dŵr o 17-18 gradd ganradd ac uwch yn gallu arwain at lefel uwch o farwolaeth ar unwaith ac wedi'i hoedi os caiff pysgod eu bachu, felly penderfynwyd cyfyngu ar ddefnyddio berdys/corgimychiaid i fis Medi gan ei fod yn gymharol oerach (nid oedd unrhyw dystiolaeth sylweddol i herio ymagwedd CNC). Mae'r mesur hwn yn rhesymol a chymesur gan ei fod yn caniatáu i bob genweiriwr bysgota am eogiaid i ryw raddau, gan gynnwys, yn bwysig, y rhai â chyfyngiadau corfforol, ar yr un pryd â diogelu'r stoc.

608. Sylweddolaf y gallai fod yn anodd pysgota am eogiaid mewn rhai afonydd pan fydd y dŵr yn isel. Fodd bynnag, mae defnyddio berdys/corgimychiaid yn cynnig y posibilrwydd o bysgota'r dyfroedd hyn ag abwyd, er hynny gyda chyfyngiadau, ac felly nid yw eu ddefnyddio'n gyfystyr â gwaharddiad llwyr ar bysgota ag abwyd yn yr afonydd hynny. Yn ogystal, dylid nodi y ceir parhau i bysgota am frithyllod y môr gan ddefnyddio mwydod fel abwyd am y rhan fwyaf o'r amser mewn nifer o afonydd, er hynny'n amodol ar gyfyngiad tymhorol ar afonydd diffiniedig, a chyfyngiad ar faint bachau ac abwyd. Mae'r ymagwedd gyffredinol at ddefnyddio berdys/corgimychiaid yn bwyllog ac yn gymesur.

*Terfyn Slot o 60cm*

609. Byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn darparu terfyn slot 60cm ar gyfer brithyllod y môr a ddelir â gwialen h.y. hyd mwyaf y pysgod y ceir eu cadw. Mae brithyll y môr 60cm ychydig yn llai na 6lbs ac mae fel arfer yn bysgodyn sydd wedi goroesi i silio mwy nag unwaith; felly, ystyrir bod y pysgod hyn yn ffit ac yn gyfranwyr pwysig at silio. O ganlyniad, cynigir y terfyn slot 60cm i ddarparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer brithyllod y môr mawr a ffrwythlon sydd wedi dianc rhag rhwydi.

610. Rhoddir nifer amcangyfrifedig yr wyau a 'arbedir' o ganlyniad i'r mesurau hyn (a gyfrifwyd ar gyfer yr holl brif afonydd stoc) yn Nhabl 16b y TC. Er bod yr enillion cyffredinol o ganlyniad i'r mesur yn gymedrol iawn, mae enillion arwyddocaol mewn rhai afonydd e.e. mae wyau ychwanegol y flwyddyn yn afon Teifi yn golygu 0.04 miliwn o wyau, ac yn afon Tywi 0.22 miliwn o wyau ychwanegol. Y nod yw amddiffyn stociau brithyllod y môr ymhellach ar yr un pryd â pheidio â chyfyngu gormod ar y cyfle i enweirio. Disgwylir i fuddion y mesurau hyn, er eu bod yn fach mewn rhai achosion, gronni a chynyddu wrth i stociau adfer.

611. Mae nifer o wrthwynebwyr yn herio'r sail resymegol wrth wraidd y mesur slot 60cm pan fo'r stoc brithyllod y môr mewn cyflwr iach mewn rhai afonydd. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn flaenorol, mae'r stoc brithyllod y môr mewn nifer o afonydd yn y dosbarthiadau risg gwaethaf; mae ymestyn y mesur i bob afon arall yng Nghymru yn debygol o arwain at fuddion, er hynny'n rhai cymedrol, i'r stoc brithyllod y môr ledled Cymru, ac mae hefyd yn cyflwyno ymagwedd gyson ac arfer da cyffredinol.

612. Mae eraill yn dadlau nad yw'r terfyn slot 60cm yn mynd yn ddigon pell ac y dylid ei leihau e.e. mae Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod y Môr Cymru yn dadlau y dylai'r lleiafswm maint rhanbarthol presennol ar gyfer cymryd brithyllod a brithyllod y môr gael ei ddiwygio i derfyn cenedlaethol unigol o 30cm (o 23cm). Byddai hyn yn arwain at gymryd llai o frithyllod y môr yn anghyfreithlon. Rhagnodir y lleiafswm slot cenedlaethol presennol ar gyfer brithyllod yn Is-ddeddfau 1995; mae'n berthnasol i frithyllod brown (yn ogystal â brithyllod y môr) ac nid yw gerbron yr Ymchwiliad hwn. Byddai'n afresymol ystyried newid

[404] Cyfeiriwch at CD ACC/17

o'r fath gan nad yw aelodau'r gymuned enweirio sy'n targedu brithyllod nad ydynt yn fudol wedi bod yn rhan o broses yr Ymchwiliad hwn ac nid ydynt wedi cael y cyfle i wneud sylwadau. Sut bynnag, nid oes digon o dystiolaeth i gyfiawnhau terfyn is; mae CNC yn dweud bod genweirwyr eisoes yn rhyddhau cyfran uchel o bysgod o'r maint hwn, bod llawer mwy o wrywod yn yr ystod maint/oed hon, a bod y cyfraniad wyau gydol oes yn y dyfodol gan bysgod llai yn awgrymu nad yw mor effeithiol â'r cyfraniad gan bysgod mwy o faint.

613. Mae terfyn slot 60cm yr is-ddeddfau arfaethedig yn canolbwyntio ar bysgota â gwialen ac wedi'i fwriadu i ddarparu 'cydbwysedd' o ran cadwraeth stoc, sy'n gyfystyr â byrhau'r tymor pysgota â rhwydi; mae hyn yn ymateb rhesymol a chymesur.

614. Yn y pen draw, o ystyried cyflwr cyffredinol wael stociau brithyllod y môr mewn afonydd yng Nghymru, mae cadwraeth stociau gwerthfawr yn bwysicach o lawer nag unrhyw effaith fyrhoedlog ar leiafrif o enweirwyr y gallai'r mesurau yn yr is-ddeddfau arfaethedig effeithio arnynt[405].

*Cyfyngiadau ar y Tymor Rhwydo*

615. Byddai mesur yr is-ddeddf arfaethedig yn gohirio dechrau'r tymor pysgota â rhwydi fel bod pob tymor rhwydo'n dechrau ar 1 Mai, ac fe'i cynigiwyd i warchod brithyllod y môr sy'n dychwelyd yn gynnar; mae brithyllod y môr mawr, sy'n bennaf yn rhai benywaidd ffrwythlon, yn fwy tebygol o gael eu lladd yn y pysgodfeydd rhwydi. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn bysgod sy'n dychwelyd yn gynharach sydd wedi silio'n flaenorol, ac felly wedi dangos eu ffitrwydd a'u pwysigrwydd i'r stoc. Er bod cau pysgodfeydd rhwydi ar 31 Gorffennaf, gan ddileu mis Awst o'r tymor, wedi'i fwriadu'n bennaf i warchod eogiaid, oherwydd ceir llawer mwy ohonynt mewn dalfeydd yn ystod y mis hwnnw, bydd yn fuddiol i frithyllod y môr hefyd.

616. Byddai'r cynigion yn cael effaith ariannol fach yn unig ar fwyafrif y pysgodfeydd rhwydi (ymdrinnir â hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn). Byddent yn cael yr effaith fwyaf ar y pysgodfeydd cwrwgl a sân ar ddwy brif afon, sef Tywi a Theifi. Fodd bynnag, dylid nodi bod perfformiad y ddwy bysgodfa hyn a statws eu stoc ymhlith y rhai sy'n achosi'r pryder mwyaf. Er nad yw'r TC yn nodi diffyg hwyfellod yn afonydd Dyfi a Nyfer, dim ond tri brithyll y môr yr adroddwyd eu bod wedi'u dal yn ystod rhan gynnar y tymor (cyn mis Mai) yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Felly, er cysondeb, mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn cynnig dyddiad agor cyffredin ar gyfer y pysgodfeydd rhwydi hyn hefyd (o ganlyniad, mae unrhyw effaith ar y pysgodfeydd hyn yn debygol o fod yn fach iawn).

617. Ychydig o ddadleuon arwyddocaol a gyflwynwyd o ran gwrthwynebiadau technegol i gyfyngu'r tymor rhwydo.

618. Heriodd rhwydwyr ddefnyddioldeb lleihau'r tymor rhwydo cynnar pan fo nifer y pysgod yn eithaf isel o gymharu â gweddill y tymor, er yn dwyn elw mawr (o ganlyniad i faint ac ansawdd y brithyllod). Roedd y rhwydwyr a ymddangosodd gerbron yr Ymchwiliad o blaid yr is-ddeddfau arfaethedig yn gyffredinol, ac roedd y mwyafrif yn anghytuno ar un pwynt yn unig: maen nhw'n gwrthwynebu colli mis Ebrill fel mis i bysgota am frithyllod y môr.

405 Gweler ID NRW/1R/2.22 sydd, yn Ffigur 3, yn dibynnu ar ffigur o 15%. Gweler hefyd CD APP/4/44, Tabl 3, sy'n mabwysiadu ffigur o 10% ar gyfer 2016. Sut bynnag, lleiafrif bach o enweirwyr a rhwydwyr yng Nghymru y byddai'r Is-ddeddfau Arfaethedig yn effeithio arnynt.

619. Mae niferoedd cymharol fach o bysgod, hyd yn oed, yn gallu cynhyrchu nifer sylweddol o wyau, e.e. ar afon Tywi, amcangyfrifir y bydd 604,328 yn fwy o wyau brithyllod yn cael eu dyddodi yn ystod y flwyddyn gyntaf[406] pe byddai'r cyfyngiadau tymhorol ar rwydo'n cael eu gweithredu. Mae niferoedd cymharol fach o bysgod, hyd yn oed, yn hollbwysig i adfer stociau mewn cyfnod mor fyr â phosibl; byddai buddion ychwanegol o ran nifer yr hwyfellod dros amser h.y. byddai dyddodi mwy o wyau yn arwain at fwy o bysgod aeddfed. Mae'r ymagwedd hon at arbed stoc yn briodol i'r targedau cadwraeth sy'n dod i'r amlwg yn sgil methodoleg asesu stoc newydd a datblygol ar gyfer brithyllod y môr – yn yr un modd â phob un o'r opsiynau yn yr is-ddeddfau arfaethedig, bydd hyn yn destun adolygiad ar ôl 5 mlynedd, pe byddai'r is-ddeddfau'n cael eu gweithredu.

620. Mynegwyd pryderon ynglŷn ag effaith niweidiol byrhau'r tymor rhwydo ar hyfywedd busnes, yn enwedig y rhai sy'n arfer pysgota treftadaeth. Deallaf fod hyn yn achos pryder, ond heb stociau pysgod hyfyw, byddai dyfodol pysgota treftadaeth mewn perygl difrifol[407]. Mae rhwydwyr cwrwgl a CNC yn cytuno bod y gwerth treftadaeth yn bwysig, ac y dylai pysgota cwrwgl gael ei warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Felly, mae cyfyngiadau'r is-ddeddf arfaethedig ar y tymor rhwydo yn ymateb cymesur sy'n ceisio cydbwyso anghenion y rhwydwyr a gwerth treftadaeth cysylltiedig y pysgodfeydd â gwarchod stociau pysgod gwerthfawr; mae hyn yn enghraifft arall o fesur cymesur gan ei fod yn osgoi cau pysgodfeydd rhwydi yn gyfan gwbl (fel sydd wedi digwydd yn Lloegr a'r Alban).

621. Yn gyffredinol, nid oedd unrhyw ddadleuon argyhoeddiadol nad yw'r gyfres o fesurau y cyfeiriwyd atynt uchod, nac unrhyw rai eraill, a gynhwysir yn yr is-ddeddfau arfaethedig sy'n ymwneud â physgodfeydd rhwydi, yn briodol, yn rhesymol neu'n gymesur.

**Materion Cydraddoldeb**

622. Roedd nifer o wrthwynebiadau[408] i'r is-ddeddfau arfaethedig yn ymwneud â'u heffaith ar gydraddoldeb. Y prif faterion oedd nad oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) wedi cael ei ystyried yn ddigon cynnar yn y broses i lywio cyngion yr is-ddeddfau wrth iddynt symud ymlaen; dadleuir hefyd bod gwaharddiad ar ddefnyddio mwydod i bysgota am eogiaid yn wahaniaethu anuniongyrchol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

*Ystyriaeth CNC o EqIA*

623. Mae rhai[409] yn honni nad oedd EqIA wedi cael ei ystyried yn ddigon cynnar yn y broses i lywio cynigion yr is-ddeddfau wrth iddynt symud ymlaen; yn ei dystiolaeth, mae Mr Meyrick yn dweud nad oedd wedi cael ei gynnal yn gynt na 28 Rhagfyr 2018. Fodd bynnag, cadarnhaodd tystiolaeth ysgrifenedig CNC[410] fod yr EqIA wedi cael ei gynnal oddeutu blwyddyn yn gynharach h.y. wedi'i ddogfennu ar 28 Rhagfyr 2017, ar ôl cwblhau'r broses ymgynghori, ac yna ei ddogfennu mewn atodiad i Fwrdd CNC yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2018; felly, mae'n amlwg bod yr EqIA nid yn unig wedi cael ei

[406] Cyfeiriwch at CD APP/4, tudalen 107

[407] Pwynt a dderbyniwyd gan Mr Rees wrth roi tystiolaeth lafar

[408] Gan gynnwys Mr Meyrick ID DM/1&2, Mr Nicholson ID AN/1a &1b

[409] Cyfeiriwch yn benodol at dystiolaeth ysgrifenedig Mr Meyrick ID DM/2 lle y mae'n ystyried bod EqIA wedi cael ei gynnal heb fod yn gynt na 28 Rhagfyr 2018.

[410] Cyfeiriwch at dystiolaeth Mr Gough ID NRW/1R2 paragraff 2.2

ystyried yn gynnar yn ystod esblygiad yr is-ddeddfau arfaethedig, ond, yn arwyddocaol, cyn iddynt gael eu cyflwyno i LlC gan CNC.

*Gwaharddiad ar Bysgota â Mwydod ac Ystyriaeth o'r Rhai â Chyfyngiadau Corfforol*

624. O ran y gwaharddiad ar ddefnyddio mwydod i bysgota am eogiaid, dadleuir y byddai hyn yn effeithio ar bobl â chyfyngiadau corfforol nad ydynt yn gallu pysgota â phlu neu droellwr; ystyriwyd bod hyn yn wahaniaethu anuniongyrchol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

625. Eglurodd CNC, o ganlyniad i ganfyddiadau'r broses ymgynghori a gynhaliodd â'r gymuned enweirio, fod yr is-ddeddfau arfaethedig wedi cael eu diwygio i gynnwys cynigion ar gyfer pysgota â berdys a gorgimychiaid am gyfnod cyfyngedig bob blwyddyn h.y. ar ôl 1 Medi, pan fydd tymheredd y dŵr yn oerach ac y gellid disgwyl i gyfraddau goroesi C&R gan ddefnyddio'r math hwn o abwyd fod yn uchel; un o'r rhesymau dros y newid hwn oedd yr effaith lai y byddai mesur o'r fath yn ei chael ar enweirwyr sy'n llai abl yn gorfforol sy'n pysgota am eogiaid, gan felly gynnal y cyfle i enweirwyr sy'n gallu pysgota ag abwyd yn unig. Yn ogystal, bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn caniatáu i enweirwyr a chanddynt gyfyngiadau corfforol allu pysgota am frithyllod y môr ar adegau/mewn lleoliadau penodol.

626. Sylweddolaf y gallai'r is-ddeddfau arfaethedig gyfyngu ar rai genweirwyr, fel yr henoed, sy'n gallu gwneud rhai mathau o bysgota yn unig oherwydd cyfyngiadau corfforol. Fodd bynnag, er y byddai pysgota am eogiaid â mwydod yn cael ei wahardd o ganlyniad i'r is-ddeddfau, byddai'n bosibl o hyd i ddefnyddio mathau eraill o abwyd fel berdys/corgimychiaid, er hynny gyda chyfyngiadau, a byddai abwyd yn cael ei ganiatáu hefyd, gyda chyfyngiadau, ar gyfer brithyllod y môr. At hynny, byddai genweirwyr sy'n llai abl yn gorfforol yn gallu parhau i ddefnyddio abwyd ar gyfer pysgota bras, nad yw'r is-ddeddfau arfaethedig yn effeithio arno. Mae'r holl fesurau hyn yn ymateb cymesur o ystyried cyflwr presennol y stociau brithyllod y môr ac eogiaid yng Nghymru.

627. Ystyriaf fod CNC wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn modd boddhaol a bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn ymateb cymesur i'r nod o warchod ac adfer stociau pysgod sydd wedi'u disbyddu'n ddifrifol yng Nghymru.

**Gorfodi**

628. Cyfeiriodd nifer o wrthwynebwyr at faterion sy'n ymwneud â gorfodi o ran yr is-ddeddfau arfaethedig; yn gyffredinol, roeddent yn amau i ba raddau y gellid gorfodi'r mesurau sy'n gysylltiedig â'r is-ddeddfau arfaethedig, fel C&R neu ddefnyddio un mwydyn, a ph'un a oes gan CNC ddigon o adnoddau ar waith i fynd i'r afael â materion gorfodi.

629. Mae dogfen "Polisi Gorfodi ac Erlyn" CNC[411] yn rhoi ystod o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ymdrin ag achosion posibl neu wirioneddol o dor-rheolaeth, sy'n amrywio o addysg/arweiniad gyda'r nod o atal, i erlyn.

630. O ran y cyfyngiadau ar ddulliau yn yr is-ddeddfau arfaethedig, amlygodd CNC y bu modd gorfodi rheolaethau tebyg yn y gorffennol, fel Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol 1999 a 2008, sy'n gwneud C&R yn ofyniad statudol ym mhob pysgodfa gwialenni/rhwydi mewn amodau penodol, ac sydd hefyd yn gwahardd pysgota am eogiaid â mwydod cyn 16

[411] Cyfeiriwch at CD POL/23

Mehefin yn ystod unrhyw flwyddyn.  Mae is-ddeddfau eraill[412] yng Nghymru yn gosod rheolaethau ar faint bachau ac abwyd ar gyfer brithyllod brown, tra bod cyfyngiadau genweirio ar waith ar afonydd Dyfrdwy, Gwy a Hafren Uchaf.

631. Er y nodaf bryderon y genweirwyr ynglŷn â gorfodi'r is-ddeddfau arfaethedig, nid oes tystiolaeth sylweddol i ddangos nad yw mwyafrif y genweirwyr wedi cydymffurfio â rheolaethau tebyg i'r rhai yn yr is-ddeddfau arfaethedig, naill ai o ganlyniad i'w natur ddeddfwriaethol, neu'n syml oherwydd pwysau gan gymheiriaid.  Derbyniaf y gallai gorfodi effeithiol fod yn heriol, ond nid yw hynny'n amddiffyniad dros beidio â gweithredu; yn yr un modd ag is-ddeddfau blaenorol, byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn debygol iawn o gael effaith ataliol.

632. Nid oes gennyf reswm i amau na fyddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn cael eu derbyn a'u dilyn yn gyffredinol yn yr un modd ag is-ddeddfau blaenorol; yn hyn o beth, nodaf sylwadau Dr Mawle, a ddywedodd, o ran afon Wysg, ei fod yn disgwyl y byddai C&R gorfodol ar gyfer eogiaid yn cael ei fabwysiadau'n gyffredinol gydag ambell dramgwydd, ac y byddai unrhyw dramgwyddau'n debygol o gael eu gweld gan enweirwyr eraill a fyddai'n digio yn eu herbyn, os nad yn adrodd amdanynt.  Yn ogystal, fel y nodwyd uchod, byddai rhan o'r broses orfodi a fyddai'n gysylltiedig â'r is-ddeddfau arfaethedig yn cynnwys gwybodaeth, arweiniad a chyhoeddusrwydd i wneud genweirwyr yn ymwybodol o'r is-ddeddfau a sut i gydymffurfio â nhw.

633. O ran adnoddau sy'n gysylltiedig â gorfodi, eglurodd Mr Gough o CNC fod mwy o staff pysgodfeydd yn ei dimau 'Troseddu Amgylcheddol' na meysydd eraill o waith pysgodfeydd.  Esboniodd hefyd, yn wahanol i'r dulliau gorfodi yn y gorffennol pan oedd mwy o adnoddau ar gael, fod yr ymagwedd bresennol yn defnyddio gwybodaeth i lywio penderfyniadau a chanolbwyntio adnoddau, a'i bod yn gwneud defnydd cynyddol o dechnoleg i gynorthwyo ac fel ffynhonnell tystiolaeth, yn ogystal â mwy o weithio ar y cyd â phartneriaid fel yr heddlu.  Cadarnhaodd Mr Gough hefyd fod CNC wrthi'n adolygu ei drefniant sefydliadol a'i fod yn bwriadu ymestyn rôl swyddogion gwarantu fel bod mwy yn gallu ymgymryd â gwaith gorfodi pysgodfeydd arferol.  Nid oes tystiolaeth sylweddol i ddangos na allai CNC orfodi'r is-ddeddfau arfaethedig yn ddigonol (ac, fel y dywedwyd uchod, mae'r rhan fwyaf o enweirwyr yn debygol iawn o gydymffurfio ag unrhyw is-ddeddfau newydd, at ei gilydd).  Fodd bynnag, pe deuai'n amlwg bod angen mwy o adnoddau yn y dyfodol, byddai hynny'n fater i CNC fynd i'r afael ag ef bryd hynny.

634. Honnodd nifer o wrthwynebwyr nad oedd CNC wedi cymryd camau gorfodi ynglŷn â physgota anghyfreithlon a photsio yn y gorffennol.  Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae camau gorfodi'n cynnwys amrywiaeth eang o fesurau, na fydd rhai ohonynt o reidrwydd yn arwain at erlyn.  O ran erlyniadau, cadarnhaodd CNC ei fod wedi cychwyn nifer o achosion yn erbyn unigolion am weithgareddau pysgota anghyfreithlon; yn y pen draw, mae'r penderfyniad i erlyn achosion yn dibynnu'n llwyr ar yr achos penodol.

635. Dywedodd nifer o wrthwynebwyr pe byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn dod i rym y byddai llai o enweirwyr ar lannau afonydd ac, yn y pen draw, y byddai hynny'n arwain at lai o ataliaeth i weithgarwch anghyfreithlon a llai o wybodaeth i gynorthwyo tîm gorfodi sydd eisoes yn brin o staff.  Honnir y byddai hyn yn cael ei waethygu trwy ddieithrio genweirwyr o ganlyniad i gyflwyno'r is-ddeddfau arfaethedig.  Fodd bynnag, gan gydnabod y perygl y gallai rhai genweirwyr ddewis peidio ag adrodd am weithgarwch anghyfreithlon ar afonydd

412 Fel y manylir yn CD POL/26

am ba reswm bynnag, mae mwyafrif o enweirwyr trwyddedig eraill, perchenogion glannau afon, aelodau eraill o'r cyhoedd ac asiantaethau eraill a fyddai ar lannau afonydd o hyd ac yn debygol o roi gwybod am ddigwyddiadau.

**Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol**

636. Roedd gwrthwynebwyr o'r farn y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn niweidiol i les economaidd-gymdeithasol clybiau genweirio, gan achosi iddynt gau o ganlyniad i niferoedd llai o enweirwyr a allai gredu nad yw'n werth chweil pysgota mwyach gyda'r cynigion ar waith, a'r effeithiau niweidiol ar yr economi leol, yn enwedig yr economi dwristiaeth pe byddai genweirwyr yn dewis peidio â physgota yng Nghymru.

637. Manylir ar ystyriaeth CNC o effeithiau economaidd-gymdeithasol yr is-ddeddfau arfaethedig mewn sawl dogfen[413], yn groes i farn nifer o wrthwynebwyr a honnodd fel arall. Roedd y dystiolaeth economaidd-gymdeithasol yn cynnwys cyfeiriad at ddogfen[414] a gomisiynwyd gan CNC a oedd yn amcangyfrif bod pysgota mewn afonydd am bob rhywogaeth yn cynhyrchu £20 miliwn y flwyddyn o werth ychwanegol gros (GVA – mesur o werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn sector o'r economi y flwyddyn), ac yn cynnal 700 o swyddi amser llawn; dadansoddir y ffigur hwn ymhellach i ddangos GVA o £5 miliwn ar gyfer pysgota sy'n gysylltiedig ag eogiaid/brithyllod y môr, sy'n cynnal 200 o swyddi.

638. Cyfeiriodd gwrthwynebwyr at werth pysgodfeydd gwialen i economi Cymru mewn amrywiaeth o ffyrdd[415] e.e. cyfeiriwyd at werth o £150 miliwn[416], mynegodd un arall y farn ei fod yn cyfateb i werth tebyg i economi wledig Cymru ac allforio cig oen i Ewrop, tra bod eraill wedi cyfeirio at werthoedd lleol mwy bras. Roedd amcangyfrifon y gwrthwynebwyr yn ddisylwedd neu'n gysylltiedig â phob gweithgarwch pysgota mewndirol ac arfordirol, ac roeddent yn anecdotaidd eu natur yn bennaf heb unrhyw ddata ategol ystyrlon.

639. Thema gyffredin ymhlith gwrthwynebwyr, yn enwedig genweirwyr, oedd y farn y byddai'r mesurau a'r cyfyngiadau a gynhwysir yn yr is-ddeddfau arfaethedig yn achosi i glybiau gau o ganlyniad i niferoedd is o enweirwyr a allai gredu nad yw'n werth chweil pysgota mwyach tra bod y cynigion ar waith.

640. Derbyniaf y posibilrwydd y gallai mesurau'r is-ddeddfau arfaethedig arwain at ddirywiad mewn gweithgarwch genweirio gan rai genweirwyr sy'n dewis peidio â physgota os gweithredir is-ddeddf C&R neu gyfyngiadau eraill ar ddulliau genweirio. Fodd bynnag, mae profiad mewn mannau eraill yn dangos bod unrhyw ddirywiad cychwynnol mewn gweithgarwch genweirio yn debygol o fod yn fyrhoedlog a chael ei wrthdroi'n gyflym e.e. y dirywiad cychwynnol mewn gweithgarwch genweirio ar afon Gwy ar ôl cyflwyno C&R yn 2012. Mae profiad ar afon Gwy hefyd yn dangos, mewn rhai achosion, bod hyrwyddo cyfleoedd pysgota ers cyflwyno C&R gorfodol wedi denu nifer gyfatebol o enweirwyr sy'n fwy brwd ynghylch cadwraeth i gymryd eu lle wrth i niferoedd stoc wella. Cydnabyddaf fod y gwelliannau o ran stoc afon Gwy hefyd yn debygol o fod yn rhannol gysylltiedig ag adfer dalgylch, a'i bod yn un o'r prif afonydd yng Nghymru ar gyfer pysgota am eogiaid. Er hynny, y ffaith amdani yw bod niferoedd stoc a genweirio wedi adfer ar yr afon hon lle mae

[413] Gan gynnwys yr 'Achos Technegol' CD APP/4 (tudalennau 118-129), 'Adolygiad o Werth Economaidd Genweirio mewn Afonydd yng Nghymru' Cyf. CD ACC/42,

[414] Cyfeiriwch at 'Adolygiad o Werth Economaidd Genweirio mewn Afonydd yng Nghymru' CD ACC/42, tudalen 10

[415] Er enghraifft, cyfeiriwch at gyflwyniad Mr Hulmston ID NH/1b, Mr Gerald John a Mr Eardley Cyf. ID CPWF/18

[416] Cyfeiriwch at gyflwyniad Mr Hulmston ID NH/1b

cyfyngiadau tebyg ar waith i'r rhai yn yr is-ddeddfau arfaethedig, ac nid oes tystiolaeth arwyddocaol i ddangos na allai hyn ddigwydd mewn mannau eraill pe byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn dod i rym.

641. Mae hefyd yn werth ailadrodd mai bwriad yr is-ddeddfau arfaethedig yw gwarchod stociau, nid atal pysgota. Ni fydd pysgota am frithyllod y môr yn newid ar y rhan fwyaf o afonydd, gyda rheolaethau tymor cynnar yn unig ar leiafrif o afonydd, a bydd pysgota am eogiaid yn parhau, er hynny gyda rheolaethau ar ddulliau y mae llawer o enweirwyr eisoes yn cydymffurfio â nhw, ac ni fydd effaith ar enweirio am rywogaethau eraill. Mae mwyafrif helaeth y genweirwyr yn pysgota am bysgod nad ydynt yn cael eu targedu gan yr is-ddeddfau arfaethedig. Mesurau cymesur yw'r rhain. Y ffaith amdani, fel y nodir yng nghasgliad tystiolaeth CNC[417], yw bod gostyngiad di-ddadl yn nifer y bobl sy'n genweirio, fel yr adlewyrchir gan werthiannau trwydded pysgota â gwialen, sydd wedi bod yn parhau ers nifer o flynyddoedd ac ymhell cyn cyflwyno'r is-ddeddfau arfaethedig. Er bod risg y gallai rhai genweirwyr ddewis peidio â physgota yng Nghymru o ganlyniad i'r is-ddeddfau arfaethedig, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai hyn yn fyrhoedlog a, sut bynnag, mae cymryd rhan mewn genweirio'n debygol iawn o leihau yn y dyfodol os na chymerir camau i wrthdroi'r dirywiad parhaus mewn statws stociau eogiaid a rhai brithyllod y môr yng Nghymru; cytunaf â safbwynt CNC, sef os na wneir unrhyw beth i roi terfyn ar ladd pysgod yn fwriadol, tra bod mentrau eraill i wella cynefinoedd dŵr croyw yn cael eu gweithredu, bydd y raddfa amser ar gyfer adfer stoc yn cynyddu'n anochel.

642. Dadansoddodd y TC effaith yr is-ddeddfau arfaethedig ar bysgodfeydd rhwydi, a chyfrifodd y byddai eu cyflwyno'n arwain at leihau gwerth pysgod gwerthiant cyntaf a ddelir o £46,032 i £30,901, sef gostyngiad o 19% ledled Cymru. Fodd bynnag, ni fyddai incwm yn cael ei golli'n gyfartal ar draws pysgodfeydd rhwydi nac, yn wir, o fewn y pysgodfeydd eu hunain, gan fod cyfranogiad ac ymdrech bysgota yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol rwydwyr. Yn nhermau ariannol, ni fyddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn effeithio ar fwyafrif helaeth y pysgodfeydd rhwydi, neu byddent yn cael effaith fach arnynt yn unig. Byddent yn effeithio fwyaf ar ddwy bysgodfa, sef Teifi a Thywi, gan fod y rheiny'n cyfrif am fwyafrif y brithyllod môr a ddelir â rhwydi yng Nghymru. Fodd bynnag, dylid nodi bod perfformiad y pysgodfeydd hyn a statws eu stoc ymhlith y rhai sy'n achosi'r pryder mwyaf h.y. amlygwyd eu bod yn fregus yn y TC.

643. Dylid cofio bod y ddwy bysgodfa rwydi yr effeithir arnynt fwyaf yn dibynnu ar stociau cynaliadwy o bysgod, nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd; y ffordd orau o sicrhau dyfodol hyfyw pysgodfeydd, ac yn enwedig pysgodfeydd treftadaeth fel y rhai a geir ar afonydd Tywi a Theifi, yw mynd i'r afael â disbyddiad difrifol stociau, fel y disgwylir gan yr is-ddeddfau arfaethedig. O ran yr effaith ar bysgodfeydd rhwydi, derbyniodd Mr Rees o Gymdeithas Cwrwglwyr a Rhwydwyr Caerfyrddin, h.y. rhwydwr ar afon Tywi, mewn tystiolaeth lafar, er gwaethaf ei bryderon ynglŷn â cholli mis Ebrill fel mis i bysgota am frithyllod y môr, fod y cyfnod 10 mlynedd pan fyddai'r is-ddeddfau'n cyfyngu ar bysgota am rwydi ym mis Ebrill yn bris y mae'n werth ei dalu, yn y pen draw, am warchod treftadaeth pysgota cwrwgl yn y dyfodol. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae CNC wedi osgoi cau'r pysgodfeydd rhwydi yn gyfan gwbl, fel sydd wedi digwydd yn Lloegr a'r Alban; mae hwn yn fesur cymesur.

[417] Cyfeiriwch at dudalen 128 CD APP/4, tudalen 9-15 ID NRW/1R

644. Cyfeiriodd nifer o wrthwynebwyr[418] at yr effaith niweidiol ar yr economi dwristiaeth a'r economi yn gyffredinol pe byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth o sylwedd i ddangos y byddai hyn yn digwydd nac yn cael unrhyw effaith arwyddocaol.

645. At ei gilydd, o ran effeithiau economaidd-gymdeithasol yr is-ddeddfau arfaethedig, mae'n well gennyf dystiolaeth CNC a oedd yn fwy argyhoeddiadol ac wedi'i hategu gan dystiolaeth ddogfennol sylweddol; ni ddarparodd y gwrthwynebwyr dystiolaeth empirig o sylwedd i wrth-ddweud canfyddiadau CNC. Yn y pen draw, mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn ceisio gwarchod yr adnodd naturiol, fel y bydd pysgota â gwialen a rhwydi yn gallu parhau i gyfrannu at gymunedau Cymru yn y dyfodol, gan gynnwys cefnogi'r economi ehangach; yn hyn o beth, mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn ymateb cymesur i fynd i'r afael â phroblem ddybryd a difrifol disbyddiad y stoc eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru, ar yr un pryd â cheisio diogelu buddiannau economaidd-gymdeithasol y presennol a'r dyfodol.

### Mesurau Eraill i Fynd i'r Afael â'r Dirywiad mewn Stociau Pysgod

646. Dadleuodd nifer o wrthwynebwyr[419] mai'r is-ddeddfau arfaethedig oedd yr unig fesur sy'n cael ei geisio i fynd i'r afael â stociau eogiaid a brithyllod y môr sy'n lleihau.

647. Mae CNC yn honni ei fod yn ymateb i'r dirywiad mewn stociau pysgod mewn ffyrdd eraill cyflenwol, gan gynnwys trwy weithredu cyfres o fesurau rheoli tir i wella'r amgylchedd, a chymryd camau unioni i adfer ansawdd cynefin afonydd a mynd i'r afael â ffactorau eraill sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr croyw, sydd oll naill ai ar waith neu'n cael eu cynnig yn weithredol.

*Cyfres o Fesurau Rheoli Tir*[420]

648. Mae'r rhain yn cynnwys:

- CNC yn defnyddio ei rymoedd adnoddau dŵr i reoli tynnu dŵr er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei warchod a'i ddefnyddio'n briodol e.e. trwyddedau tynnu dŵr a chronni dŵr;
- Defnyddio'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) i amlygu pryderon ynglŷn â llif a lefel mewn cyrff dŵr yng Nghymru a datblygu a darparu datrysiadau. Mae cronfeydd dŵr yn cael eu gweithredu trwy gytundeb â CNC i sicrhau bod dŵr ychwanegol ar gael er budd yr amgylchedd, fel rhyddhau llif ychwanegol, gyda rhai'n elwa o lifoedd wedi'u teilwra a gynlluniwd yn benodol i helpu symudiadau pysgod;
- Mabwysiadu a hyrwyddo dulliau draenio cynaliadwy mewn lleoliadau trefol a gwledig ac mewn datblygiadau newydd a phresennol er mwyn mynd i'r afael â dŵr ffo lle mae'n dechrau, fel bod dŵr yn cael ei gadw yn ei ddalgylch a'i ryddhau'n araf er budd pysgod ac afonydd e.e. ers mis Ionawr 2019, mae systemau draenio cynaliadwy bellach yn orfodol ar gyfer pob datblygiad newydd

[418] Fel Mr Thomas yn ID LT/1

[419] Cyfeiriwch at ID CPWF/2 paragraff 12, ID AOA/1 paragraff 84, ID AR/1 paragraffau 18 a 21 ac ID AN/1a paragraff 32

[420] Fe'u manylir yn llawn ym mhroflen dystiolaeth Mr Vaughan yn ID NRW/6

sy'n cynnwys mwy nag un tŷ neu lle mae'r ardal adeiladu'n fwy na 100m2, gan felly sicrhau systemau draenio cydnerth;

- Hyrwyddo'r rhaglen Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy[421] (RSA) i unioni gweithgarwch tynnu dŵr hanesyddol a allai fod yn niweidio'r amgylchedd, fel gosod sgriniau ar bwyntiau tynnu dŵr i atal pysgod rhag mynd i mewn iddynt neu leihau cyfeintiau tynnu dŵr (mae mwy na 40 o drwyddedau tynnu dŵr wedi cael eu haddasu neu eu dirymu o dan y rhaglen RSA);

- Defnyddio canllawiau trwyddedu ynni dŵr sydd wedi'u cynllunio'n benodol i warchod pysgod, fel cynefin silio eogiaid;

- Defnyddio 'Canllawiau Coedwigoedd a Dŵr' y DU i gyflawni arfer gorau o ran gweithrediadau coedwigaeth ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a dylanwadu ar y sector preifat i wneud yr un peth. Yn hyn o beth, mae'r gwaith yn cynnwys chwalu rhwystrau hanesyddol sy'n atal pysgod rhag mudo, yn bennaf o ganlyniad i gwlfertau crog, datgysylltu systemau draenio coedwigoedd a draeniau ymyl ffordd etifeddol i ganiatáu i ddyfroedd o'r fath ryddhau'n araf i ardaloedd clustogi er mwyn lleihau unrhyw effaith ar anifeiliaid afonydd, ac adfer safleoedd mawn dwfn wedi'u coedwigo fel yr amlygwyd yn yr adroddiad SSAPRW.[422] Yn ogystal, er mwyn mynd i'r afael ag asideiddio o blanhigfeydd coedwigaeth hanesyddol, mae CNC wedi taenu calsiwm carbonad mewn ardaloedd ffynhonnell hydrolegol, wedi ychwanegu tywod calchfaen yn uniongyrchol at gyrsiau dŵr, ac wedi defnyddio unedau dos ar raddfa fawr e.e. Llyn Brianne, i leihau asidedd dŵr yn gyflym a chynnal pysgod mewn dyfroedd sydd eisoes yn cynnwys llawer o asid. Mae CNC wedi ymrwymo i leihau ei ddefnydd o gemegau sy'n llygru e.e. mae wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r pryfleiddiad Cypermethrin; a,

- Mynd i'r afael â llygredd cyrsiau dŵr, fel llygredd amaethyddol e.e. bydd CNC yn gweithio gyda LIC a'r sector ffermio i weithredu newidiadau o dan reoliadau newydd a ddaw i rym yn 2020 sy'n ceisio, ymhlith pethau eraill, cynllunio ar gyfer rheoli maethynnau a diogelu dŵr rhag llygredd sy'n gysylltiedig â phryd, ble a sut y mae gwrteithiau'n cael eu taenu. Yn ogystal, mae CNC wedi penodi wyth swyddog amaethyddol newydd[423] sy'n bwriadu ymweld â ffermydd llaeth yng Nghymru i helpu'r diwydiant hwnnw i ddilyn arfer gorau a chydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol er mwyn atal llygredd amaethyddol; bydd swyddogion o'r fath yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i helpu i ddatblygu syniadau, technoleg ac arferion newydd arloesol er mwyn lleihau llygredd ymhellach.

*Mesurau Eraill*

649. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gorchmynion Cyfyngu ar Rwydi (NLOs) sy'n rheoleiddio nifer y trwyddedau pysgota â rhwydi a roddir ar gyfer pysgota yn y pysgodfeydd rhwydi cyhoeddus

[421] Cyfeiriwch at CD POL/35

[422] Asesiad Strategol o Adnoddau Mawn wedi'u Coedwigo yng Nghymru a'r Fioamrywiaeth, Fflwcs Nwyon Tŷ Gwydr a Goblygiadau Hydrolegol Amryw Ddulliau Rheoli ar gyfer Targedu Adfer Mawndiroedd – ID NRW/6

[423] Cyfeiriwch at ID NRW/6 paragraff 13.25

o amgylch arfordir ac aberoedd Cymru. Cadarnhawyd y diweddaraf gan LlC ar 1 Ionawr 2018;

- Is-ddeddfau trawsffiniol arfaethedig sy'n berthnasol i afonydd Dyfrdwy a Gwy, gan gynnwys mesurau sy'n gymesur â'r is-ddeddfau arfaethedig, megis terfyn slot 60cm ar gyfer brithyllod y môr ar afonydd Dyfrdwy a Gwy neu ddefnyddio bachau heb adfachau neu fachau y tynnwyd yr adfachau ohonynt yn unig ar afonydd Dyfrdwy a Gwy, a C&R statudol. Ni ellir eu cyflwyno i LlC i'w cymeradwyo cyn i'r is-ddeddfau arfaethedig gael eu cadarnhau, oherwydd byddai'r ddwy set o is-ddeddfau trawsffiniol yn dibynnu ar ddiwygiadau a wneir yn rhan o'r is-ddeddfau arfaethedig i Is-ddeddfau Pysgota Cymru 1995 (Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995) cynharach a phresennol. Is-ddeddfau ar wahân ar gyfer Afon Hafren i fynnu materion fel dychwelyd pob eog cyn 16 Mehefin, ynghyd â gwahardd pysgota ag abwyd a gwahardd rhai bachau a bachau triphlyg wrth bysgota am eogiaid a brithyllod y môr. Bwriedir gwneud cais i LlC am gymeradwyaeth ar ôl i LlC wneud penderfyniad ar yr is-ddeddfau arfaethedig;

- Camau adfer afonydd, gan gynnwys camau strategol ar ffurf cyfraniad CNC at y prosiect 'Adfer a Bioamrywiaeth' sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am adfer, neu sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adfer Afonydd gan CNC i weithio ar draws y sefydliad i ganolbwyntio a chydlynu gwaith adferol parhaus, a chamau lleol trwy weithio gydag Afonydd Cymru ac ymddiriedolaethau afonydd lleol i amlygu a blaenoriaethu gwaith i unioni'r holl gyfyngiadau strwythurol sy'n llethu stociau pysgod (yn hyn o beth, cyflawnodd CNC y prosiect "Eogiaid ar gyfer Yfory" yn fwy diweddar lle'r oedd gwelliannau i 62 o ysgolion pysgod wedi arwain at sicrhau bod 700km yn fwy o gynefinoedd afonydd yn hygyrch neu lle'r oedd mynediad presennol wedi cael ei wella).

650. Fodd bynnag, pwysleisiodd CNC fod y mesurau rheoli tir a drafodir uchod yn gyflenwol i weithredu'r is-ddeddfau arfaethedig a'u bod yn annigonol ar eu pen eu hunain. Mae CNC yn honni pe byddai'r mesurau eraill yn cael eu dilyn heb yr is-ddeddfau arfaethedig, y gallai pysgota dal a lladd gynyddu'r perygl o ddirywio stociau ymhellach, gan y byddai'r cronfeydd silio wrth gefn yn parhau i gael eu disbyddu.

651. Mae CNC yn cydnabod bod amrywiaeth o achosion wedi cyfrannu at gyflwr presennol stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru, gan gynnwys y materion a drafodwyd uchod, fel dirywiad ansawdd dŵr yn yr amgylchedd afonol. Mae rhwymedigaeth statudol ar CNC i warchod adnoddau naturiol ac mae ganddo ddyletswyddau penodol o ran gwarchod pysgodfeydd[424]; mae'r dyletswyddau cadwraeth i'w gweld mewn deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru, fel Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal ag o dan Gyfarwyddebau'r UE a rhwymedigaethau rhyngwladol eraill[425].

652. Dibenion statudol CNC fel y'u hamlinellir yn Neddf 2016 yw Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR); mae hyn yn symud y pwyslais oddi wrth roi ystyriaeth yn unig i'r amryw swyddogaethau statudol unigol ar eu pen eu hunain tuag at ymagwedd fwy integredig i fynd i'r afael â phwysau a sbardunwyr newid ecosystem, yn hytrach nag effeithiau yn unig. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu

[424] Fel Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 ac Adran 6 (6) Deddf yr Amgylchedd 1995

[425] Cyfeiriwch at CD APP/4, tudalennau 20-25 ac ID NRW/5

saith nod llesiant sy'n disgrifio'r 'math o Gymru y dymunwn ei gweld'. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn ystyried sut mae adnoddau naturiol ac ecosystemau yn cefnogi'r saith nod llesiant hyn er lles pawb. Mae SoNaRR CNC yn amlinellu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac fe'i defnyddir gan LIC i osod polisi adnoddau naturiol.

653. Cododd nifer o wrthwynebwyr amheuon ynglŷn â diffuantrwydd CNC a phartneriaid eraill i weithredu'r mesurau eraill sy'n gyflenwol i'r is-ddeddfau arfaethedig. Er gwaethaf amheuon rhai, nid oes tystiolaeth o sylwedd i gredu na fyddai CNC nac eraill yn cymryd camau pendant i weithredu'r ystod o fesurau eraill y cyfeiriwyd atynt uchod, yn enwedig o ystyried ei ddyletswyddau o dan y fframwaith statudol a grybwyllwyd uchod.

**Ysglyfaethu gan Adar ac Ysglyfaethwyr Eraill**

654. Dywedodd nifer o wrthwynebwyr fod ysglyfaethu gan adar[426] ac ysglyfaethwyr eraill yn cymryd cryn dipyn yn fwy o bysgod, silod mân ac wyau na genweirwyr/rhwydwyr, ac y dylai CNC fod yn canolbwyntio ei sylw ar hynny yn hytrach na hyrwyddo'r is-ddeddfau arfaethedig. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth o sylwedd a ddarparwyd ynglŷn â graddau'r niwed a achosir.

655. Mae CNC yn cydnabod mai un o'r achosion sydd wedi cyfrannu at gyflwr presennol stociau eogiaid a brithyllod y môr yw ysglyfaethu gan adar. Fodd bynnag, mae hefyd yn datgan nad oes llawer o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru ynglŷn ag effaith ysglyfaethu gan adar, a bod tystiolaeth wael iawn ar gael ar hyn o bryd ynglŷn ag effaith rheolaeth drwyddedig o boblogaethau adar pysgodol, sy'n cael eu gwarchod o dan y gyfraith fel arall.[427]

656. Mae gan CNC yr hawl i roi trwyddedau ar gyfer rheoli adar pysgodol sy'n achosi niwed difrifol i bysgodfeydd naturiol a mewndirol neu sy'n debygol o achosi niwed o'r fath, ac mae'n arfer yr hawl honno. Mae'r broses wedi'i seilio ar dystiolaeth, o ystyried bod yr adar yn rhywogaethau a warchodir. Mae tystiolaeth yn cynnwys nifer yr adar sy'n bresennol, y dulliau atal anfarwol a ddefnyddir ac amcangyfrif o'r effaith economaidd ar bysgodfa. Mae gwrthwynebwyr yn dadlau bod y broses hon yn ddiffygiol oherwydd materion fel casglu lefel y dystiolaeth sy'n ofynnol. Mae gan CNC ddyletswydd i gydbwyso buddiannau croes rhywogaethau a warchodir, boed rheiny'n bysgod neu'n adar, ac felly ni all roi trwydded i ymdrin ag adar pysgodol oni bai ei fod yn gwbl fodlon bod y sylfaen dystiolaeth yn cyfiawnhau ymagwedd o'r fath.

657. Yng ngoleuni pryderon ynglŷn ag adar pysgodol a godwyd gan y gymuned enweirio yn ystod y broses ymgynghori, mae CNC wedi ffurfio Grŵp Cynghori (AG) Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod, sef grŵp ar y cyd rhwng sefydliadau sy'n cynrychioli sectorau o'r llywodraeth, cadwraeth a rheoli pysgodfeydd. Bydd yr AG yn amlygu tystiolaeth ac yn sefydlu barn arbenigol i sicrhau bod polisi Cymru yn parhau i fod wedi'i seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a'i fod yn gadarn ac yn addas i'r diben. Allbwn allweddol yr AG fydd papur argymhelliad i Fwrdd CNC sy'n datgan a oes angen cynnal adolygiad ffurfiol o'r ymagwedd at adar sy'n bwyta pysgod yng Nghymru. Os felly, bydd yn amlinellu awgrymiadau'r AG ar gyfer adolygiad o'r fath a arweinir gan dystiolaeth o effeithiau adar

[426] Yn enwedig Mulfrain a Hwyaid Danheddog

[427] Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

sy'n bwyta pysgod yng Nghymru. Byddai'r argymhelliad hwn, pe byddai'n cael ei dderbyn, yn cael ei gyflwyno i LlC gan Fwrdd CNC; disgwylir i hyn ddigwydd erbyn mis Mai 2019.

658. Yn gyffredinol, er bod adar pysgodol ac, o ran hynny, ysglyfaethwyr eraill fel dyfrgwn neu forloi yn effeithio ar stociau pysgod, nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau lefel yr effeithiau hyn. Fodd bynnag, trwy'r AG, mae CNC yn cymryd camau pendant i geisio asesu effeithiau o'r fath yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Sut bynnag, ni waeth am effeithiau ysglyfaethu gan adar ac ysglyfaethwyr eraill ar stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru, y ffaith amdani yw bod y pysgod hynny mewn cyflwr bregus iawn yn gyffredinol, a bod lladd pysgod yn fwriadol yn anghynaliadwy ac yn cyfrannu at y broblem, er hynny i raddau llai. Felly, mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn rhan o'r datrysiad.

**Gwaharddiad Cyffredinol**

659. Mae llawer o wrthwynebwyr yn honni bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn "ymagwedd gyffredinol" at ymdrin â stociau pysgod sy'n dirywio ledled Cymru, yn hytrach nag ymdrin â'r mater ar sail afonydd unigol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir. Mae CNC wedi cynnal asesiad stoc afonydd unigol[428] o ran eogiaid a brithyllod y môr mewn prif afonydd er mwyn llunio'r is-ddeddfau arfaethedig; o'r asesiadau hynny, dosbarthwyd lefel statws (risg) afon ar sail afon unigol.

*Asesiadau Eogiaid*

660. Dangosodd yr asesiadau, heblaw am afon Wysg a dwy o'r afonydd trawsffiniol (nad ydynt yn ddarostyngedig i'r is-ddeddfau arfaethedig), fod yr holl afonydd wedi'u dosbarthu naill ai 'mewn perygl' neu 'mewn perygl yn ôl pob tebyg' o fethu â chyflawni eu targed rheoli erbyn 2021 o ran eogiaid; mae hyn yn dangos bod ganddynt stociau eogiaid anghynaliadwy. Cynhwyswyd afon Wysg yn yr is-ddeddfau arfaethedig yn bennaf o ganlyniad i'r gostyngiad amlwg yn nifer yr eogiaid ifanc a welwyd yn arolwg 2016 a phryderon ynglŷn â nifer y pysgod aeddfed a fyddai'n dychwelyd o'r carfanau hyn, a hefyd oherwydd bod y stoc wedi cyflawni statws 'heb fod mewn perygl yn ôl pob tebyg' o drwch blewyn yn unig; o ystyried y ffeithiau hyn, ystyrir bod yr ymagwedd ragofalus a ddefnyddiwyd gan CNC o ran cynnwys afon Wysg yn yr is-ddeddfau arfaethedig yn rhesymol ac yn gymesur.

661. Byddai'r is-ddeddfau arfaethedig hefyd yn berthnasol i nifer fach o afonydd eraill nad ydynt yn brif afonydd eogiaid. Mae CNC yn dweud bod rhai o'r afonydd hyn yn cynnal pysgota am eogiaid yn achlysurol iawn yn unig ac yn dadlau nad oes tystiolaeth i ddangos bod y pwysau ar stociau eogiaid yn wahanol yn yr afonydd hyn i'r prif afonydd, ac felly ei bod yn briodol eu cynnwys yn yr is-ddeddfau. Mae CNC yn derbyn y gallai cynnwys yr afonydd hyn nad ydynt yn brif afonydd yn yr is-ddeddfau arfaethedig roi'r argraff o ymagwedd gyffredinol, ond dadleuir y gellir cyfiawnhau hyn ar sail ragofalus a chan gydnabod bod yr afonydd hyn yn fach iawn ac yn cael eu defnyddio'n achlysurol yn unig. Heb unrhyw dystiolaeth o sylwedd i ddangos fel arall, mae'n debygol iawn bod stociau eogiaid yn yr afonydd hyn mewn cyflwr tebyg i'r rhan fwyaf o'r prif afonydd, felly cytunaf â CNC y dylai afonydd o'r fath gael eu cynnwys ar sail ragofalus.

*Asesiad Brithyllod y Môr*

[428] Cyfeiriwch at Dabl 12 CD APP/4, ac ID NRW/1R paragraffau 4.2-4.8

662. O ran brithyllod y môr, dangosodd yr asesiad cydymffurfio â CL ar afonydd unigol fod llawer o stociau yn y dosbarthiadau risg gwaethaf. Fodd bynnag, nid yw'r is-ddeddfau arfaethedig yn mynd mor bell â gosod y mesurau C&R llawn a gynigir ar gyfer eogiaid, gan gofio bod gan nifer o afonydd lefelau cynaliadwy o bysgod e.e. gallai unrhyw frithyllod y môr a ddelir ar yr afonydd hyn gael eu lladd o dan yr is-ddeddfau arfaethedig gan nad ydynt wedi'u dosbarthu 'mewn perygl' neu 'mewn perygl yn ôl pob tebyg'; felly, mae CNC wedi teilwra a thargedu mesurau'r is-ddeddfau arfaethedig yn seiliedig ar gyflwr afonydd o ran y rhywogaeth bysgod.

663. Yn gyffredinol, mae'n amlwg nad oedd CNC wedi mabwysiadu ymagwedd gyffredinol at gymhwyso'r is-ddeddfau arfaethedig. Yn hytrach, yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol o afonydd unigol, mae wedi llunio'r is-ddeddfau mewn modd cymesur ac wedi'i dargedu.

**Gwahaniaethau rhwng Cymru ac Awdurdodaethau Eraill**

664. Mae sawl gwrthwynebwr wedi awgrymu bod yr ymagwedd a ddefnyddiwyd gan CNC yn yr is-ddeddfau arfaethedig i fynd i'r afael â dirywiad stoc yn groes i'r ymagwedd a ddefnyddiwyd mewn awdurdodaethau eraill, e.e. bod ymagwedd yr EA at hyrwyddo C&R gwirfoddol ar gyfer eogiaid ar afonydd yn Lloegr yn mynd yn groes i natur orfodol yr is-ddeddfau arfaethedig hynny ar gyfer Cymru.

665. Nid wyf o'r farn y gellir gwneud cysylltiadau rhwng ymagwedd CNC yn yr is-ddeddfau arfaethedig ac ymagwedd asiantaethau cyfatebol mewn awdurdodaethau eraill, yn bennaf oherwydd y ffaith bod CNC yn gweithredu o dan gyd-destun deddfwriaethol a pholisi penodol sy'n wahanol i'r awdurdodaethau hynny. Mae'r cyd-destun hwn yn amgylchynu a llywio ymagwedd wahanol e.e. yn Lloegr, nid oes corff union gyfatebol sydd ag ystod mor eang o ddyletswyddau a swyddogaethau â CNC, ac nid oes deddfwriaeth yn Lloegr ychwaith sy'n gosod dyletswydd fioamrywiaeth ar yr EA sy'n golygu bod "*rhaid ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau trwy arfer ei holl swyddogaethau"*[429] Yn ogystal, fel yr eglurwyd gan Ms Jenkins[430], nid oes dyletswydd union gyfatebol ar yr EA, yn wahanol i CNC, i ystyried SMNR ar draws a rhwng ei holl swyddogaethau, ac i ddatrys gwrthdaro pan fydd yn digwydd.

666. Ni ellir cymharu ymagwedd CNC ag ymagwedd sefydliadau eraill yn uniongyrchol o ganlyniad i wahaniaethau mewn data sylfaenol[431] pob awdurdodaeth e.e. mae perfformiad stociau eogiaid, gan gynnwys, yn nodedig, statws pysgod ifanc o deulu'r eog, yn waeth yng Nghymru na Lloegr, ac nid yw'r EA wedi targedu brithyllod y môr ar gyfer dulliau rheoli ymyrrol yn Lloegr (mae rhai yn honni mai brithyllod y môr yw'r pwysicaf o'r ddwy rywogaeth gan eu bod yn drechaf ym mwyafrif y pysgodfeydd yng Nghymru[432]); mae hyn yn cyfiawnhau ymagwedd wahanol sy'n fwy rhagofalus ei natur.

667. Wrth lunio'r is-ddeddfau arfaethedig, ystyriodd CNC arweiniad rhyngwladol[433] e.e. Ymagwedd Ragofalus NASCO, rhaglenni adfer stoc NASCO, a Chanllawiau NASCO ar gyfer Rheoli Pysgodfeydd Eogiaid. Mae NASCO yn dweud: - "Ni ddylid caniatáu pysgota stociau

---

[429] Deddf 2016 adran 6 (1)

[430] Cyfeiriwch at ID NRW/5R paragraffau 5.4-5.6

[431] Er enghraifft, cyfeiriwch at ID NRW/1 paragraff 5.1 ac ID NRW/1R paragraffau 6 a 7

[432] Cyfeiriwch at CD ACC/21

[433] Cyfeiriwch at CD POL/11,12,14

sy'n is na CLs. Os penderfynir caniatáu pysgota stoc sydd islaw ei CL, ar sail ffactorau economaidd-gymdeithasol o'r pwys mwyaf, dylai pysgota gael ei gyfyngu'n eglur i lefel a fydd yn parhau i ganiatáu i'r stoc adfer o fewn graddfa amser ddatganedig."

668. Er nad yw canllawiau NASCO ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn rhwymedigaethau cyfreithiol, mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i reoli ei physgodfeydd yn unol ag arfer gorau rhyngwladol, a rhoddwyd Cyfarwyddyd Gweinidogol i'r EA ym 1998 yn mynnu ei bod yn sefydlu CLs (fel y'u diffiniwyd gan NASCO) ar gyfer ei holl stociau prif afonydd, yn asesu cydymffurfiaeth â'r CLs bob blwyddyn, ac yn cymryd camau rheoli fel y bo'n briodol; mae'r Cyfarwyddyd hwn, fel y trafodwyd yn flaenorol, yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

669. Mae'r gofynion ar gyfer tebygolrwydd cydymffurfio â CLs yn amrywio ar draws awdurdodaethau, lle mae'n ofynnol i stociau gyflawni rhwng 75 a 150% o'u CL dros gyfnodau amrywiol. Mae awdurdodaethau eraill yn defnyddio strwythurau penderfynu sy'n neilltuo stociau i gategorïau statws cadwraeth ac sy'n pennu'r ymateb rheoli perthnasol. Mae tair awdurdodaeth arall yn hysbysebu asesiadau a mesurau is-ddeddfau arfaethedig diwygiedig bob blwyddyn (gogledd a de Iwerddon, a'r Alban); mae CNC a'r EA yn bwriadu gwneud hyn pan fydd dulliau priodol wedi cael eu datblygu. Yng Nghymru (a Lloegr), mae'r prif gyfyngiad ar gyflwyno system flynyddol o asesu/rheoli yn un cyfreithiol (sy'n gysylltiedig â'r cyfnod y mae'n rhaid ymgynghori ar gynigion is-ddeddfau newydd), yn hytrach na chyfyngiad sy'n ymwneud â'r broses asesu stoc, fel y dadleuwyd gan rai; sut bynnag, bydd stociau yng Nghymru yn parhau i gael eu hasesu'n flynyddol i gyflawni rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

670. Mae CLs yn gweithredu fel cyfeirbwynt 'terfyn'; hynny yw, bydd gostyngiadau pellach yn nifer yr hwyfellod islaw'r terfyn yn debygol o arwain at ostyngiad sylweddol o ran cynhyrchu gleisiaid. Mae'n amlwg bod CLs gwahanol mewn awdurdodaethau cyfagos yn arwain at ddefnyddio ymagweddau gwahanol at ddiogelu stociau pysgod bregus e.e. ystyrir bod stociau eogiaid yng Ngogledd Iwerddon sydd â thebygolrwydd cyfartalog o 125% o leiaf o gyflawni eu CL yn ystod tair o'r pum mlynedd fwyaf diweddar wedi cyrraedd capasiti atgenhedlu llawn a bod rhai dros ben y gellir eu cywain trwy bysgota. Mewn cyferbyniad, ystyrir bod stociau yn yr Alban sydd â thebygolrwydd cyfartalog o lai na 60% o gyflawni eu CL yn ystod cyfnod pum mlynedd yn cael eu hymelwa'n anghynaliadwy a bydd pysgota C&R gorfodol yn ofynnol am flwyddyn. Fodd bynnag, yng Ngweriniaeth Iwerddon yn 2019, bydd 29%[434] o afonydd ar agor i bysgota fel arfer gan fod pysgod dros ben (sy'n rhagori ar y targed rheoli) wedi cael eu hamlygu, mae 29% o afonydd wedi cael eu dosbarthu'n rhai sydd ar agor ar gyfer genweirio C&R yn unig, a bydd 42% o afonydd ar gau i enweirio am eogiaid gan nad oes pysgod dros ben ar gael ynddynt i'w cywain. Mae'r holl ffeithiau hyn yn atgyfnerthu a chyfiawnhau bod yr ymagwedd a ddefnyddiwyd gan CNC yn yr is-ddeddfau arfaethedig, ni waeth beth mae awdurdodaethau eraill yn ei wneud, wedi'i seilio ar gefndir deddfwriaethol penodol Cymru a gwahaniaethau mewn data sylfaenol.

**Ymagwedd CNC at Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

[434] Cyfeiriwch at ID NRW/1R paragraff 7.6

671. Mynegodd gwrthwynebwyr bryderon nad oedd CNC wedi ymgynghori â rhanddeiliaid[435] wrth lunio'r is-ddeddfau arfaethedig, tra bod eraill o'r farn bod eu safbwyntiau wedi cael eu hanwybyddu a bod y canlyniad yn *fait accompli*.

672. Does dim dwywaith bod CNC wedi cynnal proses ymgynghori ffurfiol sylweddol[436] wrth i'r is-ddeddfau arfaethedig gael eu datblygu. Roedd y broses honno'n cynnwys ymgysylltu â'r gymuned enweirio trwy fynychu cyfarfodydd â 'Grwpiau Pysgodfeydd Lleol'. Yn ogystal, cynhaliodd CNC gyfnod ymgynghori cyhoeddus tri mis, pryd y cynhaliodd 10 cyfarfod lleol. Adolygodd a dadansoddodd CNC yr ymatebion ymgynghori a gwnaeth sawl diwygiad i'r is-ddeddfau arfaethedig yn seiliedig ar yr ymatebion hynny e.e. diwygiad i ganiatáu pysgota â berdys a chorgimychiaid (gyda rheolaethau ar fachau) o 1 Medi; gwnaed y newid hwn yn dilyn cyngor a gafwyd ar fachu nodweddiadol yn y geg, ac er mwyn mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynglŷn â genweirwyr anabl ac oedrannus, ac mae'n enghraifft o'r ymagwedd gymesur a ddefnyddir yn yr is-ddeddfau arfaethedig.

673. Gwrthododd CNC awgrymiadau ar gyfer rheolaethau llymach e.e. awgrymodd Afonydd Cymru waharddiad llwyr ar ddefnyddio mwydod fel abwyd. Roedd CNC o'r farn bod yr awgrym hwn yn ormodol pan fo stociau brithyllod y môr cynaliadwy ar gael, ac oherwydd y gallai gwaharddiad o'r fath ar abwyd gael effaith wahaniaethol ar y genweirwyr hynny nad ydynt yn gallu arfer technegau pysgota eraill mor rhwydd. Mae hyn yn dangos ymagwedd gymesur at lunio'r is-ddeddfau arfaethedig.

674. Felly, mae'n amlwg bod CNC wedi ymwneud â phroses ymgynghori drylwyr â phartïon â buddiant, ac er nad oedd yn cytuno â'r partïon hynny ym mhob achos, ceisiodd CNC ddiwygio'r is-ddeddfau arfaethedig yn unol ag awgrymiadau a wnaed, lle'r oedd cyfiawnhad dros hynny.

**Tegwch rhwng Rhanddeiliaid**

675. Mae gwrthwynebwyr, yn enweirwyr ac yn rhwydwyr, yn dadlau nad yw'r is-ddeddfau arfaethedig yn deg. Mae genweirwyr yn dadlau eu bod yn lladd llai o bysgod o lawer am fudd economaidd mwy, ac eto y bydd yr is-ddeddfau arfaethedig yn caniatáu i rwydwyr barhau i ladd pysgod. Mae rhwydwyr yn honni ei bod yn annheg i'w tymor pysgota â rhwydi presennol gael ei leihau trwy ddileu mis Ebrill, gan y bydd pysgotwyr â gwialen yn gallu parhau i bysgota am frithyllod y môr, a hynny am gyfnod hwy o lawer.

676. Yn y pen draw, mae'r ddwy set o is-ddeddfau arfaethedig yn ymwneud â'r angen i reoleiddio cymryd pysgod at ddibenion cadwraeth fel bod stociau'n gallu dychwelyd i lefelau cynaliadwy. Er gwaethaf y gwrthwynebiadau a wnaed, mae digon o dystiolaeth i ddangos bod CNC wedi ceisio sicrhau rhywfaint o degwch rhwng y pysgodfeydd wrth fodloni'r gofyniad cadwraeth trwy'r is-ddeddfau arfaethedig. Cyflawnir hyn mewn sawl ffordd, fel y ffaith bod cyfleoedd pysgota ar gyfer y ddau wedi cael eu cadw e.e. byddai pysgotwyr â gwialen yn gallu parhau i bysgota, er hynny gyda rhai cyfyngiadau ar ddulliau ar waith, a gall pysgota â rhwydi barhau, er hynny gydag addasiad i'r tymor i warchod y brithyllod môr mwy o faint a mwy ffrwythlon, ar yr un pryd â gwarchod pysgota treftadaeth, a byddai'n ofynnol i'r ddau grŵp ryddhau'r holl eogiaid a ddelir. Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae'r ymagweddau hyn yn gyfiawn ac yn gymesur.

[435] Er enghraifft, gweler sylwadau Mr Harries yn ID IH/INQ/1

[436] Cyfeiriwch at CD APP/8.1-9, 12.1-12.47 a 41-43.9

677. Mae hefyd yn werth nodi bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn osgoi cau unrhyw bysgodfeydd rhwydi, fel sydd wedi digwydd yn Lloegr a'r Alban, neu gau rhai afonydd yn llwyr rhag pysgota am eogiaid, fel sydd wedi digwydd yn Iwerddon; mae hyn yn dangos ymateb cymesur i'r nod o warchod stociau sydd wedi disbyddu'n ddifrifol.

**Silfeydd**

678. Cyfeiriodd gwrthwynebwyr at ailgyflwyno silfeydd pysgod yng Nghymru fel modd o adfer stociau afonydd yn lle'r is-ddeddfau arfaethedig neu'n ategol iddynt.

679. Cyfeiriodd y TC at adolygiad technegol ac ymgynghoriad cyhoeddus ar wahân a gynhaliwyd gan CNC yn 2014 a ddaeth i'r casgliad na fyddai'n stocio[437] eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru, nac yn caniatáu i hynny gael ei wneud. Daeth yr adolygiad i'r casgliad:

- Bod adnodd cynyddol o gyhoeddiadau a thystiolaeth newydd i gyfiawnhau bod stocio eogiaid a brithyllod y môr yn achosi bygythiad i boblogaethau gwyllt;
- Y gallai stocio fod yn niweidiol i boblogaethau lleol, gan fod tynnu pysgod aeddfed o'r gwyllt i'w defnyddio fel mag stoc silfa yn disbyddu'r adnodd hwyfellod gwyllt posibl, gan arwain at ddisbyddu'r adnodd pysgod ifanc ffit ac wedi'u haddasu;
- Bod stocio'n peryglu cynnal poblogaethau lleol a'u haddasiadau i amodau'r presennol a'r dyfodol, oherwydd bod pysgod aeddfed mewn silfeydd yn cael eu dewis ar gyfer croesiadau paru na fyddent yn digwydd fel arall yn y gwyllt, gan arwain at y posibilrwydd o golli ffitrwydd ac addasiadau penodol; a,
- Bod y cyfraniad at silio gwyllt gan bysgod aeddfed sy'n deillio o silfa yn cynrychioli risg debyg i ffitrwydd y boblogaeth, a bod rhaid i CNC reoli pysgod mudol o deulu'r eog yng Nghymru ar sail yr egwyddor o warchod cynaliadwyedd a chynhyrchedd stociau eogiaid a brithyllod y môr gwyllt trwy reolaeth wyddonol arfer gorau a'r ymagwedd ecosystem, a'i bod yn amlwg bod hwn yn safbwynt polisi sy'n dod i'r amlwg yn nifer o wledydd Gogledd yr Iwerydd.

680. Arweiniodd adolygiad 2014 at roi terfyn ar yr holl stocio eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru, heblaw mewn rhai amgylchiadau eithriadol iawn e.e. ymchwil wedi'i thargedu. Yn gyffredinol, mae'r ymagwedd hon yn cyd-fynd â safbwyntiau dau gorff cadwraeth eogiaid blaenllaw, sef NASCO ac IUCN[438]. Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynglŷn â gwaharddiad 2014 ar stocio, cynhaliodd CNC weithdy yn 2015 i drafod y mater ymhellach. Mynychwyd y gweithdy gan ddau academydd blaenllaw yn y maes, a daethant i'r casgliad:

- Nad yw stocio'n cynyddu dalfeydd nac yn gwarchod poblogaethau;
- Nad yw afonydd sydd heb eu stocio mewn sefyllfa waeth;
- Bod risgiau cynhenid yn gysylltiedig â stocio;
- Bod cydnerthedd a ffitrwydd y stoc ("y gallu i drosglwyddo genynnau i'r genhedlaeth nesaf") yn ystyriaethau pwysig;

[437] Hynny yw, rhyddhau pysgod yn fwriadol i ecosystem

[438] Cyfeiriwch at baragraff 9.40 ID NRW/1

- Nad yw CNC ar ei ben ei hun wrth gredu hyn a bod stocio'n cael ei atal mewn nifer o achosion eraill;
- Bod silfeydd yn niweidiol; a,
- Bod cyfle i greu brand trwy ddweud bod ein holl stociau a physgodfeydd yng Nghymru yn 'naturiol'.

681. Er gwaethaf cyfeiriad at ddefnydd hanesyddol o silfeydd yn y gorffennol yng Nghymru a thu hwnt, roedd prinder tystiolaeth dechnegol o sylwedd gan wrthwynebwyr i wrth-ddweud y dystiolaeth dechnegol ddiweddaraf a ddarparwyd gan CNC yn erbyn ailgyflwyno silfeydd pysgod yng Nghymru. Er bod awdurdodaethau cyfagos yn defnyddio silfeydd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod consensws cynyddol nad silfeydd yw'r ateb i niferoedd stoc sy'n gostwng tra bod stoc wyllt hyfyw ar gael o hyd.

**Ystyriaethau Eraill**

682. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig wedi cael eu gosod am gyfnod o 10 mlynedd i warchod 2-3 cenhedlaeth o bysgod. Roedd nifer o wrthwynebwyr i'r is-ddeddfau arfaethedig o'r farn bod cyfnod gweithredu'r is-ddeddfau arfaethedig a'r adolygiad interim 5 mlynedd yn rhy hir. Mae 10 mlynedd yn gyfnod rhesymol, wedi'i gyfyngu i raddfa amser sy'n caniatáu i ddwy genhedlaeth o bysgod o leiaf fyw trwy'r mesurau. Bydd yr adolygiad interim 5 mlynedd yn rhoi cyfnod lleiaf o un genhedlaeth o bysgod i'r mesurau ddod i rym; mae hyn yn rhesymol. Byddai canlyniadau'r adolygiad yn pennu cwmpas i addasu tymor y rheolaethau arfaethedig ar bysgota.

683. Awgrymodd nifer o drydydd partïon ddefnyddio terfynau bag neu dagiau carcas yn lle'r is-ddeddfau arfaethedig. Fodd bynnag, fel y dywedodd CNC, ni fyddai'r rhain yn briodol pan nad yw stociau pysgod yn gallu cynnal lefelau ymelwa (fel sy'n wir ar hyn o bryd). Nid oedd tystiolaeth gymhellol fod terfynau bag neu dagiau carcas, na mesurau eraill fel defnyddio silfeydd, yn ddewisiadau amgen priodol i'r is-ddeddfau arfaethedig.

684. Heriodd nifer o wrthwynebwyr y sail gyfreithiol a ddefnyddiwyd i symud yr is-ddeddfau arfaethedig ymlaen. Mae'r offerynnau cyfreithiol perthnasol wedi'u hamlinellu yn nogfen graidd APP/3 yr Ymchwiliad. Rwyf yn fodlon bod yr is-ddeddfau wedi cael eu symud ymlaen ar sail gyfreithiol gadarn ac yn unol ag egwyddorion cyfiawnder naturiol, a bod yr holl bartïon â buddiant wedi cael cyfle i gyflwyno eu hachos.

685. Cyfeiriwyd at gyfraith achosion[439] o ran cymesuroldeb yr is-ddeddfau arfaethedig. Roedd ffeithiau'r achos hwn yn ymwneud ag ystyried effeithiau ariannol cyfyngiad penodol ar bysgota ar unigolyn a enwyd a ph'un a oedd ymagwedd gymesur wedi cael ei defnyddio yn seiliedig ar ffeithiau penodol yr achos. Dyfarnodd y Llys, yn absenoldeb unrhyw iawndal i'r unigolyn, bod difrifoldeb y baich a osodwyd arno o ganlyniad i'r cyfyngiad ar bysgota yn anghymesur. Dyfarnodd y Llys nad oedd y corff llywodraethu (Asiantaeth yr Amgylchedd) wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'r effaith ar yr unigolyn dan sylw, yn wahanol i CNC, sydd wedi asesu effeithiau'r is-ddeddfau arfaethedig ar y rhai y maent yn debygol o effeithio arnynt mewn modd cymesur.

686. Mae hefyd yn werth nodi bod y dyfarniad yn pwysleisio mai achos eithriadol oedd hwn yn seiliedig ar y ffeithiau o gymharu ag eraill a "bod gan awdurdodau cenedlaethol gryn

[439] Mott v Asiantaeth yr Amgylchedd [2016] EWCA Civ 564

ddisgresiwn wrth osod rheolaethau amgylcheddol angenrheidiol….. ac, at hynny, lle mae'r awdurdodau wedi rhoi ystyriaeth briodol i faterion cydbwysedd teg (yn wahanol i'r achos hwn), dylai'r llysoedd roi pwys i'w hasesiad".

687. Roedd nifer o wrthwynebwyr, fel Mr Woodford, o'r farn bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn mynd yn groes i Ddeddf 2015[440] oherwydd ystyriwyd eu bod yn fygythiad arwyddocaol i faterion fel ffyniant economaidd, gwerthoedd cymdeithasol-ddiwylliannol, gwerthoedd amwynder, ac iechyd pobl sy'n byw yng Nghymru.

688. Mae Deddf 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus fel CNC i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â datblygu cynaliadwy, a'i nod yw cyflawni'r saith nod llesiant. Mae Deddf 2015 yn datgan bod rhaid i gorff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion llesiant a gynlluniwyd i gynyddu ei gyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant i'r eithaf, a thrwy gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

689. Dywedodd Ms Jenkins, ar ran NRW, mewn tystiolaeth lafar nad oes rhaid i CNC geisio cyflawni pob nod llesiant, fel y'u rhagwelir yn Neddf 2015, wrth arfer ei ddyletswydd a chyflawni ei ddiben cyffredinol. Fodd bynnag, dywedodd, yn gyffredinol, fod yr is-ddeddfau arfaethedig wedi ystyried y nodau llesiant a amlinellir yn Neddf 2015 mewn nifer o ffyrdd e.e. byddant yn cefnogi Cymru fwy cyfartal trwy degwch rhwng genweirwyr a rhwydwyr, ac yn cefnogi diwylliant Cymru trwy ddiogelu rhan arwyddocaol iawn o ddiwylliant naturiol Cymru, sef eogiaid. Rwyf yn fodlon bod CNC wedi asesu'r is-ddeddfau arfaethedig mewn modd rhesymol yng ngoleuni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf 2015, ac felly bod yr is-ddeddfau yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'i hymgorffori yn y Ddeddf, trwy eu cyfraniad at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru a amlinellir fel sy'n ofynnol gan adran 8 Deddf 2015.

690. Yn ogystal, cyfeiriodd nifer o wrthwynebwyr at faterion eraill sy'n effeithio ar y stoc bysgod, fel dal eogiaid ymhell ar y môr. Fodd bynnag, nid yw cwmpas yr Ymchwiliad hwn yn ymestyn i fynd i'r afael â materion sydd y tu allan i awdurdodaeth Cymru.

## Casgliadau Cyffredinol

691. Amlygais ar ddechrau'r Ymchwiliad mai'r prif fater i'w ystyried yw p'un a yw'r mesurau a gynigir o dan Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 ac Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn rhesymol o ystyried stociau pysgod ledled Cymru.

692. Roedd trydydd partïon yn amau ac yn gwrthwynebu methodoleg a dibynadwyedd y data sylfaenol a'r dadansoddiad ystadegol y dibynnodd CNC arnynt i gyfiawnhau'r ymagwedd a argymhellir yn yr is-ddeddfau arfaethedig, yn ogystal â'r dehongliad ohonynt.

693. Yn fyr, mae'r dystiolaeth ystadegol honno'n dangos dirywiad graddol mewn stociau eogiaid a brithyllod y môr yn ystod y 40 mlynedd diwethaf a bod stociau wedi cyrraedd y lefel isaf a gofnodwyd erioed yn awr (eogiaid) neu'n agos ati (brithyllod y môr). Yn ogystal, ystyrir bod mwyafrif helaeth y stociau eogiaid naill ai 'mewn perygl' neu 'mewn perygl yn ôl pob tebyg' yn dilyn asesiad o gydymffurfiaeth â therfyn cadwraeth, tra bod terfynau cadwraeth

[440] CD LEG/23, gweler hefyd CD POL/19

brithyllod y môr yn dangos bod llawer o stociau yn y dosbarthiadau gwaethaf (dangosodd y ffigurau wedi'u diweddaru ar gyfer 2017 a ddarparwyd i'r Ymchwiliad na fu llawer o newid cadarnhaol yn unrhyw rai o'r stociau, ac yn hytrach bod statws stociau brithyllod y môr wedi dirywio mewn nifer o afonydd). Yn gyffredinol, mae'r sylfaen dystiolaeth yn dangos bod mwyafrif y stociau eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru yn anghynaliadwy.

694. Cydnabyddaf y bydd ansicrwydd o hyd mewn unrhyw broses fel asesu stociau pysgod, a'r dadansoddiad ystadegol cysylltiedig. Nid yw unrhyw system dadansoddi ystadegol yn berffaith. Er gwaethaf beirniadaethau gan rai pobl, ystyriaf fod y sylfaen dystiolaeth ystadegol a gyflwynwyd gan CNC yn ddigon gwrthrychol a chadarn i allu dibynnu arni. Fodd bynnag, hyd yn oed pe byddai gennyf rai amheuon ynglŷn ag elfennau o ddadansoddiad ystadegol CNC, deuaf i'r casgliad bod y dystiolaeth gyffredinol yn ddarbwyllol, yn enwedig yng ngoleuni'r ymagwedd ragofalus a hyrwyddir mewn cyfraith genedlaethol a chyfarwyddebau/rhwymedigaethau rhyngwladol.

695. Roedd datrysiad yr is-ddeddfau arfaethedig i'r dirywiad mewn stociau pysgod yn cynnwys C&R gorfodol, cyfyngiadau ar ddulliau, gwaharddiadau/cyfyngiadau ar abwyd, terfyn slot, a chyfyngiadau tymhorol. Nid oedd unrhyw ddadleuon argyhoeddiadol nad oedd y gyfres o fesurau a gynhwysir yn yr is-ddeddfau arfaethedig yn briodol, yn rhesymol ac yn gymesur.

696. Er y gallai'r cyfyngiadau a osodir gan y mesurau arfaethedig atal rhai genweirwyr rhag cymryd rhan, nid oes tystiolaeth argyhoeddiadol y byddai hyn yn digwydd ar raddfa arwyddocaol. Yn wir, cyfeiriodd gwrthwynebwr, sef Mr Renwick, sy'n enweiriwr brwd, at y ffaith na fyddai ef ei hun yn rhoi'r gorau i enweirio. Yn hytrach, tybiai mai genweirwyr achlysurol a fyddai'n cael eu hatal o ganlyniad i fesurau fel C&R. O ran C&R yn benodol, yn ôl pob tebyg, ni fydd gwahaniaeth o bwys i weithgareddau mwyafrif y genweirwyr a'r rhwydwyr sy'n arfer C&R yn wirfoddol.

697. Dylid nodi y byddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn effeithio ar oddeutu 15% o enweirwyr yn unig, ac na fyddent yn cael eu hatal rhag pysgota; mae'r pwynt hwn yn un arwyddocaol iawn. Byddai genweirwyr a rhwydwyr yn gallu parhau i bysgota am eogiaid a brithyllod y môr, yn ogystal â rhywogaethau eraill o bysgod. Ni fyddai'r is-ddeddfau arfaethedig yn effeithio ar fwyafrif helaeth y genweirwyr, sy'n pysgota am rywogaethau eraill.

698. Mae CNC yn derbyn bod amrywiaeth o ffactorau'n cyfrannu at ddirywiad eogiaid a brithyllod y môr ac yn cydnabod nad genweirwyr sy'n bennaf gyfrifol. Fodd bynnag, oherwydd bod stociau wedi disbyddu mor ddifrifol, mae lladd pysgod yn anghynaliadwy ac yn cyfrannu at y broblem. Felly, mae'n rhesymol i enweirwyr a rhwydwyr gyfrannu at y datrysiad.

699. Yn arwyddocaol, mae'r is-ddeddfau arfaethedig am gyfnod cyfyngedig a byddant yn cynnwys cyfnod adolygu 5 mlynedd i ganiatáu ar gyfer ystyried cyflwr stociau pysgod a'r gallu i weithredu yn unol â hynny; mae hyn yn elfen arwyddocaol o'u saernïaeth.

700. Mae datrysiad CNC i broblem stociau pysgod sy'n dirywio, yn ogystal â'r is-ddeddfau arfaethedig, hefyd yn cynnwys ystod eang o fesurau eraill i fynd i'r afael ag achosion cymhleth y broblem hon. Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn elfen annatod o'r gyfres honno fesurau gan y byddent yn gwarchod adnoddau bridio hollbwysig tra bod bygythiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol eraill i bysgod a'u cynefinoedd yn derbyn sylw. Cododd gwrthwynebwyr amheuon ynglŷn â diffuantrwydd CNC a phartneriaid eraill i weithredu'r mesurau eraill cyflenwol hyn. Nid oes tystiolaeth o sylwedd i gredu na fyddai CNC yn cymryd camau pendant i weithredu'r ystod o fesurau eraill a drafodwyd yn flaenorol, o

ystyried ei ddyletswyddau o dan y fframwaith statudol; yn wir, mae nifer helaeth eisoes yn cael eu gweithredu.

701. Wrth lunio'r is-ddeddfau arfaethedig, ystyriodd CNC nifer o ffactorau cyn cyflwyno fersiwn derfynol i LlC, fel cyfyngiadau amgen/llai beichus, effeithiau economaidd-gymdeithasol, effeithiau ar gydraddoldeb, a materion yn ymwneud â thegwch; ystyriwyd y materion hyn a materion eraill mewn modd cyfiawnadwy, pwyllog a rhesymol.

702. Yn gyffredinol, ystyriaf fod yr is-ddeddfau arfaethedig yn ymateb pwyllog i stociau pysgod sy'n dirywio yng Nghymru; yn unol â hynny, maen nhw'n angenrheidiol, yn gymesur ac yn rhesymol o ystyried stociau eogiaid a brithyllod y môr ledled Cymru.

**Argymhelliad**

703. Argymhellaf:

- fod IS-DDEDDFAU GWIALEN A LEIN (EOGIAID A BRITHYLLOD Y MÔR) CYMRU fel y'u hamlinellir yn Nogfen Graidd Cyf. APP/53, fel y'u haddaswyd gan Ddogfen Ymchwiliad Cyf. NRW/INQ/17, yn cael eu cadarnhau; a,
- bod IS-DDEDDFAU PYSGOTA Â RHWYDI (EOGIAID A BRITHYLLOD Y MÔR) CYMRU fel y'u hamlinellir yn Nogfen Graidd Cyf. APP/52, yn cael eu cadarnhau.

*Declan K Beggan*

Arolygydd

# ATODIAD A – Yn bresennol

AR RAN CNC:

| | |
|---|---|
| Richard Wald | Cyfarwyddwyd gan Bircham Dyson Bell LLP ar ran CNC |
| Cynorthwywyd gan Gethin Thomas | |
| Galwodd: | |
| Ruth Jenkins | Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol |
| Ian Davidson | Uwch Gynghorydd Technegol ar Bysgod o Deulu'r Eog |
| Peter Gough | Prif Gynghorydd Pysgodfeydd |
| Robert Vaughan | Rheolwr Ffermio Tir a Rheoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy |
| Ian Russell | Gwyddonydd Pysgodfeydd ar gyfer Cefas |
| Jonathan Barry | Ystadegydd ar gyfer Cefas |

PARTÏON Â BUDDIANT:

| | |
|---|---|
| Chris White | Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru |
| John Eardley | Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru |
| Mike Ashwin | Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru |
| Rueben Woodford | Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru a Chymdeithas Genweirio Dyffryn Ogwen/Clwb Pysgota Penrhyn |
| Mark Lloyd | Yr Ymddiriedolaeth Genweirio |
| Mark Frey | Rhinwedd bersonol |
| Karl Humphries | Cymdeithas Genweirio'r Tywysog Albert |
| Richard Garner Williams | Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod y Môr Cymru |
| Dr Marsh-Smith | Afonydd Cymru |
| Creighton Harvey | Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin a Chymdeithas Genweirwyr Amatur Abertawe |
| Emyr Lewis | Clwb Genweirio Llanbrynmair |

| | |
|---|---|
| Peter Gerald John | Clwb Genweirio Abergwili ac mewn rhinwedd bersonol |
| Noel Hulmston | Rhinwedd bersonol |
| Andrew Renwick | Rhinwedd bersonol |
| Dr Guy Mawle | Rhinwedd bersonol |
| Andy Nicholson | Cymdeithas Genweirio Dyfi Newydd ac mewn rhinwedd bersonol |
| Y Parchedig Paul Cawthorne | Rhinwedd bersonol |
| Victor Bonutto | Rhinwedd bersonol |
| Geoff Rothwell | Rhinwedd bersonol |
| Andrew Davies | Cymdeithas Cwrwglwyr a Rhwydwyr Caerfyrddin |
| Peter Dalton | Rhinwedd bersonol |
| Len Walters | Rhinwedd bersonol |
| Malcolm Rees | Rhinwedd bersonol |
| Ian Harries | Rhinwedd bersonol |

# ATODIAD B – RHESTR DOGFENNAU CRAIDD (Rhestr CD)

*Mae dogfennau sydd â'r symbol * wrth eu hymyl ar ffurf copi caled yn unig*

| | |
|---|---|
| **Cyfres APP – Cais CNC i Lywodraeth Cymru** | |
| APP/1 | Llythyr Cyfoeth Naturiol Cymru at Lywodraeth Cymru dyddiedig 20 Chwefror 2018 |
| APP/2 | Datganiad Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi'r cyflwyniad dyddiedig 13 Chwefror 2018 |
| **Atodiad 1 – Achos Cadwraeth Manwl dros yr Is-ddeddfau** | |
| APP/3 | Crynodeb gweithredol |
| APP/4 | Achos Technegol ac Atodiadau |
| APP/4.1 | Atodiad 1 – Prif afonydd eogiaid |
| APP/4.2 | Atodiad 2 – Prif afonydd brithyllod y môr yng Nghymru |
| APP/4.3 | Atodiad 3 – Dalfeydd gwialen a rhwyd; a data am eogiaid a brithyllod ifanc |
| APP/4.4 | Atodiad 4 – System rheoli stoc eogiaid |
| APP/4.5 | Atodiad 5 – Asesiad stoc (recriwtio stoc (SR)) brithyllod y môr |
| APP/4.6 | Atodiad 6 – NLO 'Cymru Gyfan' 2009 |
| APP/4.7 | Atodiad 7 – Crynodeb o rai is-ddeddfau sy'n berthnasol i bysgodfeydd gwialen eogiaid yng Nghymru |
| APP/4.8 | Atodiad 8 – Rheolaeth mewn Awdurdodaethau Eraill |
| APP/5 | Cwestiynau Cyffredin |
| **Atodiad 2 – Cofnod o Ymgynghori Anffurfiol** | |
| APP/6 | Gwybodaeth i holl ACau ac ASau Cymru dyddiedig 14 Chwefror 2017 |
| APP/7 | Adroddiad holiadur |
| APP/8.1 | Cofnodion Cyfarfod Grŵp Pysgodfa Leol (LFG) – Gwy 03 Mai 17 |
| APP/8.2 | Cofnodion Cyfarfod Grŵp Pysgodfa Leol (LFG) – LFG Gorllewin Cymru 25 Mai 16 |
| APP/8.3 | Cofnodion Cyfarfod Grŵp Pysgodfa Leol (LFG) – LFG Taf 24 Ebrill 2017 |
| APP/8.4 | Cofnodion Cyfarfod Grŵp Pysgodfa Leol (LFG) - De Ceredigion 02 Mai 17 |
| APP/8.5 | Cofnodion Cyfarfod Grŵp Pysgodfa Leol (LFG) - Gogledd Ceredigion 04 Mai 17 |
| APP/8.6 | Cofnodion Cyfarfod Grŵp Pysgodfa Leol (LFG) - LFG Wysg 10 Mai 2017 |
| APP/8.7 | Cofnodion Cyfarfod Grŵp Pysgodfa Leol (LFG) - LFAG Gwynedd 3 Mai 2017 |
| APP/8.8 | Cofnodion Cyfarfod Grŵp Pysgodfa Leol (LFG) – Dyfrdwy a Chlwyd 5 Mai 2017 |
| APP/8.9 | Cofnodion Cyfarfod Grŵp Pysgodfa Leol (LFG) – Gŵyr Mai 2017 |
| APP/9 | Sesiynau Briffio LFG |
| APP/10.1 | Perfformiad stoc brithyllod y môr yng Nghymru 2016 1 Saesneg |
| APP/10.2 | Perfformiad stoc brithyllod y môr yng Nghymru 2016 gan gynnwys ffug-ffigurau SR |
| APP/10.3 | Perfformiad stoc brithyllod y môr yng Nghymru 2016 gan gynnwys ffug-ffigurau SR |
| APP/11 | Enghraifft o gyflwyniad i LFG |

| | |
|---|---|
| APP/12.1 | Nodiadau a chofnodion o LFG - Ceredigion 22 Mehefin 2016 |
| APP/12.2 | Nodiadau a chofnodion o LFG – Nodiadau drafft LFG Gŵyr Hydref 2017 |
| APP/12.3 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gŵyr Mai 2016 |
| APP/12.4 | Nodiadau a chofnodion o LFG – Nodiadau LFG Gŵyr Mai 2017 |

| | |
|---|---|
| APP/12.5 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG ar y Cyd Coed y Brenin 24 Tachwedd 15 |
| APP/12.6 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Wysg 14 Ebrill 2015 |
| APP/12.7 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Wysg 23 Tachwedd 2016 |
| APP/12.8 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Wysg 25 Mai 2016 |
| APP/12.9 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Dyfrdwy a Chlwyd 18 Gorffennaf 2017 |
| APP/12.10 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Gwynedd 12 Gorffennaf 2017 |
| APP/12.11 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Gwynedd 10 Mehefin 2015 |
| APP/12.12 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Dyfrdwy a Chlwyd 9 Mehefin 2015 |
| APP/12.13 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Dyfrdwy a Chlwyd 14 Mehefin 2016 |
| APP/12.14 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Gwynedd 15 Mehefin 2016 |
| APP/12.15 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Dyfrdwy a Chlwyd 8 Mawrth 2016 |
| APP/12.16 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Gwynedd 9 Mawrth 2016 |
| APP/12.17 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Dyfrdwy a Chlwyd 5 Mai 2017 |
| APP/12.18 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Gwynedd 3 Mai 2017 |
| APP/12.19 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Wysg 10 Mai 2017 |
| APP/12.20 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Wysg 16 Tachwedd 2015 |
| APP/12.21 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Dyfrdwy a Chlwyd 29 Tachwedd 2016 |
| APP/12.22 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Gwynedd 30 Tachwedd 2016 |
| APP/12.23 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Dyfrdwy a Chlwyd 3 Hydref 2017 |
| APP/12.24 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Gwynedd Hydref 2017 |
| APP/12.25 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Wysg 18 Hydref 2017 |
| APP/12.26 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Dyfrdwy a Chlwyd Medi 2015 |
| APP/12.27 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Dyfrdwy a Chlwyd 8 Medi 2015 |
| APP/12.28 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFAG Gwynedd 9 Medi 2015 |
| APP/12.29 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gogledd Ceredigion 16 Tachwedd 2017 |
| APP/12.30 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gogledd Ceredigion 4 Mai 2017 |
| APP/12.31 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gogledd Ceredigion 23 Tachwedd 2016 |
| APP/12.32 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG De Ceredigion 2 Mai 2017 |
| APP/12.33 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG De Ceredigion 15 Tachwedd 2017 |
| APP/12.34 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG De Ceredigion 22 Tachwedd 2016 |
| APP/12.35 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Taf 13 Ebrill 2015 |
| APP/12.36 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Taf 21 Tachwedd 2016 |
| APP/12.37 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Taf Hydref 2017 |
| APP/12.38 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Taf 16 Mai 2016 |

| | |
|---|---|
| APP/12.39 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gorllewin Cymru 25 Mai 2016 |
| APP/12.40 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gorllewin Cymru 24 Hydref 2017 |
| APP/12.41 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gwy 10 Ebrill 2015 |
| APP/12.42 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gwy 15 Tachwedd 2015 |
| APP/12.43 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gorllewin Cymru 9 Mai 2017 |
| APP/12.44 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gwy 27 Mai 2017 |
| APP/12.45 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gwy 4 Mai 2017 |
| APP/12.46 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gwy 25 Tachwedd 2016 |
| APP/12.47 | Nodiadau a chofnodion o LFG – LFG Gwy 24 Tachwedd 2017 |
| APP/13 | Datganiadau i'r wasg sy'n annog Dal a Rhyddhau gwirfoddol 2017, 2016, 2015, 2014x 2: Cofnod o Ymgynghori Anffurfiol |
| **Atodiad 3 – Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | |
| APP/14.1 | Ymatebion ymgynghori i HRA is-ddeddfau gwialen a lein afonydd Cymru a HRA is-ddeddfau pysgota â rhwydi Cymru gan y tîm Asesu Strategol |

| | |
|---|---|
| APP/14.2 | Ymatebion ymgynghori i HRA is-ddeddfau gwialen a lein afonydd Cymru a HRA is-ddeddfau pysgota â rhwydi Cymru gan y tîm Asesu Strategol |
| APP/15 | HRA – Cynigion ar gyfer rheolaethau newydd ar bysgota â gwialen Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 |
| APP/16 | HRA – Cynigion ar gyfer rheolaethau newydd ar bysgota Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 |
| **Atodiad 4 – Cofnod o Gymeradwyaeth gan Fwrdd CNC i Hysbysebu'r Is-ddeddfau a Wnaed** | |
| APP/17 | Papur Bwrdd mis Gorffennaf 2015 – Opsiynau Rheoli i Fynd i'r Afael â'r Dirywiad mewn Stociau Eogiaid a Rhai Brithyllod y Môr yng Nghymru |
| APP/18 | Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau mis Gorffennaf 2015 |
| **Atodiad 5 Crynodeb o'r Mesurau Rheoli Ymelwa Arfaethedig** | |
| APP/19 | Papur Bwrdd mis Mawrth 2016 – Rheoli'r stoc eogiaid a brithyllod y môr – diweddariad |
| APP/20 | Cyflwyniad i'r Bwrdd |
| APP/21 | Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau mis Mawrth 2017 |
| APP/22 | Papur Bwrdd – Rheolaethau pysgota newydd ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru: cais arfaethedig i Lywodraeth Cymru am gadarnhad ac is-ddeddfau pysgota newydd, mis Ionawr 2018 |
| APP/23 | Papurau Bwrdd – Atodiad (a) Cefndir i ddatblygiad rheolaethau pysgota newydd arfaethedig ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr |
| APP/24 gweler APP/23 | Papurau Bwrdd – Atodiad (b) Cynigion a hysbysebwyd ar gyfer is-ddeddfau pysgota â gwialen a rhwydi newydd a Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi (NLO) newydd |
| APP/25 gweler APP/23 | Papurau Bwrdd – Atodiad (c) Dadansoddiad o'r ymatebion ymgynghori ynglŷn â'r is-ddeddfau pysgota â gwialen a rhwydi arfaethedig |
| APP/26 gweler APP/23 | Papurau Bwrdd – Atodiad (d) Argymhellion a wnaed ar gyfer cynigion amgen |
| APP/27 gweler APP/23 | Papurau Bwrdd – Atodiad (e) Casgliadau – diwygiadau arfaethedig i'r mesurau |

| | |
|---|---|
| APP/28 gweler APP/23 | Papurau Bwrdd – Atodiad (f) Trefniadau mewn awdurdodaethau eraill: Lloegr, Gweriniaeth Iwerddon, yr Alban, Gogledd Iwerddon |
| APP/29 gweler APP/23 | Papurau Bwrdd – Atodiad (g) Dyddiadau'r tymhorau pysgota â rhwydi a gwialen |
| APP/30 gweler APP/23 | Papurau Bwrdd – Atodiad (h) Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb |
| **Atodiad 6 – Offerynnau Cyfreithiol** | |
| APP/31 | Trosglwyddiadau ar gyfer is-ddeddfau |
| APP/32 | Copi o'r is-ddeddfau Cymraeg a Saesneg wedi'u llofnodi a'u selio – (a) Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 |
| APP/33.1 | Copi o'r is-ddeddfau Cymraeg a Saesneg wedi'u llofnodi a'u selio - (b) Is-ddeddfau Lein a Gwialen (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 |
| APP/33.2 | Copi o'r is-ddeddfau Cymraeg a Saesneg wedi'u llofnodi a'u selio - (b) Is-ddeddfau Lein a Gwialen (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 |
| APP/33.3 | Copi o'r is-ddeddfau yn Gymraeg wedi'u llofnodi a'u selio Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017 |
| APP/34.1 | Hysbyseb a chopïau o hysbysebion a ymddangosodd mewn cyhoeddiadau w/c 22 Awst 2017 – Gazette Llundain |
| APP/34.2 | Hysbyseb a chopïau o hysbysebion a ymddangosodd mewn cyhoeddiadau w/c 22 Awst 2017 – Western Mail |
| APP/34.3 | Hysbyseb a chopïau o hysbysebion a ymddangosodd mewn cyhoeddiadau w/c 22 Awst 2017 – Hysbysebu Is-ddeddfau |

| | |
|---|---|
| **Atodiad 7 – Manylion Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd** | |
| APP/35 | Datganiad i'r Wasg "CNC yn lansio ymgynghoriad ar is-ddeddfau rheoli dalfeydd ar gyfer pysgodfeydd rhwydi a gwialen" 22 Awst 2018 |
| APP/36 | Copi o lythyr a anfonwyd at bob deiliad trwydded pysgota â rhwydi am eogiaid, 22 Awst 2017, gan gynnwys cyfieithiad Cymraeg |
| APP/37 | Copi o neges e-bost a anfonwyd at aelodau Grwpiau Pysgodfeydd Lleol a chysylltiadau Pysgodfeydd (gan gynnwys, lle'r oedd gan CNC gyfeiriadau e-bost ar eu cyfer, deiliaid trwydded eogiaid yng Nghymru, manwerthwyr genweirio, cysylltiadau genweirio eraill nad ydynt yn aelodau o LFG) |
| APP/38 | Copi o neges e-bost a anfonwyd at ACau ac ASau Cymru |
| APP/39 | Copi o dudalen Ymgynghori CNC |
| **Atodiad 8 – Cofnod o Ymgynghoriad Ffurfiol: 22 Awst – 14 Tachwedd 2017** | |
| APP/40 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| APP/41 | Cyfarfodydd Grŵp Pysgodfa Leol mis Hydref 2017 – (a) Enghraifft o gyflwyniad |
| APP/42 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| APP/43.1 | Cyfarfodydd Grŵp Pysgodfa Leol mis Hydref 2017 – LFG Gŵyr 23 Hydref 2017 |
| APP/43.2 | Cyfarfodydd Grŵp Pysgodfa Leol mis Hydref 2017 – LFAG Gwynedd 4 Medi 2017 |

| | |
|---|---|
| APP/43.3 | Cyfarfodydd Grŵp Pysgodfa Leol mis Hydref 2017 – LFG Wysg 18 Hydref 2017 |
| APP/43.4 | Cyfarfodydd Grŵp Pysgodfa Leol mis Hydref 2017 – LFAG Dyfrdwy a Chlwyd 3 Hydref 2017 |
| APP/43.5 | Cyfarfodydd Grŵp Pysgodfa Leol mis Hydref 2017 – LFG Gorllewin Cymru 24 Hydref 2017 |
| APP/43.6 | Cyfarfodydd Grŵp Pysgodfa Leol mis Hydref 2017 – LFG Gogledd Ceredigion 16 Tachwedd 2017 |
| APP/43.7 | Cyfarfodydd Grŵp Pysgodfa Leol mis Hydref 2017 – LFG De Ceredigion 15 Tachwedd 2017 |
| APP/43.8 | Cyfarfodydd Grŵp Pysgodfa Leol mis Hydref 2017 – LFG Taf 16 Hydref 2017 |
| APP/43.9 | Cyfarfodydd Grŵp Pysgodfa Leol mis Hydref 2017 – LFG Gwy 25 Tachwedd 2016 |
| APP/44 | Cyfarfodydd Rhwydi – Cyflwyniad i gyfarfodydd pysgotwyr rhwydi |
| APP/45.1 | Cyfarfodydd Rhwydi – Nodiadau o gyfarfodydd pysgotwyr rhwydi'r de |
| APP/45.2 | Cyfarfodydd Rhwydi – Nodiadau o gyfarfodydd pysgotwyr rhwydi'r gogledd |
| APP/46 | Tabl crynhoi cyflwyniadau |
| APP/47 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| APP/48 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| APP/49 | Nodyn wedi'i Grynhoi ar Ymatebion i Gynrychiolaethau |
| APP/50 | Dadansoddiad cryno o'r ymatebion ymgynghori |
| **Atodiad 9 – Diwygiadau arfaethedig** | |
| APP/51 | Datganiad Ategol |
| APP/52 | Diwygiadau Arfaethedig i'r Is-ddeddfau Rhwydi |
| APP/53 | Diwygiadau Arfaethedig i Is-ddeddfau Gwialen a Lein Cymru |
| APP/54.1 | Offeryn cadarnhau drafft Rhwydi – Cymraeg |
| APP/54.2 | Offeryn Cadarnhau Drafft – Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru |
| APP/54.3 | Offeryn Cadarnhau Drafft – Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru |
| APP/54.4 | Offeryn cadarnhau drafft Gwialen – Cymraeg |
| **Cyfres LEG – Deddfwriaeth** | |
| LEG/1 | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 – Yn enwedig, Rhan 4: Trwyddedau ac Awdurdodiadau Pysgota, Rhan 5: Gweinyddu a Gorfodi, Atodlen 2: Trwyddedau. |
| LEG/2 | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 - Rhan 1: Bywyd Gwyllt a.16 Pŵer i roi trwyddedau |
| LEG/3 | Y Confensiwn ar Gadwraeth Rhywogaethau Anifeiliaid Gwyllt Mudol (Confensiwn Bonn, Penderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd (EC) 82/461/EEC dyddiedig 24 Mehefin 1982). |

| | |
|---|---|
| LEG/4 | Cyfarwyddeb y Cyngor 91/676/EEC dyddiedig 12 Rhagfyr 1991 yn ymwneud â gwarchod dyfroedd rhag llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol – Erthygl 1 |
| LEG/5 | Cyfarwyddeb y Cyngor 91/271/EEC dyddiedig 21 Mai 1991 yn ymwneud â thrin dŵr gwastraff trefol |

| | |
|---|---|
| LEG/6 | Deddf Adnoddau Dŵr 1991 – Pennod 2: Tynnu Dŵr a Chronni Dŵr a.51 Addasu ar gais deiliad trwydded; a.52 Cynigion ar gyfer addasu yn ôl gorchymyn yr [asiantaeth briodol] neu'r Ysgrifennydd Gwladol; Rhan 9, a.210 Pwerau gwneud is-ddeddfau |
| LEG/7 | Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd 1992 - Erthygl 191 (tudalen 79) |
| LEG/8 | Confensiwn OSPAR (Confensiwn ar Warchod yr Amgylchedd Morol o gonfensiwn Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd, 1992). |
| LEG/9 | Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr EC 92/43/EEC |
| LEG/10 | Is-ddeddfau Diwygio 1995 |
| LEG/11 | Deddf yr Amgylchedd 1995 - a.6 |
| LEG/12 | Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995 |
| LEG/13 | Cyfarwyddyd Gweinidogol 1998 |
| LEG/14 | Cyfarwyddyd Gweinidogol Cynllun Gweithredu Eogiaid 1998 |
| LEG/15 | Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol 1999 |
| LEG/16 | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000/60/EC – Erthygl 4 Amcanion amgylcheddol |
| LEG/17 | Is-ddeddfau 2003 fel y'u haddaswyd yn 2005 |
| LEG/18 | Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol 2009 |
| LEG/19 | Rheoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr) 2009 |
| LEG/20 | Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 - Rhan 5: Cadwraeth natur Rhan 6: Rheoli pysgodfeydd mewndirol Rhan 7: Pysgodfeydd. Rhan 8: Gorfodi |
| LEG/21 | Cyfarwyddiadau Dadansoddi Cemegol ar Statws Dŵr (Manylebau Technegol) 2011 |
| LEG/22 | Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Lloegr a Dalgylch Afon Esk) 2015 |
| LEG/23 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Rhan 5: Cadwraeth natur Rhan 6: Rheoli pysgodfeydd mewndirol Rhan 7: Pysgodfeydd. Rhan 8: Gorfodi |
| LEG/24 | Cytundeb Paris 2015 |
| LEG/25 | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - Rhan 1: Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (tudalennau 1-20); a.4 Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (tudalen 3); a.6 Dyletswydd bioamrywiaeth (tudalen 4); a.7 Rhestrau bioamrywiaeth (tudalen 6) |
| LEG/26 | Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 - Rhannau 1-4 |
| LEG/27 | Asiantaeth yr Amgylchedd – Deddf Adnoddau Dŵr 1991 – Is-ddeddfau Tagio a Chofnodlyfr Eogiaid a Brithyllod Mudol Gwyllt (fel y'u cadarnhawyd – Ionawr 2009) |
| LEG/28 | Y Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewropeaidd (Confensiwn Bern) (ETS Rhif 104) |
| LEG/29 | Offeryn Cadarnhau ar gyfer Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi 2017 |
| LEG/30 | Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Cyfyngu ar Drwyddedau Pysgota â Rhwydi) 2017 |
| LEG/31 | Deddf Cydraddoldeb 2010 - a.149 Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus |
| LEG/32 | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 – Atodlen 3: Draenio Cynaliadwy |
| LEG/33 | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 – Rhan 3: Cadwraeth natur a gwarchod bywyd gwyllt |

| | |
|---|---|
| LEG/34 | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010 – a ddiddymwyd gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 |
| LEG/35 | Deddf Awdurdod Afonydd Dyfrdwy a Chlwyd (1973) |

| | |
|---|---|
| LEG/36 | Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 (SSAFO) |
| **POL Series - Policy Documents** | |
| POL/1 | Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth (1992) |
| POL/2 | Canllawiau monitro safonau cyffredin 'Asesiad cyflwr' ar gyfer anifeiliaid dŵr croyw (y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), 2015) |
| POL/3.1 | Cynlluniau Rheoli Basn Afon |
| POL/3.2 | Cynlluniau Rheoli Basn Afon |
| POL/3.3 | Cynlluniau Rheoli Basn Afon |
| POL/3.4 | Cynlluniau Rheoli Basn Afon |
| POL/3.5 | Cynlluniau Rheoli Basn Afon |
| POL/3.6 | Cynlluniau Rheoli Basn Afon |
| POL/3.7 | Cynlluniau Rheoli Basn Afon |
| POL/3.8 | Cynlluniau Rheoli Basn Afon |
| POL/4.1 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.2 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.3 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.4 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.5 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.6 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.7 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.8 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.9 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.10 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.11 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.12 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.13 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.14 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.15 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.16 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.17 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/4.18 | Cynllun Gweithredu Eogiaid |
| POL/5 | Asiantaeth yr Amgylchedd – Ymagwedd Bum Pwynt ar gyfer Eogiaid – adfer eogiaid yn Lloegr |
| POL/6 | Pysgodfeydd mewndirol cynaliadwy yng Nghymru – agenda ar gyfer newid |
| POL/7 | Llywodraeth Cymru (2015) Strategaeth ddŵr i Gymru – Cefnogi'r broses o reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy Digidol ISBN 978-1-4734-3649-7 |
| POL/8 | Y Comisiwn Coedwigaeth (2017) Safon Goedwigoedd y DU – Ymagwedd y llywodraethau at goedwigaeth gynaliadwy |
| POL/9 | Y Comisiwn Coedwigaeth (2003) Canllawiau Coedwigoedd a Dŵr |
| POL/10.1-10.34 – Adroddiadau Adnabod eich Afon | |

| | |
|---|---|
| POL/10.1 | Afon Dwyfor 2017 |
| POL/10.2 | Afon Clwyd 2017 |
| POL/10.3 | Afon Dyfrdwy 2017 |
| POL/10.4 | Afon Dwyryd 2017 |
| POL/10.5 | Afon Dyfi 2017 |
| POL/10.6 | Afon Dysynni 2017 |
| POL/10.7 | Afon Glaslyn 2017 |
| POL/10.8 | Afon Gwyrfai Llyfni 2017 |
| POL/10.9 | Afon Mawddach 2017 |

| | |
|---|---|
| POL/10.10 | Afon Ogwen 2017 |
| POL/10.11 | Afon Seiont 2017 |
| POL/10.12 | Diweddariad ar Grynodeb o Bysgod Ifanc o Deulu'r Eog yn Afon Wysg 2017 |
| POL/10.13 | Crynodeb o Bysgod Ifanc o Deulu'r Eog yn Afon Clwyd 2017 |
| POL/10.14 | Afon Conwy 2017 |
| POL/10.15 | Crynodeb o Bysgod Ifanc o Deulu'r Eog yn Afon Mawddach 2017 |
| POL/10.16 | Crynodeb o Bysgod Ifanc o Deulu'r Eog yn Afon Conwy 2017 |
| POL/10.17 | Crynodeb o Bysgod Ifanc o Deulu'r Eog yn Afon Gwy 2017 |
| POL/10.18 | Crynodeb o Bysgod Ifanc o Deulu'r Eog yn Afon Dyfrdwy 2017 |
| POL/10.19 | River Aeron Salmon and Sea Trout Catchment 2015 |
| POL/10.20 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Afan 2015 |
| POL/10.21 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Cleddau 2015 |
| POL/10.22 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Gwendraeth 2015 |
| POL/10.23 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Nedd |
| POL/10.24 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Llwchwr 2015 |
| POL/10.25 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Ogwr |
| POL/10.26 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Rheidiol 2015 |
| POL/10.27 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Taf |
| POL/10.28 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Tawe |
| POL/10.29 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Nyfer |
| POL/10.30 | Gwy 2015 |
| POL/10.31 | Wysg 2015 |
| POL/10.32 | Taf ac Elái 2015 |
| POL/10.33 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Ystwyth |
| POL/10.34 | Dalgylch Eogiaid a Brithyllod y Môr Afon Tywi |
| POL/11 | NASCO – Canllawiau ar gyfer cynnwys ffactorau cymdeithasol ac economaidd mewn penderfyniadau o dan yr Ymagwedd Ragofalus CNL(04)57 |
| POL/12 | Canllawiau NASCO ar Ddefnyddio Rhaglenni Adfer Stoc yng Nghyd-destun Rheoli Stociau Eogiaid yn Rhagofalus CNL(04)55 |
| POL/13 | Canllawiau NASCO ar Warchod, Adfer a Gwella Cynefin Eogiaid yr Iwerydd. CNL(10)51 |
| POL/14 | Canllawiau NASCO ar gyfer Rheoli Pysgodfeydd Eogiaid CNL(09)43 |
| POL/15 | Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) Adroddiad Synthesis Newid yn yr Hinsawdd 2014 – Crynodeb i Lunwyr Polisi |

| | |
|---|---|
| POL/16 | Llywodraeth EM – Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd y DU 2017 Adroddiad Tystiolaeth |
| POL/17 | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (2015) – Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Cymru |
| POL/18 | Llywodraeth Cymru (2016) Canllawiau statudol ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |
| POL/19 | CNC (2016) Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaR) |
| POL/20 | Asiantaeth yr Amgylchedd (2004). Dull ar gyfer Asesu Gwerth Treftadaeth Pysgodfeydd Rhwydi. Adroddiad Gwyddonol SC030212:ISBN 1844323072 92p |
| POL/21 | Asiantaeth yr Amgylchedd (2007). Prisiad economaidd o bysgodfeydd mewndirol: Effaith economaidd genweirio dŵr croyw yng Nghymru a Lloegr. Asiantaeth yr Amgylchedd. Bryste. ISBN 978-1-84432-851-2, 165pp. |
| POL/22 | Llywodraeth Cymru (2017) Polisi Adnoddau Naturiol |
| POL/23 | CNC (2013) Polisi Gorfodi ac Erlyn |
| POL/24 | Asiantaeth yr Amgylchedd (2003) Canllawiau Cynllun Gweithredu Eogiaid: Atodiad I. Fersiwn 2 04/03. |

| | |
|---|---|
| POL/25 | Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru (2017) Ystadegau Pysgodfeydd Dŵr Croyw a Physgod o Deulu'r Eog ar gyfer Cymru a Lloegr, 2016. Fersiwn 2. Hydref 2017 |
| POL/26 | Is-ddeddfau pysgota â gwialen 2018 – Canllaw i enweirwyr yng Nghymru |
| POL/27 | Asiantaeth yr Amgylchedd – Effaith y newid yn yr hinsawdd ar bysgodfeydd eogiaid |
| POL/28 | EISWF Adroddiad Diwedd Prosiect – Gwelliannau Amgylcheddol i Gynnal Pysgodfeydd yng Nghymru |
| POL/29 | Adroddiad Diwedd y Rhaglen Eogiaid ar gyfer Yfory – Rhagfyr 2015 |
| POL/30 | Y Comisiwn Coedwigaeth (2016) Cadw Afonydd yn Oer: Llawlyfr Arweiniad |
| POL/31 | Asiantaeth yr Amgylchedd (2017) Effaith arferion genweirio dal a rhyddhau ar oroesiad eogiaid |
| POL/32 | Comisiwn y Cymunedau Ewropeaidd – Cyfathrebiad gan y Comisiwn ar yr Egwyddor Ragofalus, Brwsel, 2.2.2000, COM(2000) 1 terfynol |
| POL/33 | Asiantaeth yr Amgylchedd (2005) Effaith y newid yn yr hinsawdd ar bysgodfeydd eogiaid. Adroddiad gwyddonol |
| POL/34 | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig - 2014 - 2020 Rhaglen Datblygu Gwledig |
| POL/35 | CNC – Y Rhaglen Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy (RSA) |
| POL/36 | Y Comisiwn Coedwigaeth (2012) Asesiad Strategol o Adnoddau Mawn wedi'u Coedwigo yng Nghymru a'r fioamrywiaeth |
| POL/37 | Llywodraeth Cymru – Cymunedau Gwledig – Cynllun Datblygu Gwledig 2014 i 2020 |
| POL/38 | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru – Strategaeth Mwyngloddiau Metel |
| POL/39 | Cylch gorchwyl strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn 2018/19 |

| | |
|---|---|
| POL/40 | Cynllun Busnes Dŵr Cymru 2015-2020 |
| POL/41 | Datganiad ar y Cyd gan Gyrff Cadwraeth Natur Statudol y DU: Datganiad Statws Cadwraeth Ffafriol |
| POL/42 | Llywodraeth Cymru – Cadw eich olew yn ddiogel – Canllawiau ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016 |
| POL/43 | Gwefan Llywodraeth Cymru (2018) Gwybodaeth am y Cynllun Gweithredu Nitradau |
| **Cyfres ACC – Papurau academaidd a thechnegol** | |
| ACC/1* | Ffederasiwn Eogiaid yr Iwerydd (2008) - Barbed and Barbless Hooks and their effect on Juvenile and Adult Salmonid Mortality - A Literature Review by Bill Bakke |
| ACC/2* | Arlinghaus, R., Cooke, S.J., Lyman, J., Policansky, D., Schwab, A., Suski, C., Sutton, S.G. a Thorstad, E.B., (2007). Understanding the complexity of catch-and-release in recreational fishing: An integrative synthesis of global knowledge from historical, ethical, social, and biological perspectives. Adolygiadau yn Fisheries Science, 15(1-2), 75-167. |
| ACC/3* | Davidson, I.C., Aprahamian, M.W., Peirson, G., Hillman, R.J., Cook, N., Elsmere, P.S., Cove, R.J. a Croft, A. (wrthi'n cael ei baratoi). Catch and stock based Biological Reference Points for sea trout in England and Wales: A comparison of methods and critical examination of their potential application to stock assessment and management. Yn: Sea Trout: Science & Management. (Graeme Harris. Gol.) Trafodion yr 2il Symposiwm Rhyngwladol ar Frithyllod y Môr, Hydref 2015, Dundalk, Iwerddon. |
| ACC/4* | Gargan, P.G., Stafford, T., Okland, F. a Thorstad, E.B., (2015). Survival of wild Atlantic salmon (Salmo salar) after catch and release angling in three Irish rivers. Fisheries Research, 161, 252-260. |
| ACC/5 | ICES. 2009. Report of the Working Group on North Atlantic Salmon (WGNAS), 30 Mawrth – 8 Ebrill, Copenhagen, Denmarc. ICES CM 2009/ACOM:06. 282 pp. |

| | |
|---|---|
| ACC/6 | ICES. (2017). Report of the Working Group on North Atlantic Salmon (WGNAS), 29 Mawrth – 7 Ebrill 2017, Copenhagen, Denmarc. ICES CM 2017/ACOM:20. 296 pp. |
| ACC/7 | NASCO CNL (12)60. Atlantic salmon at sea: Findings from recent research and their implications for management. Malcolm L. Windsor, Peter Hutchinson, Lars Petter Hansen a David G. Reddin. 2012. Dogfen NASCO CNL (12)60. Caeredin, y DU. 20pp |
| ACC/8 | Olsen, R.E., Naesje, T.F., Poppe, T., Sneddon, L.U. a Webb, J., (2010), Risk Assessment of Catch and Release, Opinion of the panel on Animal Health and Welfare of the Norwegian Scientific Committee for Food Safety. doc.nr 09/804, 179. |
| ACC/9 | Substance. (2012). Fishing for Answers: The Final Report of the Social & Community Benefits of Angling Project. Substance, Manceinion, 94 pp. |
| ACC/10 | Thompson, R.B. a Hunter, C.J. (1973). Viability of adult sockeye salmon that disentangle from gillnets. Int. North Pac. Fish. Comm. Annu. Rep. 1971, tudalennau 107 - 109 |

| | |
|---|---|
| ACC/11 | Thompson, R., B,C. Hunter, a B. C. Patten. (1971). Studies of live and dead salmon that unmesh from gillnets. INPFC, Aiir~u.R ep. 1969: 108-1 12. |
| ACC/12* | Small, I. (1991) Exploring data provided by angling for salmonids in the British Isles, tudalennau 81 91 (yn) Catch effort sampling strategies: their application in freshwater fisheries management. Golygwyd gan I. Cowx. Cyhoeddwyd gan Fishing News Books, Blackwell Scientific Publications Ltd, Rhydychen. |
| ACC/13* | Bal,G, Montorio, L, Rivot, E, Prévost, E, Baglinière, J-L a Nevoux, M (2017) Evidence for long-term change in length, mass and migration phenology of anadromous spawners in French Atlantic salmon Salmo salar.. Journal of Fish Biology (2017) 90, 2375–2393. |
| ACC/14* | APEM (2018). Investigation in 2016 salmonid recruitment failure in Welsh rivers. Adroddiad Gwyddonol APEM P00002387. Cyfoeth Naturiol Cymru, Tachwedd 2018, fersiwn 21, Drafft Terfynol, 72 pp |
| ACC/15 | Malcolm L. Windsor, Peter Hutchinson, Lars Petter Hansen a David G. Reddin. 2012. Atlantic salmon at sea: Findings from recent research and their implications for management. Dogfen NASCO CNL (12)60. Caeredin, y DU. 20pp. [gweler ACC/7] |
| ACC/16 | Iceland Pelagic - Mackerel Scomber sco |
| ACC/17 | Elsevier, Biological Conservation - Pan Holarctic assessment of post release mortality of angled salmon Salmo salar – gan Robert J. Lennox, Steven J. Cooke, Colin R. Davis, Paddy Gargan, Lorraine A. Hawkins, Torgeir B. Havn, Martin R. Johansen, Richard J. Kennedy, Antoine Richard, Martin-A. Svenning, Ingebrigt Uglem, John Webb, Frederick G. Whoriskey, Eva B. Thorstad. |
| ACC/18 | APEM An Assessment Tool for Sea Trout Fisheries Based on Life Table Approaches - gan Dr Nigel Milner (2016) |
| ACC/19 | Adran Pysgod a Bywyd Gwyllt Washington (WDFW) (2014) Commercial Salmon Fisheries' Mortality Rates |
| ACC/20 | Adran Pysgod a Bywyd Gwyllt Washington (WDFW) (2017) Lower Columbia River Fall Seine Fishery Monitoring Report |
| ACC/21 | Prosiect Brithyllod y Môr Celtaidd (CSTP) (2016). (Milner, N., McGinnity, P. a Roche, W. Goln) Prosiect Brithyllod y Môr Celtaidd – Adroddiad Technegol i Raglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon a Chymru 2007-2013 (INTERREG 4A). [Ar-lein] Dulyn, Pysgodfeydd Mewndirol Iwerddon. |

| | |
|---|---|
| ACC/22 | Davidson I.C. a Cove, R.J. (2017). Rhaglen Asesu Stoc Dyfrdwy: Adroddiad Genweirwyr 2016. Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwcle |
| ACC/23 | Davidson, I.C. a Cove, R.J. (2018) Rhaglen Asesu Stoc Dyfrdwy: Adroddiad Genweirwyr 2017. Cyhoeddiad CNC. |
| ACC/24 | Davidson, I.C. a Cove, R.J. (2015) Rhaglen Asesu Stoc Dyfrdwy: Adroddiad Genweirwyr 2016. Cyhoeddiad CNC. |
| ACC/25 | Cefas, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru (2018a) Stociau a physgodfeydd eogiaid yng Nghymru a Lloegr yn 2017. Adroddiad Cefndir, Ebrill 2018. |

| | |
|---|---|
| ACC/26* | Russell, I.C., Ives, M.J., Potter, E.C.E., Buckley, A.A., a Duckett, L. (1995) Salmon and migratory trout statistics for England and Wales, 1975-1990. Adroddiad Data Ymchwil Pysgodfeydd Rhif 38. MAFF Direct. Fish. Res., Lowestoft, (38): 252 pp |
| ACC/27 | Sefydliad Tweed (2017) Sefydliad Tweed: Adroddiad Blynyddol 2016 |
| ACC/28 | Cefas, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru (2018b) Stociau a physgodfeydd eogiaid yng Nghymru a Lloegr yn 2017. Asesiad rhagarweiniol a baratowyd ar gyfer ICES, Ebrill 2018 |
| ACC/29 | Wyatt, R.J., Barnard, S. (1997). The transportation of the maximum gain salmon spawning target from the River Bush (N.I.) to England and Wales. Asiantaeth yr Amgylchedd, Adroddiad Technegol Ymchwil a Datblygu W65 |
| ACC/30 | ICES (2017). Adroddiad ar y Gweithdy Brithyllod y Môr 2 (WKTRUTTA2), 2–5 Chwefror 2016, Pencadlys ICES, Copenhagen, Denmarc. ICES CM 2016/SSGEPD:20. 121 pp |
| ACC/31 | CNC – Perfformiad y stoc eogiaid yng Nghymru 2017 |
| ACC/32 | CNC (2018c) Perfformiad y stoc brithyllod y môr yng Nghymru, 2017. |
| ACC/33 | Asiantaeth yr Amgylchedd (2018) Adroddiad Monitro Afonydd Mynegai Tamar 2017 |
| ACC/34 | Yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol - The Tywi tracking project (1988-1991) implications for the management of salmon and sea trout, D.M. Evans, D.M. Mee, D.S. Ellert, W.K. Purvis a D.R.K Clarke (1994) |
| ACC/35 | Yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol - Migration of sea trout in the River Tywi estuary 1989 1990 and 1991, D.M. Evans D.M. Mee, W.K. Purvis a D.R.K Clarke (1994) |
| ACC/36 | Yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol - Migration of Atlantic salmon in the river Tywi system, South Wales, D. Clarke a W.K. Purvis (1989) |
| ACC/37 | ICES. 2016. Adroddiad y Gweithgor ar Eogiaid Gogledd yr Iwerydd (WGNAS), 30 Mawrth – 8 Ebrill 2016, Copenhagen, Denmarc. ICES CM 2016/ACOM:10. 323 pp |
| ACC/38 | NASCO 2017 Understanding the risks and benefits of hatchery and stocking activities to wild Atlantic salmon population [gweler ACC/39] |
| ACC/39 | Understanding the risks and benefits of hatchery and stocking activities to wild Atlantic salmon populations. 2017. Adroddiad Sesiwn Arbennig o Gyngor NASCO wedi'i seilio ar Thema. Dogfen Cyngor NASCO CNL (17)61. 116pp Golygwyd gan Chaput, G., Knight, P., Russell, I., Sivertsen, A., Hutchinson, P. a Forero Segovia, S. L. |
| ACC/40 | Adroddiad cynnydd gan is-grŵp llygredd amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) (5 Ebrill 2018) |
| ACC/41 | Cefas - Review of potential stressors of Atlantic salmon during the marine phase of the life cycle - Work completed as part of the Salmon five-pont approach – Marine Survival Work Package, gan Ian Russell, Jonathan Gillson, Tea Basic a Bill Riley (paratowyd, 2018) |
| ACC/42 | CNC – Adolygiad o werth economaidd genweirio mewn afonydd yng Nghymru, Guy Mawle, B.A., M.Sc, Ph.D, F.I.F.M., C.Env Ymgynghorydd pysgodfeydd annibynnol (2008) |
| ACC/43* | IUCN (2009) Red List - Salmon and climate change Fish in hot water |

| | |
|---|---|
| ACC/44* | Gunnes K, (1979) Survival and development of Atlantic salmon egg and fry at three different temperatures, |
| ACC/45 | T. Vladic a T. Jarvi, (1997) Sperm motility and fertilization time span in Atlantic salmon and brown trout—the effect of water temperature, yr Adran Sŵoleg, Prifysgol Stockholm, S-106 95 Stockholm, Sweden a'r Sefydliad Ymchwil Dŵr Croyw, S-179 93 Drottningholm, Sweden |
| ACC/46 | Review Paper - A review of the likely effects of climate change on anadromous Atlantic salmon Salmosalar and brown trout Salmotrutta, with particular reference to water temperature and flow B. Jonsson ac N. Jonsson (2009), Sefydliad Ymchwil Natur Norwy, Gaustadalleen 21, N-0349 Oslo, Norwy |
| ACC/47 | Cefas – ymateb asesiad ystadegol (Mai 2018) |

# ATODIAD C – RHESTR DOGFENNAU'R YMCHWILIAD (Rhestr ID)

*Mae dogfennau sydd â'r symbol * wrth eu hymyl ar ffurf copi caled yn unig*

| DOGFENNAU'R YMCHWILIAD | |
|---|---|
| ID/1 | Nodiadau'r Cyfarfod Cyn-ymchwiliad a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2018 |
| ID/2 | Datganiad Tir Cyffredin rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genweirio |
| ID/3 | Llythyr oddi wrth BDB Pitmans at yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS), dyddiedig 18 Chwefror 2019, yn hysbysu am yr Ymchwiliad wedi'i ailgynnull ar 5 Mawrth 2019 |

| CYFOETH NATURIOL CYMRU | |
|---|---|
| NRW/1 | Proflen dystiolaeth Peter Gough |
| NRW/1a | Crynodeb o broflen dystiolaeth Peter Gough |
| NRW/1b | Atodiad 1 i broflen dystiolaeth Peter Gough – Mesurau i leihau marwolaeth trwy bysgota |
| NRW/1c | Atodiad 2 i broflen dystiolaeth Peter Gough – Tabl Esboniadol yr Is-ddeddfau |
| NRW/1d | Atodiad 3 i broflen dystiolaeth Peter Gough – Rhestr Termau |
| NRW/1e | Proflen dystiolaeth atodol Peter Gough (cyflwynwyd ar 13/12/18) |
| NRW/1f | Atodiadau i broflen dystiolaeth atodol Peter Gough |
| NRW/1R | Proflen dystiolaeth wrthbrawf Peter Gough |
| NRW/1R/A | Atodiad 1 – Erthygl ym mhapur newydd y Cambrian News 3 Ionawr 2019 |
| NRW/1R/B | Atodiad 2 - Ffigurau |
| NRW/1R/C | Atodiad 3 – Is-ddeddfau Gwarchod Eogiaid a Brithyllod y Môr Asiantaeth yr Amgylchedd 2018 |
| NRW/1R/D | Atodiad 4 – Erthygl ym mhapur newydd y Sunday Post 31 Rhagfyr 2018 |
| NRW/1R2 | Gwrthbrawf Atodol Peter Gough |
| NRW/1R2/A | Gorchymyn Bwrdd Dŵr Gorllewin Morgannwg (Llyn Brianne) 1968 |
| NRW/1R2/B | Gwybodaeth gan yr RSPB am farcutiaid |
| NRW/2 | Proflen dystiolaeth Ian Davidson |
| NRW/2a | Crynodeb o broflen dystiolaeth Ian Davidson |
| NRW/2b | Atodiad 1 i broflen dystiolaeth Ian Davidson – Ffigurau a Thablau |
| NRW/2R | Proflen dystiolaeth wrthbrawf Ian Davidson |
| NRW/2R/A | Atodiad 1 – Ymatebion i gwestiynau ynglŷn ag electrobysgota (EF) pysgod ifanc |
| NRW/2R/B | Atodiad 2 – Ffigurau |
| NRW/2R/C * | Atodiad 3 – Erthygl Cyfnodolyn, *Incorporating natural variability in biological reference points and population dynamics into management of Atlantic salmon stocks returning to home waters (J. White et al, 2016 )* |
| NRW/2R/D * | Atodiad 4 – Erthygl Cyfnodolyn, *Effects of hot dry summers on the loss of Atlantic Salmon from estuaries in South West England* (D.J. Solomon a H.T. Sambrook, 004) |

| | |
|---|---|
| NRW/2R/E | Atodiad 5 – Adroddiad APEM, Effaith Rheoleiddio Llif ar Bysgodfeydd Afon Dyfrdwy |
| NRW/3 | Proflen dystiolaeth Jonathan Barry |
| NRW/3a | Crynodeb o broflen dystiolaeth Dr Jonathan Barry |

| | |
|---|---|
| NRW/3b | Atodiad 1 i broflen dystiolaeth Dr Jonathan Barry – Adroddiad Ystadegwyr Dulyn |
| NRW/3c | Atodiad 2 i broflen dystiolaeth Dr Jonathan Barry – Ymateb asesiad ystadegol Cefas, mis Mai 2018 |
| NRW/3d | Atodiad 3 i broflen dystiolaeth Dr Jonathan Barry – Adroddiad Cefas mewn ymateb i Adroddiad Ystadegwyr Dulyn |
| NRW/3e | Atodiad 4 i broflen dystiolaeth Dr Jonathan Barry – Adroddiad ar ystadegau Dulyn, 23 Awst |
| NRW/4 | Proflen dystiolaeth Ian Russell |
| NRW/4a | Crynodeb o broflen dystiolaeth Ian Russell |
| NRW/4b | Atodiad 1 i broflen dystiolaeth Ian Russell – Neges e-bost gan Cefas at Lywodraeth Cymru mewn ymateb i gais LlC am adolygiad o Achos Technegol CNC |
| NRW/5 | Proflen dystiolaeth Ruth Jenkins |
| NRW/5a | Crynodeb o broflen dystiolaeth Ruth Jenkins |
| NRW/5R | Proflen dystiolaeth wrthbrawf Ruth Jenkins |
| NRW/5R/A | Atodiad 1 – Confensiwn 1992 y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol |
| NRW/6 | Proflen dystiolaeth Robert Vaughan |
| NRW/6a | Crynodeb o broflen dystiolaeth Robert Vaughan |
| NRW/6R | Proflen dystiolaeth wrthbrawf Robert Vaughan |
| NRW/6R/A | Atodiad 1 – 'Mynd i'r Afael â Llygredd Amaethyddol' – Adroddiad cynnydd gan is-grwp llygredd amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF). 5 Ebrill 2018 |
| NRW/6R/B | Atodiad 2 – Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru – 14 Tachwedd 2018 |
| NRW/6R/C | Atodiad 3 – Nodyn Canllaw Ynni CNC – Chwefror 2017 |
| NRW/6R2 | Gwrthbrawf Atodol Robert Vaughan |
| NRW/6R2/A | Canllawiau CNC ar Orfodi a Chosbau |
| NRW/6R2/B | Trwydded ollwng (wedi'i golygu) |
| NRW/6R2/C | Ymgymeriad Gorfodi |
| NRW/6R2/D | Canllaw Diffiniol ar Droseddau Amgylcheddol |
| NRW/6R2/E | Datganiad i'r Wasg CNC 21 Tachwedd 2018 |
| NRW/6R2/F | Erthygl Cymru Ar-lein 25 Tachwedd 2018 |
| NRW/6R2/G | Erthygl y Daily Post 15 Tachwedd 2017 |
| NRW/6R2/H | Datganiad i'r Wasg 12 Medi 2006 |
| NRW/7 | Llythyr dyddiedig 3 Ionawr 2019 oddi wrth BDB Pitmans at Peter Gerald John mewn ymateb i PGJ/1a |
| NRW/8 | Llythyr arall dyddiedig 14 Ionawr 2019 oddi wrth BDB Pitmans at Peter Gerald John mewn ymateb i PGJ1a |
| NRW/8a | Amgaead 1 – Dalfa a Dalfa Fesul Uned Ymdrech (CPUE) hyd at 2017 |
| NRW/8b | Amgaead 2 – Diweddariad i Atodiad 3 Achos Technegol CNC |

| | |
|---|---|
| NRW/8c | Amgaead 3 – Cyfraddau ymelwa ar eogiaid trwy enweirio a chyfraddau CR ar afon Dyfrdwy |
| **DOGFENNAU YMCHWILIAD CNC** | |
| NRW/INQ/1 | Enghreifftiau o ddenwyr troellog |
| NRW/INQ/2 | Cyflwyniad agoriadol gan Cyfoeth Naturiol Cymru |
| NRW/INQ/3 | Llythyr dyddiedig 22 Ionawr 2019 oddi wrth BDB Pitmans at Peter Gerald John yn rhoi canlyniadau arolygon electrobysgota 2018 ar rai afonydd |
| NRW/INQ/3a | Data arolwg electrobysgota, canlyniadau dros dro hyd at 2018 |
| NRW/INQ/4 | Cofnodion drafft cyfarfod cyntaf Fforwm Pysgodfeydd Cymru, 31 Hydref 2018 |
| NRW/INQ/5 | Gohebiaeth e-bost â Mike Ashwin a'r Cod Winbugs atodedig |
| NRW/INQ/6 | Darn o dudalen we Cynghrair Genweirio Merthyr Tudful |
| NRW/INQ/7 | CNL(98)46 Cytundeb ar fabwysiadu ymagwedd ragofalus |
| NRW/INQ/8 | Hysbysiad statudol, Afon Ogwen, 23 Tachwedd 2018 |
| NRW/INQ/9 | Neges e-bost Dave Charlesworth, 30 Ionawr 2019 |
| NRW/INQ/10 | Cais rhyddid gwybodaeth gan Mr Bonutto ac ymateb CNC (sylwer y'i dosbarthwyd ar ffurf copi caled mewn tair dogfen ar wahân: 1) cais Mr Bonutto trwy e-bost, 2) ymateb CNC trwy e-bost a 3) dogfen grynhoi atodedig). |
| NRW/INQ/11 | Darn o Asesiad Mudo Eogiaid yng Nglanteifi |
| NRW/INQ/12 | Diweddariad Monitro Eogiaid Glanteifi 2017 |
| NRW/INQ/13 | Diweddariad Misol Monitro Eogiaid Glanteifi – Medi 2018 |
| NRW/INQ/14 | Adar sy'n Bwyta Pysgod – niferoedd trwyddedau Dyfi |
| NRW/INQ/15 | Llythyr oddi wrth CNC at Mr Nicholson, 26 Mawrth 2018, ynglŷn â'i geisiadau rhyddid gwybodaeth |
| NRW/INQ/16 | Gorchymyn Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfyngu ar Drwyddedau Pysgota â Rhwydi) (Cymru) 2009 |
| NRW/INQ/17 | Diwygiadau drafftio i'r Diwygiadau Arfaethedig i Is-ddeddfau Gwialen a Lein Cymru |
| NRW/INQ/18 | Llythyr gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 8 Awst 2018, yn galw'r Ymchwiliad Cyhoeddus |
| NRW/INQ/19 | Canllawiau Rhwydi Dal a Rhyddhau |
| NRW/INQ/20 | Ymateb ymgynghori Ymddiriedolaeth Eogiaid yr Iwerydd |
| NRW/INQ/21 | Cylch Gorchwyl: Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod |
| NRW/INQ/22 | Cofnodion cyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori Cymru ar Adar sy'n Bwyta Pysgod |
| NRW/INQ/23 | Llythyr at yr Arolygydd, dyddiedig 7 Mawrth 2019, ynglŷn â'r diwygiadau drafftio i'r Diwygiadau Arfaethedig i Is-ddeddfau Gwialen a Lein Cymru (NRW/INQ/17) |
| NRW/INQ/24 | Cyflwyniadau terfynol gan Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | |
| WG/1 | Nodyn gan Is-adran Amaeth – Cynaliadwyedd a Datblygu LlC ynglŷn â llygredd amaethyddol a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn |
| WG/2 | Nodyn ar Croeso Cymru – hyrwyddo pysgota yng Nghymru |

| | |
|---|---|
| **GWRTHWYNEBWYR** | |
| **Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru** | |
| CPWF/1 | Proflen dystiolaeth Mike Ashwin ar ran Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru |
| CPWF/1A | Rhestr o ddogfennau ategol |
| CPWF/1B | Proflen dystiolaeth John Eardley ar ran Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru |
| CPWF/1C | Atodiad 1, Dadansoddiad o Ddata Eogiaid |
| CPWF/2 | Proflen dystiolaeth Chris White ar ran Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru |
| CPWF/2a | Gwybodaeth gefndir Chris White ar ran Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru |
| CPWF/3-15 | Pecyn o ohebiaeth |
| CPWF/16 | Ymchwil ar bysgod mudol o deulu'r eog, llyswennod a stociau pysgod a physgodfeydd dŵr croyw, Cefas |
| CPWF/17 | Cyflwyniad PowerPoint ar ran Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru gan Chris White |

| | |
|---|---|
| CPWF/18 | Cyflwyniad PowerPoint ar ran Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru gan John Eardley |
| CPWF/19 | Cyflwyniad PowerPoint ar ran Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru gan Mike Ashwin |
| CPWF/INQ/1 | Heb ei ddefnyddio |
| CPWF/INQ/2 | Llun gan Henry Gilbey |
| CPWF/INQ/3 | Cofnod o ddogfennau a ryddhawyd i Goleg Prifysgol Dulyn (UCD) mewn perthynas â Gwerthusiad Ystadegol o gymwysiadau'r Model Dosbarthu Afonydd Cenedlaethol |
| CPWF/INQ/4 | Gohebiaeth oddi wrth CPWF at y Gweinidog, 7 Chwefror 2018 |
| CPWF/INQ/5 | Cyflwyniad PowerPoint wedi'i ddiweddaru ar ran Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru gan Chris White |
| CPWF/INQ/6 | Cyflwyniad PowerPoint wedi'i ddiweddaru ar ran Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru gan John Eardley |
| CPWF/INQ/7 | Cyflwyniad PowerPoint wedi'i ddiweddaru ar ran Ymgyrch Gwarchod Pysgodfeydd Cymru gan Mike Ashwin |
| CPWF/INQ/8 | Cyfraddau dalfeydd a dychwelyd eogiaid 2016 |
| CPWF/INQ/9 | Cyflwyniadau terfynol gan John Eardley |
| CPWF/INQ/10 | Cyflwyniadau terfynol gan Mike Ashwin |
| CPWF/INQ/11 | Cyflwyniadau terfynol gan Chris White |
| **Genweirwyr Afon Ogwen (Deisebwyr) (Ar y cyd â CPWF)** | |
| AOA/1 | Proflen dystiolaeth Reuben Woodford ar ran Genweirwyr Afon Ogwen (Deisebwyr) (Ar y cyd â CPWF) |
| AOA/2 | Cyflwyniad PowerPoint ar ran Genweirwyr Afon Ogwen (Deisebwyr) (Ar y cyd â CPWF) gan Reuben Woodford |
| AOA/INQ/1 | Cyflwyniad PowerPoint wedi'i ddiweddaru ar ran Genweirwyr Afon Ogwen (Deisebwyr) (Ar y cyd â CPWF) gan Reuben Woodford |
| AOA/INQ/2 | Gwrthbrawf gan Reuben Woodford i dystiolaeth wrthbrawf Ruth Jenkins |
| AOA/INQ.3 | Cyflwyniadau terfynol gan Reuben Woodford |

| | |
|---|---|
| **Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod y Môr Cymru** | |
| STC/1 | Proflen dystiolaeth ac atodiadau STC1-3 Richard Garner Williams, Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod y Môr Cymru |
| STC//2 | STC/4 - Milner, N. et al. The role of stocking in recovery of the River Tyne salmon fisheries. 2004. 1. Asiantaeth yr Amgylchedd, Caerdydd 2. CEFAS, Suffolk 3. Asiantaeth yr Amgylchedd, Newcastle. Adroddiad Technegol Pysgodfeydd Rhif 2004/1 |
| STC/3 | STC/5- Milner, N, et al. The role of stocking in the recovery of the River Tyne salmon fishery. 2008. Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr: Cynhadledd Wyddonol Flynyddol 2008. |
| STC/4 | STC/6- Young, K. et al. A scientific consensus on salmon stocking. 2014. Adroddiad Technegol. IBIS, AST. |
| STC/5 | STC/7 - Ymateb S&TC Cymru i ymgynghoriad CNC |
| STC/6 | STC/4 – Ymagwedd Ragofalus NASCO |
| STC/INQ/1 | Datganiad Agoriadol gan Richard Garner Williams ar ran Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod y Môr Cymru |
| **Clwb Genweirio Abergwili** | |
| AAC/1 | Proflen dystiolaeth ar ran Clwb Genweirio Abergwili |
| AAC/2 | Cyflwyniad ysgrifenedig ychwanegol ar ran Clwb Genweirio Abergwili |
| **Yr Ymddiriedolaeth Genweirio** | |
| AT/1 | Proflen dystiolaeth Mark Lloyd, yr Ymddiriedolaeth Genweirio |
| **Cymdeithas Genweirio'r Tywysog Albert** | |
| PAAS/1 | Proflen dystiolaeth ar ran Cymdeithas Genweirio'r Tywysog Albert |
| PAAS/2 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan Ian Doyle, ar ran Cymdeithas Genweirio'r Tywysog Albert |
| **Afonydd Cymru** | |
| AC/1 | Proflen dystiolaeth Dr Marsh-Smith OBE ar ran Afonydd Cymru |
| **Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin a Chymdeithas Genweirwyr Amatur Abertawe** | |
| CFF/1 | Proflen dystiolaeth Creighton Harvey ar ran Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin a Chymdeithas Genweirwyr Amatur Abertawe |
| CFF/1a | Atodiad i Broflen dystiolaeth Creighton Harvey ar ran Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin a Chymdeithas Genweirwyr Amatur Abertawe |
| CFF/INQ/1 | Dal a Rhyddhau Eogiaid, Canllaw i Enweirwyr |
| **Cymdeithas Pysgotwyr Rhwydi Black Rock Lave** | |
| BR/1 | Proflen dystiolaeth ar ran Cymdeithas Pysgotwyr Rhwydi Black Rock Lave |
| **Clwb Genweirio Llanbrynmair** | |
| LAC/1 | Proflen dystiolaeth Emyr Lewis, ar ran Clwb Genweirio Llanbrynmair |
| **Cymdeithas Genweirio Llanymddyfri** | |
| LAA/1 | Ymateb gwreiddiol i ymgynghoriad CNC |
| **Partïon Eraill** | |
| NH/1 | Proflen dystiolaeth Noel Hulmston |
| NH/1a | Ymateb gwreiddiol i ymgynghoriad CNC |
| NH/1b | Cyflwyniad PowerPoint gan Noel Hulmston |

| | |
|---|---|
| NH/INQ/1 | Sut mae Ymchwiliadau Cyhoeddus yn gallu arwain at newid |
| NH/INQ/2 | Rhestr Adar Gwyllt |
| NH/INQ/3 | Rhywogaethau Ysglyfaeth a Thymhorau Saethu |
| NH/INQ/4 | Dyfarniad - R (ar gais Mott) (Ymatebwr) v Asiantaeth yr Amgylchedd (Apelydd) |
| AR/1 | Proflen dystiolaeth Andrew Renwick |
| AR/INQ/1 | Cyflwyniad terfynol Andrew Renwick |
| PGJ/1 | Proflen dystiolaeth Peter Gerald John |
| PGJ/1a | Proflen dystiolaeth ategol Peter Gerald John |
| PGJ/INQ/1 | Cyflwyniad agoriadol gan Mr John |
| PGJ/INQ/2 | Cyflwyniadau terfynol gan Mr John |
| AN/1a | Proflen dystiolaeth Andy Nicholson Rhan 1 o 6 |
| AN/1b | Proflen dystiolaeth Andy Nicholson Rhan 2 o 6 |
| AN/1c | Proflen dystiolaeth Andy Nicholson Rhan 3 o 6 |
| AN/1d | Proflen dystiolaeth Andy Nicholson Rhan 4 o 6 |
| AN/1e | Proflen dystiolaeth Andy Nicholson Rhan 5 o 6 |
| AN/1f | Proflen dystiolaeth Andy Nicholson Rhan 6 o 6 |
| AN/2 | Atodiad i broflen dystiolaeth Andy Nicholson |
| AN/INQ/1 | Trawsgrifiad o gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2018 a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad |
| AN/INQ/1.1 | Materion dethol o'r trawsgrifiad o gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2018 a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad |
| AN/INQ/2 | Cyflwyniad agoriadol Andy Nicholson |
| AN/INQ/3 | Mae Newidiadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn "Peryglu'r Amgylchedd" |
| AN/INQ/4 | Cyflwyniadau terfynol Andy Nicholson |
| GM/1 | Proflen dystiolaeth Guy Mawle |
| GM/1A | Crynodeb o broflen dystiolaeth Guy Mawle |
| GM/2 | Atodiad 1 i broflen dystiolaeth Guy Mawle – Ymateb i'r Is-ddeddfau, Tachwedd 2017 |
| GM/3 | Atodiad 2 i broflen dystiolaeth Guy Mawle – 2il ymateb i ymgynghoriad CNC |
| GM/4 | Atodiad 3 i broflen dystiolaeth Guy Mawle – llythyr at Weinidogion Cymru |
| GM/5 | Atodiad 4 i broflen dystiolaeth Guy Mawle – Statws Dal a Stoc Eogiaid Afon Wysg 2018 |
| GM/6 | Atodiad 5 i broflen dystiolaeth Guy Mawle – Diweddariad, eogiaid ifanc Afon Wysg |
| GM/7 | Atodiad 6 i broflen dystiolaeth Guy Mawle – Amcangyfrif o nifer eogiaid Afon Wysg a laddwyd trwy enweirio 2015 |
| GM/8 | Atodiad 7 i broflen dystiolaeth Guy Mawle – Gwrthwynebiad i Is-ddeddfau'r EA |
| GM9 | Proflen dystiolaeth atodol Guy Mawle |
| GM/INQ/1 | Cyflwyniad agoriadol Guy Mawle |
| GM/INQ/2 | Proflen dystiolaeth atodol ychwanegol Guy Mawle |
| GM/INQ/3 | Cofnod o Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o brosiect, CNC |
| GM/INQ/4 | Cyflwyniad gan Guy Mawle |
| GM/INQ/5 | Cyflwyniadau terfynol Guy Mawle |
| MF/1 | Proflen dystiolaeth Mark Frey |

| | |
|---|---|
| MF/INQ/1 | Tystiolaeth ychwanegol Mark Frey |
| MF/INQ/2 | Cyflwyniadau terfynol Mark Frey |
| VB/INQ/1 | Datganiad gan Victor Bonutto |
| VB/INQ/1a | Crynodeb o fonitro dyfais cyfrif eogiaid yr Iwerydd yng Nglanteifi rhwng 1999 a 2016 |
| GR/INQ/1 | Ffotograffau a gyflwynwyd gan Geoff Rothwell |
| GR/INQ/2 | Cyflwyniadau terfynol gan Geoff Rothwell |
| PC/INQ/1 | Datganiad gan Paul Cawthorne |
| PC?INQ/2 | Datganiad atodol gan Paul Cawthorne |
| MR/INQ/1 | Datganiad gan Malcolm Rees |
| PD/INQ/1 | Datganiad gan Peter Dalton |
| IH/INQ/1 | Datganiad gan Ian Harries |
| AD/INQ/1 | Datganiad gan Andrew Davies |
| LW/INQ/1 | Datganiad gan Len Walters |
| **Cynrychiolaethau ysgrifenedig** | |
| BM/1 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan Brian Moore |
| DP/1 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan David Pearse |
| MO/1 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan Mike Oliver |
| DD/1 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan Derek Doyle |
| LT/1 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan Mr Thomas |
| GW/1 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan George Wallace |
| RS/1 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan Dr Robert Salt |
| DM/1 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan Dave Meyrick |
| DM/2 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig atodol gan Dave Meyrick |
| WW/1 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan Tony Harrington ar ran Dŵr Cymru |
| GFK/1 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan Graham Ford-Keyte |
| TR/INQ/1 | Cynrychiolaeth ysgrifenedig gan Tony Randles |